# Rhaglen Gyflawn

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

Cyfarfod

**CYD-BWYLLGOR GWE**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD MERCHER, 6ED RHAGFYR, 2023**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

Pwynt Cyswllt

**Ffion Elain Evans**

**ffionelainevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mawrth, 28 Tachwedd 2023)

# CYD-BWYLLGOR GWE

## Aelodau a phleidlais

Y Cynghorwyr

| | |
|---|---|
| Cynghorydd Dafydd Roberts | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Cynghorydd Gill German | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cynghorydd Julie Fallon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Councillor Mared Eastwood | Cyngor Sir y Fflint |
| Cynghorydd Phil Wynn | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cynghorydd Beca Brown | Cyngor Gwynedd |

## Aelodau cyfetholedig heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Dylan Davies | Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd |
| Delyth Roberts | Cynrychiolydd Ysgolion Cynradd |
| Alison Fisher | Cynrychiolydd Llywodraethwyr |
| Jennie Downes | Cynrychiolydd Eglwys yng Nghymru |

## Swyddogion Heb Bleidlais

| | |
|---|---|
| Marc Berw Hughes | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Dr Lowri Brown | Cyngor Bwrdeistref Conwy |
| Claire Homard | Cyngor Sir Ddinbych |
| I'w gadarnhau | Cyngor Gwynedd |
| Karen Evans | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Geraint Davies | Cyngor Sir Ddinbych |

## Swyddogion yn bresennol

| | |
|---|---|
| Graham Boase | Cyngor Sir Ddinbych |
| Arwyn Thomas | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| Alwyn Jones | Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE |
| Bethan Eleri Roberts | Rheolwr Rheoli Perfformiad GwE |
| Dewi Morgan | Awdurdod Lletyol |
| Sion Huws | Awdurdod Lletyol |

## Sylwedydd

# R H A G L E N


**1. YMDDIHEURIADAU**

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau o absenoldeb.

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

**3. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**4. COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** 5 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod diwethaf y pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar y 12fed o Orffennaf, fel rhai cywir.

**5. ARCHWILIO CYMRU - CYNLLUN ARCHWILIO 2023 GWE** 9 - 28

I gyflwyno adroddiad Archwilio Cymru.

**6. CYFRIFON TERFYNOL Y CYD-BWYLLGOR AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023 AC ARCHWILIAD PERTHNASOL** 29 - 100

Cyflwyno –

- Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;
- Llythyr Cynrychiolaeth.

**7. CYLLIDEB GWE 2023/2024 - ADOLYGIAD HYD AT DDIWEDD MEDI 2023** 101 - 106

Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.

**8. CYNLLUN BUSNES GWE 2023/2024 - ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 1 & 2** 107 - 151

Cyflwyno Adroddiad Monitro Chwarter 1 a 2 Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023/24 GwE i'r cydbwyllgor.

**9. ADOLYGU'R GOFRESTR RISG** 152 - 157

Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**10. CEFNOGAETH DYSGU PROFFESIYNOL GWE** 158 - 164

I rannu gwybodaeth ar y Cynnig Dysgu Proffesiynol.

**11. YMGYNGHORIAD ESTYN AR DREFNIADAU AROLYGU AR GYFER GWASANAETHAU ADDYSG LLYWODRAETH LEOL A GWASANAETHAU GWELLA YSGOLION** 165 - 179

I ddarparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor o'r ymateb i Ymgynghoriad Estyn 'Trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol'.

**CYD-BWYLLGOR GWE – 12/07/2023**

**Yn bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** Julie Fallon (Cadeirydd) (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy)
Beca Brown (Cyngor Gwynedd), Dafydd Roberts (Cyngor Sir Ynys Môn), Phil Wynn (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Mared Eastwood (Cyngor Sir y Fflint)

**Aelodau Cyfetholedig Heb Bleidlais:** Dylan Davies (Cynrychiolydd Ysgolion Uwchradd)

**Swyddogion Heb bleidlais:** Claire Homard (Cyngor Sir y Fflint), Marc Berw Hughes (Cyngor Sir Ynys Môn), Garem Jackson (Cyngor Gwynedd), Clare Scanlon (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy), a Ruth Thackray (Cyngor Sir Ddinbych)

**Swyddogion yn bresennol:**
**GwE –** Arwyn Thomas (Rheolwr Gyfarwyddwr), Alwyn Jones (Cyfarwyddwr Cynorthwyol), Bethan Roberts (Rheolwr Rheoli Perfformiad) a Meleri H Roberts (Cyfieithydd)

**Cyngor Gwynedd - yr Awdurdod Lletyol -** Ffion M Evans (ar ran y Pennaeth Adran Cyllid), Siôn Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau), Gwion Jones (Uwch Gyfrifydd) ac Einir Davies, Ellie M Evans a Ffion E Evans (Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth)

Ar gychwyn y cyfarfod estynnwyd cydymdeimlad a Lowri Gwyn (Cyfieithydd) a'r teulu yn eu profedigaeth ddiweddar.

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Nicola Stubbins (Cyngor Sir Ddinbych), Geraint Davies (Cyngor Sir Ddinbych), Dr Lowri Brown (Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam), Dewi A Morgan (Cyngor Gwynedd) a Graham Boase (Cyngor Sir Ddinbych).

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**4. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL**

Cadarnhawyd fod y cofnod a gyflwynwyd o'r cyfarfod ar y 24ain Mai, yn gywir a rhoddwyd diweddariad ar y canlynol o'r cofnod :

**Eitem 10 -** Adolygu'r Trefniadau Gweithredu a'r Strwythur Staffio Presennol - cadarnhawyd bod cyfarfod wedi cymryd lle a bod disgwyl cyhoeddiad yn y diwrnodau nesaf, fydd hefyd yn adlewyrchu anghenion cenedlaethol.

**Eitem 12** - Diwrnod Dathlu y Daith Ddiwygio - 22/06/2023 - llongyfarchwyd pawb oedd wedi ymwneud â'r diwrnod am y llwyddiant ysgubol a nodwyd bod adborth da iawn wedi ei dderbyn.

## 5. DATGANIAD O'R CYFRIFON, YN AMODOL AR ARCHWILIAD, AM Y FLWYDDYN A DDAETH I BEN 31 MAWRTH 2023

Cyflwynwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, a gadarnhaodd bod Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 yn golygu fod rhaid i bob cyd-bwyllgor baratoi cyfrifon blynyddol a gan fod GwE gyda throsiant o dros £2.5 miliwn, ei bod yn ofynnol felly bod cyfrifon llawn yn cael eu paratoi yn hytrach na dychweliad blynyddol sydd yn cael eu paratoi ar gyfer Cyd-bwyllgorau llai o faint, sydd llawer symlach.

Cadarnhawyd bod y cyfrifon wedi eu cwblhau a'u rhyddhau ers diwedd Mehefin i'w harchwilio gan Archwilio Cymru.

Fel sgil effaith i'r argyfwng Covid, gwelwyd estyniad yn yr amserlen statudol ar gyfer archwilio'r cyfrifon, gyda dyddiad cwblhau'r archwiliad ddiwedd Tachwedd eleni. O ganlyniad, bydd fersiwn yn dilyn archwiliad yn cael ei gyflwyno yn y cyfarfod mis Rhagfyr.

Yn y cyfarfod 24 Mai, adroddwyd ar sefyllfa ariannol diwedd flwyddyn ar gyfer 2022/23, oedd ar ffurf alldro syml. Adroddwyd bod gorwariant o £139k yn deillio yn bennaf o wariant bwriadol ar flaenoriaethu cynlluniau angenrheidiol yn ystod y flwyddyn er mwyn rhoi cefnogaeth i ysgolion, ond ei fod yn cael ei gyllido o gronfa wrth gefn. Ond, mae'r Datganiad o'r Cyfrifon ar ffurf safonol ar gyfer pwrpas allanol a llywodraethu.

Nodwyd ei bod yn ddogfen faith, ond yn dilyn ffurf safonol CIPFA o ran y prif ddatganiadau a nodwyd y canlynol :

Mae'r Adroddiad Naratif yn rhoi gwybodaeth am y cyfrifon ac am weledigaeth blaenoriaethau GwE, y strategaeth ariannol, perfformiad ariannol ac yn manylu ar y prif faterion. Mae Tabl 2 yn priodi sefyllfa sydd wedi ei adrodd yn yr alldro diwedd y flwyddyn i sefyllfa Datganiad Incwm a Gwariant sydd yn y Cyfrifon.

Mae Datganiad Symudiad mewn reserfau yn crynhoi sefyllfa ariannol GwE, ac mae y datganiad yma yn priodi sefyllfa incwm a gwariant efo sefyllfa'r fantolen, gan gynnwys gwybodaeth am y reserfau defnyddiadwy a reserfau na ellir eu defnyddio. Cadarnhawyd bod symudiad sylweddol wedi bod yn y reserfau na ellir eu defnyddio yn ystod y flwyddyn. Manylwyd bod reserfau defnyddiadwy, sef cronfeydd wrth gefn GwE wedi lleihau o £2k erbyn diwedd Mawrth 2023 i £1.154 miliwn.

Mae Nodyn 10 yn rhoi dadansoddiad o gronfeydd cyffredinol GwE a'r Gronfa Athrawon sydd newydd gymhwyso. Mae £139k wedi ei ddefnyddio i gyllido gorwariant y flwyddyn tra bod £137k wedi ei roi i mewn yn y gronfa Athrawon newydd gymhwyso yn ystod y flwyddyn.

Dengys Nodyn 15 - Reserfau na Ellir eu Defnyddio bod £9 miliwn o symudiad oherwydd sefyllfa pensiynau. Cadarnhawyd bod pensiynau wedi symud o fod yn ymrwymiadau i fod yn asedau, a bod hyn yn ddarlun cyffredinol sydd wedi ei weld, oherwydd amodau'r farchnad yn gyffredinol. Canlyniad hyn yw bod symudiadau sylweddol yn sefyllfa mantolen Cyd-bwyllgorau ac Awdurdodau Lleol.

O ran Taliadau i Swyddogion, cadarnhawyd bod y sefyllfa chwyddiant yn golygu fod yna fwy yn y bandiau cyflog yn 2022/23 i gymharu gyda 2021/22.

Cyfeiriwyd at y lleihad o £2.8 miliwn sydd wedi ei dderbyn yn yr Incwm Grant rhwng y ddwy flynedd. Nodwyd bod nifer o grantiau un-tro yn sgil effaith covid wedi eu derbyn yn 2021/22, a

nifer ohonynt yn sylweddol ac yn hwyr yn y flwyddyn, ond nad oes grantiau o'r math wedi eu derbyn yn 2022/23, sydd hefyd yn ddarlun cyffelyb a'r Cynghorau.

Cadarnhawyd na fu pecynnau terfynu gwaith yn 2022/23 na 2021/22.

Nodwyd bod symudiad yn ffigyrau Pensiynau oherwydd amodau'r farchnad.

Gofynnwyd i'r Cyd-bwyllgor dderbyn a nodi'r Datganiad o Gyfrifon GwE (yn amodol ar archwiliad).

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon, yn amodol ar archwiliad, am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

## 6. DATGANIAD LLYWODRAETHU

Cyflwynwyd y Datganiad Llywodraethu gan Reolwr Gyfarwyddwr GwE. Cadarnhaodd, wrth gyflwyno, ei fod yn ymwybodol bod rhai aelodau o'r Cyd-bwyllgor eisoes yn gyfarwydd â statws y cyfarfod a'r angen am ddatganiad llywodraethu. Cyfeiriodd at y saith egwyddor sydd yn cael eu mesur, a'r drefn o gyhoeddi Cynllun Busnes ar ddechrau y flwyddyn gan adrodd ar gynnydd yn ystod y flwyddyn:

A Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol
B Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid
C Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy
D Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol
E Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion
F Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref.
G Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol

Nodwyd ei bod yn braf iawn gallu adrodd bod enghreifftiau o waith y Gwasanaeth yn cael eu hystyried yn rhai sydd yn cefnogi yr ysgolion a bod dymuniad cryf i barhau i gydweithio.

Ategwyd y sylw am y cydweithio, gan nodi bod parhau gydag undod llais y Gogledd yn hynod bwysig wrth fynd ymlaen, a bod gweithio ar draws y rhanbarth, gyda undod cryf y llais hwnnw wedi golygu bod llawer wedi ei gyflawni.

Diolchwyd i'r holl staff am eu gwaith a diolchwyd am dryloywder didwylledd y Datganiad.

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a chymeradwyo y Datganiad Llywodraethu.

## 7. STRATEGAETH ARFARNU AC EFFAITH

Cyflwynwyd yr Adroddiad gan Gyfarwyddwr Cynorthwyol GwE gyda chais i Aelodau'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo y 'Strategaeth arfarnu ac effaith'.

Nodwyd bod angen cwestiynu beth sydd yn gweithio a beth sydd ddim yn gweithio, a tynnwyd sylw'r Cyd-bwyllgor i'r elfen monitro. Nodwyd bod modd dal effaith materion tymor byr drwy ffurf holiaduron neu ffurflen werthuso, ond gyda rhaglenni dwys, mae angen edrych ar ymddygiad ymarferwyr a'r effaith ar y dysgwyr. Mae'n anodd iawn gwybod beth yw union effaith yr hyfforddiant, er bod cydweithio agos gydag ysgolion, a nodwyd y perygl o geisio dal effaith pob dim. Cadarnhawyd mai blas yn unig sydd yn y dogfennau a bod gwaith trafod ar y gweill gydag Awdurdodau.

Agorwyd y llawr i gwestiynau / sylwadau:

Nodwyd bod y strategaeth yn glir, ac mae'r egwyddorion yn rhai y gellir cyfrannu atynt. Teimlwyd bod y dull/modd arfarnu yn gadarn a nodwyd parodrwydd i gefnogi'r strategaeth a'r cydweithio.

Gofynnwyd sut gellir rhoi sicrwydd i Aelodau Etholedig bod eu hysgolion yn gwneud cynnydd? Cadarnhawyd bod y gwaith yn cymryd lle ar lefel ysgol ac ar lefel Awdurdodau Lleol yn ogystal.

Nodwyd ei bod yn un o'r dogfennau holl bwysig yn yr agweddau ehangach, sydd yn ymwneud â thrafodaethau lefel uchel. Mae'r egwyddorion yn greiddiol ac mae angen bod yn dryloyw. Mae'r egwyddorion yn gosod y darlun ac yn amlinellu'r gwaith cydweithio.

Gan ei bod yn raglen ar gyfer y 3 neu 4 blynedd nesaf, cwestiynwyd a ddylai llesiant a gwydnwch staff, (sydd wedi ei nodi ar gyfer tymor y gwanwyn) fod yn fwy o flaenoriaeth? Cadarnhawyd bo modd symud yr amserlen o gwmpas, ond er mwyn dangos gwir effaith/effaith hir dymor, bod angen rhoi amser i'w arfarnu.

Cadarnhawyd bod llawer yn mynd ymlaen. Adroddwyd bod angen ystyried sut gellir lleihau y pwysau gwaith ar athrawon, er eu bod wedi ymrwymo i'r gwaith.

Diolchwyd am y drafodaeth, oedd wedi ei werthfawrogi.

**PENDERFYNWYD**

Cymeradwyo a derbyn y Strategaeth Arfarnu ac Effaith

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b a daeth i ben am 11.15 y.b.

---

**CADEIRYDD**

# Cyd-bwyllgor GwE – Cynllun Archwilio Manwl 2023

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Medi 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3787A2023



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o'r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Archwilio Cymru yw'r enw cyfunol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân â'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddi unrhyw swyddogaethau.

Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, pan fo hynny'n gymwys, yr archwilydd penodedig mewn cysylltiad ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu weithiwr arall yn eu rhinwedd unigol nac i unrhyw drydydd parti.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn cysylltiad â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, phan fo hynny'n berthnasol, yr archwilydd penodedig yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau






# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cyflwyniad | 5 |
| Cipolwg ar eich archwiliad | 7 |
| Perthnasedd datganiadau ariannol | 8 |
| Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol | 9 |
| Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt | 10 |
| Amserlen archwilio datganiadau ariannol | 12 |
| Swyddogaethau archwilio statudol | 13 |
| Ffi a’r tîm archwilio | 14 |
| Ansawdd archwilio | 16 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a’u heffaith | 17 |

# Cyflwyniad

Mae’r Cynllun Archwilio Manwl hwn yn nodi fy nghyfrifoldebau statudol fel eich archwilydd allanol ac i gyflawni fy rhwymedigaethau o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

Mae’n nodi’r gwaith y mae fy nhîm yn bwriadu ei wneud i fynd i’r afael â’r risgiau archwilio a nodwyd a meysydd allweddol eraill y canolbwyntir arnynt yn ystod 2023.

Mae hefyd yn nodi fy ffi archwilio amcangyfrifedig, manylion fy nhîm archwilio a dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni gweithgareddau ac allbynnau arfaethedig fy nhîm archwilio.



**Adrian Crompton**
Archwilydd
Cyffredinol Cymru

## Fy nghyfrifoldebau archwilio

Rwyf yn cwblhau gwaith bob blwyddyn er mwyn cyflawni'r dyletswyddau canlynol:

- Rwyf yn archwilio datganiadau ariannol Cyd-bwyllgor GwE (y Cyd-bwyllgor) i sicrhau y rhoddir cyfrif priodol am arian cyhoeddus.
- Rhaid i'r Cyd-bwyllgor roi trefniadau ar waith i gael gwerth am arian am yr adnoddau y mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid imi fod wedi fy modloni ei fod wedi gwneud hyn.

## Archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae'n ofynnol imi gyflwyno tystysgrif ac adrodd ar eich datganiadau ariannol sy'n cynnwys barn ar eu 'gwirionedd a'u tegwch' ac asesiad ynghylch a yw'r Adroddiad Naratif a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei baratoi yn unol â Chod y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth a'r canllawiau perthnasol ac yn gyson â'ch datganiadau ariannol a'm gwybodaeth am y Cyd-bwyllgor.

Yn ychwanegol at fy nghyfrifoldebau dros archwilio datganiadau ariannol y Cyd-bwyllgor, rwyf hefyd yn gyfrifol am ymateb i gwestiynau a gwrthwynebiadau ynghylch y cyfrifon oddi wrth etholwyr lleol (codir ffioedd ychwanegol am y gwaith hwn, os bydd angen);

Nid wyf yn ceisio cael sicrwydd llwyr ynghylch gwirionedd a thegwch y datganiadau ariannol a'r nodiadau cysylltiedig ond rwy'n mabwysiadu cysyniad perthnasedd. Fy nod yw nodi camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai beri i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon gael ei gamarwain. Nodir y lefelau pan fyddaf yn barnu camddatganiadau o'r fath i fod yn berthnasol yn ddiweddarach yn y cynllun hwn.

Byddaf hefyd yn cyflwyno adroddiad drwy eithriad ar nifer o faterion a nodir yn fanylach yn ein Datganiad o Gyfrifoldebau.

Ni orfodwyd unrhyw gyfyngiadau arnaf o ran cynllunio cwmpas yr archwiliad hwn.

# Cipolwg ar eich archwiliad

**Bydd fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yn canolbwyntio ar eich risgiau a meysydd pwyslais eraill**

Mae fy nghynllun archwilio wedi nodi'r risgiau canlynol:

Risg sylweddol i ddatganiadau ariannol

- Gwrth-wneud gan y Rheolwyr

Meysydd eraill y bydd y gwaith archwilio yn canolbwyntio arnynt

- Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn
- Gwarged cronfa bensiwn
- Incwm Grantiau

**Perthnasedd**

| | |
|---|---|
| Perthnasedd | £376,000 |
| Trothwy adrodd | £18,000 |

# Perthnasedd datganiadau ariannol

## Perthnasedd £376,000

Fy nod yw nodi a chywiro camddatganiadau perthnasol, hynny yw, y rhai a allai achosi i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain fel arall.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- Gwariant gros 2022-23 sef £18.8 miliwn
- Canran perthnasedd o 2%

Rwyf yn adrodd unrhyw gamddatganiad sy'n fwy na lefel ddibwys (a bennir ar berthnasedd o 5%) i'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

## Meysydd o ddiddordeb penodol

Ceir rhai meysydd o'r cyfrifon a allai fod yn bwysicach i ddefnyddiwr y cyfrifon ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer y rhain:

- Cydnabyddiaeth uwch-swyddogion £1,000
- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig – £10,000 (Unigolion), £376,000 (Cyrff Eraill)

# Risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol

Nodir risgiau sylweddol o gamddatganiad perthnasol y mae'r asesiad o risg cynhenid ar eu cyfer yn agos at ben uchaf y sbectrwm risg cynhenid neu'r rhai sydd i'w trin fel risg sylweddol yn unol â gofynion Safonau Rhyngwladol ar Archwilio eraill. Mae'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn gofyn i ni roi mwy o sylw ar y risgiau sylweddol hyn.

**Arddangosyn 1: risgiau sylweddol i ddatganiadau ariannol**

| Risg sylweddol | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Gwrth-wneud gan y Rheolwyr**<br>Mae'r risg o wrth-wneud rheolaethau gan y rheolwyr yn bresennol ym mhob endid. Oherwydd y ffordd anrhagweladwy y gallai gwrth-wneud o'r fath ddigwydd, ystyrir ei fod yn risg sylweddol [Safon Ryngwladol ar Archwilio 240.32-33]. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• profi priodoldeb cofnodion cyfnodolion ac addasiadau eraill a wnaed wrth baratoi'r datganiadau ariannol;<br>• adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarn; ac<br>• gwerthuso'r rhesymeg dros unrhyw drafodiadau arwyddocaol y tu allan i gwrs busnes arferol. |

Nid yw'r tîm archwilio wedi cwblhau pob rhan o'r asesiad risg eto. Os bydd unrhyw risgiau ariannol sylweddol pellach yn codi ar ôl cwblhau'r gwaith hwn, byddwn yn hysbysu'r swyddog A151 a'r Cyd-bwyllgor drwy ei gadeirydd ac yn ailgyhoeddi fy Nghynllun Archwilio Manwl os bydd angen.

# Meysydd eraill y canolbwyntir arnynt

Cyflwynaf risgiau eraill o gamddatganiad perthnasol a nodwyd. Er na phenderfynwyd eu bod yn risgiau sylweddol fel yr uchod, hoffwn eu dwyn i'ch sylw.

**Arddangosyn 2: meysydd eraill y canolbwyntir arnynt**

| Risg archwilio | Ein hymateb arfaethedig |
|---|---|
| **Prisio rhwymedigaethau net cronfa bensiwn**<br>Mae rhwymedigaethau cronfa bensiwn Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol (CPLlL) fel yr adlewyrchir yn y datganiadau ariannol yn amcangyfrif materol. Mae natur yr amcangyfrif hwn yn golygu ei fod yn destun i lefel uchel o ansicrwydd amcangyfrif gan ei fod yn sensitif i fân addasiadau yn y rhagdybiaethau a ddefnyddir wrth ei gyfrifo. | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• gwerthuso'r cyfarwyddiadau a roddwyd gan reolwyr i'w harbenigwyr rheoli (actiwari) ar gyfer yr amcangyfrif hwn a chwmpas gwaith yr actiwari;<br>• asesu cymhwysedd, galluoedd a gwrthrychedd yr actiwari a gynhaliodd y prisiadau;<br>• asesu cywirdeb a chyflawnrwydd y wybodaeth a ddarperir gan y Cyngor i'r actiwari er mwyn amcangyfrif y rhwymedigaeth;<br>• profi cywirdeb rhwymedigaethau net y gronfa bensiwn yn y datganiadau ariannol gyda'r adroddiad actiwaraidd gan yr actiwari; ac<br>• asesu pa mor rhesymol yw'r rhagdybiaethau a wnaed gan yr actiwari drwy adolygu adroddiad yr actiwari ymgynghori (arbenigwr yr archwilydd) a chynnal unrhyw weithdrefnau ychwanegol sydd eu hangen. |
| **Gwargedion Cynllun Pensiwn**<br>Yn dilyn y prisiad ariannu teirblwydd o gronfeydd pensiwn LGPS ar 31 Mawrth 2022, mae Rhestr Ganlyniadau Safon Ryngwladol ar Archwilio 19 y Cyngor gan yr Actiwari yn dangos gwarged.<br>Mae cydnabod gwargedion cronfeydd pensiwn yn gymhleth. Mae angen ystyried y buddiannau economaidd sydd ar gael yn y dyfodol o ran ad-daliadau o'r cynllun, neu ostyngiadau mewn | Bydd y tîm archwilio yn:<br>• deall proses yr actiwari ar gyfer cyfrifo'r gwarged sy'n cael ei gydnabod ar 31 Mawrth 2023; ac<br>• ystyried a ellir cydnabod y gwarged o dan IFRIC 14. |

| | |
|---|---|
| cyfraniadau i’r cynllun yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw rai o reolau’r cynllun sy’n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr wneud isafswm taliadau ariannu i’r cynllun. | |
| **Incwm grantiau**<br>Fel yr adroddwyd yn Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Cyfrifon 2021-22, roedd angen addasiad materol i gywiro triniaeth gyfrifyddu grant Cyngor Gweithlu yng nghyfrifon y Cyd-bwyllgor. | Bydd y tîm archwilio yn adolygu'r ffordd y mae sampl o incwm grant a dderbyniwyd yn ystod 2022-23 yn cael ei drin, er mwyn sicrhau eu bod wedi cael eu cyfrifo’n gywir yn y datganiadau ariannol. |

# Amserlen archwilio datganiadau ariannol

Nodaf isod ddyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni fy ngwaith archwilio cyfrifon ac allbynnau arfaethedig.

**Arddangosyn 3: dyddiadau allweddol ar gyfer cyflawni allbynnau arfaethedig**

| Allbwn arfaethedig | Gwaith a wnaed | Adroddiad wedi'i gwblhau |
|---|---|---|
| Cynllun Archwilio Manwl 2023 | Medi 2023 | Medi 2023 |
| Gwaith archwilio datganiadau ariannol<br>• Adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol<br>• Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mis Hydref i fis Tachwedd 2023 | Tachwedd 2023 |

# Swyddogaethau archwilio statudol

## Swyddogaethau archwilio statudol

Yn ogystal ag archwilio'r cyfrifon, mae gennyf gyfrifoldebau statudol am gael cwestiynau ynghylch y cyfrifon a gwrthwynebiadau iddynt gan etholwyr lleol. Nodir y cyfrifoldebau hyn yn Neddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004:

- Adran 30 Archwilio dogfennau a chwestiynau yn ystod archwiliad;
- Adran 31 Yr hawl i wneud gwrthwynebiadau yn ystod archwiliad.

Gan fod y gwaith hwn yn adweithiol, nid wyf wedi ei gymryd i ystyriaeth yn y tabl ffioedd isod. Os byddaf yn cael cwestiynau neu wrthwynebiadau, byddaf yn trafod ffioedd archwilio posibl ar y pryd.

# Ffi a’r tîm archwilio

Ym mis Ionawr 2023, cyhoeddais y cynllun ffïoedd ar gyfer blwyddyn 2023-24 fel y cymeradwywyd gan Bwyllgor Cyllid y Senedd.  Mae cynnydd o 4.8% yn fy nghyfraddau ffioedd ar gyfer 2023-24, ar gyfer pwysau chwyddiant.  Hefyd, mae cynnydd ychwanegol o 10.2% yn fy ffi archwilio ariannol ar gyfer effaith safon archwilio ddiwygiedig Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 ar fy null archwilio ariannol.  Nodir rhagor o fanylion am y safon archwilio ddiwygiedig a’r hyn y mae’n ei olygu i’r archwiliad yr ymgymeraf ag ef yn **Atodiad 1**.

Rwyf yn amcangyfrif mai cyfanswm eich ffi archwilio fydd £12,884.

Bydd y broses gynllunio yn un barhaus, ac efallai y bydd angen newid fy rhaglen o waith archwilio, ac felly fy ffi, os bydd unrhyw risgiau newydd allweddol yn dod i’r amlwg.  Ni fyddaf yn gwneud unrhyw newidiadau heb eu trafod â’r Cyd-bwyllgor yn gyntaf.

**Mae ein ffi archwilio ariannol yn seiliedig ar y rhagdybiaethau canlynol:**

- Mae’r canlyniadau archwilio y cytunwyd arnynt yn nodi’r gofynion papur gwaith disgwyliedig i gefnogi’r datganiadau ariannol ac maent yn cynnwys amserlenni a chyfrifoldebau.
- Ni nodir unrhyw faterion arwyddocaol yn ystod yr archwiliad, heblaw yr hyn a grynhoir yn y cynllun hwn.

Caiff prif aelodau fy nhîm, ynghyd â’u manylion cyswllt, eu crynhoi yn **Arddangosyn 4**.

**Arddangosyn 4: fy nhîm archwilio lleol**

| Enw | Rôl | Rhif cyswllt | Cyfeiriad e-bost |
|---|---|---|---|
| Matthew Edwards | Cyfarwyddwr Ymgysylltu ac Archwilio | 029 20 320 566 | matthew.edwards@archwilio.cymru |
| Yvonne Thomas | Rheolwr Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 22 677 830 | yvonne.thomas@archwilio.cymru |
| Sioned Owen | Arweinydd Archwilio (Archwilio Ariannol) | 029 20 829 338 | sioned.owen@archwilio.cymru |

Mae rhai bygythiadau i annibyniaeth y mae angen imi dynnu eich sylw atynt mewn perthynas â’r Rheolwr Archwilio sy'n gyfarwydd â chyn-aelod o’r Cyd-bwyllgor a ymadawodd yn dilyn etholiadau mis Mai. Bydd camau priodol yn cael eu cymryd i sicrhau bod unrhyw wrthdaro posibl yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2022-23 yn cael ei reoli. Ac eithrio hyn, gallaf gadarnhau bod pob aelod arall o'm tîm yn annibynnol ar y Cyd-bwyllgor.

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru yn absoliwt.  Credwn fod ansawdd archwilio yn ymwneud â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Defnyddiwn fodel tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn.  Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydgysylltu a goruchwylio'r trefniadau hynny. Gwnawn ein gwaith yn ddarostyngedig i graffu annibynnol gan yr Adran Sicrhau Ansawdd* ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel cyswllt ar ansawdd archwilio i'n Bwrdd.  Am fwy o wybodaeth gweler ein Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2022.



**Ein Pobl**

Ffurfir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwylio ac adolygu



**Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio**

Ffurfir yr ail linell sicrwydd gan y polisïau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol



**Sicrwydd annibynnol**

Ffurfir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

* QAD is the quality monitoring arm of ICAEW.

# Atodiad 1

## Newidiadau allweddol i Safon Ryngwladol ar Archwilio 315 a'r effaith bosibl ar eich sefydliad

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gweithdrefnau adnabod ac asesu risg manylach a mwy helaeth** | Efallai y bydd eich tîm cyllid ac eraill yn eich sefydliad yn cael nifer fwy o ymholiadau gan ein timau archwilio yn ystod y broses o gynllunio'r archwiliad. Gallai ceisiadau am wybodaeth gynnwys:<br>• gwybodaeth am fodel busnes eich sefydliad a sut mae'n integreiddio'r defnydd o dechnoleg gwybodaeth (TG);<br>• gwybodaeth am broses asesu risgiau eich sefydliad a sut mae eich sefydliad yn monitro'r system rheoli mewnol;<br>• gwybodaeth fanylach am sut y caiff trafodiadau eu dechrau, eu cofnodi, eu prosesu, a'u hadrodd. Gallai hyn gynnwys y gallu i gael gafael ar ddogfennaeth ategol fel llawlyfrau polisïau a gweithdrefnau;<br>• trafodaethau manylach â'ch sefydliad i gefnogi asesiad o risg cynhenid y tîm archwilio. |
| **Cael gwell dealltwriaeth o amgylchedd eich sefydliad, yn enwedig mewn cysylltiad â TG** | Efallai y bydd eich sefydliad yn cael mwy o ymholiadau i gynorthwyo'r tîm archwilio i ddeall yr amgylchedd TG. Gallai hyn gynnwys gwybodaeth am:<br>• cymwysiadau TG sy'n berthnasol i adrodd ariannol;<br>• y seilwaith TG ategol (e.e. y rhwydwaith, cronfeydd data);<br>• prosesau TG (e.e. rheoli newidiadau i raglenni, gweithrediadau TG);<br>• y personél TG sy'n ymwneud â'r prosesau TG.<br>Efallai y bydd angen i dimau archwilio brofi'r rheolaethau TG cyffredinol a gallai hyn ei gwneud yn ofynnol cael tystiolaeth archwilio fanylach ar weithredu rheolaethau TG yn eich sefydliad.<br>Ar rai archwiliadau, gallai ein timau archwilio gynnwys arbenigwyr archwilio TG i'w cynorthwyo i wneud eu gwaith. Efallai y bydd angen i'n harchwilwyr TG ymgysylltu ag aelodau o'ch tîm TG nad ydynt wedi bod yn rhan o'r broses archwilio o'r blaen. |

| Newid allweddol | Effaith bosibl ar eich sefydliad |
|---|---|
| **Gofynion uwch yn ymwneud ag arfer amheuaeth broffesiynol** | Gallai ein timau archwilio wneud ymholiadau ychwanegol os ydynt yn nodi gwybodaeth yr ymddengys ei bod yn gwrth-ddweud yr hyn y maent eisoes wedi ei ddysgu yn yr archwiliad. |
| **Mae asesiadau risg yn gallu ehangu'n gyflym, gan ddibynnu ar natur a chymhlethdod y corff a archwilir** | Bydd disgwyliadau'r tîm archwilio ynghylch ffurfioldeb polisïau, gweithdrefnau, prosesau, a systemau eich sefydliad yn dibynnu ar gymhlethdod eich sefydliad. |
| **Gallai timau archwilio wneud mwy o ddefnydd o dechnoleg wrth gynnal eu harchwiliad** | Gallai ein timau archwilio wneud defnydd o offer awtomataidd a thechnegau megis dadansoddi data wrth gynnal eu harchwiliad. Gallai ein timau ofyn am wybodaeth wahanol neu wybodaeth mewn fformat gwahanol i'r archwiliadau blaenorol fel y gallant gyflawni eu gweithdrefnau archwilio. |

Drwy ein gwaith Arfer Da, rydym yn rhannu arferion sy'n dod i'r amlwg a mewnwelediadau o'n gwaith archwilio i gefnogi ein hamcanion i sicrhau, esbonio ac ysbrydoli.

Mae ein cylchlythyr yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi yn rheolaidd ar ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arferion da a digwyddiadau, y gellir eu haddasu i'ch dewisiadau.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith Arfer Da cliciwch yma.

Cofrestrwch i dderbyn ein cylchlythyr yma.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Cyd-Bwyllgor GwE |
| **DYDDIAD** | 06 Rhagfyr 2023 |
| **TEITL** | Cyfrifon Terfynol y Cyd-Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ac Archwiliad perthnasol |
| **PWRPAS** | Cyflwyno –<br>• Datganiad o'r Cyfrifon ôl-Archwiliad;<br>• Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru;<br>• Llythyr Cynrychiolaeth. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn a nodi'r adroddiad ar ran Archwiliwr Cyffredinol Cymru, cymeradwyo cyfrifon 2022/23, ac awdurdodi'r Cadeirydd i lofnodi'r llythyr cynrychiolaeth ar ran y Cyd-Bwyllgor. |
| **AWDUR** | Dewi Aeron Morgan, Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd |

## 1. GOFYNION ADRODD ARIANNOL STATUDOL

Bydd aelodau yn cofio adroddwyd fel a ganlyn i gyfarfod 12 Gorffennaf o Cyd-Bwyllgor GwE:

1.1 Mae gofynion adrodd penodol ynghylch cyfrifo ac archwilio cyfrifon Cyd-Bwyllgorau.

1.2 Mae Adran 12 o Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn datgan fod Cyd-Bwyllgor o fwy nac un awdurdod (lleol) yn gorff llywodraeth leol, ac mae Adran 13 o'r Ddeddf yn mynnu bod cyrff o'r fath yn cadw cyfrifon sy'n destun archwiliad gan archwiliwr annibynnol wedi'i gymeradwyo gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

1.3 Er nad yw'n endid cyfreithiol annibynnol, at ddibenion cadw cyfrifon a derbyn archwiliad, mae'r Cyd-Bwyllgor ei hun yn ddarostyngedig i'r un rheoliadau â chynghorau lleol eraill.

1.4 Cyngor Gwynedd yw’r Cyngor lletyol sy’n gyfrifol am gyflawni cyfrifoldebau cyfrifo ac adrodd ar faterion cyllidol Cyd-Bwyllgor GwE.

1.5 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn mynnu bod pob Cyd-Bwyllgor yn paratoi cyfrifon blynyddol. Ble mae’r trosiant yn fwy na £2.5miliwn, rhaid paratoi datganiad o’r cyfrifon yn unol â chôd CIPFA ar gyfer y Cyd-Bwyllgor.

1.6 Roedd y Datganiad o Gyfrifon GwE yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol apwyntiwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 2. CYFRIFON 2022/23

Cyflwynwyd Cyfrif Incwm a Gwariant Refeniw am 2022/23 i’r cyfarfod 24 Mai 2023 o Gyd-Bwyllgor GwE ar ffurf adroddiad “alldro”, â’r Datganiad o’r Cyfrifon am 2022/23 (yn amodol ar archwiliad) ar ffurf safonol statudol i’r cyfarfod 12 Gorffennaf 2023.

## 3. ARCHWILIAD

Nodwyd ar y pryd byddai’r cyfrifon hyn yn destun archwiliad gan Archwilio Cymru, a cyflwynir yma adroddiad ‘ISA260’ gan Archwilydd Cyffredinol Cymru yn manylu ar brif ddarganfyddiadau Archwilio Cymru. Gweler bod paragraff 8 yn nodi “Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod” ar y datganiadau ariannol 2022/23.

## 4. CYFRIFON TERFYNOL 2022/23

Cyflwynir yma hefyd y fersiwn derfynol (yn dilyn archwiliad) o’r Datganiad o’r Cyfrifon am 2022/23. Mae’r materion â godwyd fel rhan o’r archwiliad wedi’u hamlinellu yn Atodiad 3 i’r adroddiad ‘ISA260’ cyflwynwyd gan Archwilio Cymru ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

## 5. ARGYMHELLIAD

**Gofynnir i Gyd-Bwyllgor GwE dderbyn, nodi a chymeradwyo’r wybodaeth sy’n yr atodiadau, sef –**

- Adroddiad ‘ISA260’ gan Archwiliwr Cyffredinol Cymru
- Datganiad o’r Cyfrifon 2022/23 (yn dilyn archwiliad)

**6. LLYTHYR CYNRYCHIOLAETH**

**Gofynnir i Gadeirydd y cyfarfod, ynghyd â Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd (fel Swyddog Cyllid Statudol GwE), arwyddo'n electronig y Llythyr Cynrychiolaeth** (Atodiad 1 i adroddiad Archwiliwr Cyffredinol Cymru) **wedi i'r Cyd-Bwyllgor ystyried yr uchod.**

**7. TYSTYSGRIF ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**

Wedi iddo dderbyn y Llythyr Cynrychiolaeth wedi'i ardystio gan y Cadeirydd a'r Pennaeth Cyllid, bydd Archwilydd Cyffredinol Cymru yn cyhoeddi'r dystysgrif ar y cyfrifon.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Awdur yr adroddiad

## Cyd-Bwyllgor GwE
## (Cynghorau Conwy, Dinbych, Fflint, Gwynedd, Môn a Wrecsam)

# DATGANIAD O'R CYFRIFON 2022/23

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
www.gwynedd.llyw.cymru

# MYNEGAI


| | Tudalen |
|---|---|
| Adroddiad Naratif | 2 – 6 |
| Datganiad Cyfrifoldebau | 7 |
| Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu | 8 |
| Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | 9 |
| Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau | 10 |
| Y Fantolen | 11 |
| Datganiad Llif Arian | 12 |
| Nodiadau i'r Cyfrifon | 13 – 35 |
| Atodiad A – Datganiad Llywodraethu Blynyddol | 36 – 47 |
| Geirfa | 48 – 49 |
| Adroddiad yr Archwilydd | 50 - 52 |

# ADRODDIAD NARATIF

## RHAGARWEINIAD

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

Mae cyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE am 2022/23 wedi'u cyflwyno yma ar dudalennau 8 i 35. Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cael ei baratoi yn unol â *Chôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA 2022/23.*

Mae'r Cyfrifon yn cynnwys:-

- **Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu** – Er nad yw'n ddatganiad statudol, mae'n dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol.

- **Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** - Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaethau yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol derbyniol. Mae'r incwm a gwariant wedi ei rannu rhwng y chwe Cyngor fel a ganlyn am 2022/23:

| | |
|---|---:|
| Conwy | 15.26% |
| Dinbych | 15.48% |
| Fflint | 22.67% |
| Gwynedd | 17.59% |
| Ynys Môn | 10.14% |
| Wrecsam | 18.86% |
| **Cyfanswm** | **100.00%** |

- **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** - Dengys y datganiad hwn y symudiad o fewn y flwyddyn mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi yn 'reserfau defnyddiadwy' a 'reserfau na ellir eu defnyddio'.

- **Y Fantolen** - Sydd yn datgan sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2023.

- **Y Datganiad Llif Arian** - Mae'r datganiad yma'n crynhoi llif yr arian i mewn ac allan o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2022/23 at ddibenion refeniw a chyfalaf.

Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol a chefnogir y cyfrifon hyn gan yr Adroddiad Naratif yma, y Polisïau Cyfrifo ac amrywiol nodiadau i'r cyfrifon.

**Gweledigaeth a Blaenoriaethau GwE**
Gweledigaeth GwE yw:

- Craidd ein gwaith yw uchelgais gwirioneddol i weld yr ysgolion a'r sefydliadau rydyn ni'n gweithio gyda nhw yn cyflawni eu dyheadau a gweld pob dysgwr yn llwyddo.
- Yn Gymry balch ac â gwybodaeth ryngwladol, byddwn yn cefnogi ein hysgolion i ddod yn sefydliadau dysgu llwyddiannus a hyderus. Cydweithiwn i sicrhau'r hinsawdd a'r addysg y mae pob dysgwr yn ei haeddu er mwyn bod yn unigolion galluog a gwydn sy'n gwireddu eu llawn botensial.

Mae cynllun busnes GwE yn un dros gyfnod o dair blynedd rhwng 2023 a 2026, a hefyd yn cynnwys cynllun busnes manwl dros 12 mis ar gyfer 2023-2024. Mae'n amlinellu amcanion strategol GwE ar gyfer 2023-2026, a'r blaenoriaethau gwella a'r rhaglenni gwaith i'w cyflawni dros y 12 mis canlynol.

Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o arferion presennol a chyfeiriad taith GwE, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Mae'r blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru.

Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector, a gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial.

Mae gan GwE gynllun clir sy'n amlinellu sut y bydd, drwy gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella'r dysgu a'r addysgu, yn codi'r dyhead i gael effaith ar safonau, gan sicrhau bod amgylchedd yr ysgol yn cynnal lles dysgwyr ac ymarferwyr.

Rhydd y cynllun busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Rhydd y cynllun hefyd ystyriaeth i sut mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn parhau i wynebu sgîl effeithiau Covid.

**Strategaeth Ariannol**
Mae Strategaeth Ariannol y Cyd-Bwyllgor a Chyllideb 2023/24 a fabwysiadwyd gan y Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2023 yn gosod y sylfaen ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau gwella, wrth geisio dygymod hefyd gyda'r cynnydd parhaus yn y galw am wasanaethau. Yn anorfod, mae'r Strategaeth Ariannol yn ddibynnol ar y blaenoriaethau. Mae'r strategaeth ar gael yn: https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/

Mae sgil effaith ariannol yr argyfwng Covid wedi bod yn sylweddol i'r Cynghorau sydd yn yn aelodau yn y Cyd-Bwyllgor, gyda chyfuniad o gostau ychwanegol, colledion incwm a methiant i wireddu arbedion. Nid oedd yr effaith mor sylweddol yn 2022/23 o'i gymharu â'r ddwy flynedd flaenorol ac yn wahanol i flynyddoedd cynt nid oedd yna gymorth ariannol cysylltiedig ar gael i'r Cynhgorau gan Lywodraeth Cymru.

**Perfformiad 2022/23**
Mae'r GwE yn adrodd yn chwarterol ar berfformiad y gwasanaeth o ran cyflawni swyddogaethau'r gwasanaeth a'r nodau allweddol. Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gael yn (Cyd-Bwyllgor 24 Mai 2023): https://www.gwegogledd.cymru/amdanom-ni/llywodraethu/cyd-bwyllgor/

**Perfformiad Ariannol 2022/23**

- Dengys y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar dudalen 9 fod gwariant refeniw gros y Cyd-Bwyllgor ar y lefel 'cost gwasanaethau' yn £18,579k yn ystod 2022/23, gyda'r sefyllfa net yn £793k.
- Adroddir sefyllfa alldro ariannol 2022/23 i'r Cyd-Bwyllgor yn ei gyfarfod ar 24 Mai 2023. Gofynnir am gymeradwyaeth aelodau'r Cyd-Bwyllgor i drosglwyddo £139k o reserf penodol i ariannu gorwariant eleni.
- Mae'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau ar dudalennau 9 a 10 yn darparu dadansoddiad o'r symudiadau yn y flwyddyn.

## TABL 1 - Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)

Mae Tabl 1 yn cynnwys cymhariaeth perfformiad cyllidebol ar lefel crynhoad, a cheir gwybodaeth bellach yn Nhabl 2.

| | Cyllideb | Gwir | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant ar Weithrediadau | 17,786 | 17,948 | 162 |
| Incwm | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau ar gyfer gwasanaeth craidd: | | | |
| Conwy | (671) | (671) | 0 |
| Dinbych | (680) | (680) | 0 |
| Fflint | (996) | (996) | 0 |
| Gwynedd | (773) | (773) | 0 |
| Ynys Môn | (445) | (445) | 0 |
| Wrecsam | (829) | (829) | 0 |
| Incwm Arall | (13,392) | (13,415) | (23) |
| **(Tanwariant)/Gorwariant Net** | **0** | **139** | **139** |

## TABL 2 – Symudiad Trawsddodiad rhwng '<u>Crynodeb o'r Gymhariaeth rhwng y Gyllideb a'r Gwir Sefyllfa (Net)' (Tabl 1)</u> i'r fformat <u>Incwm a Gwariant</u>

| | Adroddiad Perfformiad (Alldro) | Addasiad Trawsddodiad | Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy | Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo | Datganiad Incwm a Gwariant |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Gwariant | 17,948 | (137)* | 17,811 | 768 | 18,579 |
| Incwm | (17,809) | 23** | (17,786) | 0 | (17,786) |
| **Cost Gwasanaethau Net** | **139** | **(114)** | **25** | **768** | **793** |

**Addasiad Trawsddodiad - Mae'r addasiad yma yn cyfeirio at y cyfraniad net i ac o reserfau.*
*** Addasiad Trawsddodiad – Mae'r addasiad yma yn cyfeirio at y llog ar falansau dderbyniwyd yn y flwyddyn ariannol.*

**Eitemau Materol o Incwm a Gwariant**

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys:-

- (£10,625k) yn y maes pensiwn, sef yr ailfesuriad blynyddol o'r ymrwymiad buddion diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £17,786k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 19).

**Materion Eraill**

- Mae ansefydlogrwydd economaidd sylweddol a risgiau ariannol yn y DU ac yn fyd-eang. Gyda'r Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR) wedi nodi bod rhagolwg cyllidol tymor canolig y DU wedi gwaethygu ers mis Mawrth 2022 hynny yn sgil economi wan, cyfraddau llog uwch a diweithdra. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cymryd yr amgylchiadau i ystyriaeth yn ei gynlluniau ariannol, gan gadw lefel darbodus o reserfau.

**Darpariaethau ac Arian wrth Gefn**

Mae gan y Cyd-Bwyllgor reserfau defnyddiadwy o £1,154k. Ceir manylion yn y Fantolen, Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau a Nodyn 10.

**Cronfa Bensiwn**

Mae asesiad wedi cael ei wneud gan Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd, Hymans Robertson, o sefyllfa actiwaraidd y Cyd-Bwyllgor. Er mwyn cydymffurfio â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 19, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi dangos ased net gwerth £557k ar 31 March 2023 ar y Fantolen. Gweler Nodyn 22 am wybodaeth bellach.

Sefyllfa ar un pwynt mewn amser yw'r ymrwymiad pensiwn net. Gall prisiau'r farchnad gynyddu neu leihau yn sylweddol yn y tymor byr ac felly nid oes modd meintoli'r effaith tymor hir bydd symudiad o'r fath yma ym mhrisiau'r farchnad yn ei gael ar y Gronfa Bensiwn. Cafodd prisiad diwethaf ei gynnal 31 Mawrth 2022, gyda'r nesaf i'w gynnal 31 Mawrth 2025.

**Llywodraethu**

Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod trefniadau llywodraethu cadarn yn bodoli, er hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, sy'n cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg. Mae gwybodaeth bellach wedi ei gynnwys o fewn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

**Polisïau Cyfrifo**

Mae'r egwyddorion cyfrifo a fabwysiadwyd ar ran y Cyd-Bwyllgor yn cydymffurfio â holl ymarferion cyfrifeg gymeradwy berthnasol ac maent wedi'u hegluro yn llawn yn y Polisïau Cyfrifo yn Nodyn 1 i'r Cyfrifon sy'n cychwyn ar dudalen 13.

**Newidiadau mewn Polisïau Cyfrifeg ac i'r Datganiad o'r Cyfrifon**

Mae polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r newidiadau sydd yn ofynnol yn unol ag arferion cyfrifo cywir yn unig, yn dilyn addasiadau sydd yn weithredol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23 i Gôd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig.

**Gwybodaeth Bellach**

Mae Datganiad o'r Cyfrifon ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd sef www.gwynedd.llyw.cymru.

Ceir gwybodaeth bellach am y cyfrifon gan:

Ffion Madog Evans
Pennaeth Cyllid Cynorthwyol - Cyfrifeg a Phensiynau
01286 679133

neu

Gwion Elis Jones
Uwch Gyfrifydd
01286 679060

Adran Cyllid
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH

Mae hyn yn rhan o bolisi'r Cyngor i ddarparu gwybodaeth lawn am weithgareddau'r Cyngor a'r Cyd-Bwyllgorau. Yn ychwanegol, mae gan aelodau'r cyhoedd sydd yn dymuno, hawl statudol i arolygu'r cyfrifon cyn cwblheir yr archwiliad. Hysbysir argaeledd y cyfrifon i'w harolygu ar wefan y Cyngor ar yr adeg briodol.

# CYD-BWYLLGOR GwE

# DATGANIAD O'R CYFRIFON

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD O'R CYFRIFON

### CYFRIFOLDEB Y CYD-BWYLLGOR

Cyngor Gwynedd yw'r awdurdod lletya sydd â'r cyfrifoldeb am drefniadau a gweinyddiad ar faterion ariannol y Cyd-Bwyllgor.

Mae'n ofynnol ar Gyngor Gwynedd i wneud trefniadau ar gyfer iawn weinyddiad o'i faterion ariannol ac i sicrhau y rhoddir cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny i un o'i swyddogion. Yng Nghyngor Gwynedd, y Pennaeth Cyllid yw'r "Swyddog Adran 151" hwnnw. Cyfrifoldeb y Cyd-Bwyllgor yw rheoli ei weithgareddau er mwyn sicrhau defnydd effeithiol, effeithlon ac economaidd o'i adnoddau, gwarchod ei asedau, a chymeradwyo'r Datganiad o'r Cyfrifon.

______________________________ **06 Rhagfyr 2023**

**Y Cynghorydd Julie Fallon**
**Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE**

---

### CYFRIFOLDEB Y PENNAETH CYLLID CYNGOR GWYNEDD

Pennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r ymarfer priodol fel y gosodir yn y *Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y "Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad o'r Cyfrifon, mae'r Pennaeth Cyllid wedi dewis polisïau cyfrifo priodol gan eu defnyddio'n gyson; wedi ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus ac yn cydymffurfio â'r Côd.

Hefyd, mae'r Pennaeth Cyllid wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol a chyfamserol, ac wedi cymryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw anghysondebau eraill.

---

### TYSTYSGRIF Y SWYDDOG CYLLIDOL CYFRIFOL

Tystiaf fod y Datganiad o'r Cyfrifon wedi ei baratoi yn unol â'r trefniadau uchod. Mae'r Datganiad yn cyflwyno darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2023 ac incwm a gwariant y Cyd Bwyllgor am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

______________________________ **29 Tachwedd 2023**

**Dewi Aeron Morgan CPFA**
**Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd**

# DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

Mae'r Dadansoddiad Gwariant ac Ariannu yn dangos sut mae gwariant blynyddol yn cael ei wario a'i ariannu o adnoddau yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol. Mae incwm a gwariant sydd fel arfer yn cael ei gyfrifo yn unol â threfn cyfrifo cyffredinol arferol yn cael ei gyflwyno yn fanylach yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

| 2021/22 | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** | | **Gwariant Net i'w Ariannu gan falansau'r Reserfau Defnyddiadwy** | **Addasiadau rhwng y sail Ariannu a'r sail Cyfrifo (Gweler nodyn 8)** | **Gwariant Net yn y Datganiad Gwariant ac Incwm Cynhwysfawr** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 5,177 | 939 | 6,116 | Gweithwyr | 6,136 | 768 | 6,904 |
| 168 | 0 | 168 | Eiddo | 297 | 0 | 297 |
| 46 | 0 | 46 | Cludiant | 140 | 0 | 140 |
| 1,795 | 0 | 1,795 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | 1,695 | 0 | 1,695 |
| 13,673 | 0 | 13,673 | Trydydd Parti | 9,543 | 0 | 9,543 |
| (20,572) | 0 | (20,572) | Incwm | (17,786) | 0 | (17,786) |
| **287** | **939** | **1,226** | **Cost Gwasanaethau** | **25** | **768** | **793** |
| 0 | 256 | 256 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | (23) | 255 | 232 |
| **287** | **1,195** | **1,482** | **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **2** | **1,023** | **1,025** |
| (1,443) | | | Balans Agoriadol y Reserfau Defnyddiadwy | (1,156) | | |
| 287 | | | (Gweddill)/Diffyg ar y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn | 2 | | |
| **(1,156)** | | | Balans Cau y Reserfau Defnyddiadwy | **(1,154)** | | |

# DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR

Dengys y datganiad hwn y gost gyfrifyddol yn y flwyddyn o ddarparu gwasanaeth y Cyd-Bwyllgor yn unol â pholisïau cyfrifeg cyffredinol dderbyniol.

| 2021/22 | | | | | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** | | *Nodyn* | **Gwariant Gros** | **Incwm Gros** | **Gwariant Net** |
| **£'000** | **£'000** | **£'000** | | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 6,116 | 0 | 6,116 | Gweithwyr | | 6,904 | 0 | 6,904 |
| 168 | 0 | 168 | Eiddo | | 297 | 0 | 297 |
| 46 | 0 | 46 | Cludiant | | 140 | 0 | 140 |
| 1,795 | 0 | 1,795 | Gwasanaethau a Chyflenwadau | | 1,695 | 0 | 1,695 |
| 13,673 | 0 | 13,673 | Trydydd Parti | | 9,543 | 0 | 9,543 |
| 0 | (20,572) | (20,572) | Incwm | | 0 | (17,786) | (17,786) |
| **21,798** | **(20,572)** | **1,226** | **Cost Gwasanaethau** | | **18,579** | **(17,786)** | **793** |
| 256 | 0 | 256 | Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | *11* | 255 | (23) | 232 |
| **22,054** | **(20,572)** | **1,482** | **(Gwarged) / Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | | **18,834** | **(17,809)** | **1,025** |
| | | (4,508) | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net ymrwymiadau/(asedau) | *15* | | | (10,625) |
| | | **(4,508)** | **Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall** | | | | **(10,625)** |
| | | **(3,026)** | **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | | | **(9,600)** |

Tud. 41

# DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN RESERFAU

Dengys y Datganiad o'r Symudiadau Mewn Reserfau y symudiad o ddechrau'r flwyddyn i'r diwedd mewn gwahanol reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor, wedi eu dadansoddi i 'reserfau defnyddiadwy' (h.y. y rhai hynny sy'n gymwysedig i ariannu gwariant) a 'reserfau na ellir eu defnyddio'. Mae'r Datganiad yn dangos sut mae'r symudiadau yn y flwyddyn yn reserfau'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu torri lawr rhwng enillion a cholledion yn unol ag ymarferion cyfrifo sy'n gyffredinol gydnabyddedig. A hefyd yn dangos yr addasiadau statudol sy'n ofynnol i ddychwelyd at y swm a godir ar y dreth cyngor (trwy gyfraniadau'r Cynghorau). Mae'r llinell Cynnydd/Gostyngiad Net yn dangos symudiadau statudol y Reserfau Defnyddiadwy yn y flwyddyn yn dilyn yr addasiadau hyn.

| | | **Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau** | | |
|---|---|---|---|---|
| | *Nodyn* | **Cyfanswm Reserfau Defnyddiadwy** | **Reserfau na ellir eu defnyddio** | **Cyfanswm Reserfau'r Cyd-Bwyllgor** |
| | | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2021 a ddygwyd ymlaen** | | **(1,443)** | **12,473** | **11,030** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2021/22 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **1,482** | **0** | **1,482** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(4,508)** | **(4,508)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **1,482** | **(4,508)** | **(3,026)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | **(1,195)** | **1,195** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy** | | **287** | **(3,313)** | **(3,026)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2021/22*** | | **287** | **(3,313)** | **(3,026)** |
| **Balans 31 Mawrth 2022 a ddygwyd ymlaen** | *10* | **(1,156)** | **9,160** | **8,004** |
| Symudiad mewn reserfau yn 2022/23 | | | | |
| (Gwarged)/Diffyg ar ddarparu gwasanaethau | | **1,025** | **0** | **1,025** |
| Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall | | **0** | **(10,625)** | **(10,625)** |
| **Cyfanswm Incwm a Gwariant Cynhwysfawr** | | **1,025** | **(10,625)** | **(9,600)** |
| Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu dan y rheoliadau | *9* | **(1,023)** | **1,023** | **0** |
| **(Cynnydd)/Gostyngiad Net cyn Trosglwyddiadau i Reserfau Defnyddiadwy** | *10* | **2** | **(9,602)** | **(9,600)** |
| ***(Cynnydd)/Gostyngiad yn 2022/23*** | | **2** | **(9,602)** | **(9,600)** |
| **Balans 31 Mawrth 2023 a ddygwyd ymlaen** | | **(1,154)** | **(442)** | **(1,596)** |

# Y FANTOLEN

Dengys y Fantolen werth asedau ac ymrwymiadau'r Cyd-Bwyllgor ar ddyddiad y Fantolen. Mae asedau net y Cyd-Bwyllgor (asedau llai ymrwymiadau) yn cyfateb i'r reserfau a ddelir gan y Cyd-Bwyllgor. Adroddir ar y reserfau mewn dau gategori. Y categori cyntaf o reserfau yw'r reserfau defnyddiadwy, h.y. y reserfau hynny y gall y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau, yn amodol ar yr angen i gadw lefel ddoeth o reserfau ac unrhyw gyfyngiad statudol o'u defnydd. Yr ail gategori o reserfau yw'r rhai hynny na all y Cyd-Bwyllgor eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau. Mae'r categori yma o reserfau yn cynnwys reserfau gydag elw a cholledion heb eu gwireddu (er enghraifft, y Reserf Ailbrisio), ble nad yw'r symiau ar gael i'w defnyddio i ddarparu gwasanaethau dim ond pan werthir yr asedau yn unig; a reserfau gyda gwahaniaethau amseriad fel y dangosir ar linell 'Addasiadau rhwng sail cyfrifo a sail ariannu yn unol â rheoliadau' o'r Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

| **31 Mawrth 2022 £'000** | | ***Nodyn*** | **31 Mawrth 2023 £'000** |
|---|---|---|---|
| 1,177 | Dyledwyr Tymor Byr | *12* | 270 |
| 1,587 | Arian a Chywerthoedd Arian | *13* | 2,634 |
| **2,764** | **Asedau Cyfredol** | | **2,904** |
| (1,712) | Credydwyr Tymor Byr | *14* | (1,865) |
| **(1,712)** | **Ymrwymiadau Cyfredol** | | **(1,865)** |
| (9,056) | Ymrwymiad Pensiwn | *22* | 557 |
| **(9,056)** | **Ymrwymiadau Tymor Hir** | | **557** |
| **(8,004)** | **Asedau Net** | | **1,596** |
| (1,156) | Reserfau Defnyddiadwy | *10* | (1,154) |
| 9,160 | Reserfau na ellir eu defnyddio | *15* | (442) |
| **8,004** | **Cyfanswm Reserfau** | | **(1,596)** |

# DATGANIAD LLIF ARIAN

Dengys y Datganiad Llif Arian newidiadau mewn arian a chywerthoedd arian y Cyd-Bwyllgor yn ystod y cyfnod adrodd. Trwy rannu'r llif arian yn weithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu, dengys y datganiad sut mae'r Cyd-Bwyllgor yn cynhyrchu a defnyddio arian a chywerthoedd arian. Mae cyfanswm y llif arian net o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o faint o weithgareddau'r Cyd-Bwyllgor a ariennir trwy incwm grant neu gan dderbynyddion y gwasanaethau a ddarperir gan y Cyd-Bwyllgor. Mae'r Gweithgareddau Buddsoddi yn cynrychioli'r all-lif arian a wnaed am adnoddau y bwriedir eu defnyddio i gyfrannu tuag at ddarpariad gwasanaethau'r Cyd-Bwyllgor yn y dyfodol.

| **2021/22 £'000** | | ***Nodyn*** | **2022/23 £'000** |
|---|---|---|---|
| 1,482 | (Gwarged)/Diffyg Net ar Ddarparu Gwasanaethau | | 1,025 |
| 2,890 | Addasiadau i'r gwarged neu ddiffyg net ar ddarparu gwasanaethau am symudiadau anariannol | *16* | (2,072) |
| 4,372 | Llif Arian Net o Weithgareddau Gweithredu | | (1,047) |
| 0 | Gweithgareddau Buddsoddi | | 0 |
| 0 | Gweithgareddau Ariannu | | 0 |
| 4,372 | (Cynnydd)/Lleihad net mewn arian a chywerthoedd arian | | (1,047) |
| (5,959) | Arian a chywerthoedd arian ar ddechrau'r cyfnod adrodd | | (1,587) |
| **(1,587)** | **Arian a chywerthoedd arian ar ddiwedd y cyfnod adrodd** | | **(2,634)** |

# NODIADAU I'R CYFRIFON

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO

### 1.1 Egwyddorion Cyffredinol

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn crynhoi trafodion y Cyd-Bwyllgor yn y flwyddyn ariannol 2022/23 a'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn honno, sef 31 Mawrth 2023. Mae'r Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor baratoi Datganiad o'r Cyfrifon yn flynyddol, a hynny yn unol ag arferion cyfrifo cywir. Mae'r arferion hyn wedi eu cynnwys yn bennaf yn y *Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23* ac yn cael eu cefnogi gan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh).

Confensiwn cost hanesyddol yw'r egwyddor cyfrifo sydd wedi ei fabwysiadu yn y Datganiad o'r Cyfrifon. Mae'r cyfrifon wedi eu paratoi ar sail busnes gweithredol.

Arfer y Cyd-Bwyllgor yw gweithredu ar y sail bod pob eitem o wariant yn cael eu trin fel refeniw yn y lle cyntaf. Os bydd unrhyw eitemau cyfalaf eu natur (e.e. offer TG, dodrefn) yn profi bod ganddynt arwyddocâd materol ar y cyflwyniad cywir a theg o'r sefyllfa ariannol, yna byddai'r eitemau yn cael eu trin yn unol ag arferion priodol.

Natur gyfyngedig sydd i drafodion y Cyd-Bwyllgor ac felly gweler isod y polisïau perthnasol yn unig.

### 1.2 Croniadau Incwm a Gwariant

Cyfrifir am weithgareddau yn y flwyddyn maent yn digwydd, nid pan wneir neu derbynnir taliadau arian parod.

- Bydd y refeniw o gytundebau gyda derbynwyr gwasanaeth, boed am wasanaeth neu nwyddau, yn cael ei adnabod pan fydd y gwasanaeth neu'r nwyddau yn cael eu trosglwyddo i dderbynnydd y gwasanaeth yn unol â'r rhwymedigaethau perfformiad y cytundeb.
- Bydd cyflenwadau yn cael eu trin fel gwariant fel maent yn cael eu treulio – pan fydd bwlch rhwng y dyddiad mae'r cyflenwadau wedi eu derbyn a'u treulio, byddant yn cael eu dal fel stoc ar y Fantolen.
- Bydd treuliau, mewn cysylltiad â'r gwasanaeth a dderbyniwyd (gan gynnwys gwasanaeth gan weithwyr cyflogedig) yn cael eu cofnodi fel gwariant pan fydd y gwasanaeth wedi ei dderbyn yn hytrach na pan fydd y taliad yn cael ei wneud.
- Bydd llog sy'n cael ei dderbyn o fuddsoddiadau a'r llog sydd yn daladwy ar fenthyciadau yn cael ei gyfrifo yn ôl eu trefn fel incwm a gwariant ar sail gyfradd llog effeithiol yr offeryn ariannol yn hytrach nag i'r llif arian sydd wedi ei bennu gan y cytundeb.
- Ble mae refeniw a gwariant wedi eu hadnabod ond nid yw'r arian wedi ei dderbyn neu ei dalu, bydd rhaid creu dyledwr neu gredydwr am y symiau perthnasol ar y Fantolen. Ble mae tebygolrwydd o beidio casglu'r ddyled, bydd rhaid lleihau gwerth y dyledion a chodi tâl ar refeniw yn gwariant ac incwm ariannu a buddsoddi am yr incwm sydd yn annhebygol o gael ei gasglu.

### 1.3 Arian a Chywerthoedd Arian

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Gyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun.

# NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

## 1.4 Buddiannau Gweithwyr

### 1.4.1 Buddion sy'n Daladwy yn Ystod Cyflogaeth

Buddion tymor byr yw'r rhai hynny sydd yn ddyledus o fewn 12 mis i ddiwedd y flwyddyn. Maent yn cynnwys buddion megis cyflogau, tâl gwyliau a thâl salwch i weithwyr cyfredol ac maent yn cael eu hadnabod fel cost am wasanaethau yn y flwyddyn y mae'r gweithiwr yn gwasanaethu'r Cyd-Bwyllgor. Gwneir croniad ar gyfer cost hawl gwyliau (neu unrhyw amser i ffwrdd o'r gwaith e.e. amser wedi ei gronni) sydd yn ddyledus i'r gweithwyr ond sydd heb ei gymryd cyn diwedd y flwyddyn ac yn cael ei gario drosodd i'r flwyddyn ariannol nesaf. Mae cost y croniad yn mynd yn erbyn Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau, ond wedyn yn cael ei wrth-droi drwy'r Datganiad o'r symudiad mewn Reserfau i'r cyfrif absenoldebau cronedig fel bod cost y buddion gwyliau yn mynd yn erbyn y flwyddyn ariannol y cymerir y gwyliau.

### 1.4.2 Buddion Terfynu Cyflogaeth

Mae buddion terfynu cyflogaeth yn daladwy o ganlyniad i benderfyniad y Cyd-Bwyllgor i derfynu cyflogaeth swyddog cyn y dyddiad ymddeol arferol neu o ganlyniad i benderfyniad y swyddog i dderbyn diswyddiad yn wirfoddol ac fe'u codir ar sail addasiad croniad yn erbyn y gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr unai pan na all y Cyd-Bwyllgor dynnu'r cynnig o'r buddion hynny yn ôl neu pan fo'r Cyd-Bwyllgor yn cydnabod cost o ail-strwythuro, p'run bynnag sydd gyntaf.

Pan fo buddion terfynu cyflogaeth yn cynnwys ychwanegiadau i bensiynau mae'r ddarpariaeth statudol yn golygu y dylai Cronfa'r Cyd-Bwyllgor dderbyn y gost sydd yn daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r gronfa bensiwn neu i'r pensiynwr yn y flwyddyn yn hytrach na'r swm, sydd wedi ei gyfrifo yn unol â'r safonau cyfrifeg berthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau mae angen neilltuo symiau i ac o'r Gronfa Bensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol am fuddion terfynu pensiynau ychwanegol a rhoi debydau am yr arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a'r pensiynwyr ac unrhyw symiau taladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn yn eu lle.

### 1.4.3 Buddion Ôl-gyflogaeth

Mae gweithwyr y Cyd-Bwyllgor yn aelodau o un cynllun pensiwn:

- Y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a weinyddir gan Gronfa Bensiwn Gwynedd yng Nghyngor Gwynedd.

Mae'r cynllun yn darparu buddion diffiniedig i'w haelodau (pensiynau a lymp-symiau ymddeoliad) sydd wedi eu hennill yn ystod eu hamser gyda'r Cyd-Bwyllgor a'u cyn-gyflogwyr.

### 1.4.4 Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol

Mae gan bob aelod arall o'r staff, yn amodol ar rai meini prawf, yr hawl i fod yn aelod o'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Mae'r costau pensiwn a godir ar gyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar gyfer y dosbarth yma o weithwyr yn cael eu pennu gan weinyddwyr y gronfa ac yn cynrychioli cyfran sefydlog o gyfraniad y gweithwyr i'r cynllun.

Mae'r Cynllun Llywodraeth Leol yn cael ei drin fel cynllun budd diffiniedig.

Mae ymrwymiadau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail actiwaraidd drwy'r dull rhagamcanu unedau h.y. asesiad o daliadau fydd yn cael eu gwneud yn y dyfodol mewn perthynas â buddion ymddeol a enillwyd hyd yn hyn gan y gweithwyr, yn seiliedig ar gyfradd marwolaeth, cyfradd trosiant gweithwyr a.y.y.b. yn ogystal â thafluniad enillion ar gyfer gweithwyr cyfredol.

Gostyngir yr ymrwymiadau i'w gwerth ar sail prisiau cyfredol, gan ddefnyddio graddfa ddisgownt o 4.75% wedi ei gyfrifo fel cyfartaledd cymhwysol 'spot yields' ar fondiau corfforaethol o raddfa AA.

Mae asedau Cronfa Bensiwn Gwynedd sydd i'w priodoli i'r Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnwys yn y Fantolen ar sail gwerth teg a benderfynir gan Actiwari'r Gronfa.

Dadansoddir y newid yn ymrwymiad net pensiynau i'r cydrannau canlynol:

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

Cost gwasanaeth yn cynnwys:

- Cost gwasanaeth cyfredol – y cynnydd mewn ymrwymiadau o ganlyniad i flynyddoedd o wasanaeth a enillwyd eleni – dyrennir yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr i'r gwasanaeth.

- Cost gwasanaeth y gorffennol – mae'r cynnydd mewn ymrwymiadau yn deillio o benderfyniadau yn y flwyddyn gyfredol ble mae eu heffaith yn gysylltiedig â'r blynyddoedd o wasanaeth a enillwyd mewn blynyddoedd cynharach – mae'n cael ei ddebydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaeth yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

- Llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net, h.y. y gost llog net i'r Cyd-Bwyllgor - y newid yn ystod y cyfnod yn yr ymrwymiad/(ased) buddion pensiwn diffiniedig net sy'n codi o dreigliad amser sy'n mynd yn erbyn llinell Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr - mae hyn yn cael ei gyfrifo ar sail gweithredu'r gyfradd ddisgownt sy'n cael ei ddefnyddio i fesur yr ymrwymiad buddion diffiniedig ar gychwyn y cyfnod i'r ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net ar gychwyn y cyfnod - gan gymryd i ystyriaeth unrhyw newidiadau yn yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net yn ystod y cyfnod o ganlyniad i gyfraniadau a thaliadau budd.

Ailfesuriadau yn cynnwys:

- Enillion ar asedau'r cynllun - gan eithrio symiau sy'n gynwysedig yn llog net ar yr ymrwymiad/(ased) buddion diffiniedig net - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiynau fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Enillion a cholledion actiwaraidd - newidiadau i'r ymrwymiad pensiwn net oherwydd nad yw'r digwyddiadau yn cyd-fynd â'r rhagdybiaethau a wnaethpwyd yn y prisiad actiwaraidd diwethaf neu am nad yw'r actiwari wedi diweddaru ei ragdybiaethau - yn cael eu debydu i'r Reserf Pensiwn fel Incwm a Gwariant Ariannu Cynhwysfawr Arall.

- Cyfraniadau a delir i Gronfa Bensiwn Gwynedd - arian a delir fel cyfraniadau'r cyflogwr i'r Gronfa Bensiwn ar gyfer setliad ymrwymiadau sydd ddim yn cael eu cyfrifo fel traul.

Gyda buddion ymddeol, mae'n ofynnol, yn unol â darpariaethau statudol, i'r Gronfa Gyffredinol dderbyn cost y swm sy'n daladwy gan y Cyd-Bwyllgor i'r Gronfa Bensiwn neu'n uniongyrchol i'r pensiynwyr yn ystod y flwyddyn, yn hytrach na'r swm a gyfrifir yn ôl y safonau cyfrifeg perthnasol. Yn y Datganiad o'r Symudiadau mewn Reserfau, mae hyn yn golygu bod angen neilltuo arian i fewn neu allan o'r Reserf Pensiwn er mwyn diddymu'r credydau a'r debydau damcaniaethol ar gyfer buddion ymddeol a rhoi'r debydau am arian a dalwyd i'r Gronfa Bensiwn a phensiynwyr ac unrhyw symiau sy'n daladwy ond sydd heb eu talu at ddiwedd y flwyddyn. Mae'r balans negyddol sydd yn deillio o hyn yn y Reserf Pensiwn yn fesur o effaith buddiol i'r Cyd-Bwyllgor o orfod trin buddion ymddeol ar sail llif arian yn hytrach na thros y cyfnod y mae'r gweithwyr yn derbyn y budd.

Mae'r Safon Cyfrifeg Rhyngwladol (SCRh) 19 yn rheoli sut y dylid trin a datgelu'r ymrwymiadau tymor hir sy'n bodoli mewn perthynas â chostau pensiwn. Mae'n ofynnol i gynghorau lleol (yn cynnwys Cyd-Bwyllgorau) Cymru a Lloegr baratoi eu datganiadau ariannol yn unol â gofynion SCRh19.

### 1.4.5 Buddion Dewisol

Mae gan y Cyd-Bwyllgor hefyd bwerau cyfyngedig i wneud dyfarniadau dewisol mewn achosion o ymddeoliadau cynnar. Bydd unrhyw ymrwymiadau sydd yn deillio o ddyfarniad o'r fath i unrhyw aelod o staff (yn cynnwys athrawon) yn cael eu cronni yn y flwyddyn y cymerwyd y penderfyniad i wneud y dyfarniad gan ddefnyddio'r un polisïau â'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol i gyfrifo amdanynt.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.5 Digwyddiadau Wedi'r Cyfnod Adrodd

Digwyddiadau ôl-fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol ac anffafriol, sy'n digwydd rhwng diwedd y cyfnod adrodd a'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddiad y Datganiad o'r Cyfrifon. Gellir adnabod dau fath o ddigwyddiad:

- y rhai hynny sy'n darparu tystiolaeth o amgylchiadau a oedd yn bodoli ar ddiwedd y cyfnod adrodd – caiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath; a
- y rhai hynny sy'n dynodi amgylchiadau a gododd ar ôl y cyfnod adrodd – ni chaiff y Datganiad o'r Cyfrifon ei addasu i adlewyrchu digwyddiadau o'r fath, ond os ystyrir y byddai'n cael effaith faterol, yna byddai natur y digwyddiadau ynghyd ag amcangyfrif o'r effaith ariannol yn cael ei ddatgelu yn y nodiadau.

Nid yw unrhyw ddigwyddiadau sy'n digwydd wedi'r dyddiad awdurdodi cyhoeddiad yn cael eu hadlewyrchu yn y Datganiad o'r Cyfrifon.

### 1.6 Addasiadau Cyfnod Blaenorol, newidiadau i Bolisïau Cyfrifo, Amcangyfrifon a Gwallau

Gall yr angen i wneud addasiadau cyfnod blaenorol godi o ganlyniad i newid mewn polisïau cyfrifo neu i gywiro gwall sylweddol. Cyfrifir am newidiadau mewn amcangyfrifon cyfrifeg yn rhagolygol, h.y. yn y flwyddyn gyfredol a'r blynyddoedd i ddod a effeithir gan y newid, ac felly ni wneir addasiad cyfnod blaenorol.

Yr unig dro y gwneir newidiadau i bolisïau cyfrifo yw pan mae'n ofynnol gan ymarferion cyfrifo priodol neu fod y newid yn darparu gwybodaeth fwy dibynadwy neu berthnasol am effaith trafodion, digwyddiadau eraill ac amodau ar sefyllfa ariannol neu berfformiad ariannol y Cyd-Bwyllgor. Pan wneir newid, cyfrifir amdano yn ôl-weithredol (oni bai y nodir yn wahanol neu yn anfaterol) trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol fel pe bai'r polisi wedi bodoli erioed.

Caiff gwallau materol a ddarganfyddir mewn ffigyrau cyfnodau blaenorol eu cywiro'n ôl-weithredol trwy addasu balans agoriadol a ffigyrau cymharol y cyfnod blaenorol.

### 1.7 Grantiau'r Llywodraeth a Chyfraniadau Eraill

Mae grantiau a chyfraniadau sy'n ymwneud â gwariant cyfalaf a refeniw yn cael eu cyfrifo ar sail groniadol, ac yn cael eu cydnabod ar unwaith fel incwm i'r gwasanaeth perthnasol o fewn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, oni bai bod amod ynghlwm wrth y grant neu gyfraniad nad yw'r Cyd-Bwyllgor wedi ei fodloni.

### 1.8 Gorbenion a Chostau Gwasanaethau Cefnogol

Mae'r taliadau am wasanaethau a ddarperir gan Adrannau Canolog Cefnogol o fewn Cyngor Gwynedd yn seiliedig ar gyfuniad o brisiau a bennir ymlaen llaw, amser y staff a gofnodir, cofnodi trafodion a fformiwlâu penodedig.

### 1.9 Darpariaethau

Gwneir darpariaethau pan fo digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen:

- sy'n rhoi rhwymedigaeth bresennol i'r Cyd-Bwyllgor.
- sy'n debyg o fod angen setliad trwy drosglwyddiad o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth.
- lle gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth.

Os nad yw'n glir os yw digwyddiad wedi cymryd lle ar neu cyn dyddiad y Fantolen, ystyrir ei fod yn arwain at rwymedigaeth bresennol os yw, ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth sydd ar gael, yn fwy tebygol na pheidio bod rhwymedigaeth bresennol yn bodoli ar ddyddiad y Fantolen. Gall y rhwymedigaeth bresennol fod yn gyfreithiol neu'n adeiladol.

Caiff setliadau amcangyfrifedig eu hadolygu ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol. Pan ddaw'n llai na thebygol y bydd angen trosglwyddo buddion economaidd yn awr (neu y gwneir setliad is na'r disgwyl), caiff y ddarpariaeth ei wrthdroi a'i gredydu yn ôl i'r gwasanaeth perthnasol.

## NODYN 1 – POLISÏAU CYFRIFO (parhad)

### 1.10 Reserfau

Mae reserfau penodol yn cael eu creu ar gyfer rhoi symiau o'r neilltu ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol. Mae hyn yn cael ei wneud drwy drosglwyddiadau allan o'r Balans Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad o'r Symudiad mewn Reserfau.

Cedwir rhai reserfau eraill sef 'reserfau na ellir eu defnyddio', i bwrpasau technegol o reoli'r prosesau cyfrifo ar gyfer asedau anghyfredol, offerynnau ariannol a buddion gweithwyr. Nid yw'r rhain yn cynrychioli adnoddau defnyddiadwy y Cyd-Bwyllgor.

### 1.11 Treth ar Werth

Dim ond mewn sefyllfa ble nad oes modd adennill TAW y cynhwysir TAW neu y caiff ei ddangos fel cost 'TAW anadferadwy' mewn gwariant refeniw. Nid yw'r Cyd-Bwyllgor wedi cofrestru gyda TAW. Mae'r TAW yn cael ei adennill drwy gofrestriad TAW Cyngor Gwynedd.

### 1.12 Dyledwyr a Chredydwyr

Cedwir Cyfrifon y Cyd-Bwyllgor ar sail cronni yn unol â'r Côd Ymarfer Cyfrifeg. Mae'r cyfrifon yn adlewyrchu gwir wariant ac incwm sy'n berthnasol i'r flwyddyn dan sylw, boed y taliadau a'r derbyniadau wedi cael eu talu neu eu derbyn yn y flwyddyn neu ddim.

### 1.13 Gweithrediadau ar y Cyd

Mae gweithrediadau ar y cyd yn drefniant ble mae gan y partïon sydd â chydreolaeth yr hawl i'r asedau a'r oblygiadau o'r ymrwymiadau sy'n gysylltiedig â'r trefniadau. Mae'r gweithgareddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ymgymryd â hwy ar y cyd â gweithredwyr eraill yn cynnwys defnyddio asedau ac adnoddau'r cyd-weithredwyr. Mewn perthynas â'i ddiddordeb mewn trefniant gweithred ar y cyd, mae'r Cyd-Bwyllgor fel gweithredwr ar y cyd yn cydnabod ei gyfran o'r asedau, ymrwymiadau, refeniw a gwariant.

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi ei gategoreiddio fel Gweithrediad ar y Cyd gan wneud defnydd o asedau ac adnoddau'r gweithredwyr yn hytrach na sefydlu endid ar wahân.

## NODYN 2 – NEWID MEWN POLISI CYFRIFO

Mae'r polisïau cyfrifo presennol y Cyd-Bwyllgor wedi eu haddasu i adlewyrchu'r cyfarwyddiadau yn y Côd Ymarfer CIPFA ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022/23.

## NODYN 3 – ADDASIAD CYFNOD BLAENOROL

Nid oes unrhyw addasiadau cyfnod blaenorol yn ystod 2022/23.

## NODYN 4 - SAFONAU CYFRIFEG SYDD WEDI EU CYHOEDDI OND HEB EU MABWYSIADU ETO

Mae'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig CIPFA yn gofyn i effaith disgwyliedig unrhyw safonau cyfrifeg sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu eto gael ei ddatgan.

Mae adolygiad o'r safonau cyfrifeg wedi ei wneud eleni, ond nid yw un o'r safonau dan sylw yn berthnasol i GwE.

## NODYN 5 - BARN ALLWEDDOL WRTH DDEFNYDDIO'R POLISÏAU CYFRIFO

Wrth weithredu'r polisïau cyfrifo a restrir yn Nodyn 1, mae'r Cyd-Bwyllgor wedi gorfod barnu, gwneud amcangyfrifon a thybiaethau ynghylch trafodion cymhleth, rhai sy'n cynnwys ansicrwydd am ddigwyddiadau i'r dyfodol a symiau'r asedau ac ymrwymiadau i'w cario, nad yw'n amlwg o ffynonellau eraill.

Mae'r farn, amcangyfrifon a thybiaethau cysylltiol a wnaed wedi eu selio ar arferion cyfredol priodol, profiad hanesyddol a ffactorau eraill sy'n cynnwys tybiaethau a thafluniadau hanesyddol a chyfredol, a rhagamcanion i'r dyfodol, asesiadau proffesiynol, tueddiadau cyfredol a ffactorau lleol a ystyrir yn berthnasol.

Yn y blynyddoedd diwethaf bu peth ansicrwydd am lefelau ariannu grantiau refeniw a chyfalaf i'r dyfodol gan Lywodraeth Cymru. Mae'r mater yma yn rhan bwysig o strategaeth ariannol y Cyd-Bwyllgor sy'n cael ei ddiweddaru yn gyson, gyda'r ffactorau a wybyddir ac a ragwelir yn cael ystyriaeth briodol. Mae'r ansicrwydd economaidd yn dilyn i Brydain adael yr Undeb Ewropeaidd yn parhau, gyda lefelau uchel o chwyddiant a chyfraddau llog.

Gwneir pob ymdrech i ddod o hyd i, ac i ddefnyddio'r holl wybodaeth berthnasol wrth asesu a phennu'r sefyllfa, sy'n hynod allweddol wrth ystyried materion megis ailbrisio, dibrisiant ac amhariad asedau, prisiad yr actiwari o asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn, reserfau a glustnodwyd, darpariaethau ac ymrwymiadau dibynnol. Fodd bynnag, gan nad oes modd pennu'r materion hyn i sicrwydd, gall y gwir ganlyniadau amrywio o'r amcangyfrifon. Mae'r amcangyfrifon a thybiaethau gwaelodol yn cael eu hadolygu'n gyson.

## NODYN 6 - TYBIAETHAU WEDI EU GWNEUD AM Y DYFODOL A FFYNONELLAU ERAILL O AMCANGYFRIF ANSICR

Mae'r Datganiad o'r Cyfrifon yn cynnwys ffigyrau wedi eu hamcangyfrif yn seiliedig ar dybiaethau wedi eu gwneud gan y Cyd-Bwyllgor am y dyfodol neu sydd yn ansicr fel arall. Mae'r amcangyfrifon wedi eu seilio ar brofiad hanesyddol, tueddiadau cyfredol a ffactorau perthnasol eraill. Fodd bynnag, gan na ellir pennu rhai balansau yn bendant, gall y canlyniadau terfynol fod yn wahanol i'r tybiaethau ac amcangyfrifon.

Mae'r eitem ganlynol ar Fantolen y Cyd-Bwyllgor ar 31 Mawrth 2023 yn un a ystyrir gyda risg sylweddol (o ran sicrwydd y gwerth a amcangyfrifir) a allai arwain at gywiriadau arwyddocaol yn y flwyddyn ariannol sydd i ddod:

| **Eitem** | **Ansicrwydd** | **Effaith os yw canlyniadau gwir yn wahanol i dybiaethau** |
|---|---|---|
| Ymrwymiad Pensiwn | Mae amcangyfrif yr ymrwymiad net i dalu pensiynau yn dibynnu ar nifer o ddyfarniadau cymhleth yn ymwneud â'r gyfradd ddisgowntio a ddefnyddir, y gyfradd y rhagwelir y bydd cyflogau'n cynyddu, newidiadau mewn oedrannau ymddeol, cyfraddau marwolaethau ac adenillion disgwyliedig ar asedau'r gronfa bensiwn. Mae cwmni o actiwariaid ymgynghori yn ymwneud â rhoi cyngor arbenigol i'r Cyngor am y rhagdybiaethau i'w defnyddio.<br><br>Cafodd Brexit a Covid effeithiau negyddol ar economi'r DU a gwerthoedd asedau pensiwn, bellach ceir cyfraddau chwyddiant a llogau uchel, ond mae'n ymddangos bod y farchnad yn gwella ac yn sefydlogi. Fodd bynnag, gallai pandemig neu argyfwng byd eang arall gael effaith niweidiol ar adenillion asedau, yn ogystal â chynnydd mewn cyfraddau llog i ffrwyno cynnydd chwyddiant o ganlyniad i'r adferiad. | Mae effeithiau newidiadau mewn tybiaethau unigol ar ymrwymiad pensiwn net wedi'u nodi yn Nodyn 22. |

## NODYN 7 – EITEMAU MATEROL O INCWM A GWARIANT

Mae'r eitemau perthnasol yn cynnwys::-

- (£10,625k) yn y maes pensiwn ar ailfesuriad o'r ymrwymiad buddion pensiwn diffiniedig net yn y maes pensiynau, yn unol ag asesiad Actiwari Cronfa Bensiwn Gwynedd (Nodyn 15).
- £17,786k mewn grantiau a chyfraniadau a'r gwariant cyfatebol (Nodyn 19).

## NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU

| **2022/23** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 757 | 11 | 768 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **757** | **11** | **768** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 255 | 0 | 255 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **1,012** | **11** | **1,023** |

| **2021/22** | **ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU** | | | |
|---|---|---|---|---|
| Addasiadau o'r Gronfa Gyffredinol i ddod i'r ffigyrau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | **Addasiadau i bwrpas Cyfalaf** | **Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiwn (i)** | **Gwahaniaethau Eraill (ii)** | **Cyfanswm Addasiadau** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gweithwyr | 0 | 935 | 4 | 939 |
| Eiddo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cludiant | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwasanaethau a Chyflenwadau | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Trydydd Parti | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Incwm | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cost Gwasanaethau** | **0** | **935** | **4** | **939** |
| Gwariant Gweithredol Arall | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi | 0 | 256 | 0 | 256 |
| Treth ac Incwm Grant Amhenodol | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **(Gwarged)/Diffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau** | **0** | **1,191** | **4** | **1,195** |

**NODYN 8 – NODYN I'R DADANSODDIAD GWARIANT AC ARIANNU (parhad)**

**(i) Gwahaniaeth Net i'r Addasiadau Pensiynau**

Newidiadau net ar gyfer dileu cyfraniadau pensiwn ac ychwanegiadau *Buddion Gweithwyr* SCRh 19 sy'n gysylltiedig â chostau ac incwm pensiwn:

- Ar gyfer **Gwasanaethau,** mae hyn yn cynrychioli hepgor y cyfraniadau pensiwn cyflogwr wnaed gan y Cyd-Bwyllgor fel y caniateir trwy statud a'u hamnewid gyda'r costau gwasanaeth cyfredol a'r costau gwasanaeth hanesyddol.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** y llog net ar y rhwymedigaeth budd diffiniedig sy'n gost yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr.

**(ii) Gwahaniaethau Eraill**

Mae gwahaniaethau eraill rhwng y swm sy'n cael ei ddebydu/credydu i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r symiau sy'n daladwy/derbyniadwy i gael eu cydnabod trwy statud:

- Ar gyfer **Gwasanaethau**, mae'r swm yn cynrychioli addasiad am groniad absenoldebau a enillwyd ond heb eu cymryd yn ystod y flwyddyn.
- Ar gyfer **Gwariant ac Incwm Ariannu a Buddsoddi,** mae'r golofn gwahaniaethau eraill yn cydnabod addasiadau i'r Gronfa Gyffredinol ar gyfer gwahaniaethau amseru am bremiymau a disgownt.

## NODYN 9 - ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU

Mae'r nodyn hwn yn manylu ar yr addasiadau a wneir i gyfanswm yr incwm a gwariant cynhwysfawr a gydnabyddir gan y Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn yn unol ag ymarferion cyfrifo priodol i'r adnoddau hynny a benodir gan ddarpariaethau statudol yn rhai sydd ar gael i'r Cyd-Bwyllgor i gwrdd â gwariant yn y dyfodol.

| **2022/23**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22) | (1,900) | 1,900 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 888 | (888) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (11) | 11 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(1,023)** | **1,023** |

| **2021/22**<br>**ADDASIADAU RHWNG SAIL CYFRIFO A SAIL ARIANNU DAN Y RHEOLIADAU** | **Reserf Defnyddiadwy Balans Cronfa Gyffredinol** | **Symudiad mewn Reserfau na ellir eu defnyddio** |
|---|---|---|
| | **£'000** | **£'000** |
| **Addasiadau yn ymwneud â'r Gronfa Bensiwn:** | | |
| Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol wedi eu debydu/ credydu yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (Nodyn 22) | (2,006) | 2,006 |
| Cyfraniadau pensiwn y Cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sydd yn daladwy yn y flwyddyn | 815 | (815) |
| **Addasiadau yn bennaf ymwneud â'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig** | | |
| Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi ei gynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (4) | 4 |
| **Cyfanswm Addasiadau** | **(1,195)** | **1,195** |

## NODYN 10 – TROSGLWYDDIAD I/O RESERFAU DEFNYDDIADWY

### 10a. Y Gronfa Gyffredinol

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Gyffredinol mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r dyfodol, gyda lleihad o (£139k).

| | **Cronfa Gyffredinol Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2022** | **437** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Mewn | 0 |
| Allan | (139) |
| **Balans 31 Mawrth 2023** | **298** |

### 10b. Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso

Mae'r nodyn isod yn amlygu'r swm a neilltuwyd o'r Gronfa Athrawon Newydd Gymhwyso mewn reserfau defnyddiadwy er mwyn darparu cyllid ar gyfer cynlluniau gwario'r i gefnogi Athrawon Newydd Gymhwyso i'r dyfodol, gyda chynnydd o £137k.

| | **Cronfa Athrawon Newydd Gymhwyso Cyd-Bwyllgor GwE** |
|---|---|
| | **£'000** |
| **Balans 31 Mawrth 2022** | **719** |
| Trosglwyddiadau: | |
| Mewn | 137 |
| Allan | 0 |
| **Balans 31 Mawrth 2023** | **856** |

## NODYN 11 – GWARIANT AC INCWM ARIANNU A BUDDSODDI

| **2021/22** | | **2022/23** |
|---|---|---|
| **£'000** | | **£'000** |
| 256 | Llog net yr ymrwymiadau/(asedau) buddion diffiniedig net | 255 |
| 0 | Llog derbyniadwy | (23) |
| **256** | **Cyfanswm** | **232** |

Tud. 55

## NODYN 12 – DYLEDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau dyledus masnach | 37 | 78 |
| Blaendaliadau | 57 | 55 |
| Symiau dyledus eraill | 1,083 | 137 |
| **Cyfanswm** | **1,177** | **270** |

## NODYN 13 – ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Nid oes gan y Cyd-Bwyllgor gyfrif banc ei hun a gweinyddir yr holl arian parod gan Cyngor Gwynedd o fewn ei gyfrifon ei hun. Dangosir un ffigwr net yn flynyddol yn y tabl, sef swm net yr arian parod wedi ei ddal ar ran y Cyd-Bwyllgor o fewn symiau Cyngor Gwynedd.

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Arian mewn Banc a ddelir gan yr Awdurdod Lletya | 1,587 | 2,634 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | **1,587** | **2,634** |

## NODYN 14 – CREDYDWYR TYMOR BYR

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Symiau taladwy masnach | 410 | 406 |
| Symiau taladwy eraill | 1,302 | 1,459 |
| **Cyfanswm** | **1,712** | **1,865** |

## NODYN 15 – RESERFAU NA ELLIR EU DEFNYDDIO

| 31 Mawrth 2022 £'000 | | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| (9,056) | Reserf Pensiynau | 557 |
| (104) | Cyfrif Absenoldeb Cronedig | (115) |
| **(9,160)** | **Cyfanswm Reserfau na ellir eu defnyddio** | **442** |

### Reserf Pensiynau

Mae'r Reserf Pensiynau yn amsugno'r gwahaniaethau amser sydd yn deillio o wahanol drefniadau cyfrifo ariannu buddion ymddeol yn unol â darpariaethau statudol. Mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrifo buddion ymddeol yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr fel mae'r buddion yn cronni blynyddoedd o wasanaeth, gyda'r ymrwymiad yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu chwyddiant, newid tybiaethau ac enillion buddsoddiadau gan unrhyw adnoddau wedi ei neilltuo i gwrdd â'r gost. Fodd bynnag, mae anghenion statudol yn gofyn i fuddion enillwyd cael eu hariannu fel y mae'r Cyd-Bwyllgor yn cyfrannu dros y gweithwyr i'r gronfa bensiwn neu fel mae'n talu'r pensiynau hynny mae'n uniongyrchol gyfrifol amdanynt. Mae balans credyd y Reserf Pensiynau felly yn dangos gwarged yn y buddion enillwyd gan gyn-weithwyr a gweithwyr presennol a'r adnoddau mae'r Cyd-Bwyllgor wedi neilltuo i'w cyfarfod. Mae'r trefniadau statudol yn sicrhau bydd arian wedi ei neilltuo erbyn bydd y buddion angen eu talu.

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **(12,373)** | **Balans 1 Ebrill** | **(9,056)** |
| 4,508 | Ailfesuriad o'r buddion pensiwn diffiniedig net (ymrwymiadau)/asedau (Nodyn 22) | 10,625 |
| (2,006) | Gwrthdroi eitemau yn ymwneud â budd-dal ymddeol sydd wedi eu debydu neu gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarpariaeth Gwasanaethau yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr | (1,900) |
| 815 | Cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a thaliadau uniongyrchol i bensiynwyr sy'n daladwy yn y flwyddyn | 888 |
| **(9,056)** | **Balans 31 Mawrth** | **557** |

### Cyfrif Absenoldeb Cronedig

Mae'r Cyfrif Absenoldeb Cronedig yn amsugno'r gwahaniaethau fyddai fel arall yn ymddangos ar Falans y Gronfa Gyffredinol trwy gronni absenoldebau cydadfer enilledig ond heb eu cymryd yn y flwyddyn, e.e. hawl gwyliau blynyddol a ddygir ymlaen ar 31 Mawrth. Mae trefniadau statudol yn ei gwneud yn ofynnol i'r effaith ar Falans y Gronfa Gyffredinol gael ei niwtraleiddio gan drosglwyddiadau i neu o'r Cyfrif.

| 2021/22 £000 | | 2022/23 £000 |
|---|---|---|
| **(100)** | **Balans 1 Ebrill** | **(104)** |
| (4) | Gwahaniaeth rhwng taliadau swyddogion sydd wedi eu cynnwys yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr ar sail croniadau a'r taliadau swyddogion yn y flwyddyn yn unol â gofynion statudol | (11) |
| **(104)** | **Balans 31 Mawrth** | **(115)** |

## NODYN 16 – DATGANIAD LLIF ARIAN: ADDASIADAU I'R GWARGED NEU DDIFFYG NET AR DDARPARU GWASANAETHAU AM SYMUDIADAU ANARIANNOL

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 3,413 | (Cynnydd)/Gostyngiad mewn Credydwyr | (153) |
| 668 | Cynnydd/(Gostyngiad) mewn Dyledwyr | (907) |
| (1,191) | Ymrwymiad Pensiwn | (1,012) |
| **2,890** | | **(2,072)** |

## NODYN 17 – TALIADAU I SWYDDOGION

**17a.** Mae Rheoliadau Cyfrifo ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y diwygiwyd), yn gosod dyletswydd ar y Cyd-Bwyllgor i ddatgan y wybodaeth ganlynol ar gyfer rhai sydd wedi eu dynodi fel Uwch Swyddogion, sy'n derbyn cyflog rhwng £60,000 a £150,000. Yn unol â'r gofynion diffiniedig, cynhwysir isod y cyflog pensiynadwy, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr a chostau eraill y cyflogwr (sydd yn cynnwys buddion diswyddo), ond ni chynhwysir cyfraniadau yswiriant gwladol y cyflogwr. Gwnaed y taliadau canlynol i uwch swyddogion y Cyd-Bwyllgor sydd wedi eu cyflogi'n uniongyrchol gan GwE:

| 2021/22 | | | Uwch Swyddogion | 2022/23 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyflog** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** | | **Cyflog** | **Cyfraniadau Pensiwn Cyflogwr** | **Cyfanswm** |
| **£** | **£** | **£** | | **£** | **£** | **£** |
| 105,029 | 24,157 | 129,186 | Prif Swyddog | 106,954 | 24,599 | 131,553 |

**17b.** Talwyd y symiau canlynol i weithwyr eraill y Cyd-Bwyllgor a dderbyniodd mwy na £60,000 o dâl am y flwyddyn (ac eithrio cyfraniadau pensiwn ac yswiriant gwladol y cyflogwr) ond sydd yn cynnwys costau diswyddo. Nid oedd yna unrhyw gostau diswyddo perthnasol yn 2022/23 na 2021/22.

| Nifer gweithwyr eraill a dderbyniodd mwy na £60,000 sydd yn cynnwys cyflogau a chostau diswyddo: | | |
|---|---|---|
| **Nifer yn 2021/22** | | **Nifer yn 2022/23** |
| **Cyfanswm** | | **Cyfanswm** |
| 15 | £60,000 - £64,999 | 17 |
| 9 | £65,000 - £69,999 | 10 |
| 3 | £70,000 - £74,999 | 7 |
| 1 | £75,000 - £79,999 | 4 |

## NODYN 18 – COSTAU ARCHWILIO ALLANOL

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi derbyn y costau isod ar gyfer archwilio allanol.

| 2021/22 £'000 | | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|
| 11 | Ffioedd taladwy i archwilydd apwyntwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru am wasanaethau archwilio allanol | 13 |
| **11** | **Ffioedd Net** | **13** |

## NODYN 19 – INCWM GRANT

Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi credydu'r grantiau, cyfraniadau a rhoddion canlynol i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:

| | 2021/22 £'000 | 2021/22 £'000 | 2022/23 £'000 | 2022/23 £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | | | |
| Llywodraeth Cymru - | | | | |
| Grant Datblygu Disgyblion (GDD) - Plant Mewn Gofal | 1,135 | | 1,126 | |
| GDD - Cynghorydd Strategol | 103 | | 100 | |
| GDD - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 196 | | 257 | |
| Arall | 374 | | 321 | |
| | | **1,808** | | **1,804** |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol - Llywodraeth Cymru (heb gynnwys y GGA) | | **10,801** | | **7,601** |
| Grant Gwella Addysg (GGA) | | | | |
| Ariannu Cyfatebol gan Gynghorau | 1,625 | | 1,259 | |
| Llywodraeth Cymru | 1,386 | | 1,813 | |
| | | **3,011** | | **3,072** |
| Grantiau a Chyfraniadau gan Lywodraeth arall | | | | |
| Cyngor Gweithlu Addysg | 537 | | 622 | |
| | | **537** | | **622** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | | | |
| Cyfraniadau'r Cynghorau tuag at y Gwasanaeth Craidd | | | | |
| Conwy | 645 | | 671 | |
| Dinbych | 649 | | 680 | |
| Fflint | 960 | | 996 | |
| Gwynedd | 745 | | 773 | |
| Ynys Môn | 429 | | 445 | |
| Wrecsam | 796 | | 829 | |
| | | **4,224** | | **4,394** |
| Grantiau a Chyfraniadau eraill | | **191** | | **293** |
| **Cyfanswm Grantiau a Chyfraniadau wedi eu Credydu i Wasanaethau** | | **20,572** | | **17,786** |

## NODYN 20 – PARTÏON CYSYLLTIEDIG

Mae'n ofynnol i'r Cyd-Bwyllgor ddatgelu trafodaethau materol-berthnasol gyda phartïon cysylltiedig - cyrff neu unigolion sydd â'r potensial i reoli neu ddylanwadu'r Cyd-Bwyllgor, neu i gael eu rheoli neu ddylanwadu gan y Cyd-Bwyllgor. Mae datgelu'r trafodaethau hyn yn galluogi'r darllenwyr i asesu a oes cyfyngiad ar allu'r Cyd-Bwyllgor i weithredu'n annibynnol, neu a yw'n medru cyfyngu ar allu parti arall i fargeinio'n rhydd gyda'r Cyd-Bwyllgor. I gydymffurfio efo'r gofynion, gwneir hyn drwy ofyn i'r Aelodau a'r Uwch Swyddog gwblhau datganiad personol, fel y diffinnir yng Nghôd Ymarfer CIPFA.

**Gweithrediad y Cyd-Bwyllgor**

Mae'r Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol (GwE) wedi ei sefydlu mewn partneriaeth rhwng chwe awdurdod Gogledd Cymru, sef Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Conwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Bwrdeistrefol Sirol Wrecsam, i fod yn atebol i'r Cynghorau ac i gyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion. Mae hyn yn cynnwys y dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaethau cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion, a hefyd darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol. Fe grynhoir isod daliadau ac incwm rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r Awdurdodau Lleol yn ystod y flwyddyn ariannol 2022/23. Penodwyd Cyngor Gwynedd fel yr awdurdod lletya ar gyfer gweithredu a chynnal y Gwasanaeth gyda Chyd-Bwyllgor o'r holl bartneriaid yn goruchwylio rheolaeth o'r gwasanaeth.

| **Awdurdod Lleol** | **Taliadau a wnaethpwyd** £'000 | **Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor** £'000 | **Incwm a dderbyniwyd** £'000 | **Symiau sy'n ddyledus i' r Cyd-Bwyllgor** £'000 |
|---|---|---|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | 1,793 | 39 | 718 | 13 |
| Cyngor Sir Ddinbych | 972 | 343 | 1,045 | 0 |
| Cyngor Sir y Fflint | 2,214 | 50 | 1,084 | 0 |
| Cyngor Gwynedd | 2,296 | 34 | 1,322 | 41 |
| Cyngor Sir Ynys Môn | 1,128 | 20 | 776 | 6 |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | 1,152 | 424 | 829 | 4 |

**Aelodau**
Mae gan aelodau'r Cyd-Bwyllgor ddylanwad dros bolisïau ariannol a gweithredol y Cyd-Bwyllgor.

Mae aelodau wedi datgan diddordeb neu berthynas (fel y'u diffinnir) mewn cwmnïau neu fusnesau a all fod yn ymdrin â'r Cyd-Bwyllgor. Mae dadansoddiad o'r taliadau a wnaed i'r cwmnïau yma yn ystod 2022/23 a'r balansau ar 31 Mawrth 2023 o dan y pennawd yma fel a ganlyn:

| **Taliadau a wnaethpwyd** | **Symiau sy'n ddyledus gan y Cyd-Bwyllgor** | **Symiau sy'n ddyledus i'r Cyd-Bwyllgor** |
|---|---|---|
| **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| 378 | 18 | 17 |

Mae'r ffigyrau yn seiliedig ar y wybodaeth parthed dychweliadau Cynghorwyr.

**Swyddogion**
Mae Uwch Swyddog y Cyd-Bwyllgor (fel y diffinnir) wedi datgan fel sydd yn ofynnol a phriodol, ddiddordeb neu berthynas mewn cwmnïau, cyrff gwirfoddol, elusennol neu gyhoeddus sydd yn derbyn taliadau gan y Cyd-Bwyllgor. Yn ystod 2022/23, ni wnaed unrhyw daliadau i'r cwmnïau a chyrff yma ac nid oes unrhyw swm yn ddyledus gan nac i'r Cyd-Bwyllgor gan y cwmnïau a chyrff a nodwyd.

## NODYN 21 – PECYNNAU TERFYNU GWAITH

Nid oedd yna becynnau terfynu gwaith yn ystod 2022/23 na 2021/22.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith eu swyddogion a'u gweithwyr eraill, mae'r Cyd-Bwyllgor yn gwneud cyfraniadau at gostau buddiannau ôl-gyflogaeth. Er na fydd y buddion yma yn daladwy hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyd-Bwyllgor ymrwymiad i wneud y taliadau. Mae'n rhaid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau yn y dyfodol.

Mae GwE yn ymwneud â dau gynllun buddiannau ôl-gyflogaeth:

a) **Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol** a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae'n gynllun wedi ei ariannu, gyda buddion diffiniedig yn seiliedig ar gyflog terfynol tan 31 Mawrth 2014, ac yn seiliedig ar gyflog cyfartaledd gyrfa o 1 Ebrill 2014. Mae'r Cyd-Bwyllgor a'r gweithwyr cyflogedig yn talu cyfraniadau i'r gronfa, sydd wedi eu cyfrifo ar lefel sydd i fod i gydbwyso'r ymrwymiadau pensiwn gyda'r asedau a fuddsoddir. Cyfran GwE o gyfanswm y cyfraniadau i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2022/23 oedd 1.3% (1.5% yn 2021/22).

b) **Trefniadau ar gyfer dyfarnu buddiannau ôl-ymddeol dewisol wrth ymddeol yn fuan**. Trefniant buddion diffiniedig heb ei ariannu yw hyn, lle adnabyddir yr ymrwymiadau wrth wneud y dyfarniad. Fodd bynnag, nid oes asedau buddsoddi wedi eu cronni er mwyn cwrdd â'r ymrwymiadau pensiwn, ac mae angen cynhyrchu arian er mwyn cwrdd â gwir daliadau pensiynau wrth iddynt ddod yn ddyledus.

Mae Cronfa Bensiwn Gwynedd yn cael ei gweithredu dan y fframwaith rheoleiddio ar gyfer y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, a Phwyllgor Pensiynau Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am lywodraethu'r cynllun. Caiff polisi ei bennu yn unol â Rheoliadau'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol. Yn y gorffennol mae rheolwyr buddsoddiadau'r gronfa wedi cael eu penodi gan Bwyllgor Cronfa Bensiwn Gwynedd. Wrth i'r buddsoddiadau gael eu trosglwyddo i Bartneriaeth Pensiwn Cymru (PPC) caiff y rheolwyr eu penodi gan y bartneriaeth.

Y prif risgiau i'r Cyd-Bwyllgor o'r cynllun yw'r rhagdybiaethau hirhoedledd, newidiadau statudol i'r cynllun, newidiadau strwythurol i'r cynllun (megis nifer fawr yn tynnu allan o'r cynllun), newidiadau i chwyddiant, enillion bondiau a pherfformiad buddsoddiadau ecwiti a ddelir yn y cynllun. Mae'r rhain wedi'u lliniaru i ryw raddau gan y gofynion statudol i godi'r symiau sy'n ofynnol gan statud fel a ddisgrifir yn y nodyn polisïau cyfrifo i'r Gronfa Gyffredinol.

### Trafodion sy'n Perthyn i Fuddion Ôl-gyflogaeth

Mae'r Cyd-Bwyllgor yn adnabod cost y buddion ymddeol yn y gost gwasanaethau a adroddir pan mae gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan fydd y buddion yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd angen ei wneud yn erbyn Treth y Cyngor (drwy gyfraniadau y Cynghorau) yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn sy'n golygu bod gwir gost buddion ôl-gyflogaeth/ymddeol yn cael ei wrth-droi allan o'r Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol trwy'r Datganiad o'r Symudiad Mewn Reserfau:

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

| **Newid mewn Gwerth Teg Asedau'r Cynllun, Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir ac Ymrwymiad Net** | **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2022** | | | **Cyfnod yn gorffen 31 Mawrth 2023** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** | **Asedau** | **Ymrwymiadau** | **(Ymrwymiadau) /asedau net** |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 23,243 | 0 | 23,243 | 26,013 | 0 | 26,013 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (35,616) | (35,616) | 0 | (35,069) | (35,069) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu Hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Agoriadol ar 1 Ebrill** | **23,243** | **(35,616)** | **(12,373)** | **26,013** | **(35,069)** | **(9,056)** |
| Cost Gwasanaeth Cyfredol* | 0 | (1,750) | (1,750) | 0 | (1,645) | (1,645) |
| Cost Gwasanaeth y Gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cost Gwasanaeth** | **0** | **(1,750)** | **(1,750)** | **0** | **(1,645)** | **(1,645)** |
| Llog Net | | | | | | |
| Incwm Llog ar Asedau'r Cynllun | 471 | 0 | 471 | 711 | 0 | 711 |
| Cost Llog ar Fuddion a Ddiffinnir Ymrwymiad | 0 | (727) | (727) | 0 | (966) | (966) |
| **Cyfanswm Llog Net** | **471** | **(727)** | **(256)** | **711** | **(966)** | **(255)** |
| **Cyfanswm Cost Buddion a Ddiffinnir a Adnabyddir mewn Elw / (Colled)** | **471** | **(2,477)** | **(2,006)** | **711** | **(2,611)** | **(1,900)** |
| Llif Arian | | | | | | |
| Cyfraniadau Aelodau'r Cynllun | 293 | (293) | 0 | 310 | (310) | 0 |
| Cyfraniadau y Cyflogwr | 807 | 0 | 807 | 852 | 0 | 852 |
| Cyfraniadau ynglŷn â buddion wedi eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Buddion a Dalwyd | (473) | 473 | 0 | (446) | 446 | 0 |
| Buddion Heb eu Hariannu a Dalwyd | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau y Disgwylir** | **24,341** | **(37,913)** | **(13,572)** | **27,440** | **(37,544)** | **(10,104)** |
| Ail Fesuriadau | | | | | | |
| Newid mewn tybiaethau ariannol | 0 | 2,727 | 2,727 | 0 | 13,064 | 13,064 |
| Newid mewn tybiaethau demograffig | 0 | 182 | 182 | 0 | 534 | 534 |
| Profiadau Eraill** | 0 | (65) | (65) | (167) | 1,070 | 903 |
| Enillion ar Asedau ac eithrio symiau a gynhwysir yn llog net | 1,672 | 0 | 1,672 | (949) | 0 | (949) |
| **Cyfanswm yr holl ail fesuriadau a gynhwysir yn Incwm Cynhwysfawr Arall (ICA)** | **1,672** | **2,844** | **4,516** | **(1,116)** | **14,668** | **13,552** |
| Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr | 26,013 | 0 | 26,013 | 26,324 | 0 | 26,324 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | 0 | (35,069) | (35,069) | 0 | (22,876) | (22,876) |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau heb eu hariannu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Sefyllfa Cau ar 31 Mawrth** | **26,013** | **(35,069)** | **(9,056)** | **26,324** | **(22,876)** | **3,448** |

* Mae'r gost gwasanaeth cyfredol yn cynnwys lwfans 0.5% cyflogau ar gyfer costau gweinyddiaeth.

** Mae'r profiadau eraill ar ymrwymiadau yn cynnwys lwfans ar gyfer y gorchymyn cynnydd pensiwn a gymhwyswyd i'r ymrwymiadau a ariennir ym mis Ebrill 2023 sy'n wahanol i'r rhagdybiaeth cynnydd pensiwn a fabwysiadwyd yn Atodlen canlyniadau'r Cyflogwr ar ddechrau'r cyfnod. O fewn yr eitem profiadau eraill hon, mae'r rhwymedigaethau a gyllidir wedi cynyddu £1,666,000 o ganlyniad i'r faith bod y gorchymyn cynyddu pensiwn yn wahanol i'r dybiaeth flaenorol.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r balans debyd ar y Fantolen yn adlewyrchu gwarged yn y buddion a enillwyd gan weithwyr a'r adnoddau y mae'r Cyd-Bwyllgor wedi'u neilltuo i'w bodloni, sydd wedi'i gyfyngu gan IAS 19 ac IFRIC 14.

| | 31 Mawrth 2022 £'000 | 31 Mawrth 2023 £'000 |
|---|---|---|
| Gwerth Teg Asedau'r Cynllun | 26,013 | 26,324 |
| Gwerth Presennol Ymrwymiadau wedi eu hariannu | (35,069) | (22,876) |
| Effaith IAS 19/ IFRIC 14 | 0 | (2,891) |
| **Ased/ (Ymrwymiad) Net yn deillio o Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir** | (9,056) | 557 |

**Prif Gategorïau Asedau'r Cynllun fel Canran o Gyfanswm Asedau'r Cynllun**

Mae'r actiwari wedi darparu dadansoddiad manwl o asedau'r Gronfa yn unol â gofynion SCRh19. Mae'r dadansoddiad hwn yn gwahaniaethu rhwng natur a risg yr asedau hynny, ac yn eu torri i lawr ymhellach i'r rheiny sydd â dyfynbris mewn marchnad actif, a'r rheiny sydd ddim yn cael eu dyfynnu. Tybir bod rhaniad asedau Cyngor Gwynedd ar yr un gyfran â dyraniad asedau'r Gronfa fel yr oedd ar 31 Rhagfyr 2022. Mae'r tabl isod yn dangos y rhaniad. Mae'r actiwari yn amcangyfrif bod gwerth bid asedau'r Gronfa yn £2.771bn ar 31 Mawrth 2023, yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan yr Awdurdod Gweinyddu ac yn rhoi ystyriaeth i enillion mynegai lle bo hynny'n briodol. Dim ond elfen o hwn sydd yn berthnasol i GwE.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Gwerth Teg Asedau'r Cyflogwr

Mae gwerth yr asedau isod ar werth bid yn unol â gofynion SCRh 19.

| Categori Ased | Ar 31 Mawrth 2022 | | | | Ar 31 Mawrth 2023 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | | Prisiau a ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol | Prisiau na ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol | Cyfanswm | |
| | £'000 | £'000 | £'000 | % | £'000 | £'000 | £'000 | % |
| **Ernesau Ecwiti** | | | | | | | | |
| Defnyddiwr | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cynhyrchu | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ynni a Gwasanaethau | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Sefydliadau Ariannol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Iechyd a Gofal | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ernesau Dyledion** | | | | | | | | |
| Eraill | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Ecwiti Preifat** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 0 | 1,466 | 1,466 | 6 | 0 | 1,657 | 1,657 | 6 |
| **Eiddo Diriaethol** | | | | | | | | |
| Eiddo y DU | 0 | 2,231 | 2,231 | 9 | 0 | 2,170 | 2,170 | 8 |
| Eiddo Tramor | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Unedol** | | | | | | | | |
| Ecwiti | 0 | 16,532 | 16,532 | 64 | 0 | 16,388 | 16,388 | 62 |
| Is-adeiladwaith | 0 | 508 | 508 | 2 | 0 | 747 | 747 | 3 |
| Eraill | 0 | 5,195 | 5,195 | 20 | 0 | 5,280 | 5,280 | 20 |
| **Arian a Chywerthoedd Arian** | | | | | | | | |
| Y cyfan | 81 | 0 | 81 | 0 | 82 | 0 | 82 | 0 |
| **Cyfanswm** | **81** | **25,932** | **26,013** | **100** | **82** | **26,242** | **26,324** | **100** |

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Sail ar gyfer amcangyfrif asedau ac ymrwymiadau

Mae'r ymrwymiadau wedi cael eu hasesu ar sail actiwaraidd gan ddefnyddio'r dull rhagamcanu unedau, sef amcangyfrif o'r pensiwn fydd yn daladwy yn y dyfodol yn ddibynnol ar dybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaeth, disgwyliad oes a lefelau cyflog. Mae disgwyliad oes yn seiliedig ar VitaCurves y Gronfa gyda gwelliannau yn unol â model CMI 2021, gyda phwysiad o 10% o ddata 2021 (a 2020), llyfnu safonol (Sk7), addasiad cychwynnol o 0.25% a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn ar gyfer gwrywod a benywod.

Mae Hymans Robertson, cwmni actiwari annibynnol, wedi amcangyfrif ymrwymiadau Cynllun Pensiwn Gwynedd ac ymrwymiadau Buddion Dewisol. Roedd amcangyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r cynllun fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022. Mae'r rhagdybiaethau arwyddocaol a ddefnyddir gan yr actiwari yn y tabl canlynol wedi cael effaith sylweddol ar werthoedd yr asedau a'r ymrwymiadau fel a ganlyn:

| | 31 Mawrth 2022 | 31 Mawrth 2023 |
|---|---|---|
| **Tybiaethau Ariannol** | **% y.f.** | **% y.f.** |
| Cyfradd Cynnydd Pensiynau | 3.20 | 2.95 |
| Cyfradd Cynnydd Cyflogau | 3.50 | 3.45 |
| Cyfradd Chwyddiant | 3.20 | 2.95 |
| Cyfradd Ddisgownt | 2.70 | 4.75 |
| Cyfradd enillion tymor hir a ddisgwylir ar yr holl asedau | 2.70 | 4.75 |
| **Nifer a ddisgwylir i gymryd yr opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeol** | | |
| am wasanaeth cyn Ebrill 2008 | 50 | 65 |
| am wasanaeth ar ôl Ebrill 2008 | 75 | 65 |
| **Tybiaethau Marwolaeth** | **Blynyddoedd** | **Blynyddoedd** |
| Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr cyfredol | | |
| Dynion | 21.3 | 21.9 |
| Merched | 23.7 | 24.3 |
| Hirhoedledd yn 65 oed am bensiynwyr y dyfodol | | |
| Dynion | 22.4 | 22.9 |
| Merched | 25.7 | 25.9 |

Mae'r amcangyfrifiad o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig yn sensitif i'r rhagdybiaethau actiwaraidd sydd wedi'u nodi yn y tabl uchod. Er mwyn meintioli effaith unrhyw newid yn y rhagdybiaethau ariannol a ddefnyddir, mae'r actiwari wedi cyfrifo a chymharu gwerth ymrwymiadau'r cynllun fel yr oeddynt ar 31 Mawrth 2023 ar seiliau amrywiol. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn gyson â'r dull a fabwysiadwyd i gael y ffigyrau SCRh19 a ddarperir yn y nodyn hwn.

Er mwyn meintioli'r ansicrwydd ynghylch disgwyliad hyd oes, mae'r actiwari wedi cyfrifo'r gwahaniaeth yn y gost i'r Cyd-Bwyllgor pe bai cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes. Yn nhermau sensitifrwydd, caiff hyn ei dybio i fod yn gynnydd o tua 3-5% yn y gost o fudd-daliadau. Yn ymarferol bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes yn ddibynnol ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os yw gwelliannau mewn cyfraddau goroesi yn bennaf berthnasol i oedrannau iau neu hŷn).

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

Mae'r ffigyrau yn y tabl isod wedi deillio'n seiliedig ar broffil aelodaeth y Cyd-Bwyllgor fel yr oedd ar 31 Mawrth 2022, sef dyddiad y prisiad actiwaraidd diweddaraf. Mae'r dull a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r dadansoddiad sensitifrwydd a ddangosir isod yn gyson â'r dull a ddefnyddiwyd y flwyddyn flaenorol.

| **Effaith ar Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir yn y Cynllun** | | |
|---|---|---|
| **Newid tybiaeth** | **Brasamcan cynnydd i'r Ymrwymiad Buddion Diffiniedig 31 Mawrth 2023** | **Brasamcan swm ariannol 31 Mawrth 2023** |
| | % | £'000 |
| 0.1% o leihad i'r gwir gyfradd ddisgownt | 2 | 439 |
| Cynnydd o 1 flwyddyn yn nisgwyliad oes aelodau | 4 | 915 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad cyflog | 0 | 68 |
| 0.1% o gynnydd i'r gyfradd codiad pensiwn | 2 | 377 |

### Effaith ar Lif Arian y Cyd-Bwyllgor

Un o amcanion y cynllun yw y dylid cadw cyfraniadau cyflogwyr ar gyfradd mor gyson â phosib. Mae'r Cyd-Bwyllgor wedi cytuno ar strategaeth gydag actiwari'r gronfa i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 17 mlynedd nesaf. Caiff lefelau cyllido eu monitro'n flynyddol.

Caiff y cyfraniadau a delir gan y Cyd-Bwyllgor eu gosod gan Actiwari'r Gronfa yn y prisiad pob tair blynedd (y diweddaraf oedd 31 Mawrth 2022), neu ar unrhyw adeg arall pan roddir cyfarwyddyd i wneud hynny gan yr Awdurdod Gweinyddu. Mae'r cyfraniadau sy'n daladwy dros y cyfnod tan 31 Mawrth 2023 wedi'u gosod yn y dystysgrif Cyfraddau ac Addasiadau. Am fanylion pellach ar y dull a ddefnyddiwyd i osod cyfraddau cyfrannu ar gyfer y Cyd-Bwyllgor, dylid cyfeirio at adroddiad actiwaraidd 2019, dyddiedig 31 Mawrth 2020.

### Gwybodaeth am yr Ymrwymiad Buddion a Ddiffinnir

| | **Rhaniad Ymrwymiad 31 Mawrth 2023 £'000** | **%** |
|---|---|---|
| Aelodau Gweithredol | 12,741 | 55.7 |
| Aelodau Gohiriedig | 1,777 | 7.8 |
| Aelodau Pensiynwyr | 8,358 | 36.5 |
| **Cyfanswm** | **22,876** | **100.0** |

Mae'r ffigyrau uchod yn cynnwys ymrwymiadau wedi eu hariannu yn unig, nid ydynt yn cynnwys ymrwymiadau pensiynwyr heb eu hariannu. Mae'r parhad yn effeithiol ar brisiad swyddogol blaenorol ar 31 Mawrth 2022. Cyfnod cyfartaledd cymhwysol o'r ymrwymiadau buddion diffiniedig ar gyfer aelodau'r cynllun yn 2022/23 yw 20 mlynedd.

## NODYN 22 – COSTAU PENSIWN (parhad)

### Effaith ar y Blynyddoedd i ddod

Disgwylir i gyfanswm y cyfraniadau a wneir i Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol gan y Cyd-Bwyllgor fod yn £693k yn y flwyddyn i 31 Mawrth 2024.

Gan fod adroddiad Actiwari yn seiliedig ar amcangyfrifon, ac o ganlyniad i wahaniaethau amser, gwnaed addasiad o £36k yn 2022/23, (£8k yn 2021/22) i ddod â'r sefyllfa yn y Gronfa ar sail ffigyrau Actiwaraidd yn unol â'r sefyllfa cau ar 31 Mawrth 2023. Mae'r gwahaniaeth yma wedi ei drin fel Enillion a Cholledion Actiwaraidd ar Asedau ac Ymrwymiadau Pensiwn.

## NODYN 23 – DIGWYDDIADAU AR ÔL Y CYFNOD ADRODD

Awdurdodwyd y Datganiad o'r Cyfrifon gan y Pennaeth Cyllid ar 30 Mehefin 2023. Nid yw digwyddiadau yn dilyn y dyddiad yma wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol na'r nodiadau cysylltiedig. Lle'r oedd digwyddiadau a oedd yn digwydd cyn y dyddiad hwn yn darparu gwybodaeth am amodau a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023, mae'r ffigyrau yn y datganiadau a'r nodiadau ariannol wedi'u haddasu ym mhob agwedd faterol i ddangos yr effaith.

## DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL

Mae'r datganiad hwn yn bodloni'r angen i gynhyrchu Datganiad Rheolaeth Fewnol yn unol â Rheoliad 5 o'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 fel y'i diwygiwyd gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018.

### Rhan 1: CWMPAS CYFRIFOLDEB

1.1 Sefydlwyd GwE yn Gyd-Bwyllgor gan chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru yn 2013 i fod yn wasanaeth effeithiolrwydd gwella ysgolion rhanbarthol drwy gyflawni'r swyddogaethau a fanylir arnynt mewn cytundeb rhwng y Cyd-Bwyllgor a'r awdurdodau. Yn y cytundeb, mae'r Cynghorau wedi cytuno i weithio gyda'i gilydd mewn partneriaeth i sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i'r Cynghorau, ac yn cyflawni swyddogaethau statudol y Cynghorau yng nghyswllt effeithiolrwydd a gwella ysgolion.

1.2 Y weledigaeth oedd sefydlu Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol a fydd yn atebol i, ac yn ymgymryd â chyfrifoldebau statudol y chwe Awdurdod Lleol yng Ngogledd Cymru yng nghyswllt eu dyletswyddau i fonitro, herio, darparu gwasanaeth cefnogol ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus drwy'r cwricwlwm a rheoli ysgolion yn ogystal â darparu gwasanaethau y gellir eu comisiynu gan ysgolion ac awdurdodau lleol.

1.3 Mae GwE yn gyfrifol am sicrhau bod ei weithgareddau yn cael eu cynnal yn unol â'r gyfraith a safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrifo amdano yn briodol, a'i ddefnyddio mewn ffordd economaidd, effeithlon ac effeithiol.

1.4 Wrth gyflawni'r holl gyfrifoldebau hyn, mae GwE hefyd yn gyfrifol am gynnal trefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei swyddogaethau, cynorthwyo gweithrediad effeithiol ei weithgareddau, sy'n cynnwys trefniadau i reoli risg a rheoli ariannol digonol ac effeithiol.

### Rhan 2: PWRPAS Y FFRAMWAITH LLYWODRAETHU

2.1 Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd hynny sy'n cyfeirio a rheoli GwE, a'r gweithgareddau ble mae'n adrodd i, cysylltu gydag ac yn arwain y gymuned. Mae'n galluogi'r awdurdodau sydd yn rhan o GwE i fonitro llwyddiant ei amcanion strategol, ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau addas a chost effeithiol.

2.2 Mae'r system reolaeth fewnol yn rhan allweddol o'r fframwaith honno ac mae wedi ei dylunio i reoli risg i lefel resymol yn hytrach na dileu'r risg o fethiant yn gyfan gwbl i gyflawni polisïau, nodau ac amcanion; ni all felly ond darparu sicrwydd rhesymol o effeithiolrwydd yn hytrach na sicrwydd diamod.

2.3 Mae'r system reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus sy'n adnabod a blaenoriaethu risgiau sy'n berthnasol i gyflawni polisïau, bwriadon ac amcanion GwE, i werthuso'r tebygolrwydd o'r risgiau hynny'n cael eu gwireddu a'r effaith petai hynny'n digwydd, ac i reoli'r risgiau mewn ffordd effeithlon, effeithiol ac economaidd.

2.4 Mae'r fframwaith llywodraethu a ddisgrifir uchod wedi bod ar waith yn GwE ar gyfer y flwyddyn sy'n diweddu 31 Mawrth 2023, a hyd at ddyddiad cymeradwyo datganiad cyfrifon 2022/23.

**Rhan 3: TREFNIADAU LLYWODRAETHU A'U HEFFEITHIOLRWYDD**

3.1 Mae Bwrdd Rheoli GwE yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethu yn barhaus mewn ffordd ddisgybledig, gan godi ymwybyddiaeth o'r rhain ar raddfa ehangach ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

3.2 Er mwyn arddangos llywodraethu da, rhaid i GwE ddangos ei fod yn cydymffurfio â'r egwyddorion craidd (a chefnogol) sydd yn y 'Framework for Delivering Good Governance in Local Government (CIPFA/Solace, 2016)'. Paratowyd y datganiad hwn yn unol â'r egwyddorion hynny.

3.3 Yng ngweddill y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, rhoddir amlinelliad o'r Meysydd Llywodraethu a threfniadau GwE i ddelio gyda'r rhain, ac effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

3.4 Ar gyfer pob egwyddor lywodraethu, arfarnwyd yn seiliedig ar gyfuniad o:

- Adolygiad o adroddiadau a dogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn;
- Adolygu'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Busnes;
- Trafod â swyddogion, yr UDA a'r Bwrdd Rheoli a sylwadau a gafwyd ganddynt hwythau;
- Myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith, yn fewnol ac yn allanol h.y. Estyn, Education Development Trust, Yr Athro Graham Donaldson, OECD, Llywodraeth yr Alban, OECD a’r Consortia Rhanbarthol eraill.

3.5 Ers mis Mawrth 2020, hyd at ddyddiad cyhoeddi Datganiad Cyfrifon 2022/23, mae GwE wedi addasu ei waith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Ble cafodd hyn effaith sylweddol ac amlwg ar drefniadau llywodraethu GwE, nodwyd hyn isod.

| | |
|---|---|
| Egwyddor A | Ymddwyn ag integriti, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesol, a pharchu rheol gyfreithiol |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Dilyna GwE reolau gweithredu yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd), sydd yn manylu ar sut mae angen gwneud penderfyniadau a'r gweithdrefnau i'w dilyn i sicrhau eu bod yn effeithlon, yn dryloyw ac ar gael i bobl leol.
- Mae Cytundeb Rhyng-Awdurdod GwE wedi cytuno i ddilyn yr egwyddorion llywodraethu da a ganlyn:
    - Bod yn Agored ac Ymddiriedaeth
    - Ymrwymiad a Chymhelliant
    - Sgiliau a Chreadigedd
    - Perthnasau Effeithiol
    - Datblygu ac Addasu
    - Enw Da
    - Rhesymoldeb Gwneud Penderfyniadau
    - Caniatâd Angenrheidiol
    - Ymrwymiadau Aelodau a Swyddogion

- Mae aelodau Cyd-Bwyllgor GwE sydd â hawliau pleidleisio yn cael eu llywodraethu gan God Ymddygiad eu Cyngor perthnasol. Mae'r Cod Ymddygiad ar gyfer Cynghorwyr a chyflogeion o fewn Cyfansoddiad yr awdurdod lletyol yn seiliedig ar egwyddorion bod yn agored, yn dryloyw ac yn onest.
- Yn rhan o'r Cynllun Busnes Rhanbarthol, mae'r gwerthoedd gwasanaeth a phersonol hyn wedi'u gwau yn y gwasanaeth ac wedi'u gosod er mwyn galluogi'r gwasanaeth i gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion. Dyma nhw:
    - Parch
    - Ymddiriedaeth
    - Lles
    - Arloesi ac ysbrydoli
    - Cefnogi a chydweithio
    - Cymru a’r Gymraeg
- Mae gan GwE, gyda chymorth yr awdurdod lletyol, weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol.
- Cynhaliwyd pob cyfarfod o'r Cyd-Bwyllgor yn ystod 2022-23 yn rhithiol ar Zoom. Rhoddwyd canllawiau at ei gilydd i'r Aelodau mewn perthynas â Mynychu Cyfarfodydd Rhithiol.

| | |
|---|---|
| Egwyddor B | Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Mae calendr cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor wedi'u gosod am y flwyddyn sydd i ddod.
- Sefydliad partneriaeth yw GwE, yn enwedig gyda'r Awdurdodau Lleol ac yn fwy byth yn ystod y pandemig ac wrth symud ymlaen. Mae'r cyd-ymdrech a'r gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE yn sicrhau llywodraethiant gref a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
- Un o brif gryfderau'r gwaith ar draws Gogledd Cymru fu'r negeseuon cyson gan y chwe awdurdod lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sy'n gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Mae ymgysylltiad llawn rhanddeiliaid drwy amrywiol fforymau o fewn y drefn lywodraethu ffurfiol, a thu allan iddi.
- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol.
- Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus

ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector, a gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial.

- Mae GwE yn annog i'w randdeiliaid ymgysylltu a rhoi adborth drwy ystod eang o ddulliau cyfathrebu ac ymgysylltu. Dyma enghreifftiau: presenoldeb mewn cyfarfodydd Ffederasiwn Penaethiaid; grwpiau clwstwr; bwletin wythnosol; cyfryngau cymdeithasol ac ati.

- Cynhyrchodd GwE gyfres o adroddiadau a rannwyd â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Yn yr adroddiadau hyn, ceir safbwyntiau ysgolion, staff a'r awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion y rhanbarth. Mae pob adroddiad yn disgrifio ansawdd y ddarpariaeth ac yn adnabod meysydd ar gyfer gwelliant i yrru'r agenda ddysgu ymlaen.
    - Cyd-ymdrech a gweithredu rhanbarthol effeithiol rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE.
    - Mae cydweithio wedi sicrhau llywodraethiant gadarn a chysondeb rhanbarthol o ran y cymorth, y negeseuon a'r canllawiau a roddir i ysgolion.
    - Sefydlu llinellau cyfathrebu clir gyda rhanddeiliaid allweddol.
    - Adroddiadau i'r Cyd-Bwyllgor
    - Cyfarfodydd â'r Bwrdd Rheoli a'r Deilyddion Portffolio Addysg - penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol.
    - Rhannu diweddariadau cyson a sicrhau cyswllt a chymorth.
    - Rhannu gwybodaeth, negeseuon allweddol a ffrydiau gwaith â'r ALl/Aelodau Etholedig.
    - Diweddaru rhanddeiliaid allweddol ar amrywiol faterion GwE.
    - Rhannu gwybodaeth ranbarthol a sicrhau negeseuon cyson.
    - Sicrhau cysondeb o ran gwybodaeth genedlaethol a rhanbarthol.
    - Sicrhau cyfathrebu effeithiol.
    - Paratoi a chydlynu cyfarfodydd rhanbarthol, er enghraifft y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor.
    - Cysylltu â rhanddeiliaid allweddol.

- Bu gwaith tîm, gweithio ar y cyd a chydweithredu hefyd wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion. Mae GwE wedi annog ysgolion i gydweithio drwy rannu arferion a chyd-lunio meysydd sydd angen eu gwella. Rydym wedi buddsoddi mewn amrywiol fodelau clwstwr, cynghreiriau a rhwydweithiau ac wedi annog ysgolion i ganfod ystod o bartneriaid priodol i gyflawni gwelliannau a newidiadau. Mae pob ysgol yn y rhanbarth yn rhan o glwstwr neu fforwm, lle gallant ddod ynghyd i drafod materion gweithredol yn ogystal â rhannu'r arferion gorau. Bu'r cydweithio hwn, a hwylusir gan staff GwE, yn llwyddiannus iawn, ac mae'n gosod sylfaen gadarn iawn i waith yn y dyfodol a'r berthynas waith ar draws y rhanbarth.

- Mae'r rhanbarth hefyd wedi edrych tuag allan am arferion da o ran adnabod modelau effeithiol ar gyfer adolygu cymheiriaid, yn ogystal ag annog ein hysgolion i ddatblygu ac esblygu eu harferion eu hunain. Cred GwE y dylai gwaith ymgysylltu â chymheiriaid gyd-fynd â'r dimensiynau a nodir yng nghyhoeddiad yr OECD 'What Makes a School a Learning Organisation'. Mae'r egwyddorion ynghlwm yn rhan o bob Dysgu Proffesiynol ac ar draws GwE.

- Mae pedair thema drawsliniol sy'n rhedeg drwy gydol y gwaith hwn, ac sy'n greiddiol i ddatblygu sefydliad sy'n dysgu, sef Ymddiriedaeth, Amser, Technoleg a Meddwl Gyda'n Gilydd. Bu'r rhain yn sylfaenol ar gyfer datblygu ffordd GwE o fynd ati i ddatblygu partneriaethau cryf gan fod ymddiriedaeth yn sylfaen i'r berthynas sydd ei hangen, yn fewnol ac yn allanol, er mwyn i sefydliadau sy'n dysgu ffynnu.

- Ers pum mlynedd, bu cytundeb â Phenaethiaid ar gyfres o egwyddorion rhanbarthol ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid. Cytunwyd ar fodel adolygu cymheiriaid a chynllunio gwelliant (sef y Rhaglen Partneriaeth Ysgolion [SPP]), a gymeradwywyd gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor. Mae holl YCG GwE wedi cael hyfforddiant a chymorth parhaus ar adolygu cymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi ac mae rhaglenni ar waith i gynnig hyfforddiant ar y RhPY i'r 407 o ysgolion yn y rhanbarth a'r Unedau Cyfeirio.

- Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y canllawiau a'r wybodaeth newydd ar wella ysgolion a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd. Mae GwE yn

parhau i gydweithio ag ysgolion a lleoliadau i ddatblygu a mireinio prosesau hunan arfarnu ysgolion yn rhan o'u proses gwella strategol.

- Mae GwE a'r Awdurdodau Lleol yn cydweithio'n agos ac wedi sefydlu Gweithgor Gorchwyl a Gorffen Canllawiau Gwella Ysgolion Rhanbarthol i ddatblygu dull gweithredu rhanbarthol i adnabod, creu, cyflwyno a monitro Cynlluniau Cymorth Ysgolion. Mae'r grŵp yn edrych ar lwybrau posibl i gryfhau'r cydweithio ar draws yr Awdurdodau Lleol i ddatblygu cynhwysedd a sicrhau mwy o gysondeb yn y gefnogaeth a sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull gweithredu holistaidd a thryloyw o ran adrodd ar wybodaeth a rhannu gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| Egwyddor C | Diffinio deilliannau o ran manteision economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol sydd yn gynaliadwy. |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Nodir gweledigaeth gyffredinol GwE yn y cynllun busnes tair blynedd ac fe'i cryfheir ymhellach yn y cynllun busnes blynyddol.
- Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau'r prosesau hunan arfarnu mewnol, ac adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Rhydd y Cynllun Busnes sylw hefyd i flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru a'r Awdurdodau Lleol, sydd o fewn cylch gorchwyl GwE. Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r arweinydd craidd.
- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE ac yn nodi'n glir cyfraniad y gwasanaeth at yr agenda trawsnewid. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae hunan arfarnu yn nodwedd gref yn GwE ac mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae GwE hefyd wedi datblygu Strategaeth Arfarnu ac Effaith fel y gall arfarnu a chofnodi'n glir effaith ei waith yn unol â'i swyddogaeth gwella ysgolion graidd, ac fel y gall fodloni'n llawn y disgwyliadau a amlinellir yn y Canllawiau Gwella Ysgolion. Pwrpas y Strategaeth yw nodi'n glir sut y bydd GwE yn rhan o brosesau arfarnu parhaus yn unol â'i ymrwymiad i ddatblygu diwylliant o welliant parhaus fel sefydliad sy'n dysgu. Bydd y prosesau hunan arfarnu hyn yn tynnu ar

amrywiaeth o ffynonellau ansoddol a meintiol sy'n cefnogi ysgolion i weithio tuag at y blaenoriaethau cenedlaethol.

- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor wybod amdanynt. Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| Egwyddor D | Penderfynu ar yr ymyraethau sydd yn angenrheidiol i optimeiddio cyflawniad y deiliannau penodol |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r Bwrdd Rheoli yn monitro materion yn ymwneud â llywodraethiant yn barhaus ac mae gan GwE weithdrefnau ar waith i sicrhau bod cyfarfodydd y Cyd-bwyllgor yn cael eu cynnal yn effeithiol a bod y broses o wneud penderfyniadau yn un effeithiol. Lluniwyd cyfres o adroddiadau a'u rhannu â'r Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor yn ystod y flwyddyn. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys barn ysgolion, staff ac awdurdodau lleol ar effeithiolrwydd arferion rhanbarthol. Ym mhob adroddiad, disgrifir ansawdd y ddarpariaeth a nodir y meysydd i'w gwella er mwyn gyrru'r agenda dysgu yn ei blaen.

- Mae ymweliadau rheolaidd gan AEM Estyn drwy'r Arolygydd Cyswllt y Consortia Rhanbarthol yn rhoi adborth cadarnhaol iawn yn gyson ar y canlynol:
  - Cyfeiriad Strategol y Gwasanaeth
  - Aeddfedrwydd cynyddol yn y bartneriaeth gydag Awdurdodau Lleol
  - Ansawdd y gefnogaeth i ysgolion unigol
  - Cywirdeb canfyddiadau GwE yn cyfateb i rai arolygwyr
  - Ystod ac ansawdd y Dysgu Proffesiynol a gynigir
  - Proses Cynllunio Busnes trylwyr o ansawdd uchel
  - Ysgolion yn gwneud sylwadau cyson ar ansawdd y gefnogaeth a natur gefnogol y gwaith gyda GwE

- Mae gan GwE Gytundeb Rhyng-Awdurdod (CRhA) sydd yn nodi'r glir sut y mae'r Cyd-Bwyllgor yn gweithredu a sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud a sut mae angen dilyn gweithdrefnau er mwyn sicrhau effeithlonrwydd, tryloywder ac atebolrwydd.

- Mae'r Cyd-Bwyllgor yn gyd-bwyllgor sydd wedi'i gyfansoddi gan y Cynghorau dan Adran 101(5) ac 102 (1) Deddf Llywodraeth Leol 1972 ac Adran 20 Deddf Llywodraeth Leol 2000. Mae cyfarfodydd y Cyd-Bwyllgor yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 1972 gan gynnwys y darpariaethau ar fynediad at wybodaeth a chyfarfodydd a gynhelir yn gyhoeddus.

- Mae gan aelodau'r Cyd-bwyllgor a'r cyhoedd y fantais o allu gweld, yn llawn, papurau'r Cyd-Bwyllgor a gwybodaeth ategol.

- Bydd y Cyd-Bwyllgor yn cyfarfod o leiaf dair gwaith y flwyddyn.

- Yn y CRhA, nodir dau gategori o benderfyniadau ynghyd â'r modd y cânt eu gwneud, sef:
  - 'Mater Cyd-Bwyllgor' - sef mater i'w benderfynu mewn cyfarfodydd cworwm (3 aelod â phleidlais) o'r Cyd-Bwyllgor gan y rheiny sydd yn bresennol ac â'r hawl i bleidleisio a bydd y cyfryw benderfyniad yn rhwymo pob Cyngor;
  - 'Mater a gedwir yn ôl i'r Cynghorau' - sef mater y bydd yn rhaid ei gyfeirio at bob Cyngor i benderfynu arno, er mwyn osgoi amheuaeth, ni fydd y Cyd-Bwyllgor yn delio gyda

unrhyw fater fel hyn (yn ôl y galw) nes bydd y mater wedi'i benderfynu gan yr holl Gynghorau. Pe bydd y Cynghorau yn methu cyrraedd yr un penderfyniad efo mater fel hyn, yna cyfeirir y mater o dan Datrys Anghydfod fel anghydfod i'w ddatrys.

- Cylch gorchwyl a phwerau dirprwyedig y Cyd-Bwyllgor yw hybu cydweithio wrth ddarparu'r Gwasanaeth drwy:
  - hwyluso gwaith partneriaeth buddiol;
  - cysylltu â chyrff a rhanddeiliaid allweddol â buddiant, pan fo'n briodol;
  - cyflawni gweithgareddau eraill a fwriedir i hwyluso, neu sydd yn arwain at ddarparu'r Gwasanaeth yn llwyddiannus;
  - goruchwylio gwaith rheoli'r Gwasanaeth a sicrhau bod y Gwasanaeth yn cael ei ddarparu ac yn perfformio yn unol â disgwyliadau'r Awdurdodau Partner fel y nodir yn yr Achos Busnes Llawn, y Cytundeb Rhyng-Awdurdod a'r Cynllun Busnes a'r Cynlluniau Comisiynu cytûn;
  - cymeradwyo cyllideb y Gwasanaeth pob blwyddyn;
  - cymeradwyo cynllun busnes y Gwasanaeth pob blwyddyn;
  - monitro a rheoli'r risgiau sydd yn gysylltiedig â'r Gwasanaeth;
  - cadarnhau ceisiadau gan y Gwasanaeth am arian cyllideb ychwanegol gan Gynghorau unigol;
  - cymeradwyo strwythur staffio'r Gwasanaeth;
  - penodi Rheolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaeth;
  - penderfynu ar gamau disgyblu yn erbyn y Rheolwr Gyfarwyddwr;
  - ble'n ofynnol, pennu neu drefnu i bennu apeliadau mewn perthynas â materion Adnoddau Dynol.

- Cefnogir y Cyd-Bwyllgor gan Fwrdd Rheoli sydd â'r cylch gorchwyl hwn:
  - Cyd-lunio'r Cynllun Busnes blynyddol, gan gynnwys yr atodiadau unigol i adnabod gofynion penodol ar lefel ALl unigol;
  - Monitro cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a'r deilliannau a nodir yn y Cynllun Busnes yn rheolaidd;
  - Cael trefniadau ar waith i sicrhau bod mesurau a systemau rheoli ariannol GwE yn gadarn;
  - Darparu cyngor proffesiynol i'r Cyd-Bwyllgor o ran penodi'r Rheolwr Gyfarwyddwr;
  - Adrodd yn rheolaidd i'r Cyd-Bwyllgor.

- Mae GwE wedi myfyrio'n barhaus ar effeithiolrwydd y gwaith. Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w cymunedau ysgolion yn ystod pandemig COVID. Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro yn ystod y cyfnod COVID er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, yn draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraff allanol.

- Mae GwE yn parhau i edrych tuag allan a chroesawu her oddi mewn i Gymru, a thu hwnt, tra sicrheir bod yr hyn a ddatblygir yn addas i'r cyd-destun. Mae hyn yn cynnwys gwrando'n barhaus ar lais pob rhanddeiliad, yn enwedig llais athrawon ac arweinwyr ysgolion ym mhob sector, a gwrando ar blant a phobl ifanc wrth iddynt ddysgu a'u cefnogi i gyrraedd eu potensial.

- Defnyddiwyd adnoddau mewnol ac allanol i sicrhau bod gennym ni bersbectif cytbwys ar ansawdd y gwaith. Mae hyn wedi cynnwys gweithio gyda'r Education Development Trust, OECD, Llywodraeth yr Alban a Chonsortia Rhanbarthol eraill i ddatblygu'r sefydliad a chynllunio seilwaith y dyfodol.

- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.

- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy'r broses hunanarfarnu, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.

| | |
|---|---|
| Egwyddor E | Datblygu capasiti yr endid, gan gynnwys gallu ei arweinwyr a'i unigolion. |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae staff GwE wedi ail-bwrpasu eu gwaith yn briodol at ddibenion gwahanol dros y blynyddoedd diwethaf i barhau i ddarparu gwasanaethau effeithiol a chymorth i'w holl gymunedau o ysgolion yn ystod pandemig Covid-19 ac wedyn.
- Mae'r cyfathrebu a'r ymgysylltu o fewn strwythur arweinyddol GwE yn rheolaidd ac yn glir. Gwnaethpwyd penderfyniadau strategol a gwleidyddol allweddol gyda eglurder a hyder. O ganlyniad, cafwyd negeseuon cyson gan yr awdurdodau lleol trwy eu deilyddion portffolio addysg gwleidyddol a'r cyfarwyddwyr sydd yn gweithio gyda GwE er sicrhau un neges gyffredin i ysgolion Gogledd Cymru. Nid ysgolion yn unig sydd wedi croesawu'r negeseuon cyson hyn, ond fe'u croesawyd hefyd gan undebau athrawon ac undebau eraill, sydd oll wedi gwerthfawrogi'r eglurder a'r gefnogaeth i'w haelodau staff.
- Mae staff GwE wedi addasu eu gwaith er mwyn parhau i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth effeithiol i'w holl gymunedau ysgolion. Mae GwE wedi aros yn dryw i'w weledigaeth a'i werthoedd fel sefydliad sy'n parhau i ddysgu.
- Wrth wraidd y gwaith gydag ysgolion a phartneriaid y bu themâu trawsliniol Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), sef Ymddiriedaeth, Meddwl Gyda'n Gilydd, Amser a Thechnoleg.
- Mae'r gwasanaeth yn ei gyfanrwydd wedi ailgyfeirio sawl tro hwn er mwyn bodloni anghenion yr ystod o randdeiliaid. Mae'r gallu i fod yn hyblyg ac ystwyth a chydweithio yn effeithiol mewn gwahanol dimau, a hynny'n draws sector yn aml, wedi cael effaith sylweddol ar ymddygiad sefydliadol ac argraffiadau allanol. Wrth wraidd yr ailgyfeirio y bu'r angen i sicrhau bod lles arweinwyr ysgolion, eu staff a'u dysgwyr o'r pwys mwyaf wrth wneud penderfyniadau a sicrhau y gall y gwasanaeth gyfeirio'n gywir y lefel briodol o gefnogaeth, boed hynny'n gefnogaeth weithredol neu broffesiynol.
- Mae cysondeb ac ansawdd yr her a'r cymorth i ysgolion yn dda. Mae hyfforddiant, cymorth a thrafodaethau yn sicrhau bod gwybodaeth a dealltwriaeth Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant o ddatblygiadau cenedlaethol a lleol, a goblygiadau hyn i'w rôl, yn dda.
- Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn parhau i ddatblygu ac esblygu yn unol â datblygiadau ac egwyddorion cenedlaethol. Parhaodd y broses Adolygiad Proffesiynol Blynyddol yn ystod y flwyddyn.
- Cyflëir negeseuon a gwybodaeth yn glir ac yn rheolaidd i bob gweithiwr. Cynigir rhaglenni cefnogaeth generig, pwrpasol ac effeithiol. Mae cyfarfodydd tîm llawn a sector yn cynnig cyfleoedd rheolaidd i gydweithio, ymgynghori a chyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau yn ymwneud â chyfeiriad gwaith GwE yn ystod cyfnod o newid sylweddol.

- Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r Athro Graham Donaldson ers dechrau Gwanwyn 2021 i ddatblygu ei staff er mwyn iddynt allu cefnogi ysgolion yn effeithiol efo'r cwricwlwm newydd.

| | |
|---|---|
| Egwyddor F | Rheoli risgiau a pherfformiad drwy fesurau rheoli mewnol cadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref. |
| Asesu | Sicrhawyd |


Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae'r fframwaith atebolrwydd clir a grymus yn gryfder allweddol yn GwE. Mae cynlluniau busnes manwl ar bob lefel o gynllunio yn mynd i'r afael â phob agwedd ar waith GwE. Yn y cynlluniau, ceir meini prawf llwyddiant clir a cherrig milltir ar gyfer cyflawni'r amcanion hynny.
- Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol bob chwarter, i'r Cyd-bwyllgor.
- Ceir trefniadau hunan arfarnu manwl. Adolygir y cynlluniau pob chwarter, ble arfarnir cynnydd ac effaith. Mae staff, ar bob lefel, yn llawn ddeall eu cyfrifoldeb dros welliant parhaus ac atebolrwydd.
- Mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl sydd wedi'i gytuno rhwng y pennaeth gwasanaeth a'r ymgynghorydd craidd. Caiff cynnydd tuag at gyflawni'r deilliannau cytûn, ar lefel awdurdod lleol, ei fonitro pob chwarter a'i drafod yn rheolaidd mewn cyfarfodydd rhwng yr ymgynghorydd arweiniol a'r Awdurdod Lleol. Caiff materion parhaus eu cyfeirio at Uwch Arweinwyr GwE yn amserol.
- Mae'r broses hunan arfarnu yn un gylchol a pharhaus. Rhoddir pwys mawr ar atebolrwydd ac adolygu parhaus, ac mae pwyslais cyson ar gynnydd yn unol â'r blaenoriaethau.
- Mae gan y consortiwm brosesau rheolaeth ariannol effeithiol ar waith. Mae cyfathrebu ac ymgynghori ynghylch trefniadau ariannol yn effeithiol, gyda staff GwE, yr awdurdod lleol lletyol a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r cyllid craidd a'r gwariant grant yn rheolaidd.
- Mae dadansoddiad ariannol cadarn yn sail i gyflawni'r cynllun busnes. Mae cynllun ariannol tymor canolig a chynllun gweithlu yn cyd-fynd â'r cynllun busnes. Drwy ddefnyddio data yn gynyddol effeithiol i adnabod blaenoriaethau allweddol, cryfheir y cyswllt rhwng y broses cynllunio busnes a phenderfyniadau cynllunio ariannol gan fod y ffrydiau gwaith sy'n sail i'r cynllun busnes yn nodi'n glir yr adnoddau i'w defnyddio.
- Lluniwyd fframwaith ffurfiol i asesu'r gwerth am arian ehangach a ddarperir gan GwE. Mae'r farn bellach yn gyson ar draws yr holl randdeiliaid ar sut y gellir mesur gwerth am arian gweithgareddau GwE o fewn strwythur ac amcanion y cynllun busnes.
- Mae trefniadau trylwyr a chynhwysfawr ar waith i adnabod a rheoli, yn fanwl gywir, risgiau ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol. Mae'r gofrestr risg yn ddogfen fyw, a chaiff ei diweddaru'n gyson i adnabod risgiau sy'n cynyddu, neu risgiau na fernir sy'n lefel uchel mwyach. Fe'i hadolygir pob mis mewn cyfarfod uwch arweinyddol a bydd y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-Bwyllgor yn adolygu'r gofrestr pob chwarter.
- Trwy reoli'r risgiau i'r rhanbarth yn effeithiol, gall GwE gefnogi amcanion y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

| | |
|---|---|
| Egwyddor G | Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio er mwyn rhoi atebolrwydd effeithiol |
| Asesu | Sicrhawyd |

Sut ydym yn gwneud hyn:

- Mae gweithdrefnau grymus ar waith yn rhanbarthol ac yn lleol i osod cyfeiriad a dwyn y Gwasanaeth Effeithiolrwydd Ysgolion Rhanbarthol (GwE) i gyfrif. Mae rôl benodol y gwasanaeth mewn gwella ysgolion yn amlwg ac yn glir i'r holl randdeiliaid.
- Mae strategaethau, polisïau a phrosesau eglur iawn ar waith ar gyfer gwella'r berthynas rhwng y chwe awdurdod lleol a GwE, ac a ddeellir gan yr holl randdeiliaid.
- Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol.
- Mae cyfarfodydd Cyd-Bwyllgor GwE yn rhai agored a chyhoeddir yr holl bapurau ar wefan yr awdurdod lletyol (Cyngor Gwynedd) a gwefan GwE.
- Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Mae gan GwE atebolrwydd blynyddol i amrywiol randdeiliaid ar draws y flwyddyn, fel y gwelir yn y diagram hwn.




Tud. 77

- Mae GwE yn 'gorff perthnasol' sydd yn gorfod cynnal system archwilio mewnol ddigonol ac effeithiol o'i gofnodion cyfrifo a'i system reolaeth fewnol. Er mwyn cydymffurfio â'r gofynion statudol hyn, darperir gwasanaeth archwilio mewnol yr awdurdod lletyol i GwE, yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae'r Safonau yn berthnasol i bob darparwr gwasanaeth archwilio mewnol i'r sector cyhoeddus, boed yn wasanaeth mewnol, yn un a rennir, neu'n allanol.
- Mae'r broses ganlynol i adnabod yr angen am archwilio mewnol a gweithredu ar yr argymhellion mewn lle:
  - Nodi'r angen am archwiliad mewn meysydd penodol. Lle bo'n bosibl, bydd y cynllun gwaith hwn yn cael ei ddatblygu trwy ystyried cofrestri risg, adroddiadau perfformiad, cynlluniau busnes ac ati.
  - Cyfarfod rhwng Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol a Rheolwr Gyfarwyddwr GwE.
  - Cytuno ar y rhaglen archwilio ar gyfer y flwyddyn efo'r Bwrdd Rheoli.
  - Rhannu cynnwys y rhaglen â'r Cyd-Bwyllgor.
  - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i gynnal yr archwiliadau.
  - Rhannu adroddiadau archwilio drafft â rheolwyr perthnasol GwE er cywirdeb a chytuno ar gamau gweithredu i roi sylw i unrhyw risg.
  - Uned Archwilio yr awdurdod lletyol i anfon adroddiadau archwilio at Reolwr Gyfarwyddwr a rheolwyr perthnasol GwE.
  - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar y camau gweithredu (materion gweinyddol ble nad oes angen cynnwys y Cyd-Bwyllgor).
  - Rheolwr Gyfarwyddwr GwE i rannu adroddiadau archwilio unigol â'r Bwrdd Rheoli.
  - Rheolwr Archwilio yr awdurdod lletyol i gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyd-bwyllgor ar unrhyw archwiliadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.
  - Swyddogion perthnasol GwE i weithredu ar benderfyniadau'r Cyd-Bwyllgor.
  - Swyddogion GwE i adrodd am gynnydd i'r Cyd-bwyllgor fel bo angen.
- Mae GwE wedi llwyddo i reoli a gwerthuso ei hun yn rheolaidd. O ganlyniad, bu barn cyrff atebolrwydd allanol yn gadarnhaol.

**Rhan 4: MATERION LLYWODRAETHU ARWYDDOCAOL**

4.1 Noda'r asesiad uchod nad oes unrhyw faterion sydd yn fater llywodraethu arwyddocaol.


4.2 Mae pob maes llywodraethu wedi'u hadolygu yng nghyd-destun sut mae ysgolion a lleoliadau addysgol yn parhau i wynebu heriau'r pandemig ac rydym yn fodlon bod GwE wedi gallu addasu ei drefniadau gweithio er mwyn delio gyda'r argyfwng hwn.

**Rhan 5: ADNABOD MATERION LLYWODRAETHU**

5.1 Ni adnabuwyd Materion Llywodraethu yn 2022/23.

**Rhan 6: BARN**

Rydym o'r farn bod y trefniadau llywodraethu a ddisgrifir uchod yn cynnig sicrwydd cryf bod ein trefniadau llywodraethu yn gweithio'n dda.



**Swyddog Arweiniol GwE**

**Dyddiad:** 12/07/2023

ARWYN LLOYD THOMAS

Rheolwr Gyfarwyddwr GwE



**Cadeirydd Cydbwyllgor GwE**

**Dyddiad:** 12/07/2023

Y CYNGHORYDD JULIE FALLON

# Geirfa

**Amhariad** – Lleihad yng ngwerth cario ased sefydlog oddi tan ei werth cario (oherwydd darfodedigrwydd, difrod neu newid croes mewn amgylchedd statudol).

**Ased** - Eitem o werth sydd yn cael ei fesur mewn cyd-destun pris.

- Caiff ased cyfredol ei dreulio neu gall golli gwerth ariannol materol o fewn y flwyddyn ariannol nesaf.
- Mae ased anghyfredol yn darparu budd i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n ddarparu am gyfnod o dros flwyddyn.

**Balansau (neu Reserfau)** - Mae'r rhain yn cynrychioli cyllid cronedig sydd ar gael i'r Cyngor. Caiff rhai balansau (reserfau) eu clustnodi ar gyfer pwrpas penodol i ariannu menterion diffiniedig yn y dyfodol neu i gwrdd â risg neu ymrwymiadau gaiff eu hadnabod.

**CIPFA (Chartered Institute of Public Finance and Accounting)** – Sefydliad proffesiynol ar gyfer cyfrifwyr sy'n gweithio yn y sector gyhoeddus.

**Costau Gwasanaeth Cyfredol** – Cynnydd mewn gwerth cyfredol ar ymrwymiadau cynllun pensiwn diffiniedig a ddisgwylir i godi o wasanaeth gweithiwr yn y cyfnod presennol.

**Credydwyr** - Symiau yn ddyledus gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, sydd â thaliadau heb eu gwneud erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Cronfa Gyffredinol** - Prif gronfa refeniw'r Cyngor sydd yn cynnwys cost net holl wasanaethau a ariennir gan drethdalwyr lleol a grantiau Llywodraeth.

**Cynllun Buddiannau Diffiniedig** – Pensiwn neu fudd ymddeoliad arall sydd ddim yn cynnwys cynllun cyfraniad diffiniedig.

**Cynllun Cyfraniadau Diffiniedig** – Pensiwn neu gynllun budd ymddeoliad arall lle gwelir gweithiwr yn cyfrannu symiau penodol rheolaidd fel swm neu ganran o'r cyflog, a ni fydd rhwymedigaeth gyfreithiol nac adeiladol i dalu cyfraniadau pellach petai'r cynllun ddim ag asedau digonol i dalu buddion i'r holl weithwyr mewn perthynas â gwasanaeth y gweithiwr yn y cyfnod presennol a blaenorol.

**Darpariaeth** – Rhwymedigaeth sydd ag amseru neu swm ansicr, sydd i'w gael ei dalu drwy drosglwyddo buddion economaidd.

**Dyledwyr** - Symiau yn ddyledus i'r Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaeth a dderbyniwyd, o fewn y cyfnod cyfrifo, sydd â thaliadau heb eu derbyn erbyn diwedd y cyfnod cyfrifo.

**Eiddo Buddsoddi** – Eiddo sydd yn bwrpasol ar gyfer ennill incwm rhent neu ar gyfer arbrisiant cyfalaf, neu'r ddau.

**Enillion a Cholledion Actiwaraidd** - Ar gyfer cynllun pensiwn diffiniedig, mae'r newidiadau mewn gwarged actiwaraidd sydd yn codi oherwydd bod digwyddiadau heb gyd-daro gyda rhagdybiaeth actiwaraidd a wnaed ar gyfer y prisiad diwethaf (profiad enillion a cholledion) neu mae'r rhagdybiaeth actiwaraidd wedi newid.

**Gwariant Cyfalaf** - Gwariant caffael ar ased anghyfredol, a gaiff ei ddefnyddio wrth ddarparu gwasanaeth tu hwnt i'r cyfnod cyfrifo neu wariant sydd yn cyfrannu, a ddim yn unig yn cynnal, at werth ased anghyfredol.

**Gwerth Teg** - Y pris a dderbynnir i werthu ased, neu delir i drosglwyddo ymrwymiad mewn trafodyn trefnus rhwng cyfranwyr i'r farchnad ar ddyddiad y mesuriad.

**Offerynnau Ariannol** - Unrhyw gytundeb sydd yn cynyddu ased un endid ac ymrwymiadau ariannol neu offeryn ecwiti un arall. Mae'r term yn cynnwys asedau ariannol ac ymrwymiadau ariannol, o fasnach dderbyniadwy (anfoneb ddyledus) a masnach daladwy (anfoneb i'w casglu) i ddeilliadau cymhleth a deilliadau wedi eu mewnblannu.

**Partïon Cysylltiedig** - Caiff partïon eu hystyried i fod yn gysylltiedig os oes gan un parti'r gallu i reoli'r parti arall neu i ymarfer dylanwad penodol dros y parti arall wrth wneud penderfyniadau ariannol neu weithredol.

**Reserfau** - Swm a bennir i un ochr ar gyfer pwrpas penodol mewn un flwyddyn gaiff ei gario ymlaen i gyfarfod ymrwymiadau'r dyfodol.

**Rhestr Eiddo** - Niferoedd stoc heb eu defnyddio sy'n cael eu dal gyda'r disgwyliad o'u defnyddio yn y dyfodol. Fe gawn eu categoreiddio fel nwyddau neu asedau eraill a brynwyd i'w gwerthu ymlaen, nwyddau traul, defnydd crai a chyfansoddion, nwyddau a gwasanaeth mewn camau canolog rhwng cwblhad a gorffenedig.

**Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (SAARh)** – Cyfres o safonau cyfrifo a ddefnyddir ar draws y byd. Rhaid iddynt gael eu defnyddio gan bob endidau sy'n adrodd i bob datganiad cyllidol er mwyn darparu darlun gwir a theg o safle ariannol yr endid, ac fel ffordd i gysoni a chymharu gyda datganiad cyllidol endidau eraill.

**Ymrwymiadau** – Symiau sydd yn ddyledus i unigolion neu sefydliadau fydd yn orfodol i'w dalu ar ryw ben yn y dyfodol.

**Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor GwE**

**Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2023, ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw: ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

**Sail y farn**

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

**Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol**

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyd-Bwyllgor GwE i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol o gyfrifeg am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y mae'r datganiadau ariannol wedi'i hawdurdodi i'w cyhoeddi.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Datganiad o'r Cyfrifon heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno. Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

**Barn ar faterion eraill**
Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paraowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

**Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad**
Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.
Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

**Cyfrifoldebau**

**Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol**
Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyd-Bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-Bwyllgor GwE yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

**Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**
Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.
Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.
Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.
Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor GwE sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd

- y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn rheolwyr yn diystyru rheolaethau.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-Bwyllgor GwE, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor GwE; a
- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, Cyd-Bwyllgor GwE a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.
Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.
Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

**Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd**

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

**Tystysgrif cwblhau'r archwiliad**

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Rhagfyr 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyd-Bwyllgor GwE

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3939A2023

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd sy'n gweithredu ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon at Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

# Cynnwys

Rydym yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod ar eich Cyfrifon. Mae rhai materion y mae angen rhoi gwybod ichi amdanynt cyn eu cymeradwyo.


Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

Cyflwyniad 4

Barn archwilio arfaethedig 4

Materion arwyddocaol sy'n codi o'r archwiliad 5

Atodiadau

Atodiad 1 – Llythyr Sylwadau Terfynol 6

Atodiad 2 – Adroddiad Archwilio Arfaethedig 9

Atodiad 3 – Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed 14

# Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon

## Cyflwyniad

1 Rydym yn crynhoi prif ganfyddiadau ein harchwiliad o'ch cyfrifon ar gyfer 2022-23 yn yr adroddiad hwn.

2 Rydym eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Pennaeth Cyllid (Swyddog Adran 151) a'i dîm.

3 Nid yw archwilwyr byth yn gallu rhoi sicrwydd cyflawn bod cyfrifon wedi'u datgan yn gywir. Yn lle hynny, rydym yn gweithio i lefel o 'berthnasedd'. Pennir y lefel hon o berthnasedd i geisio adnabod a chywiro camddatganiadau a allai beri fel arall i'r sawl sy'n defnyddio'r cyfrifon gael ei gamarwain.

4 Pennwyd lefel perthnasedd o £377,000 ar gyfer archwiliad eleni.

5 Ceir rhai meysydd o fewn y cyfrifon a allai fod yn bwysicach i'r darllenydd ac rydym wedi pennu lefel perthnasedd is ar gyfer hyn, fel a ganlyn:

- Datgeliadau Partïon Cysylltiedig £10,000
- Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion £1,000

6 Rydym bellach wedi cwblhau archwiliad eleni yn sylweddol ond yn amodol ar gwblhau camau gweithdrefn archwilio terfynol. Os bydd unrhyw faterion yn codi o'r gwaith hwn, byddwn yn darparu diweddariad llafar yn y Pwyllgor.

7 Yn ein barn broffesiynol ni, rydym wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol sy'n berthnasol i'n gwaith; rydym yn annibynnol arnoch chi; ac nid yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu mewn unrhyw ffordd. Rydym wedi eich hysbysu'n flaenorol ynghylch bygythiad posib i annibyddiaeth a gwrthrychedd archwilydd sy'n deillio gyda'r Rheolwr Archwilio sy'n adnabod cyn-aelod o'r cyd-bwyllgor ag ymadawodd yn dilyn eholiadau mis Mai 2022. Gallwn gadarnhau bod y mesurau diogelu arfaethedig a nodwyd yn ein Cynllun Archwilio i liniaru'r bygythiad posibl wedi gweithredu fel y bwriadwyd.

## Barn archwilio arfaethedig

8 **Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni** unwaith y byddwch wedi rhoi Llythyr Sylwadau inni yn seiliedig ar yr hyn a nodir yn **Atodiad 1**.

9 Rydym yn cyhoeddi barn archwilio 'amodol' lle mae gennym bryderon perthnasol ynghylch rhai agweddau ar eich cyfrifon; fel arall rydym yn cyhoeddi barn ddiamod.

10 Mae'r Llythyr Sylwadau'n cynnwys ambell gadarnhad y mae'n ofynnol inni eu cael gennych chi dan safonau archwilio ynghyd â chadarnhad o wybodaeth benodol arall yr ydych chi wedi'i darparu ar ein cyfer yn ystod ein harchwiliad.

11 Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 2**.

# Materion Arwyddocaol sy’n codi o’r Archwiliad

## Camddatganiadau nas cywirwyd

12 Nid oes unrhyw gamddatganiadau wedi’u canfod yn y cyfrifon, sy’n dal heb eu cywiro.

## Camddatganiadau a gywirwyd

13 Roedd camddatganiadau yn y cyfrifon yn wreiddiol sydd bellach wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr. Fodd bynnag, rydym ni’n credu y dylid dwyn y rhain i’ch sylw a chânt eu nodi gydag esboniadau yn **Atodiad 3**.

## Materion Arwyddocaol eraill sy’n codi o’r Archwiliad

14 Yn ystod yr archwiliad, rydym yn ystyried nifer o faterion sy’n ymwneud â’r cyfrifon ac yn rhoi gwybod ichi am unrhyw faterion arwyddocaol sy’n codi. Nid oedd unrhyw faterion arwyddocaol yn codi eleni.

# Atodiad 1

## Llythyr Sylwadau Terfynol

[Pennawd llythyr]

Archwilydd Cyffredinol Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2022-23

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol y Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2023 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol â'r Côd Ymarfer ar Gyfrifo ar gyfer Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy; ac

dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a
  - mynediad digyfyngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt.

- canlyniadau ein hasesiad ni o’r risg y gallai’r datganiadau ariannol fod wedi’u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni’n ymwybodol ohono ac sy’n effeithio ar y Cyd-Bwyllgor GwE ac sy’n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai’r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol.
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy’n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol; ac
- gwybodaeth am bwy yw’r holl bartïon cysylltiedig a’r holl berthnasoedd â phartïon cysylltiedig a thrafodion yr ydym yn ymwybodol ohonynt.

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae’r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe’u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae’r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a’u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy’n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu’n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae’r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi’r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â’r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro.

## Sylwadau gan y Cyd-Bwyllgor

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Gyd-Bwyllgor GwE ar 6 Rhagfyr 2023.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

| Llofnodwyd gan: | Llofnodwyd gan: |
| --- | --- |
| | |
| Dewi Aeron Morgan | Y Cynghorydd Julie Fallon |
| Pennaeth Cyllid, Cyngor Gwynedd | Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE |
| 6 Rhagfyr 2023 | 6 Rhagfyr 2023 |

# Atodiad 2

## Adroddiad Archwilio Arfaethedig

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyd-Bwyllgor GwE

### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben yn 31 Mawrth 2023 o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyd-Bwyllgor GwE yn cynnwys y Dadansoddiad Gwariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llif Arian Parod, a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys crynodeb o bolisïau cyfrifyddu arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyd-Bwyllgor GwE ar 31 Mawrth 2023, ac o'i incwm a gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw: ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-2023.

### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol o Gyd-Bwyllgor GwE yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.

## Casgliadau sy’n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio’r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i’r casgliad bod defnyddio’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi’r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyd-Bwyllgor GwE i barhau i fabwysiadu’r sail gyfrifyddu busnes gweithredol o gyfrifeg am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad y mae’r datganiadau ariannol wedi’i hawdurdodi i’w cyhoeddi.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau’r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o’r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr Datganiad o’r Cyfrifon heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy’n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw’r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â’r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o’r fath neu wybodaeth berthnasol o’r fath sy’n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae’n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi’i wneud, os wyf yn dod i’r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi’i chamddatgan yn berthnasol, mae’n ofynnol i mi nodi’r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i’w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae’r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2022-23;
- mae’r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paraowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â’r datganiadau ariannol ac yn unol â’r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o Gyd-Bwyllgor GwE a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

## Cyfrifoldebau

### Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon, sy'n rhoi darlun cywir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau ariannol heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall; ac
- asesu gallu Cyd-Bwyllgor GwE i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyd-Bwyllgor GwE yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyd-Bwyllgor GwE sy'n ymwneud ag:
    - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
    - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
    - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn rheolwyr yn diystyru rheolaethau.
- cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyd-Bwyllgor GwE, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyd-Bwyllgor GwE yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyd-Bwyllgor GwE; a
- cael dealltwriaeth am berthnasoedd partïon cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr, Cyd-Bwyllgor GwE a chynghorwyr cyfreithiol ynghylch cyfreithiad a honiadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu a'r awdurdod gweinyddu; ac
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyd-Bwyllgor GwE, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyd-Bwyllgor GwE yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton
Archwilydd Cyffredinol Cymru
18 Rhagfyr 2023

1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 3

## Crynodeb o Gywiriadau a Wnaed

Yn ystod ein harchwiliad canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid ei ddwyn i'ch sylw yn ein tyb ni oherwydd eu perthnasedd i'ch cyfrifoldebau chi dros y broses adrodd ariannol.

**Arddangosyn 3: crynodeb o gywiriadau a wnaed**

| Cywiriad | Natur y cywiriad | Rheswm dros gywiro |
|---|---|---|
| **Y Fantolen:**<br>Cynyddodd yr ased net o £557,000.<br><br>Cynyddodd cyfanswm y reserfau na ellir eu defnyddio o £557,000.<br><br>**Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr:**<br>Gostyngodd addasiad gwarged pensiwn / terfyn ased o £557,000. | Nodyn 22 Costau Pensiwn – diwygiwyd yr ased pensiwn net sy'n ymwneud â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leoli gyfyngu ar swm y gwarged a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol.<br><br>Mae Safon Gyfrifyddu Ryngwladol 19 yn cyfyngu ar swm y gwarged pensiwn y gellir ei gydnabod, gan ystyried cyfraniadau a chostau yn y dyfodol. Mae'r 'terfyn ased' hwn yn cael ei egluro gan y Pwyllgor Dehongli Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol *'International Financial Reporting Standards Interpretations Committee (IFRIC)'* yn IFRIC 14 'Y Terfyn Ased Budd Diffiniedig, Isafswm Gofynion Cyllido a'u Rhyngweithio'.<br><br>Mae'r terfyn ased wedi'i gyfrifo gan actwari'r gronfa bensiwn.<br><br>Cynyddwyd yr ased cychwynol o £Dim i £557,000.<br><br>Roedd y gwelliant yn cynnwys tâl i'r Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall. Mae hyn hefyd wedi effeithio ar:<br>• Datganiad o'r symudiad mewn reserfau<br>• Nodyn 15 – Reserfau na ellir eu defnyddio | Sicrhau bod yr ased pensiwn net sydd wedi'i gynnwys yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 a IFRIC 14. |
| Bu hefyd amryw o ddiwygiadau naratif eraill o ganlyniad i'n gwaith. | | |

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru
1 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660
E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cydbwyllgor GwE** |
| **DYDDIAD** | 06 Rhagfyr 2023 |
| **TEITL** | **Cyllideb GwE 2023/24**<br><br>**Adolygiad hyd at ddiwedd Medi 2023** |
| **PWRPAS** | • Diweddaru aelodau'r Cydbwyllgor ar yr adolygiad ariannol diweddaraf o gyllideb GwE am y flwyddyn gyllidol 2023/24.<br><br>• Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar yr amrywiannau ariannol sylweddol, gydag Atodiad 1 yn cynnwys y wybodaeth ariannol gyflawn. |
| **ARGYMHELLIAD** | Derbyn yr adroddiad. |
| **AWDUR** | Rheolwr Gyfarwyddwr GwE a Phennaeth Cyllid Cyngor Gwynedd. |

## 1. CASGLIAD

1.1 Ar sail gwariant ac incwm hyd at ddiwedd Medi 2023 ac amcangyfrifon yn seiliedig ar eglurhad rheolwyr, mae'r adolygiad yma yn rhagweld gorwariant net o £36,614 erbyn diwedd y flwyddyn ariannol 2023/24.

1.2 Mae'r rhan ddilynol o'r adroddiad yma'n egluro'r rhesymau tu ôl i'r prif amrywiadau a ragwelir.

## 2. AMRYWIADAU ARIANNOL

2.1 **Gweithwyr:**
**Gorwariant £51,984**
Gorwariant yn dilyn trosglwyddiad cyllideb a gyfeirir ato yn 3.1, serch hynny mae'r gorwariant yn cael ei leihau oherwydd tanwariant yn dilyn trosiant staff, yn bennaf, dwy swydd barhaol sydd heb eu llenwi hyd yma. Mae gobaith y bydd y ddwy swydd wedi eu penodi cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

2.2 **Cludiant:**
**Tanwariant (£15,370)**
Mae disgwyl i'r gyllideb hon danwario eleni, ond yn agosach i niwtral nag yn y blynyddoedd diwethaf. Nid yw'r ysgolion bellach yn cael eu heffeithio yn uniongyrchol gan Covid, felly mae staff GwE yn gallu ymweld ag ysgolion fel y bo angen. Hon fydd y flwyddyn ariannol llawn cyntaf ble bydd lefelau teithio staff yn agosáu i lefelau cyn 2020. Er hynny, fe fydd yn fuddiol i weld os fydd y ffyrdd newydd o weithio'n rhithiol yn arwain at leihad mewn costau teithio yn y tymor hir.

## 3. ARBEDION I'W DARGANFOD

3.1 Yng Nghydbwyllgor GwE 15 Chwefror 2023, wrth sefydlu cyllideb 2023/24, gosodwyd targed arbedion cyfwerth â £102,112, oedd yn cyfateb i gynnydd costau am y flwyddyn. Yn ddarostyngedig i adborth y Prif Weithredwyr ar adolygu'r trefniadau gweithredu strwythur staffio presennol y gwasanaeth, bydd yr arbedion yn cael eu hysgwyddo yng nghyd-destun y strwythur yn ei gyfanrwydd. Gall hyn fod yn arbediad effeithlonrwydd neu yn doriad yn unol ag amserlen penderfynu y prif weithredwyr.

## 4. CRONFA TANWARIANT

4.1 Cyfanswm y gronfa ar gychwyn y flwyddyn ariannol 2023/24 oedd £298,632.

4.2 Amcangyfrifir bydd cyfanswm y gronfa yn £262,018 ar ddiwedd 2023/24, yn dilyn cyllido'r gorwariant a ragwelir uchod.

**ATODIADAU**

Atodiad 1: Cyllideb GwE 2023/24 – Adolygiad hyd at ddiwedd Medi 2023.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb

**Y Swyddog Cyllid Statudol:**

Cyd-awdur yr adroddiad

## CYD-BWYLLGOR GwE - CYNGHORAU GOGLEDD CYMRU - Adolygiad Cyllideb 2023/24 : Hyd at ddiwedd Medi 2023

| | Cyllideb Agoriadol £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | | | | | |
| Cyflogau | | | | | |
| - Rheolaeth, Comisiynu, Safonau a Gweinyddiaeth | 995,534 | (114,548) | 880,986 | 930,244 | 49,258 |
| - Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant | 4,204,304 | 1,050 | 4,205,354 | 4,208,079 | 2,725 |
| - Staff ar Secondiad | 202,023 | 94,921 | 296,944 | 296,944 | 0 |
| - Trosglwyddo yn erbyn 'Prosiectau Penodol' | (2,051,145) | | (2,051,145) | (2,051,145) | 0 |
| Hyfforddiant, hysbysebu a costau gweithwyr eraill | 47,384 | | 47,384 | 47,384 | 0 |
| | | | | | |
| Adeilad | | | | | |
| Rhent (yn cynnwys gwasanaethau) | 192,755 | 13,125 | 205,880 | 205,880 | 0 |
| Ad-daliad Defnydd 'Prosiectau Penodol' o'r ystafelloedd | (65,458) | | (65,458) | (65,458) | 0 |
| | | | | | |
| Cludiant | | | | | |
| Costau Teithio | 153,578 | (856) | 152,722 | 137,352 | (15,370) |
| | | | | | |
| Cyflenwadau a Gwasanaethau | | | | | |
| Dodrefn, offer, argraffu, post, ffôn, hurio stafelloedd ayb | 81,199 | | 81,199 | 81,199 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth (cyfraniad i gronfa adnewyddu) | 18,354 | | 18,354 | 18,354 | 0 |
| Ffioedd archwilio | 12,744 | | 12,744 | 12,744 | 0 |
| | | | | | |
| Comisiynu | 321,211 | | 321,211 | 321,211 | 0 |
| | | | | | |
| Costau Gwasanaethau Cefnogol Awdurdod Lletyol Cyngor Gwynedd | | | | | |
| Cyfreithiol | 6,371 | | 6,371 | 6,371 | 0 |
| Adnoddau Dynol | 10,924 | | 10,924 | 10,924 | 0 |
| Cyllid | 47,237 | | 47,237 | 47,237 | 0 |
| Technoleg Gwybodaeth | 52,245 | | 52,245 | 52,245 | 0 |
| | | | | | |
| Arbedion i'w darganfod | (102,112) | 102,112 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | |
| Ymrwymiadau Model Cenedlaethol | 469,948 | | 469,948 | 469,948 | 0 |
| | | | | | |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | 10,813,528 | (956,546) | 9,856,982 | 9,856,982 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | 1,125,850 | 19,550 | 1,145,400 | 1,145,400 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | 100,000 | | 100,000 | 100,000 | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | 257,118 | (71,051) | 186,067 | 186,067 | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | 658,964 | | 658,964 | 658,964 | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | 11,346 | (11,346) | 0 | 0 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | 10,625 | (10,625) | 0 | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg (Siarter Iaith) | 207,720 | | 207,720 | 207,720 | 0 |
| Ein Llais Ni | 210,900 | | 210,900 | 210,900 | 0 |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Gwariant** | **17,993,147** | **(934,215)** | **17,058,932** | **17,095,546** | **36,614** |

| | Cyllideb Agoriadol £ | Addasiadau £ | Cyllideb Diwygiedig £ | Gwariant Rhagwelir £ | Gor / (Tan) Wariant Net £ |
|---|---|---|---|---|---|
| **Incwm** | | | | | |
| Cyfraniadau ar gyfer costau rhedeg y gwasanaeth craidd | | | | | |
| - Cyngor Sir Ynys Môn (22/23: 10.14% - 23/24: 10.09%) | (443,336) | | (443,336) | (443,336) | 0 |
| - Cyngor Gwynedd (22/23: 17.59% - 23/24: 17.53%) | (770,232) | | (770,232) | (770,232) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy (22/23: 15.26% - 23/24: 15.17%) | (666,666) | | (666,666) | (666,666) | 0 |
| - Cyngor Sir Ddinbych (22/23: 15.48% - 23/24: 15.51%) | (681,484) | | (681,484) | (681,484) | 0 |
| - Cyngor Sir y Fflint (22/23: 22.67% - 23/24: 22.79%) | (1,001,422) | | (1,001,422) | (1,001,422) | 0 |
| - Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam (22/23: 18.86% - 23/24: 18.91%) | (831,077) | | (831,077) | (831,077) | 0 |
| Prosiectau Penodol | | | | | |
| Grant Gwella Ysgolion Consortia Rhanbarthol | (10,808,960) | 960,499 | (9,848,461) | (9,848,461) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Plant Mewn Gofal | (1,125,850) | (19,550) | (1,145,400) | (1,145,400) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cynghorydd Strategol | (100,000) | | (100,000) | (100,000) | 0 |
| Grant Datblygu Disgyblion - Cyllid Dan Arweiniad y Consortiwm | (257,118) | 71,051 | (186,067) | (186,067) | 0 |
| Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG) | (658,964) | | (658,964) | (658,964) | 0 |
| Trawsnewid Y System Ady | (11,346) | 11,346 | 0 | 0 | 0 |
| Fin-Ed Pathfinder Project | (10,625) | 10,625 | 0 | 0 | 0 |
| Fframwaith Defnydd O'r Gymraeg | (207,720) | | (207,720) | (207,720) | 0 |
| Ein Llais Ni | (210,900) | | (210,900) | (210,900) | 0 |
| Incwm Secondiadau | (202,023) | (94,921) | (296,944) | (296,944) | 0 |
| Incwm Arall | (5,424) | (4,836) | (10,260) | (10,260) | 0 |
| **Cyfanswm Incwm** | **(17,993,147)** | **934,215** | **(17,058,932)** | **(17,058,932)** | **0** |
| **Cyfanswm Cyllideb Net** | **0** | **0** | **0** | **36,614** | **36,614** |

**Memorandwm -**
**Y Gronfa Tanwariant**

| | |
|---|---|
| **Cyfanswm y Gronfa ar 1 Ebrill 2023** | **(298,632)** |
| Ychwaneger/Llai - (Tan)/Gorwariant am y flwyddyn gyllidol 2023/24 | 36,614 |
| Llai - Defnydd o'r Gronfa | 0 |
| **Cyfanswm y Gronfa ar 31 Mawrth 2024** | **(262,018)** |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

**Adroddiad gan:** Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE

**Testun:** Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE – Adroddiad monitro chwarter 1 a 2

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno adroddiad monitro chwarter 1 a 2 - Cynllun Busnes Rhanbarthol 2023-2024 GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

**2.1** Mae'r Cynllun Busnes yn amlinellu ein gweledigaeth, ein gwerthoedd a'n hymddygiad, a'r meysydd gwelliant â blaenoriaeth ar draws y rhanbarth.

**2.2** Mae'r blaenoriaethau rhanbarthol a'r meysydd ar gyfer gwelliant wedi'u gwreiddio'n gadarn ar ganfyddiadau ein prosesau hunan arfarnu mewnol, adolygiadau allanol o'n harferion presennol a chyfeiriad ein taith, a thrwy ymgynghori â Phenaethiaid a'r Awdurdodau Lleol. Mae ein blaenoriaethau yn gyfuniad o wella darpariaeth, arweinyddiaeth a deilliannau ysgolion, yn ogystal â chyflawni'r Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru.

**2.3** Adroddir ar gynnydd yn erbyn y Cynllun Busnes Rhanbarthol i'r Cyd-bwyllgor. Ynghlwm mae'r adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1 a 2.

**3.0 Ystyriaethau**

**3.1** Y Rheolwr Gyfarwyddwr a Chadeirydd y Bwrdd Rheoli sydd â chyfrifoldeb am gyflawni'r Cynllun Rhanbarthol fel swyddogion atebol. Y Cyd-bwyllgor sydd yn atebol yn y pen draw am gyflwyno'r cynllun.

**3.2** Mae Fframwaith Cynllunio Busnes GwE yn sicrhau eglurder a chytgord strategol wrth gyflawni blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Drwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu.

**3.3** Cefnogir y blaenoriaethau yma gan gynlluniau manwl y gwasanaeth sy'n nodi'r cymorth a'r ddarpariaeth sydd ar gael i bob ysgol yn y rhanbarth. Amlinellir sut a phryd y bydd pob blaenoriaeth yn cael ei chyflawni ac yn gosod disgwyliadau o ran y camau nesaf wrth gyflawni'r daith ddiwygio. Hefyd, mae gan bob Awdurdod Lleol gynllun busnes manwl y cytunwyd arno rhwng y Pennaeth Gwasanaeth a'r Arweinydd Craidd.

**3.4** Wrth drafod Adroddiad Blynyddol GwE 2022-23 yn y Cydbwyllgor ar 24/05/2023, awgrymwyd y byddai'n fuddiol cynnal gweithdai i'r dyfodol i drafod materion penodol mewn mwy o fanylder. Mewn ymateb i hynny, mae cyfres o weithdai wedi eu trefnu dros y misoedd nesaf ar y themâu a ganlyn:

- Fframwaith Gwella Ysgolion - Cynlluniau Cymorth i Ysgolion
- Pontio
- Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu
- Grant Datblygu Disgyblion / Plant mewn Gofal

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor gymeradwyo a derbyn yr adroddiad monitro ar gyfer chwarter 1 a 2.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw agweddau y dymunant eu trafod ymhellach mewn cyfarfodydd neu weithdai yn y dyfodol.

**5.0 Goblygiadau Ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'r adnoddau ariannol presennol.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-Bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Adroddiad monitro chwarter 1 a 2

Atodiad 2 – Data Rhanbarthol

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Rwyf yn fodlon na fydd gweithredu'r penderfyniad a geisir yn creu ymrwymiad gwariant ychwanegol. Nid oes gennyf sylwadau pellach o safbwynt priodoldeb ariannol.

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2023 – 2024

# Chwarter 1 & 2

# Adroddiad Cynnydd

## CYNNWYS

**Cynllun Busnes Rhanbarthol GwE 2023 – 2024**

- **Y blaenoriaethau a'r ddarpariaeth ranbarthol sydd yn cyfrannu at flaenoriaethau awdurdod lleol - Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 1 a 2**

1. **Atodiad:  Data Rhanbarthol**

## 1. CYNLLUN BUSNES RHANBARTHOL GwE

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2023 - 2024**

**Adroddiad Cynnydd ar Chwarter 1 a 2**

| **AMCAN 1 – GWELLA YSGOLION**<br>**Blaenoriaethau:**<br>**1.1 - Sicrhau bod pob ysgol yn cael ei chefnogi i werthuso yn fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol.**<br>**1.2 - Cefnogi arweinwyr i weithio ar y cyd i hyrwyddo safonau a dyheadau uchel i bawb.**<br>**1.3 - Cefnogi'r arweinyddiaeth mewn ysgolion i ddod yn gyfarwydd â'r canllawiau gwella ysgol newydd ac i fod yn barod at eu gweithredu.**<br>**1.4 - Cryfhau dulliau amlasiantaethol o weithio gydag ysgolion sy'n destun pryder**<br>**1.5 - Cryfhau gweithio partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.** |
|---|
| **GWELLA YSGOLION** |
| **Hunanarfarnu a chynllunio gwelliant**<br>**Gwella ansawdd arweinyddiaeth, dysgu ac addysgu a darpariaeth**<br>**Cryfhau dulliau amlasiantaethol a'r 'tîm o amgylch yr ysgol' gydag ysgolion sy'n destun pryder.**<br>**Cryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol.**<br>Cynhaliwyd gweithdai i gefnogi ysgolion i finiogi a chryfhau ymhellach eu prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant, ac fe wnaeth y mwyafrif helaeth o ysgolion y rhanbarth fynychu. Cynhaliwyd sesiynau dilynol pwrpasol mewn nifer o ysgolion a rhannwyd deunyddiau ac adnoddau ategol â'r holl ysgolion. Cafwyd adborth calonogol gan ysgolion, gyda llawer yn nodi eu bod wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o ofynion a disgwyliadau'r Canllawiau Gwella Ysgolion (CGY) newydd. Fodd bynnag, mae peth anghysondeb o hyd yn ansawdd cynllunio gwelliant, ac yn benodol, miniogrwydd geiriad blaenoriaethau. Mae angen cymorth pellach hefyd o ran miniogi a mireinio deilliannau disgwyliedig a nodir mewn Cynlluniau Gwella Ysgolion / Cynlluniau Gwella Adrannau (CauGY/CauGA).<br><br>Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) wrthi'n gweithio gydag ysgolion ar fireinio CauGY/CauGA a datblygu Cynlluniau Cymorth pwrpasol.<br><br>Ychwanegwyd nodweddion ychwanegol i'r templed Cynllun Cymorth, sy'n fodd i gynaeafu blaenoriaethau pan fo ysgolion wedi gwneud cais am fewnbwn gan yr ALl. Rhennir y rhain â Swyddogion ALl unwaith bydd y broses wedi'i chwblhau [canol mis Hydref].<br><br>Mae bron bob ysgol wedi cynllunio ar gyfer, ac yn rhoi sylw i, ystod helaeth o brosesau gwerthuso effeithiol, ac mae'r farn arfarnol yn y rhan fwyaf o ysgolion yn drylwyr, yn seiliedig ar ddealltwriaeth gadarn o gynnydd disgyblion ac yn tynnu ar wybodaeth ansoddol a meintiol helaeth. Targedir cymorth ychwanegol i ysgolion lle bo pryderon o hyd am rymuster prosesau a manwl gywirdeb canfyddiadau.<br><br>Mae disgwyliadau clir mewn lle y tymor hwn y dylai pob YCG fod yn rhan o ymarferion craffu gyda'u hysgolion cyswllt.<br><br>Mae gweithgareddau YCG cyswllt a rhwydweithiau/fforymau yn parhau i ganolbwyntio ar sicrhau bod prosesau arfarnu mewn ysgolion yn cael mwy o effaith graidd ar gynnydd a safonau dysgwyr. Bydd hyn yn parhau yn ffocws allweddol i waith yr YCG yn ystod 2023-24, a bydd hefyd yn brif sail cydweithio clwstwr/cynghrair.<br><br>Mae pob YCG yn ymweld ag ysgolion yn dymhorol i weithio gyda'r ysgol ar werthuso effaith a chynnydd yn erbyn 4 maes allweddol: Arweinyddiaeth, Addysgu, Cwricwlwm a Darpariaeth a Safonau a Chynnydd. Bydd yr adroddiadau hyn yn bwydo Adroddiad Cynnydd Blynyddol yr ALl, a rennir â'r pwyllgor craffu.<br><br>Mae ymgysylltu effeithiol â chymheiriaid mewn llawer o ysgolion, sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i herio cywirdeb canfyddiadau craffu. Fodd bynnag, mae cynnydd yn araf mewn ychydig o glystyrau/cynghreiriau. Mae pob clwstwr/cynghrair yn gweithio gyda'u YCG i ddatblygu cynlluniau gweithredu ar gyfer ymgysylltu eleni, ac mae |

disgwyl bod cydweithio i sicrhau dealltwriaeth gyffredin o safonau a chynnydd yn rhan greiddiol o'r trafodaethau hyn. Bydd disgwyl i bob clwstwr/cynghrair arddangos arfer llwyddiannus yn y gynhadledd ranbarthol yn Venue Cymru yn ystod mis Mehefin 2024.

Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen o benaethiaid rhanbarthol a staff GwE wedi datblygu canllawiau a deunyddiau enghreifftiol i ysgolion ar y gofyniad i gyhoeddi crynodeb o ganfyddiadau hunanarfarnu, cynnydd yn erbyn blaenoriaethau blaenorol y CGY, blaenoriaethau gwella lefel uchel ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cymorth allanol a gaiff yr ysgol i'w helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hynny. Cynhaliwyd pedair sesiwn rithwir fin nos, ac roedd recordiadau ar gael i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu bod yn bresennol. Bydd hyn yn parhau yn ffocws allweddol yng ngwaith yr YCG yn ystod 2023-24.

Mae canllawiau gweithredol 2023-24 i Arweinwyr Craidd (AC) ac YCG Cyswllt wedi'u rhannu a'u trafod ag aelodau'r tîm er mwyn sicrhau gwell cysondeb mewn dulliau ac ansawdd.

Mae disgwyliadau uwch wedi'u gosod ar AC o ran prosesau sicrhau ansawdd. Bydd y maes hwn yn ffocws allweddol yng ngwaith yr Uwch Arweinydd Cynradd a'r Uwch Arweinydd Uwchradd yn 2023-24. O fis Hydref bydd Is-grŵp Sicrhau Ansawdd GwE ar waith, a bydd yr aelodaeth yn cynnwys yr Uwch Arweinydd Sector, pob AC a'r arweinydd cyfoethogi ansawdd. Mae Cylch Gwaith a rhaglen waith y grŵp wedi'u datblygu, a byddant yn cael eu trafod yn y cyfarfod cyntaf [dyddiad i'w gadarnhau].

Mae prosesau a systemau i gefnogi ysgolion sy'n destun pryder ac i adnabod yn gynnar ysgolion sy'n dirywio wrthi'n cael eu hadolygu. Mae templedi diwygiedig i AC adrodd i grwpiau ansawdd ALl Lefel 1 a Lefel 2 wedi'u cwblhau, a byddant yn cael eu trafod ag Is-grŵp Sicrhau Ansawdd GwE a Grŵp Gorchwyl ALl/GwE cyn eu mabwysiadu. Dylai esblygu prosesau a diwygio templedi arwain at adrodd fwy miniog a mwy o ffocws ar gytuno ar y camau nesaf lle bo pryderon.

Mae'r proffil presennol ar gyfer pob sector yn nodi bod: 7 ysgol mewn categori statudol [3 uwchradd / 4 cynradd]; 19 ysgol sy'n destun pryder [3 uwchradd / 16 cynradd]; 27 ysgol lle bo pryderon penodol wedi'u hadnabod [9 uwchradd / 18 cynradd] a 52 ysgol sy'n cael eu hadolygu [14 uwchradd / 38 cynradd].

Bydd Grŵp Gorchwyl y Bwrdd Rheoli hefyd yn greiddiol wrth sicrhau ein bod yn cryfhau ac yn cymhwyso ymhellach ddull grymus a chyson o ddatblygu, cyflawni a monitro cynlluniau cymorth holistaidd. Bydd sicrhau dull 'tîm o amgylch yr ysgol' fwy effeithiol yn ffocws pwysig i'r Uwch Arweinydd Cynradd a'r Uwch Arweinydd Uwchradd yn ystod 2023-24.

**Cydweithio trwy glystyrau cynradd a chynghreiriau uwchradd**
Mae gweithio clwstwr a chynghrair yn gryfder ar draws rhanbarth GwE. Un o'r prif elfennau eleni yw'r pwyslais ar gefnogi arweinwyr ysgolion i baratoi at ofynion y Canllawiau Gwella Ysgolion: Fframwaith ar gyfer Gwerthuso, Gwella ac Atebolrwydd (FfGY), a fydd yn statudol ym mis Medi 2024. Bu hyn yn gyfle i GwE gydweithio ag ysgolion i fireinio a chysoni amryw o brosesau, a gweithio tuag at leihau'r llwyth gwaith ar bob lefel yn y system.

Eleni, bydd ein rhaglen waith yn canolbwyntio ar sicrhau bod systemau a gweithdrefnau cadarn a phwrpasol ar waith i gydnabod y disgwyliadau a nodir yn y FfGY. Yn rhan o'r gofynion yn y FfGY, nodir yr angen i arweinwyr ysgolion fod yn dangos arweinyddiaeth ar draws y system a sut y cyflawnir hyn. Mae'r cyllid wedi'i ddosbarthu i glystyrau a chynghreiriau ac mae'n cael ei ddefnyddio i:

1. Gryfhau ymhellach ansawdd yr arweinyddiaeth ar draws y system.
2. Datblygu sgiliau arweinwyr a gwella ymhellach y prosesau a'r systemau ar gyfer gwaith hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a mesur effaith yn effeithiol.
3. Hyrwyddo ymhellach gydweithio effeithiol, sy'n cynnwys adolygu gan gymheiriaid, ar lefel clwstwr a chynghrair er mwyn bodloni gofynion y FfGY.
4. Hyrwyddo Dysgu Proffesiynol - er enghraifft, clystyrau i adnabod ysgolion neu weithgareddau i rannu arferion llwyddiannus o fewn y clwstwr a'r tu hwnt.

Fel y llynedd, mae pob clwstwr/cynghrair wedi cyflwyno cynllun gweithredu penodol, gydag YCG GwE yn hwyluso'r

gwaith. Yn ogystal, gofynnir i bob clwstwr/cynghrair adnabod arfer llwyddiannus i'w rhannu ag eraill mewn cynhadledd yn Venue Cymru, Llandudno ar 6 Mehefin 2024.

**AMCAN 2 – CWRICWLWM AC ASESU**

**Blaenoriaethau:**

**2.1 - Gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru**

**2.2 – Asesu, cynnydd ac atebolrwydd**

**DATBLYGU CWRICWLWM A RHWYDWEITHIAU (CiG)**

**Cefnogi efo dealltwriaeth a dulliau gweithio ysgolion ac UauCD yng nghyd-destun y CiG, a thrwy gylch adolygu cwricwlwm parhaus o dan y CiG.**
**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad**

Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn rhaglen ddiwygio sylweddol, gyda dysgu ac addysgu effeithiol a chyflawni'r Pedwar Diben yn ganolog i'w llwyddiant. Mae GwE wedi gofalu bod pob cymorth cwricwlwm yn cyd-fynd â disgwyliadau ac egwyddorion Y Daith i 2022 a fframwaith diwygiedig y Cwricwlwm i Gymru. Yn unol â gweithredu'r Cwricwlwm newydd i Gymru, darparwyd cymorth i bob ysgol a lleoliad fodloni'r gofynion statudol newydd o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. Mae'n hanfodol bod gwaith diwygio'r cwricwlwm, ac yn enwedig y cyswllt uniongyrchol rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd, yn parhau i gefnogi efo cyfnod pontio dysgwyr.

**Rhwydweithiau CiG Rhanbarthol**

I hwyluso deialog broffesiynol, darparodd GwE rwydweithiau Cwricwlwm i Gymru. Mae ysgolion wedi datblygu, a rhannu, arfer effeithiol wrth ddadbacio potensial y chwe Maes Dysgu a Phrofiad (MDaPh) a dyluniad cwricwlwm ysgol gyfan ac asesu, a hynny dan arweiniad ac adborth rheolaidd gan yr Athro Graham Donaldson. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi cefnogaeth effeithiol i arweinwyr baratoi at Y Daith Ddiwygio a'r Cwricwlwm i Gymru, ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn bodloni amrywiol anghenion ysgolion yn ystod y pandemig. Roedd gan y proffesiwn strwythur ar draws y rhanbarth ar gyfer rhannu a thrafod arferion sy'n dod i'r amlwg o fewn y Cwricwlwm newydd i Gymru . Rhannodd y rhwydweithiau rhanbarthol ffrwyth eu llafur ag ysgolion trwy Ganolfan Cefnogaeth GwE, gan ddarparu cyfle i ymarferwyr raeadru negeseuon rhanbarthol a rhannu arferion lleol. Dan arweiniad y rhwydweithiau, cynhaliwyd gweminarau effeithiol i arweinwyr ysgolion ar ddylunio cwricwlwm, asesu a chynnydd ac egwyddorion cynllunio. Mae ysgolion wedi nodi bod y cyflwyniadau wedi rhoi hwb i'w hyder i ddatblygu eu Dyluniad Cwricwlwm lefel uchel i gynnwys gweledigaeth, egwyddorion ac ymgorffori'r pedwar diben. Mae pob ysgol wedi defnyddio'r gweithdai hyn, trwy naill ai recordiad byw neu drafodaethau diweddarach efo'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt.

Cynhaliwyd digwyddiad ar 22/06/2023 i ddathlu arferion sy'n dod i'r amlwg ar draws y system addysg. Roedd yn ddigwyddiad i arweinwyr ysgolion rhanbarthol, staff a rhanddeiliaid eraill. Cynhaliodd aelodau o'r Rhwydwaith CiG Rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill weithdai a stondinau ar y cyd i rannu arferion, a chafwyd areithiau hefyd gan siaradwyr gwadd. Roedd y digwyddiad hwn yn gyfle i ddathlu ac i rannu arferion, fel gall ymarferwyr gyfrannu at yr arferion gorau sy'n dod i'r amlwg o fewn y system ac ar draws y Rhanbarth, a datblygu gwell dealltwriaeth o sut i gyflawni'r CiG yn effeithiol.

Nododd nifer o'r rhai oedd yn bresennol eu bod wedi elwa'n fawr iawn ar ystod eang y ddarpariaeth. Yn ogystal, bu i bobl elwa ar y rhwydweithio anffurfiol a'r cyfle i gyfnewid profiadau ac adnoddau. Cafwyd adborth cadarnhaol a sylwadau adeiladol ar gyfer datblygiad pellach. Nododd bron yr holl ymatebwyr y camau nesaf yn dilyn y digwyddiad. Roedd y rhan fwyaf o'r sylwadau yn nodi y byddant yn addasu/mireinio'r hyn maent eisoes yn ei wneud mewn ysgolion gan eu bod wedi dysgu mwy, neu wedi cael ysbrydoliaeth o'r syniadau yn yr amrywiol sesiynau. Bu'r gweithdai yn boblogaidd. Roedd ymarferwyr yn gwerthfawrogi gweld enghreifftiau o ysgolion er mwyn datblygu eu syniadau eu hunain yn seiliedig ar y cyflwyniadau, gan ystyried eu dulliau i'r dyfodol.

Mae'n fwriad esblygu ac adolygu'r strwythur hwn, a fydd yn sicrhau ein bod yn hwyluso ac yn datblygu Rhwydweithiau Dysgu Proffesiynol sy'n bodloni'r galw a'r angen mewn ysgolion er mwyn annog cydweithio, arferion

llwyddiannus a rhannu gwybodaeth ymhlith addysgwyr a staff. Ein bwriad yw parhau gyda'r digwyddiad blynyddol i rannu arferion sy'n dod i'r amlwg er mwyn tynnu sylw at waith effeithiol a llwyddiannus.

Mae GwE hefyd yn darparu cymorth gyda'r cwricwlwm newydd ar dair lefel:

1. Cymorth pwrpasol i ysgolion unigol.
2. Cymorth lleol trwy glystyrau, cynghreiriau a rhwydweithiau.
3. Cynnig Dysgu Proffesiynol cyffredin rhanbarthol.

**Rhwydweithiau CiG Trawsranbarthol**

Mae pob grŵp MDaPh Rhanbarthol yn bwriadu cynnal dau ddiwrnod hyfforddiant yn ystod y flwyddyn academaidd nesaf - mis Hydref/Tachwedd 2023 a Mehefin/Gorffennaf 2024. Mae pob grŵp MDaPh wedi adnabod ffocws y sesiynau hyn. Byddant yn cyfarfod bob hanner tymor, ac mae'r grŵp Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol yn hwyluso'r cyfarfodydd hyn. Mae'r cyfarfodydd hefyd yn gyfle i rannu arferion llwyddiannus o wahanol Ranbarthau ar hyd a lled Cymru.

**Rhwydweithiau Cenedlaethol**

Mae'r Rhwydwaith Cenedlaethol yn dwyn ynghyd weithwyr addysgu proffesiynol, arbenigwyr, rhanddeiliaid, gwneuthurwyr polisi a phartneriaid galluogi er mwyn adnabod y rhwystrau a'r cyfleoedd yng nghyd-destun gweithredu Cwricwlwm Cymru, a mynd i'r afael â hwy. Mae yn llwyfan agored, sy'n rhoi cyfle i bob ymarferydd yng Nghymru fod yn rhan o gyd-greu cenedlaethol, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau a'r profiadau sy'n gyffredin i ni. Rhoddir y cyllid yn uniongyrchol i ysgolion, ac ysgolion sy'n pennu eu blaenoriaethau.

**Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol y Cwricwlwm i Gymru**

Yn ystod blwyddyn academaidd 2022/23, bu dros 700 o ymarferwyr yn rhan o un agwedd neu ragor ar y rhaglen drawsranbarthol a ardystir gan yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (NAEL), a hynny i gefnogi efo cyflawni'r Cwricwlwm i Gymru. Mae defnyddwyr ar hyd a lled Cymru wedi defnyddio adnoddau anghydamserol dros 2300 o weithiau. Consortia Addysg Cymru - Dysgu proffesiynol y Cwricwlwm i Gymru

Er mwyn datblygu'r rhaglen hon ymhellach, mae set gyffredin o weithdai i helpu ymarferwyr i ddeall asesu wedi'u cyd-lunio â'r grŵp dysgu proffesiynol trawsranbarthol yn ystod tymor yr haf, a byddant yn cychwyn ym mis Medi 2023. Mae pob grŵp MDaPh trawsranbarthol hefyd yn cynllunio dau sesiwn rhannu arfer (Hydref/Tachwedd 2022 a Mehefin/Gorffennaf 2023), i rannu enghreifftiau o agweddau ar ddylunio cwricwlwm, cynnydd ac asesu o ysgolion ar draws Cymru. Yn ôl adborth gan ysgolion a oedd yn y sesiwn trawsranbarthol cyntaf, dylai ffocws sesiynau i'r dyfodol fod ar ddarparu enghreifftiau o weithio clwstwr effeithiol, sut mae ysgolion yn cwblhau asesiadau ar fynediad a sut mae ysgolion yn sicrhau cydbwysedd rhwng ystod o ddulliau asesu yn eu darpariaeth gwricwlwm. Bydd hyn yn rhan o'r sesiynau i'r dyfodol, a gwerthusir effaith y gwaith hwn yn defnyddio'r model effaith rhanbarthol y cytunwyd arno. Yn ôl gwerthuso parhaus mae bron pawb wedi caffael gwybodaeth a sgiliau newydd i'w helpu yn eu rôl, byddai bron pawb yn argymell y dysgu proffesiynol i gyd-weithiwr ac maent yn barod ar gyfer ymrwymiadau i weithredu i'r dyfodol.

**Y CELFYDDYDAU MYNEGIANNOL**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**

**Sefydlu Rhwydweithiau Celfyddydau Mynegiannol ar gais ysgolion/clystyrau/cynghreiriau/YCG.**

Cynhaliwyd sesiwn diwrnod cyfan ar 11/05/23 i hwyluso Cyfarfod Clwstwr Celfyddydau Mynegiannol gydag ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddyfnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o FDaPh y Celfyddydau Mynegiannol, a fydd yn ei dro yn datblygu eu gwaith cynllunio. Nodir mewn adborth gan ymarferwyr bod 100% o'r rheiny a oedd yn bresennol yn credu bod y sesiwn yn fuddiol.

**Sicrhau cymorth gydag egwyddorion ac arferion dylunio cwricwlwm**

Mae gan ymarferwyr fynediad at gyflwyniadau Dysgu Proffesiynol GwE yn ymwneud â dylunio cwricwlwm ar wefan GwE:

- Dadbacio a deall MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol
- Cynnydd mewn dysgu ym MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol
- Sgiliau Cyfannol yn y Cwricwlwm i Gymru
- Beth yw Creadigrwydd?

Mae hyn wedi helpu ymarferwyr i gael gafael ar yr holl ddogfennau perthnasol a chael gwybodaeth a dealltwriaeth gadarn o ofynion mandadol a statudol dylunio cwricwlwm yng nghyd-destun y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn hefyd wedi gwella hyder ymarferwyr i gynllunio profiadau effeithiol, gwreiddiol a chyffrous ym MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol. Cafwyd dogfennau a thystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg yn yr uchod gan y Cadeiryddion Rhanbarthol, ac mae'r rhain wedi'u huwchlwytho i adran Celfyddydau Mynegiannol gwefan GwE i bob ymarferwr eu defnyddio.

Bydd gan ymarferwyr sydd wedi defnyddio'r adnoddau wybodaeth a sgiliau cadarn, a phrofiadau posib ar gyfer cyflawni MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn eu lleoliadau. Byddant hefyd yn datblygu mewn hyder i gyflwyno'r Celfyddydau Mynegiannol trwy ddull amlddisgyblaethol.

**Sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**
Mae gan ymarferwyr fynediad at ystod eang o adnoddau a chyflwyniadau ar wefan GwE er mwyn sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu MDaPh y Celfyddydau Mynegiannol yn effeithiol yn eu lleoliad, er enghraifft, Dadbacio Ystyriaethau Penodol i Ddisgyblaeth. Mae Cadeiryddion Rhanbarthol a llawer o Ymarferwyr Uwchradd wrthi'n cydweithio ar bob un o'r pum disgyblaeth a'u hystyriaethau penodol er mwyn llunio trosolwg/cyflwyniad i egluro eu hystyr.

Adnabuwyd 4 Ymarferydd Uwchradd, sydd wedi cytuno i fod yn rhan o weithgor Celfyddydau Mynegiannol bychan. Cynhaliwyd cyfarfod i amlinellu brîff y cydweithio, a dosbarthwyd cyllid i bob ysgol. Byddant yn anfon dogfennau perthnasol a thystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg yn yr uchod fel proses barhaus.

Gwahoddwyd pob Ysgol Uwchradd Arbennig/UCD i fynegi diddordeb mewn bod yn aelodau o weithgor bychan i rannu a chasglu tystiolaeth o arferion sy'n dod i'r amlwg, a chydweithio ar brosiect Celfyddydau Mynegiannol penodol.

**Cynnal gweithdy rhanbarthol i Athrawon a Chymorthyddion Dysgu sy'n addysgu dysgwyr 3-8 oed ar 'Ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o FDaPh 'y Celfyddydau Mynegiannol'.**
Cynhaliwyd Gweithdai Rhanbarthol i Uwch Dimau Rheoli, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o FDaPh y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o bum disgyblaeth y MDaPh ac o gynllunio cynnydd yn y grŵp oedran 3-8, a hynny o fewn profiadau dysgu cyfoethog a phwrpasol. Nodir mewn adborth gan ymarferwyr bod ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd proses a datblygu sgiliau yn hytrach na bod y pwyslais ar y cynnyrch terfynol.

**IECHYD A LLES**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**
Darparwyd cymorth pwrpasol i ysgolion ar draws y rhanbarth, gan gynnwys ysgolion sy'n destun pryder. Rhoddwyd cefnogaeth efo datblygu dealltwriaeth ymarferwyr o'r ffordd holistaidd y mae MDaPh Iechyd a Lles i gael ei ddarparu ym mhob lleoliad.

Mae'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gweithio gyda'u hysgolion cyswllt i sicrhau bod ysgolion yn deall ac yn cyflawni eu dyletswyddau, gyda phwyslais penodol ar baratoi at Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles y Cwricwlwm i Gymru. Mae Rhwydweithiau newydd i hwyluso cydweithio, hyfforddiant a chymorth, rhannu negeseuon allweddol ac arferion da wrthi'n cael eu sefydlu yn ogystal.

Mae cynrychiolydd o GwE wedi mynychu Cynhadledd Genedlaethol y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, ac adnabod arferion da gydag ysgolion.

Cafwyd cyfraniad Iechyd a Lles i weithdai traws sector yn y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol ym mis Mehefin 2023, sef:

- Beth yw effeithiolrwydd cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd er budd y plentyn?
- Diwylliannau Lles sy'n Dod i'r Amlwg

yn ogystal ag amrywiol stondinau.

Mae newyddlen wedi'i chreu a'i dosbarthu i holl ysgolion y rhanbarth a staff Awdurdod Lleol sydd â chyfrifoldeb am Iechyd a Lles.

Sefydlwyd grŵp Gorchwyl a Gorffen uwchradd, yn canolbwyntio ar 'Asesu ar gyfer Cynnydd mewn Iechyd a Lles' ac mae cyfarfodydd pellach wedi'u trefnu.

Cyflwynodd YCG Sgiliau Digidol GwE weithdy rhyngweithiol ar 'Sgiliau Digidol ym MDaPh Iechyd a Lles.' Roedd hyn yn cynnwys gwaith ymarferol gyda micro-bit i arddangos sut gellir defnyddio hwn yn effeithiol mewn gwersi Iechyd a Lles. Daeth cydlynwyr Ysgolion Iach yr Awdurdodau Lleol i'r gweithdy hefyd.

**Y DYNIAETHAU**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**

Cafwyd cyfraniad gan y Rhwydwaith CiG rhanbarthol a rhanddeiliaid eraill i weithdai traws-sector yn y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol ym mis Mehefin 2023, sef:

- Pam y mae'r 'hyn sy'n bwysig' yn bwysig?
  - Dysgu am arwain y Dyniaethau mewn ysgol pob oed
  - Datblygu dealltwriaeth gysyniadol ein dysgwyr
- Pam y mae'r 'hyn sy'n bwysig' yn bwysig?
  - Archwilio 'ein cynefin' gyda dysgwyr Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2.
  - Archwilio 'ein cynefin' gyda dysgwyr Blwyddyn 7
  - Cynllunio ar gyfer cynnydd - dull disgyblaethol
  - Myfyrio ar y 'pam'? fel y 'gallwn ei wneud yn well bob tro'

yn ogystal ag amrywiol stondinau.

Datblygwyd holiaduron i athrawon Dyniaethau uwchradd i gasglu gwybodaeth am sut y mae ysgolion yn ymateb i'r Cwricwlwm newydd i Gymru.

Ar 11 Hydref 2023, roedd 38 ymateb wedi dod i law gan athrawon ar draws y chwe awdurdod lleol. Daeth 89% o'r ymatebion gan athrawon sydd â chyfrifoldeb am gynllunio ac addysgu cwricwlwm Blwyddyn 7 ar gyfer y Dyniaethau, neu gyfrifoldeb am ddisgyblaeth Dyniaethau. Dyma'r prif negeseuon:

- Mae Astudiaethau Busnes ac Astudiaethau Cymdeithasol wedi'u cynnwys yng nghynllunio Blwyddyn 7 mewn 34% o ysgolion.
- Mae 45% o ysgolion yn cynnig cwricwlwm Dyniaethau integredig i ddisgyblion Blwyddyn 7, mae 39% yn addysgu gwersi disgyblaethol ac mae 16% yn cynnig cyfuniad o wersi disgyblaethol ac integredig.
- Mae llawer yn hyderus bod y 4 Diben, y datganiadau o'r hyn sy'n bwysig a'r disgrifiadau dysgu yn y Dyniaethau yn cael dylanwad ar eu gwaith cynllunio.
- Nododd ambell un eu bod wedi bod yn rhan o drafodaethau lleol ar y Dyniaethau, *craffu ar lyfrau, dyddiau pontio, sgyrsiau rhagarweiniol er enghraifft.*
- Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o athrawon y Dyniaethau o'r farn bod eu cynllunio disgyblaethol a'u darpariaeth ar gyfer profiadau dysgu gwerthfawr yn gweithio'n dda.
- Nid yw y rhan fwyaf o athrawon wedi cael unrhyw ddysgu proffesiynol i gefnogi efo gwaith cynllunio yn y Dyniaethau, a byddent yn hoffi cymorth pellach. *Er enghraifft, cynllunio ar gyfer cynnydd yn y Dyniaethau, gweld enghreifftiau o gynlluniau gwaith, gweithio efo partneriaid allanol.*

Adnabuwyd 6 ysgol o'r holiadur, a byddant yn darparu enghreifftiau o'u harferion yn y Gynhadledd Ddyniaethau ar 16/11/2023.

**IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU**

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD**

**Cefnogi datblygiad y CiG mewn ysgolion ac UauCD i sicrhau bod pob ymarferwr yn cael yr wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i wireddu'r CiG yn effeithiol yn eu lleoliad.**

**Cynradd**

Cwblhawyd y rhaglen *Cariad@ddarllen / Reading for Pleasure,* gydag aelodau staff Cynradd, Uwchradd, y sector cyfrwng Cymraeg a'r sector cyfrwng Saesneg yn mynychu. Mewn adborth mae bron pob ysgol wedi gofyn am fwy o fewnbwn yn ystod y flwyddyn i ddod, a chofnodwyd canfyddiadau cadarnhaol cychwynnol ar greu diwylliant o

ddarllen er pleser yn eu hysgolion. Rhennir adnoddau mewn dosbarth Google penodol y mae gan ysgolion fynediad iddo, ac mae llawer yn dal mewn cysylltiad er mwyn rhannu syniadau a chydweithio. Bydd aelodau blaenorol ac aelodau newydd yn parhau fel rhwydwaith, yn cychwyn ar 5/12/2023. Bydd cydweithio â Phrifysgol Bangor yn ymestyn i hyn, gyda'r siaradwraig wadd yr Athro Manon Jones yn trafod datblygiad darllen (yn dilyn adborth gan aelodau mewn sesiynau blaenorol). Bydd hefyd yn cynnig arweiniad ar weithredu effeithiol a strategaethau mesur effaith. Bydd aelodau yn rhannu eu gweithgaredd hyd yma o dymor yr haf 2023, ac yn cynllunio'n ffurfiol eu gweithredu pellach a'u cynlluniau addysgu yn seiliedig ar ymholi, i'w rhannu mewn rhwydweithiau i'r dyfodol (tymor y gwanwyn 2024).

Cwblhawyd rhaglen Llafaredd *Voice 21,* gydag aelodau staff Cynradd, Uwchradd, y sector cyfrwng Cymraeg a'r sector cyfrwng Saesneg yn mynychu. Mewn adborth ar ddiwrnod 5 rhannodd aelodau eu gweithgaredd gwella a'u canfyddiadau â'u cyd-aelodau. O ganlyniad, mae amryw o gyflwyniadau ac adnoddau defnyddiol yn y dosbarth Google i'w rhannu ac i'r garfan eu defnyddio. Gofynnodd bron pob un bod cefnogaeth a gweithgareddau pellach yn parhau yn y flwyddyn ysgol newydd, ac mae cynlluniau wedi'u drafftio ar gyfer carfan 2, yn seiliedig ar ganfyddiadau carfan 1. Bydd carfan 1 yn parhau gyda'u gwaith mewn rhwydweithiau/gweithdai tymhorol ac ati. Yn ôl bron pob ysgol cafwyd effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yr addysgeg ac ymgysylltiad disgyblion, yn ôl eu hadolygiadau cychwynnol.

Cynhaliwyd dau brynhawn agored i gefnogi efo hyfforddiant rhanbarthol mewn Llafaredd a *Reading for Pleasure*. Cafwyd niferoedd da yn y ddau sesiwn ac roedd yr holl adborth yn gadarnhaol ac yn dangos effaith gadarnhaol ar gynlluniau gwella ysgolion ar gyfer y tymhorau i ddod i gefnogi CauDY. Mae sesiynau pellach ar y gweill a phecynnau adnoddau i'w cwblhau a'u huwchlwytho.

Ffocws y Cyfarfodydd Rhwydwaith 3-8 rhanbarthol yn nhymor yr haf oedd sgiliau cyn darllen, sgiliau darllen cynnar ac uwch sgiliau darllen. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well i ymarferwyr o sut i gynllunio cynnydd mewn sgiliau darllen o fewn addysgeg sydd yn briodol i ddatblygiad.

Mae Cynnig DP ILlCh Trawsranbarthol (Cymraeg, Saesneg, ITM - Cynradd ac Uwchradd) wedi'i lunio, ac mae aelodau rhwydwaith ILlCh CiG yn ailgynnal cyflwyniadau a wnaed yn y Farchnad CiG ranbarthol (Mehefin 2023) gydag aelodau ar draws y rhanbarthau.

Bodlonwyd pob atgyfeiriad am gymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder/sydd angen gwneud gwelliannau penodol mewn llythrennedd a Saesneg, gyda chymorth naill ai wedi'i gwblhau neu'n parhau. Mae'r tîm wedi cefnogi 22 ysgol a oedd arnynt angen cymorth unigol gyda Saesneg a Llythrennedd.

Mae YCG wedi datblygu'r cysyniad o ddilyniant cwricwlwm a chynllunio tymor hir ar gyfer y CiG trwy'r Fforwm i Benaethiaid Adrannau Saesneg - 96% yn bresennol. Mae gwaith dilynol wedi'i gynllunio ar gyfer 7 ysgol.

Mewn fforwm arweinwyr llythrennedd ym mis Mehefin cyflwynwyd y dull 6-cam o ddatblygu strategaeth lythrennedd. Mynegodd pawb a oedd yn bresennol ddiddordeb mewn bod yn aelodau o weithgorau lleol i gefnogi ei gilydd i wreiddio'r strategaeth.

Cyfarfod rhwydwaith llenyddiaeth Safon Uwch i roi cefnogaeth i athrawon ar draws y rhanbarth adolygu cyfres arholiadau'r haf, a chreu cyfleoedd rhwydwaith i athrawon profiadol ac athrawon newydd y cwrs.

**Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

**Rhwydweithiau Y Gymraeg a Llythrennedd**

Cynhaliwyd Cyfarfod Rhwydwaith i Gydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog) yn Venue Cymru, Llandudno i gyflwyno'r 'Strategaeth Chwe Cham - Llythrennedd' a chyfarfod dilynol i gynnig cymorth pellach i gydlynwyr.

Cynhaliwyd cyfarfod rhwydwaith i Arweinwyr y Gymraeg yn ysgolion cyfrwng Saesneg y rhanbarth. Yn dilyn y cyfarfod cafwyd enghreifftiau pellach o ysgolion yn creu cysylltiadau ac yn cydweithio ymhellach ar draws y rhanbarth. Trefnwyd cyfarfodydd rhwydwaith ar gyfer Arweinwyr y Gymraeg a Chydlynwyr Llythrennedd y

rhanbarth (i'w cynnal yn ystod Chwarter 3), a sefydlwyd rhwydwaith cefnogol o arweinwyr y Gymraeg yn ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y rhanbarth ar batrwm y model a ddatblygwyd yn ystod 2022-23.

**Prosiect 'Llythrennedd y Gweithle 2023 – Gweithio yn Gymraeg' (GwE)**
Cynhaliwyd cyfarfodydd i lansio'r prosiect cydweithredol hwn gyda Gyrfa Cymru, a fydd yn arwain at ysgolion uwchradd y rhanbarth yn cydweithio â busnesau lleol i dargedu un o nodau 'Cymraeg 2050' yn ogystal â chyflwyno'r Gymraeg wrth addysgu themâu trawsgwricwlaidd y CiG. Datblygir y prosiect hwn yn lleol fel rhan o gynlluniau datblygu'r ysgolion, gydag arweiniad a chyngor gan Gyrfa Cymru. Yn ystod Chwarter 2 cynhaliwyd cyfarfod â Gyrfa Cymru er mwyn cadarnhau'r cydlynu a'r cydweithio ag ysgolion y prosiect, a bydd yr ysgolion yn cyfarfod eto yn ystod Chwarter 3.

**Prosiect 'Cau'r Bwlch Darllen' (GwE)**
Yn ystod Chwarter 1 cynhaliwyd cyfarfod lansio'r prosiect 'Cau'r Bwlch Darllen' (GwE), sy'n brosiect ar gyfer Cydlynwyr Llythrennedd ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith y rhanbarth. Mae'r prosiect hwn datblygu ymyraethau llyfr 'Closing the Reading Gap' gan Alex Quigley ochr yn ochr â chanfyddiadau ymchwil y ddogfen '21st Century Readers – Developing Literacy Skills in a Digital World' (OECD 2021) er mwyn targedu uwch sgiliau darllen ac edrych o'r newydd ar addysgeg sy'n mireinio sgiliau darllen ar lwyfannau digidol. Bu i nifer o'r Cydlynwyr Llythrennedd sy'n rhan o'r prosiect hwn fynychu'r gweithdy rhithiol 'Closing the Reading Gap Masterclass' dan arweiniad Alex Quigley yn ystod Chwarter 1 a bydd y prosiect hwn yn datblygu'n lleol yn rhan o gynlluniau datblygol ysgolion y prosiect yn ystod Chwarter 2.

**Hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a'r Siarter Iaith Uwchradd**
Cafwyd diweddariad mewn cyfarfod rhwydwaith ar 'Y Gymraeg yn ein hysgol ni' gan ysgolion a oedd yn bresennol a bu aelodau Adran y Gymraeg un o ysgolion cyfrwng Saesneg y rhanbarth yn cydweithio â Thîm Y Gymraeg GwE i ddatblygu adnodd i gyd-fynd â'r canllaw 'Cynllunio ar gyfer taith y Gymraeg' a fydd yn arweiniad ymarferol i ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg roi'r canllawiau ar waith.

**Gweithgor TGAU Llunyddiaeth**
Yn ystod Chwarter 1, sefydlwyd gweithgor o Arweinwyr y Gymraeg er mwyn ateb y galw am adnoddau digidol rhyngweithiol newydd yn dilyn y newidiadau i Uned Llunyddiaeth TGAU Llenyddiaeth Gymraeg. Cyfarfu gweithgor o Arweinwyr y Gymraeg yn ystod Chwarter 2 i ddechrau creu adnoddau digidol rhyngweithiol newydd ar gyfer ysgolion y rhanbarth yn dilyn newidiadau a wnaed i Uned Llenyddiaeth Gymraeg TGAU. Cyflwynir rhan gyntaf ffrwd waith y gweithgor hwn i'r rhanbarth yn ystod Chwarter 3.

**Prosiect 'Ein Llais Ni' (GwE)**
Yn ystod Chwarter 1, parhawyd â'r gwaith o ddatblygu a phoblogi'r wefan Ein Llais Ni | Prosiect llafaredd GwE sef cartref adnoddau ac astudiaethau achos ysgolion Gwedd 1 y prosiect ac yn dilyn y cais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru er mwyn cyflwyno Gwedd 2 y prosiect eleni. Yn rhan o Wedd 2 y prosiect, cytunodd nifer o ysgolion uwchradd y rhanbarth, a fu'n rhan o'r prosiect gwreiddiol, i fod yn ysgolion arweiniol, gydag aelodau Adran y Gymraeg yr ysgolion hynny'n benodol yn hyrwyddo'r wedd nesaf. Yn ogystal â hynny, cynhaliwyd cyfarfod lansio'r prosiect gyda chyn o Adran y Gymraeg nifer o ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg y rhanbarth a bydd y prosiect yn weithredol yn yr ysgolion hyn (dan arweiniad Adran y Gymraeg yn yr ysgolion hyn) gyda chefnogaeth Tîm y Gymraeg GwE yn ystod Chwarter 2.

**Canolfan Cefnogaeth GwE**
Mae'r gwaith o ddatblygu tudalennau'r Gymraeg ar Ganolfan Cefnogaeth GwE yn parhau a'r nod yw bod y llwyfan hwn yn plethu â llwyfannau digidol 'byw' Teams a Google Classroom, gyda'r naill yn gartref parhaol a'r llall yn llwyfan datblygol. Mae'r cylchlythyr 'O'r Stordy' hefyd yn arf ychwanegol i rannu gwybodaeth ag arweinwyr ar draws y rhanbarth.

**IEITHOEDD RHYNGWLADOL (IRH) / ITM**
**Gofalu bod pob ysgol ac UCD yn cefnogi dysgwyr a chynllun gweithredu Dyfodol Byd-eang trwy fyfyrio ar bwysigrwydd Ieithoedd Rhyngwladol yn y Cwricwlwm i Gymru fel rhan o'u cynnig i bob dysgwr.**

Mae GwE yn parhau i hyrwyddo mentrau a digwyddiadau i godi proffil a phwysigrwydd IRh trwy Newyddlenni, Bwletin GwE, negeseuon e-bost, cyfryngau cymdeithasol ac ati. Mae'r Tîm Dyfodol Byd-eang wedi cynnig cefnogaeth i ysgolion hyrwyddo ieithoedd yn newisiadau CA4 a CA5, ac mae digwyddiadau ar y gweill i fyfyrwyr CA3 a CA4 ym mis Rhagfyr a mis Chwefror. Cynhyrchwyd dogfennau i ysgolion, ac mae nifer da wedi rhannu strategaethau ag ysgolion eraill trwy ddogfen ddigidol gyffredin. Mae GwE wedi cysylltu â Business Language Champions i gynnig dyddiau iaith i Flwyddyn 9 a Blynyddoedd 10/11. Mae cofrestru'n mynd rhagddo gydag ysgolion ar draws y rhanbarth yn ymgeisio. Maent yn ymarferol ac yn gysylltiedig â byd gwaith, a'r gobaith yw y byddant yn codi cymhelliant a'r niferoedd sy'n astudio ieithoedd yng nghyfnodau allweddol 4 a 5. Mae rhai ysgolion, sy'n barod i rannu eu strategaethau i gynyddu niferoedd sy'n astudio ieithoedd, wedi cyfrannu i wefan IRh newydd GwE. Mae rhai strategaethau yn cyfeirio at ddigwyddiadau DBe GwE a'r effaith ar argraffiadau a blaenoriaethau disgyblion. Rhannwyd digwyddiadau a syniadau Diwrnod Ewropeaidd Ieithoedd (26/9/23) ag ysgolion er mwyn ennyn diddordeb a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ieithoedd, a dathlodd ysgolion yr wythnos/diwrnod gydag amrywiol ddigwyddiadau.

Rhennir gwybodaeth ag Arweinwyr Craidd ac YCG GwE yn rheolaidd, a cynhelir trafodaethau ar y ffyrdd gorau o gyfathrebu ac ymgysylltu â'r gynulleidfa ehangach. Mae pob ysgol gynradd yn gwybod am y negeseuon craidd am le IRh yn y cwricwlwm, ac mae ysgolion cynradd newydd yn mynd i'r afael â chynnig DBe GwE a'r cymorth sydd ar gael. Canlyniad hyn yw bod staff yn fwy hyderus wrth gynllunio a chyflwyno cwricwlwm ar gyfer IRh ar lawr y dosbarth.

Mae GwE yn parhau i gydweithio â chyfarwyddwr rhaglen AGA CaBan i gefnogi datblygiad IRh yn y rhaglen newydd o fis Medi 2023, gydag egwyddorion a methodoleg Dysgu ac Addysgu IRh i'w corffori yn y rhaglen AGA newydd yn y cynradd.

Mae gwaith yn parhau ar roi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiadau i'n hymarferwyr fedru cynllunio a chyflwyno darpariaeth ieithoedd rhyngwladol. Mae GwE yn parhau i roi cymorth i ysgolion cynradd ac uwchradd ar draws y rhanbarth i baratoi at y Cwricwlwm i Gymru trwy sicrhau cymorth ysgol-i-ysgol ac ymateb i geisiadau gan ysgolion/clystyrau am gefnogaeth benodol i ddatblygu darpariaeth IRh. Rhoddwyd cymorth pwrpasol i nifer o ysgolion : er mwyn sicrhau bod staff yn cael cefnogaeth i gyflwyno dysgu ac addysgu pwrpasol ac effeithiol yng nghyd-destun IRh.

**Gofalu bod pob ysgol ac UCD yn cefnogi dysgwyr a chynllun gweithredu Dyfodol Byd-eang trwy gynllunio ar gyfer ieithoedd rhyngwladol ar sail y nodau a'r camau gweithredu a osodir allan yn y Cynllun Gweithredu Dyfodol Byd-eang cytunedig.**

Mae GwE yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ddatblygu arferion a negeseuon am bwysigrwydd amlieithrwydd trwy waith clwstwr, cyswllt â Phenaethiaid, Arweinwyr Craidd ac YCG a dolenni at adnoddau defnyddiol ac amrywiol lwyfannau eraill. Rhennir dolenni at adnoddau, ymchwil a phecynnau cymorth defnyddiol yn y Newyddlenni.

Mae gweithdy ar Luosieithrwydd ar y gweill i athrawon ILlCh, cynradd ac uwchradd, a beth y mae hyn yn ei olygu yng nghyd-destun cydweithio ar draws Cymraeg, Saesneg ac IRh.

Rhoddwyd cefnogaeth i'r rhwydwaith ILlCh rhanbarthol gyda pharatoadau at Farchnad GwE ar 22/6/2023. Rhannwyd enghreifftiau o ysgolion sydd yn ymateb i Dyfodol Byd-eang a lle bo arferion arloesol ac ymateb dda i weledigaeth y CiG. Croesawyd yr enghreifftiau hyn.

Sanako Connect: Uwchradd - yn dilyn sesiwn gwybodaeth a chyflwyno'r cynnig a'r disgwyliadau, cytunodd 15 ysgol uwchradd i arbrofi efo defnyddio Sanako Connect (hwb addysgu iaith ar y we i ysgolion) a rhannu eu profiadau. Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant yn fyw. Rhannwyd recordiadau o'r sesiynau hyfforddiant a chanllaw cychwynnol i ddefnyddwyr. Mae ysgolion yn mynd i'r afael yn dda â'r rhaglen ac mae sesiynau syrjeri dewisol ar gael os oes angen. Darparwyd cymorth a hyfforddiant ategol pwrpasol ar alw, a fu'n effeithiol iawn wrth annog aelodau staff eraill i ddefnyddio Sanako yn eu harfer a chynnal momentwm. Canlyniad hyn yw nifer o ysgolion yn treialu addysgeg arloesol yn defnyddio technoleg, ac yn gwerthuso ac yn rhannu arferion ac effaith.

Mae ysgolion wedi cwblhau adolygiad cyflym cyntaf ym mis Gorffennaf i fonitro cynnydd a'u helpu i adnabod y camau nesaf a llywio cefnogaeth bellach. Rhannwyd canlyniadau a'u trafod â thîm cymorth Sanako. Mae sesiynau hyfforddiant a chymorth tymor yr hydref wedi'u cynllunio er mwyn ymateb yn y ffordd orau i'r dadansoddiad o'r arolwg a rhoi'r wybodaeth a'r cymorth perthnasol i ysgolion.

Cynhaliwyd sesiwn hyfforddiant 2 ar 25/9/23. Roedd yn effeithiol iawn ac roedd nifer da yn bresennol. Mae ystod o arferion ar waith, a rhannwyd syniadau ac adnoddau newydd i'w datblygu ymhellach. Rhannwyd recordiad o'r cyfarfod â phob ysgol beilot er gwybodaeth, i'w rannu ag aelodau staff ac/neu i ddal i fyny.

Gwahoddwyd adrannau'r Gymraeg a Saesneg i ymuno â'r prosiect er mwyn annog cydweithio a chysoni dulliau o ddatblygu sgiliau llafaredd o fewn ILlCh. Cynhelir sesiwn hyfforddiant gydag adnoddau Cymraeg a Saesneg penodol ym mis Hydref. Mae 7 ysgol wedi dangos diddordeb.

**Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer 2023-2024**
Mae GwE yn parhau i ddarparu cyfleoedd i ysgolion ddatblygu eu harferion a'u harbenigedd trwy ddyddiau hyfforddiant, gweminarau a chyrsiau ar-lein. Mae tîm cynradd ac uwchradd DBe wedi cyfarfod i gytuno ar y cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer 2023-24. Cynhaliwyd gweminarau/hyfforddiant amrywiol, sef:

- Creu ar Draws Ieithoedd - datblygu prosiect: Dull ysgrifennu creadigol a gweithio efo beirdd rhyngwladol trwy brosiect Zoe Skoulding (Uwchradd). Cynhaliwyd gweithdy ym mis Mai i 15 ysgol (daeth 16 athro i'r gweithdy). Roedd yr adborth yn hynod o gadarnhaol. Cafwyd gweithdai dan arweiniad Yr Athro Zoë Skoulding, bardd a chyfieithydd o Brifysgol Bangor, artistiaid rhyngddisgyblaethol o'r DU a Chile sydd yn cydweithio dan yr enw 'montenegrofisher', Dr Jérôme Melançon, bardd o Brifysgol Regina yn nhalaith ddwyieithog Saskatchewan yn Canada a'r bardd a'r ymchwilydd Dr Andrés Anwandter, a ddaw o Chile yn wreiddiol ond sydd bellach yn byw yn y DU. Yn dilyn y gweithdy hwn cynhaliwyd gweithdy arall i 30 myfyriwr dan arweiniad Zoe Skoulding a montenegrofisher yn canolbwyntio ar amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol. Mae gwaith ar hyrwyddo'r prosiect a chreu cyfleoedd i archwilio yn parhau, gydag ysgolion yn cynnig cyfleoedd newydd i ddysgwyr archwilio a defnyddio eu hieithoedd yn greadigol a thrwy brofiadau cyfoethog.
- 17/07/24 Digwyddiad i ddisgyblion: Amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol. Church Island - Porthaethwy. Fe wnaeth 30 disgybl (2 ysgol) gymryd rhan mewn 2 weithdy yn yr awyr agored. Montenegrofisher: archwilio ieithoedd a synau'r traeth. Zoe Skoulding: archwilio ieithoedd coed, yn defnyddio cerdd Ffrangeg wedi'i chyfieithu i Saesneg. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn gan athrawon a myfyrwyr. Mae awch am gyfleoedd o'r fath. Canlyniad hyn yw nifer o ysgolion yn datblygu ac yn cynnig dulliau dysgu ac addysgu arloesol o fewn ILlCh, a disgyblion yn rhan o weithgareddau creadigol cyfoethog.
- 18/04/23: Dull lluosieithog integredig o Ddysgu Iaith (IPA): 'Research-based Classroom Practices' Dr Caterina Sugrañes Ernest (FPCEE-Blanquerna, Prifysgol Ramon Llull), Dr Maria González-Davies (FPCEE-Blanquerna, Prifysgol Ramon Llull).
- 29/06/23: 'Her i Bawb' Mark Burns
- Cyrsiau uwchsgilio Ffrangeg a Sbaeneg ar-lein i ymarferwyr ysgolion cynradd sy'n ddechreuwyr - Power Language. Mae'r diddordeb a nifer y ceisiadau yn tyfu: 39 athro hyd yma.
- Adnoddau cynradd: Tanysgrifiad a chymorth Power Language: er mis Mawrth 2022 mae 133 ysgol yn elwa ar y tanysgrifiad tair blynedd a ariennir yn llawn.
- Cynradd: Dilyniant o ddiwrnod Power Language. Cafodd 8 ysgol gynradd ddolen i gysylltu ag ysgolion partner yn Sbaen.
- Cynnig digwyddiadau rhannu: 2/3 digwyddiad - gan gynnwys Marchnad CiG GwE a Rhwydwaith Rhanbarthol. Mae gwefan Google newydd wedi'i chreu ar gyfer rhannu'r gwaith.
- Cwrs Hyfforddiant Trochi, wedi'i ariannu, yn Ffrainc neu Sbaen: bu'r cais am grant Taith yn llwyddiannus: un wythnos o hyfforddiant trochi mewn iaith a diwylliant, a fydd yn arwain at uwchsgilio nifer o athrawon cynradd ac uwchradd i addysgu IRh. Mae trefniadau yn mynd rhagddynt.
- Parhau i hyrwyddo digwyddiadau gan sefydliadau a helpu ysgolion i gymryd rhan yn y rhain h.y. cystadleuaeth Gwobr Anthea Bell, yr Institut francais: Fideo pop/Joutes oratoires; cynnig y Goethe Institute.
- Cysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion partner
- Beth am Astudio Ieithoedd - Prifysgol Bangor

- Mae nifer o ddigwyddiadau a chyfleoedd pwrpasol neu ranbarthol hefyd yn cael eu datblygu a'u hybu trwy gydweithio â phartneriaid a sefydliadau sy'n hyrwyddo ieithoedd.
- Partneriaeth Cymru-Llydaw: Yn dilyn cyfarfodydd gyda'n cyd-weithwyr yn yr Académie de Rennes (Llydaw), cafodd ysgolion cynradd ac uwchradd gyfle i wneud cais am bartneriaeth gydag ysgol yn un o 4 rhan y rhanbarth yn Ffrainc. Anfonwyd gwybodaeth lawn i bob ysgol. Mae cofrestru yn mynd rhagddo.
- Partneriaeth Cymru-Malaga - Yn dilyn diwrnod hyfforddiant Power Language y llynedd, cafodd ysgolion cynradd oedd â diddordeb mewn partneriaeth gydag ysgol yn Sbaen ddolenni at ysgolion partner penodol yn Malaga.
- Mentora ITM: Bydd 17 ysgol yn cymryd rhan. Rhoddwyd blaenoriaeth i rai ysgolion nad oeddent wedi gallu cymryd rhan yn flaenorol. Datblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu ieithoedd, pwysigrwydd ieithoedd a chodi dyheadau myfyrwyr.

Rhennir arferion yn seiliedig ar dystiolaeth ag ysgolion, a datblygir dulliau lluosieithog ymhellach mewn ysgolion. Mae cysylltiadau a chynllunio ar draws ILlCh ac ar draws sectorau yn datblygu ac yn gwella.

Rhennir arferion sy'n dod i'r amlwg a'u dathlu, a chaiff staff ac ysgolion gyfle i fyfyrio ar ac adolygu eu harferion. Mae hyn yn rhoi cyfleoedd i staff ac athrawon gydweithio, rhannu a datblygu ansawdd y Dysgu a'r Addysgu, adnabod anghenion a chytuno ar y gefnogaeth orau.

**Tasgau Asesu AATT (Articulated Assessment Transfer Tasks) wrth gynllunio cwricwlwm**

Datblygu prosiect AATT - ar y cyd â'r Athro Jennifer Eddy (Athro Cyswllt a Chyfarwyddwr y Rhaglen World Language Education ym Mhrifysgol Efrog Newydd, UDA). Mae ysgolion y prosiect a GwE wrthi'n datblygu ac yn casglu'r holl ddogfennau a'r wybodaeth berthnasol i'w cyflwyno ar gyfer eu cyhoeddi. Er mwyn datblygu ymhellach ar y broses ddylunio hon, a rhoi cyfle i athrawon gydweithio, dylunio a gweithredu enghreifftiau newydd, sefydlwyd gweithgor newydd o 6/7 ymarferwr.

**Adnoddau cynradd: Tanysgrifiad a chymorth Power Language.**

Ar hyn o bryd mae gan 142 ysgol danysgrifiad a ariennir yn llawn. Mae'r cynnig am danysgrifiad blwyddyn yn dal ar agor gan bod ysgolion newydd yn ymgeisio. Mae nifer o ysgolion cynradd yn defnyddio'r adnoddau Power Language yn effeithiol i ateb anghenion eu lleoliad a'u cyd-destun, ac mae staff yn fwy hyderus a medrus wrth ddysgu ac addysgu IRh.

**MATHEMATEG A RHIFEDD**

**Darparu cymorth i Arweinwyr Mathemateg a Rhifedd, fel bod modd iddynt yrru eu taith welliant eu hunain.**

**Cynradd ac Uwchradd**

Parhawyd i ddarparu cymorth pwrpasol i'r ysgolion yn y rhanbarth y bernir sydd 'mewn risg' neu mewn categori ESTYN. Mae hyn wedi arwain at well arweinyddiaeth yng nghyd-destun mathemateg a rhifedd a gwell dealltwriaeth o sut y mae datblygu cynllun rhifedd strategol ysgol gyfan yn cefnogi rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae ymweliadau/cyfarfodydd rheolaidd a niferus ag ysgolion wedi golygu hyfforddi staff, datblygu strategaeth rifedd, rhoi cymorth gyda chynllunio ac asesu cynnydd dysgwyr, tracio a defnyddio hyn i symud dysgwyr ymlaen a llywio eu darpariaeth, monitro effaith y gweithgareddau hyd yma ac adnabod a rhannu adnoddau sy'n berthnasol i anghenion staff/dysgwyr y lleoliad wrth iddynt weithredu a symud tuag at ddiwygiadau'r Cwricwlwm i Gymru.

**Cynradd**

Ar y cyd â'r YCG Llythrennedd Cynradd cynhaliwyd dau gyfarfod ar Zoom i rannu'r Strategaeth Llythrennedd a Rhifedd Cynradd yn rhanbarthol. Bydd hyn yn fodd i raeadru'n rhanbarthol, yn Gymraeg a Saesneg. Bydd YCG Llythrennedd a Rhifedd yn briffio YCG ysgolion i sicrhau bod pob ysgol wedi nodi datblygu Llythrennedd neu Rifedd fel blaenoriaeth yn y CDY ar gyfer 2023/24. Rhennir gwybodaeth ag YCG ac ysgolion Cynradd rhanbarthol yn fuan ym mis Medi 2023. Trefnir cyfarfodydd Rhifedd tymhorol gyda ffocws penodol ar helpu ysgolion i weithredu'r strategaeth ar ôl hyn.

**Uwchradd**

Cynhaliwyd cyfarfod rhanbarthol i Benaethiaid Mathemateg ym mis Mehefin ac roedd 48 yn bresennol. Canlyniad hyn yw arweinwyr mathemateg yn cael gwell dealltwriaeth o ddisgwyliadau ESTYN gyda 100% o'r rhai a oedd yn

bresennol yn nodi ar y ffurflen adborth bod y sesiwn yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Darparwyd gweithdy hefyd ar ddatblygu prosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant yn y cyfarfod rhanbarthol i benaethiaid mathemateg, a gafodd effaith gadarnhaol, gyda 75% o'r rhai a oedd yn bresennol yn nodi ar y ffurflen adborth bod y sesiwn yn ddefnyddiol neu'n ddefnyddiol iawn. Bu penaethiaid mathemateg yn cydweithio ar adnabod cryfderau, rhannu arferion da a'r camau nesaf i'w hadrannau.

Mae YCG yn parhau i roi arweiniad i arweinwyr ar ddatblygu cynllun strategol. Canlyniad cyfarfodydd rhwydwaith rhifedd lleol oedd cydlynwyr yn rhannu arferion da, eu cynnydd gyda chynllunio'n strategol, gan gydweithio ar ddatblygu strategaeth rifedd ysgol gyfan ac arferion sy'n dod i'r amlwg yn y rhwydwaith lleol. Mae llawer o ysgolion (lle mae rhifedd yn flaenoriaeth) wedi dechrau datblygu cynllun strategol effeithiol ar gyfer Rhifedd.

Trefnwyd cyfarfodydd rhwydwaith lleol i Benaethiaid Mathemateg ar gyfer mis Hydref 2023, ac mae 48 ysgol wedi cofrestru. Ffocws y cyfarfodydd fydd hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol, dadansoddi arholiadau TGAU, asesu a chynnydd yn y CiG, sicrhau bod gan Benaethiaid Mathemateg yr wybodaeth ranbarthol a chenedlaethol ddiweddaraf a rhannu arferion da ac arferion sy'n dod i'r amlwg.

Trefnwyd cyfarfodydd lleol i Arweinwyr Rhifedd hefyd ar gyfer mis Hydref 2023, ac mae 44 ysgol wedi cofrestru. Ffocws y cyfarfodydd fydd defnyddio asesiadau personol yn effeithiol, rhoi cefnogaeth i Arweinwyr Rhifedd gynllunio yn strategol ar gyfer datblygu Rhifedd ar draws y cwricwlwm, sicrhau bod gan Arweinwyr Rhifedd yr wybodaeth ranbarthol a chenedlaethol ddiweddaraf a rhannu arferion da ac arferion sy'n dod i'r amlwg.

**Cynradd ac Uwchradd**
Mae'r tîm wedi rhoi sylw i geisiadau penodol gan ysgolion i gefnogi athrawon/adrannau mathemateg efo dysgu ac addysgu. O ganlyniad mae athrawon/adrannau mathemateg wedi cael hyfforddiant pwrpasol ar ddeall dulliau addysgegol mathemategol, gan gynnwys datblygu'r hyfedreddau, gwahaniaethu a chwestiynu effeithiol. Mae athrawon yn treialu strategaethau, sy'n arwain at gynllunio fwy effeithiol.

**Cynradd**
Cyfarfu'r YCG Mathemateg a Rhifedd ag arweinydd Rhifedd ysgol gynradd i gynllunio hyfforddiant ar ddefnyddio trinolion yn effeithiol i roi hwb i gynnydd dysgwyr. Mae gweithdai ar y gweill ar gyfer tymor y gwanwyn.

Cafodd clystyrau o ysgolion rhanbarthol gymorth clwstwr penodol gyda chynnwys y MDaPh Mathemateg a Rhifedd newydd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu dealltwriaeth o'r 5 hyfedredd mathemategol.

**Uwchradd**
Cynhaliwyd Diwrnod 1 rhaglen 'Mathematics Education Innovation' ym mis Medi 2023, gyda 29 yn mynychu o'r rhanbarth. Amcanion y gweithdy oedd datblygu hyder a medrau athrawon yn y pwnc hyd at, ac yn cynnwys, haen ganolradd TGAU, dysgu mwy am egwyddorion addysgeg effeithiol wrth addysgu mathemateg, defnyddio'r egwyddorion hyn yn y dosbarth ynghyd â strategaethau ac adnoddau ymarferol a darparu cyfleoedd i fyfyrio ar greu amgylchedd effeithiol ac atyniadol ar gyfer dysgu mathemateg. Pan ofynnwyd ar y ffurflen werthuso pa mor werthfawr fu'r diwrnod, cafwyd sgôr 4/5 neu 5/5 gan 100% o'r aelodau, gyda 75% yn rhoi sgôr o 5/5.

Mae'r rhaglen 'Defnyddio trinolion yn effeithiol' wedi'i threfnu, ac mae 44 ysgol wedi cofrestru i gymryd rhan yn y rhaglen. Cynhelir Diwrnod 1 ym mis Hydref 2023, a bydd yn weithdy ymarferol dan arweiniad Jonathan Hall yn edrych ar sut gellir defnyddio Teils Algebra yn effeithiol i helpu disgyblion i wneud synnwyr o gysyniadau allweddol fel rhifau cyfeiriol, datrys hafaliadau, trin mynegiadau a phrofion algebraidd .

**Cynradd**
Mae'r YCG Mathemateg a Rhifedd wedi darparu cymorth pwrpasol i athrawon/arweinwyr rhifedd ar ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm, yn dilyn ceisiadau gan YCG ysgolion. Bu ffocws y cymorth ar sicrhau bod y dyluniad cwricwlwm yn hwyluso cymhwyso rhifedd mewn sefyllfaoedd bywyd go iawn, a helpu dysgwyr i gael mynediad at y cwricwlwm ehangach. Mae'r YCG wedi rhoi cefnogaeth i arweinwyr rhifedd gyda gweithdrefnau sicrhau ansawdd i adnabod cryfderau a meysydd penodol ar gyfer gwelliant, sydd wedi gwella hyder a dealltwriaeth i arwain yr ysgol gyfan yn effeithiol.

Cyfarfu'r YCG Mathemateg a Rhifedd ag ysgolion cynradd a gomisiynwyd i hwyluso rhannu arferion effeithiol ar draws y rhanbarth yng nghyd-destun rhifedd ar draws y cwricwlwm. Mae'r gwaith hwn yn parhau, a bydd yn cael ei rannu'n rhanbarthol yn ystod tymor yr hydref.

Cyfarfu'r YCG Mathemateg a Rhifedd Cynradd â chynrychiolydd Gwyddoniaeth Gynradd i greu gweithdy rhanbarthol ar ddatblygu sgiliau rhifedd yn effeithiol ym MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Rhennir gwybodaeth ag YCG ac ysgolion Cynradd rhanbarthol yn fuan ym mis Medi 2023, a darperir gweithdai yn rhanbarthol o fis Hydref 2023 ymlaen.

Ar y cyd ag arweinwyr rhanbarthol ar gyfer Llythrennedd a Digidol mae'r gweithdai rhanbarthol 'Datblygu sgiliau rhifedd yn effeithiol o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg' bellach wedi'u haddasu yn rhaglen dros dri diwrnod i athrawon (8-11), gyda phwyslais ar ddatblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.

Yn dilyn ceisiadau gan YCG, cafodd clystyrau o ysgolion rhanbarthol gymorth clwstwr penodol gyda chynnwys y MDaPh Mathemateg a Rhifedd newydd, gyda ffocws penodol ar ddatblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm.

**Uwchradd**

Fel rhan o'r cymorth pwrpasol a ddarperir i arweinwyr ysgolion, mae YCG wedi rhoi cefnogaeth efo datblygu rhifedd ar draws y cwricwlwm trwy gydweithio ag adrannau/athrawon allweddol eraill i gynllunio gweithgareddau rhifedd gwreiddiol, effeithiol a phriodol yn eu pynciau. Mae YCG wedi rhoi cefnogaeth i gydlynwyr rhifedd gyda gweithdrefnau sicrhau ansawdd i adnabod cryfderau a meysydd penodol ar gyfer gwelliant, sydd wedi gwella hyder a dealltwriaeth cydlynwyr rhifedd o brosesau hunanarfarnu a chynllunio gwelliant effeithiol.

**GWYDDONIAETH A THECHNOLEG**

**GWYDDONIAETH**

**Cwricwlwm ac Asesu**

**Cyfarfodydd Rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg**

Cynhaliwyd tri chyfarfod Rhwydwaith i Benaethiaid Gwyddoniaeth yn cynrychioli'r chwe awdurdod lleol, a chafwyd niferoedd a chroeso da (74 wedi mynychu). Mae'r rhwydwaith yn rhoi arweiniad clir i arweinwyr ac athrawon MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg ar ddylunio a chynllunio'r cwricwlwm, asesu a chynnydd.

Fe wnaeth y Rhwydweithiau adolygu enghreifftiau o arferion sy'n dod i'r amlwg mewn ysgolion a chanolbwyntio ar:

1. Ddatblygu dealltwriaeth o gynnydd a mapio cynnydd
2. Datblygu Sgiliau Cyfannol wrth ddysgu trwy brosiectau
3. Cyd-lunio prosiect / thema Gwyddoniaeth a Thechnoleg
4. Cyfleoedd i ddatblygu Codio ar draws y MDaPh

Cafwyd adborth cadarnhaol ar y ffurflenni gwerthuso ac mae sawl ysgol wedi prynu'r citiau crumble neu'n defnyddio'r citiau microbit yn dilyn yr hyfforddiant, ac yn gwreiddio technolegau digidol yn eu cwricwlwm.

**Datblygu sgiliau trawsgwricwlaidd o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**

Mae YCG Gwyddoniaeth GwE wrthi'n gweithio gyda chonsortia addysg Cymru i ddarparu canllawiau dysgu proffesiynol ar-lein ar ddatblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Defnyddir y rhain i lywio cynnwys cyfarfodydd rhwydwaith mis Tachwedd. Gofynnwyd i ysgolion dethol rannu arferion CiG sy'n dod i'r amlwg.

Mae cydweithio wedi cychwyn ag YCG Llythrennedd a Rhifedd GwE er mwyn sicrhau bod datblygiad sgiliau priodol ar bob cam cynnydd. Mae arweinwyr Rhifedd GwE wedi cynnig rhoi cymorth ac arweiniad yng nghyfarfodydd rhwydwaith tymor yr hydref.

Ffocws cyfarfodydd rhwydwaith tymor yr hydref Ch3 fydd cynllunio ar gyfer cynnydd o fewn sgiliau.
Cynhaliwyd gweithdai codio gydag arweinydd digidol GwE a Technocamps yn y cyfarfodydd rhwydwaith Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Bydd ffocws parhaus ar hyn yng nghyfarfodydd rhwydwaith tymor yr hydref. Cafodd y cyfarfodydd dderbyniad da, gyda rhai athrawon yn dweud eu bod yn fwy hyderus wrth ddefnyddio Crumble a Microbit yn y dosbarth.

**Datblygu Profiadau sy’n gysylltiedig â Gyrfaoedd a Gwaith (CWRE) o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg.**

Mae gwaith ar y gweill efo'r Bartneriaethau Sgiliau Ranbarthol a Gyrfa Cymru, gyda phrosiect CWRE cychwynnol i ysgolion yn cael ei ddatblygu. Hyderir y bydd hyn yn dempled i ysgolion eraill yn rhanbarth GwE. O ganlyniad i'r cymorth dylai athrawon:

- wybod sut i gysylltu â'u Cynghorydd Cyswllt Busnes Gyrfa Cymru
- gwybod sut i gynllunio ymweliadau â chyflogwyr - ac ymweliadau gan gyflogwyr lle bo'n briodol yn y cwricwlwm
- gwybod sut i drefnu llysgenhadon STEM i ddod i siarad â myfyrwyr am eu gwaith
- cynllunio ar gyfer cynnwys CWRE yn eu datblygiad cwricwlwm a'u cynlluniau gwaith
- datblygu eu Gwybodaeth am y Farchnad Lafur

Lluniwyd arweiniad i ymarferwyr, sydd wrthi'n cael ei gyfieithu.

Mae adnoddau i fyfyrwyr ac athrawon yn dal i gael eu datblygu a'u diweddaru ar wefan TANIO.
Dal effaith fel a ganlyn:

- mae cyflwyniadau ppt, tudalennau we a chardiau fflach ar gyfer y gwyddorau unigol wedi'u datblygu a'u huwchlwytho i wefan TANIO
- gellir gweld yr adnoddau ar ddyfeisiau symudol.
- mae defnydd o'r adnoddau yn cael ei fonitro gyda chwcis a chyfrif o ymweliadau â thudalennau - Dadansoddi gan Google

**Prosiect Ymchwil Weithredu Gwyddoniaeth i ymarferwyr ystod oedran 3-8**

Cafwyd cydweithio a dysgu proffesiynol dan arweiniad Kathy Schofield (cymrawd PSTT) a Thîm 3-8 GwE ar 26.09.23 i ymarferwyr ystod oedran 3-8. Daeth 21 ysgol i'r sesiwn o'r 24 ysgol a wahoddwyd. Trefnwyd sesiwn dilynol i'r ysgolion hynny nad oeddent yn gallu mynychu oherwydd arolygiadau ESTYN. Mae Kathy Schofield wedi dechrau ymweld ag ysgolion a wahoddwyd ar draws y rhanbarth i roi cefnogaeth gyda gwella darpariaeth ac enghreifftiau o astudiaethau achos.

**DIGIDOL**

**Datblygu'r sgiliau trawsgwricwlaidd gorfodol a sgiliau codio a digidol**

Yn ystod mis Medi, lansiwyd cyfres o adnoddau i gefnogi’r maes digidol oedd yn canolbwyntio ar gynnydd disgyblion o gam cynnydd 1 hyd at gam cynnydd 5. Gelwir yr adnoddau hyn yn fapiau cynnydd, a’r bwriad yw eu bod ar gael i ymarferwyr er mwyn annog ystyriaethau mewn perthynas â chynnydd dysgwyr wrth iddynt gynllunio a pharatoi tasgau. Gellir hefyd defnyddio’r adnoddau hyn wrth fonitro, adolygu a gwerthuso’r maes digidol gan eu bod yn cynnig fframwaith y gellir ei ddefnyddio wrth adolygu cynnydd dysgwyr. Hyd yma, mae’r ymateb i’r adnoddau hyn wedi bod yn wych gyda nifer fawr o ymarferwyr yn gweld budd yn eu defnyddio. Hyd yma mae 8 set o adnoddau wedi cael eu rhyddhau, ac mae pob set yn canolbwyntio ar agwedd arbennig ar y maes e.e. podleidadau, cynhyrchu fideo, meddwl cyfrifiadurol etc. Mae’n fwriad i barhau i gynhyrchu adnoddau yn ystod chwarter 3 er mwyn datblygu’r gwaith hwn ymhellach.

Mae’r rhaglen hwyluswyr digidol yn parhau i ddatblygu. Yn ystod chwarter 2 cynhaliwyd sesiwn hyfforddi ar gyfer holl hwyluswyr digidol y rhanbarth yng Nghanolfan Fusnes Conwy. Roedd y diwrnod yn canolbwyntio ar amcanion y rhaglen ar gyfer 2023-24. Yn ystod y prynhawn cynhaliwyd gweithdy yn defnyddio citiau Lego Spike er mwyn cynnal tasgau rhaglennu sy’n cyfateb i ofynion newydd yn y Cwricwlwm i Gymru. Trafodwyd y posibilrwydd o fuddsoddi mewn citiau fel clwstwr yn hytrach na fel ysgolion unigol er mwyn lleihau’r baich ariannol. Awgrymwyd bod pob hwylusydd digidol yn mynd a’r drafodaeth hon yn ôl at eu clwstwr er mwyn trafod ymhellach. Rydym eisoes wedi cael rhai clystyrau yn cysylltu i ddweud wrthym eu bod wedi cytuno i brynu'r offer ar y cyd.

Fel rhan o’r rhaglen hwyluswyr digidol, targedwyd nifer o glystyrau oedd naill ai heb gychwyn ar y gwaith am amryw o resymau neu’n newydd i’r rhaglen. Gwahoddwyd 11 clwstwr i ddiwrnod hyfforddiant. Bwriad y digwyddiadau hyn oedd rhoi cyfle i’r clystyrau gychwyn ar y gwaith o gydweithio i ddatblygu’r maes digidol. Rhoddwyd tasgau penodol i’r clystyrau yn ystod y sesiwn er mwyn sicrhau bod pawb yn gadael gyda chynllun clir mewn lle ar gyfer gweddill y flwyddyn. Roedd YCG y clwstwr yn bresennol hefyd ac roedd hyn yn help i sicrhau eu bod yn ymwybodol o’r cynllun er mwyn gallu trafod hyn ymhellach gyda’r ysgolion yn ystod ymweliadau. Roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn,

gydag ysgolion yn nodi eu bod yn gwerthfawrogi'r amser a'r cyfle i drafod y maes mewn dyfnder gyda chyd-weithwyr o ysgolion eraill.

Mae'r cynnig dysgu proffesiynol ar gyfer y maes dysgu digidol bellach yn fyw. Mae 38 o ddigwyddiadau yn cael eu cynnig ar hyn o bryd ar gyfer 2023-24, ac mae pob un yn agored i ymarferwyr ar hyd y rhanbarth i gofrestru. Mae rhai digwyddiadau yn cael eu cynnal dros ddiwrnod, gydag eraill yn raglenni datblygu sy'n cael eu cynnal dros 2 neu 3 diwrnod. Yn ychwanegol i'r arlwy arferol, rydym eleni yn cynnig rhaglenni datblygu sy'n canolbwyntio ar ofynion rhaglennu o fewn Cwricwlwm i Gymru. Mae'r hyfforddiant yn cael ei gynnig ar ddwy haen - codio sylfaenol a chodio canolradd. Y bwriad yw bod yr athrawon sy'n mynychu'r rhaglen codio sylfaenol yn gallu datblygu eu sgiliau ymhellach drwy fynychu'r sesiynau codio canolradd. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau arbenigol i ymarferwyr o'r sector uwchradd eleni. Bydd y sesiynau hyn yn canolbwyntio ar y cyfleoedd sydd o fewn meysydd dysgu a phrofiad unigol i ddatblygu sgiliau digidol dysgwyr, a hynny drwy weithgareddau pwrpasol sy'n gwella sgiliau'r dysgwyr yn ogystal â dealltwriaeth o'r pwnc/maes dan sylw.

Mae'r cydweithio â Phrifysgol Bangor yn parhau. Bydd y Brifysgol yn cynnal archwiliad i'r effaith mae technoleg ddigidol yn ei gael ar ddysgwyr y rhanbarth. Bydd yn seiliedig ar ddau gwestiwn allweddol:

a) Sut mae cefnogaeth gan Awdurdodau Lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn helpu ysgolion i wella'u darpariaeth?
b) Sut mae technoleg ddigidol yn effeithio ar safonau dysgwyr, ac ar safon y dysgu ac addysgu o fewn ysgolion?

Mae'r ymchwiliad ar hyn o bryd yn disgwyl cael ei gymeradwyo gan y panel moeseg er mwyn gallu cychwyn ar y gwaith. Bydd holiadur yn cael ei ryddhau a fydd yn agored i bob ysgol o'r rhanbarth. Bydd y ffenestr ymateb ar agor am gyfnod o 4 wythnos. Yn dilyn hyn bydd y brifysgol yn trefnu i ymweld â trawstoriad o'r ysgolion sydd wedi ymateb i'r holiadur er mwyn cynnal cyfweliadau. Bydd yr holl fanylion yna'n cael eu dadansoddi er mwyn cynhyrchu adroddiad rhanbarthol yn ogystal ag adroddiad ar gyfer pob awdurdod lleol. Bydd y canfyddiadau hyn o gymorth i'r gwasanaeth rhanbarthol a'r awdurdodau lleol wrth i ni gynllunio rhaglen waith 2024-25.

**CONTINIWM ADDYSG 3 i 16**

**TROSGLWYDDO/PONTIO**

**Cefnogi ysgolion, UauCD, clystyrau a chynghreiriau ar draws y continwwm 3-16, a thu hwnt, i wella pontio trwy wella darpariaeth gwricwlwm, cydweithio a safonau mewn cynnydd; gwella pontio i ddysgwyr bregus; mynd i'r afael â dylunio a gweithredu cwricwlwm, gan gynnwys datblygu a gwreiddio cynnydd mewn dysgu.**

Uwch sgiliwyd tîm GwE o ran y gofynion yng nghyd-destun cynllunio pontio a chynnwys statudol cynlluniau pontio. Rhannwyd adnoddau perthnasol ag YCG ac ysgolion, gan gynnwys gwybodaeth am ofynion cynlluniau pontio. Mae ysgolion wedi rhannu cynlluniau perthnasol. Mae diweddariad ar y gweill ar gyfer 06/11/23 i sicrhau cysondeb mewn cynlluniau pontio a bod yr holl gynlluniau yn bodloni gofynion LlC.

Mae'r gwasanaeth rhanbarthol wedi rhoi pwyslais cryf ar ddatblygu addysgeg fel rhan o'r cymorth ar gyfer datblygu'r Cwricwlwm i Gymru. Daeth cynrychiolwyr clwstwr i weithdy dysgu proffesiynol gan GwE ar bontio yn ddiweddar. Cynlluniodd bob clwstwr eu camau nesaf ar y cyd er mwyn gwella cynnydd disgyblion ar hyd y continwwm dysgu.

Mae gan bob clwstwr gynllun pontio; fodd bynnag, mae ar ambell glwstwr yn y rhanbarth angen cymorth pellach i ddiweddaru eu cynlluniau pontio yn sgil gofynion y Cwricwlwm i Gymru a sicrhau y rhoddir sylw llawn i'r gofynion hyn. Cefnogir y clystyrau hyn yn barhaus gan eu YCG, ac mae dysgu proffesiynol pellach ar y gweill i ddatblygu deialog broffesiynol gadarn am gynnydd a safonau dysgwyr.

Mae dysgu proffesiynol cyffredin a phenodol yn yr arfaeth ar gyfer tymor yr hydref 2023, a fydd yn cynnwys cydweithio a deialog broffesiynol rhwng clystyrau i sicrhau eglurder a chysondeb mewn hunanarfarnu, a helpu ysgolion a chlystyrau i wreiddio a datblygu ymhellach arferion llwyddiannus wrth sicrhau cynnydd 3-16. Bydd yn cychwyn ar 20/10/23, gyda 4 sesiwn rhanbarthol.

Rhannodd dau glwstwr ac un ysgol arbennig 6-19 oed arferion llwyddiannus wrth ddatblygu trefniadau pontio 3-16 yn y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru rhanbarthol ym mis Mehefin 2023. Roedd negeseuon pwysig yn cynnwys pa mor bwysig yw canolbwyntio ar ddisgyblion a'u cynnydd a'u targedau, yr hyn y gall pob disgybl unigol ei gyflawni, a

phwysigrwydd craidd cydweithio, cyd-atebolrwydd a chydberthnasau cadarnhaol er mwyn helpu'r dysgwyr hyn i gyflawni.

Mae clystyrau penodol yn dal i wneud cynnydd da yn y Prosiect Pontio Addysgeg. Rhannwyd arferion llwyddiannus ar draws y 12 clwstwr gan gynnwys aelodau staff ar amrywiol lefelau, sydd wedi hwyluso rhoi strategaethau pellach ar waith ar draws y rhanbarth yn yr ysgolion clwstwr. Mae gwaith rhannu pellach ar y gweill yn nhymor yr hydref 2023. Yn dilyn hyn bydd y prosiect yn cael ei ehangu i gynnwys rhagor o glystyrau. Mae digwyddiad rhannu effaith ar y gweill ar gyfer y gynhadledd Cwricwlwm i Gymru ranbarthol ar 6 Mehefin 2024.

Cynllunnir y camau nesaf yn unol â chanllawiau mandadol LlC ac mae'r cynllun busnes wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r rhain, er mwyn gofalu bod cyswllt pendant â chydweithio mandadol a CGY trwy ddysgu proffesiynol cyffredin i helpu Penaethiaid i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd.

**ASESU**
**Cynradd**
Cynhaliwyd gweithdai ar y 3 Diben Asesu yn y CiG i ysgolion cynradd er mwyn helpu ysgolion i gael gwell dealltwriaeth o bwrpas gwybodaeth asesu a sut defnyddir hyn i lywio'r dysgu a'r addysgu, yn ogystal â gweithgareddau hunanwerthuso a gwella ehangach.

Ffocws y gweithdai oedd:
- Cefnogi dysgwyr unigol yn barhaus o ddydd i ddydd
- Nodi, cofnodi a myfyrio ar gynnydd dysgwyr unigol dros amser
- Deall cynnydd grwpiau er mwyn myfyrio ar arferion.

Darparwyd 8 sesiwn ar y Tri Diben Asesu ym mis Mai-Mehefin 2023. Cyflwynwyd 4 sesiwn rhanbarthol yn ystod dyddiau HMS ar strategaethau Asesu ar gyfer Dysgu, a 7 sesiwn rhanbarthol ym mis Mehefin 2023 ar asesiadau wrth dderbyn. Cyflwynwyd 2 sesiwn arall ar draws y rhanbarth ar asesiadau ar fynediad ym mis Medi 2023, ynghyd â 2 sesiwn ar Dri Diben Asesu ym mis Hydref 2023. Aeth nifer o gyd-weithwyr uwchradd i sesiwn tymor yr hydref yn pwysleisio pwysigrwydd y cwricwlwm 3-16.

Yn ôl adborth yn ystod y sesiynau fe hoffai llawer o ysgolion gael diweddariad/hyfforddiant pellach i'r holl staff addysgu, yn cynnwys cymorthyddion dysgu, ar brif egwyddorion Asesu Ffurfiannol, ac mae'r maes hwn yn flaenoriaeth o hyd. Mae GwE wedi darparu Polisi Asesu enghreifftiol i ysgolion, sy'n bodloni'r gofynion newydd ac y gellir ei addasu i gyd-fynd ag arferion yr ysgol. Mae hyn wedi'i groesawu gan ysgolion ar draws y rhanbarth.

**Uwchradd**
Mae gwaith paratoi wedi gorffen ar gyfer gweithdy Uwchradd ar adrodd, i'w gynnal ar 27 a 28 Tachwedd 2023. Targedir hwn ar gyfer arweinwyr cwricwlwm ysgol a phenaethiaid, i edrych ar y cysylltiad rhwng gweledigaeth, dylunio, cynllunio, cynnydd, deialog broffesiynol, gwerthuso a gwella ysgol ac adrodd i rieni. Bydd lle i 80 ar draws y ddau weithdy.

Mae Cynhadledd Michael Chiles ar asesu wedi'i threfnu ar gyfer mis Chwefror 2024. Fel y prif siaradwr bydd yn canolbwyntio ar le canolog asesu o fewn y cwricwlwm newydd, a bydd ysgolion yn rhannu manylion eu llwyddiannau hyd yma ynghyd ag arferion sy'n dod i'r amlwg.

Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer diwrnod dysgu proffesiynol ar ddulliau asesu ffurfiannol. Bydd y ffocws ar ddulliau da o gefnogi cynnydd dysgwyr mewn dosbarth uwchradd gallu cymysg.

Cyflwynwyd dysgu proffesiynol penodol mewn nifer o ysgolion rhanbarthol i helpu gyda datblygu asesu, cynllunio ar gyfer cynnydd ac arferion asesu ffurfiannol ar gyfer dysgu yn y dosbarth. Cafwyd 12 cyflwyniad/rhaglen i gefnogi HMS ar agweddau ar gynllunio asesu yn ystod Chwarter 2, ac mae'r adnoddau ar gael i bob YCG eu defnyddio gydag ysgolion.

Mae adnodd dysgu proffesiynol a rhannu gwybodaeth wedi'i baratoi ar gyfer arweinwyr craidd uwchradd ac YCG. Rhannwyd hwn â hwy a'i egluro iddynt. Mae'n rhoi gwybod i benaethiaid ac uwch arweinwyr am y gofynion o ran adrodd i rieni. Mae hwn yng nghyd-destun y continwwm cynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd, a'r ddeddfwriaeth ar gyfer adrodd.

Mae adnodd dysgu proffesiynol a rhannu gwybodaeth wedi'i baratoi er mwyn i Arweinwyr Craidd helpu penaethiaid ac uwch arweinwyr i gynllunio sgyrsiau ar gyfer datblygu dealltwriaeth gyffredin o gynnydd yn yr ysgol, ac ar lefel clwstwr a chynghrair. Bydd hyn yn rhoi gwybod i ysgolion am y gofyniad cyfreithiol ac yn eu helpu i lunio eu cynlluniau.

**AMCAN 3 – DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL**

**Blaenoriaeth:**
**3.1 Gwella Addysgu**

**CYFRANIADAU GAN FDaPh A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA ADDYSGU**

**Gwella Dysgu ac Addysgu**
**Hwyluso cynnig dysgu proffesiynol cyffredin neu wedi'i gomisiynu a chymorth penodol wedi'i dargedu.**
Mewn gweithdy ar 29/06/23, ac wedi'i gomisiynu gan GwE, rhannodd Mark Burns, awdur 'Teaching Backwards', sut i ddylunio a chyflwyno gwersi effeithiol sy'n ennyn diddordeb dysgwyr a'u hysbrydoli. Ffocws penodol y gweithdy oedd dilyniant gofalus yn y cwricwlwm i sicrhau cynnydd yn y dysgu. Mae gan syniad Mark o 'ddylunio tuag yn ôl' hanes llwyddiannus o gael effaith sylweddol ar gyflawniad a chymhelliant myfyrwyr dros y blynyddoedd. Ffocws y gweithdy oedd addysgu tuag yn ôl, gan ddechrau efo'r nod ar y diwedd. Roedd yr hyfforddiant yn cynnig dull ymarferol ac uniongyrchol i staff fireinio ymhellach eu hagweddau, eu sgiliau a'u harferion rhagoriaeth, yn ogystal â rhai eu dysgwyr. Mae trafodaethau efo Mark yn parhau gyda golwg ar weithdy dilynol yn canolbwyntio ar wahaniaethu a lefel her. Hwylusir cyfleoedd dysgu proffesiynol pellach yn ystod y flwyddyn i ddatblygu:

- cynllunio ar gyfer cynnydd
- gwahaniaethu (gwneud dysgu o fewn cyrraedd)
- cynyddu lefel yr her

Yn dilyn gweithdy'r haf, mae rhai ysgolion wedi trefnu dyddiau HMS gyda Mark Burns i gefnogi eu DP ymhellach.

**Sefydlu Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu i arweinwyr Dysgu ac Addysgu Uwchradd er mwyn gofalu bod yr arferion gorau yn cael eu datblygu a'u bod yn cefnogi ei gilydd i ddatblygu dull addysgegol cyson.**
Cynhaliwyd y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf ar 21/09/2023, yn canolbwyntio ar Fetawybyddiaeth ac Arweinyddiaeth. Daeth 41 ysgol allan o 54 i'r cyfarfod. Ers y cyfarfod cyntaf cafwyd sawl cais gan Arweinwyr Dysgu ac Addysgu am ein hadnoddau hyfforddiant i'w defnyddio gyda staff yn eu hysgolion. Roedd adborth y cyfarfod yn gadarnhaol, ac mae Tîm Dysgu ac Addysgu wedi'i sefydlu i gyfleu negeseuon a chynnig cefnogaeth mewn sesiynau 'galw heibio' bob pythefnos. Mae'r newyddlen gyntaf wedi'i hanfon ar e-bost at bob Pennaeth, Arweinydd Dysgu ac Addysgu, YCG ac YCG Pwnc. Y flaenoriaeth ar gyfer y cyfarfod Rhwydwaith nesaf fydd sesiwn ar gwestiynu effeithiol. Roedd hon yn flaenoriaeth a adnabuwyd yn dilyn y cyfarfod Rhwydwaith cyntaf, ynghyd ag adborth effeithiol.

**Cefnogi efo rhwydwaith Dysgu ac Addysgu**
Mae'n fwriad sefydlu rhwydwaith arweinwyr addysgeg ar gyfer ymarferwyr Cynradd ac Uwchradd, a fydd yn canolbwyntio ar:

- ddatblygu ymhellach gwricwlwm a arweinir gan ddibenion
- disgrifio arfer yn y 12 egwyddor addysgegol
- arweinyddiaeth addysgeg/dysgu ac addysgu
- cynllunio ar gyfer yr Egwyddorion Cynnydd
- effaith addysgu ar ddysgu

**YMCHWIL AC ARFARNU (Ymchwil ac ymholi)**

**Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL)**
Darperir cyllid Cam 2 RILL gan Lywodraeth Cymru dros ddwy flynedd fel a ganlyn: Mai 2022 tan fis Mai 2023; a Mai 2023 tan fis Mai 2024. Yn 2022-23, yr amcan cyntaf oedd ymestyn RILL i ddarparu rhaglen iaith a llythrennedd yn

y Gymraeg dros bymtheg wythnos i blant difreintiedig gan ddefnyddio technoleg (h.y. cartref di-Gymraeg, SES a gallu isel) a phrofi pa mor effeithiol ydyw o ran gwella sgiliau iaith a darllen Cymraeg.

Yn ystod tymor yr hydref 2022 roedd y ffocws ar ddatblygu 30 gwers Gymraeg a Saesneg newydd a chynnig hyfforddiant wyneb yn wyneb i ysgolion weithredu'r rhaglen. Crëwyd gwefan newydd sydd â gwybodaeth a deunyddiau cefnogol i ysgolion, athrawon a rhieni. Cafodd 28 ysgol a 39 athro eu recriwtio ym mis Hydref 2022 i gael hyfforddiant RILL Cymraeg, a chafodd 60 ysgol arall ar hyd a lled Cymru hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.

Rydym hefyd wedi datblygu batri o asesiadau ar-lein i gofnodi data effaith RILL. Mae dros 250 o blant a gofrestrodd ar y RILL Cymraeg bellach wedi cael profion. Mae hanner y dysgwyr hyn bellach yn cael gwersi RILL ddwywaith yr wythnos gyda'u hathro neu eu cymhorthydd dysgu, a chawsant eu profi eto yn ystod tymor yr haf 2023. Bydd gweddill y dysgwyr hyn yn dechrau gwersi RILL ym mis Medi 2023. Cafodd 60 ysgol arall eu recriwtio ar hyd a lled Cymru i gael hyfforddiant RILL yn nhymor y gwanwyn a'r haf 2023.

Yn ystod tymor y gwanwyn 2023, rydym wedi canolbwyntio ar gefnogi ysgolion sydd yn rhan o broses werthuso RILL ac addasu'r gwersi i ymateb i'r sylwadau gan yr ysgolion hyn. Rydym hefyd wedi dechrau creu deunyddiau dosbarth cyfan i gyd-fynd â gwersi parod RILL. Yn ystod tymor yr haf trefnwyd gweithdy llunio ar y cyd, ble roedd Penaethiaid, athrawon a chymorthyddion dysgu yn adrodd yn ôl ar y deunyddiau drafft dosbarth cyfan ac yn cynnig eu syniadau eu hunain am weithgareddau newydd. Byddwn yn cyfuno'r wybodaeth hon yn awr i greu deunyddiau dosbarth cyfan dros fisoedd yr haf. Roedd yr addysgwyr hyn hefyd yn rhan o grŵp ffocws yn myfyrio ar eu profiad ar y prosiect.

Mae cyfanswm o 53 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL Cymraeg ym Mhrosiect 1: 43 yng ngogledd Cymru a 11 yng Ngheredigion. Rydym hefyd wedi cysylltu â chonsortia ar draws Cymru gyda'r bwriad o drefnu o leiaf un diwrnod hyfforddiant ym mhob rhanbarth. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod tymor yr haf 2023 ym Mangor, yn ogystal â de-ddwyrain a de Cymru. Ffocws Prosiect 2 fydd ymestyn RILL i'r lefel dosbarth cyfan - er mwyn rhoi prawf ar effaith cyfarwyddyd ategol, dosbarth cyfan ar sgiliau llythrennedd pob dysgwr. Bydd hyn yn dechrau ym mis Medi 2023 a rhoddir gwahoddiad i 10 ysgol (20 athro) gael hyfforddiant yn fersiwn Saesneg RILL.

Erbyn mis Hydref 2023, mae 92 ysgol wedi cael hyfforddiant RILL Cymraeg ym Mhrosiect 1: 47 yng ngogledd Cymru a 45 mewn rhanbarthau eraill fel rhan o'n cytundeb efo Llywodraeth Cymru i gyflwyno hyfforddiant ym mhob rhanbarth. Trefnwyd sesiynau hyfforddiant yn ystod tymor yr haf 2023 ym Mangor, yn ogystal â Wrecsam, Powys, Sir Benfro, de-ddwyrain a de Cymru. Ffocws Prosiect 2 fydd ymestyn RILL i'r lefel dosbarth cyfan a rhoi prawf ar effaith cyfarwyddyd ategol, dosbarth cyfan ar sgiliau llythrennedd pob dysgwr. Ym mis Medi 2023 cafodd 10 ysgol (20 athro) eu recriwtio i gael hyfforddiant yn fersiwn Saesneg RILL.

**Gwella Rhuglder mewn Darllen ar Lafar (i-FOR)**
Er 2018, bu GwE yn gweithio ar y cyd ag ymchwilwyr o'r Sefydliad Cydweithredol er Ymchwil i Addysg, Tystiolaeth ac Effaith (CIEREI), Prifysgol Bangor i greu cyfres o ymyraethau rhuglder darllen yn seiliedig ar dystiolaeth: Darllen Ailadroddol (RR), a Geiriau Amlder Uchel (HFW). Bydd y prosiect hwn yn canolbwyntio ar gyflwyno ein deunyddiau ymyrraeth RR Cymraeg a Saesneg mwyaf diweddar i ysgolion. Y bwriad yw gweithio gydag ysgolion i werthuso effaith yr ymyrraeth RR ddiweddar yn sgil cyfnod ymyrraeth 8 wythnos yn nhymor y gwanwyn 2024.

Caiff pob ysgol hyfforddiant ac adnoddau ymyrraeth RR yn Gymraeg a Saesneg. Bydd y tîm ymchwil yn gweithio gyda staff i adnabod dysgwyr targed a chynllunio ar gyfer yr ymyrraeth yn nhymor y gwanwyn 2024. Bydd y tîm ymchwil yn helpu ysgolion i gasglu data am gynnydd disgyblion a gwerthuso effaith yr ymyrraeth RR. Fe wnaethom ddechrau recriwtio ysgolion ym mis Mehefin 2023, a bydd yr ysgolion fydd yn cymryd rhan yn cael eu cadarnhau ym mis Medi 2023. Fe wnaethom ddechrau recriwtio 20 ysgol i fod yn barod i gychwyn yn nhymor y gwanwyn 2024.

**Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif.**
Mae'r rhaglen i-TEN yn addasiad o raglen Mathematics Recovery (MR). Mae MR yn rhaglen gynhwysfawr sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer dysgu rhifedd i ddysgwyr iau sy'n cael anhawster efo sgiliau mathemateg cynnar.

Yn y prosiect hwn, rydym yn anelu at weithio gydag ysgolion i werthuso i-TEN gyda phlant difreintiedig mewn lleoliadau prif lif i roi dull cynhwysol o ddysgu ac addysgu rhifedd cynnar.

Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Warwick, ac mae elfen gref o DPP rhifedd i athrawon fel a ganlyn:

- Ar y cam cyntaf byddwn yn hyfforddi staff yn yr ysgolion sydd â diddordeb i ddefnyddio a gwerthuso effaith y tri cham datblygiad cyntaf i ddysgwyr mewn dosbarthiadau Dysgu Sylfaen.
- Yn yr ail gam, mae gennym ddiddordeb gweithio gydag ysgolion i gyd-ddatblygu'r cynlluniau gwersi ar gyfer pedwerydd a phumed cam datblygiad MR mewn lleoliadau CA2.
- Byddwn hefyd yn gweithio gyda lleoliadau cyfrwng Cymraeg i helpu'r tîm ymchwil i greu deunyddiau rhaglen MR dwyieithog.

Cynhaliwyd cyfweliadau ym mis Gorffennaf a phenodwyd myfyriwr ymchwil PhD. Bydd gwaith recriwtio yn cychwyn ar gyfer yr astudiaeth gyntaf yn ystod tymor yr haf a'r gwanwyn 2024.

**Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI).**

Mae'r dull Gwyddor Darllen (The Science of Reading) yn disgrifio sgiliau darllen allweddol a sgiliau cysylltiedig sy'n allweddol i ddarllenwyr o bob gallu. Yn y prosiect hwn, bwriadwn werthuso sut gellir defnyddio'r dull Gwyddor Darllen i ddysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif. Bwriadwn gynnal astudiaeth mewn dau gam i ddatblygu a gwerthuso dysgu sillafu mewn dosbarthiadau prif lif i ysgrifenwyr cynnar. Yn gyntaf, mae'r prosiect DEMSI hwn yn ceisio deall yr arferion dysgu sillafu presennol ar gyfer ysgrifenwyr cynnar (plant 7 oed) yng ngogledd Cymru trwy gynnal arolwg rhanbarthol. Yn ail, bwriadwn dreialu model i helpu i hyfforddi athrawon i addasu a gwella eu darpariaeth sillafu i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â'r dull Gwyddor Darllen. Mae hwn yn brosiect ar y cyd rhwng GwE a Phrifysgol Leeds Trinity.

Rydym yn ceisio edrych ar ddichonoldeb ac effeithiolrwydd gweithdai cyd-greu i weithredu cwricwlwm sillafu Gwyddor Darllen yng ngogledd Cymru. Byddwn yn gwerthuso a all athrawon dosbarth weithredu'n llwyddiannus gwricwlwm sillafu a grëwyd ar y cyd ac a addaswyd o'r dull Gwyddor Darllen, ac a yw cwricwlwm sillafu o'r fath yn gwella deilliannau dysgwyr. Bwriadwn ddatblygu cyfres o bedwar gweithdy undydd i athrawon Blwyddyn 2 a Blwyddyn 3, ochr yn ochr ag athro profiadol sydd yn gyfarwydd â'r dull Gwyddor Darllen. Bydd y gweithdai yn edrych ar ymchwil cefndirol, cyd-ddatblygu'r cwricwlwm, ac asesu cynnydd mewn sillafu.

Rydym wedi creu'r arolwg sillafu a'i rannu ym Mwletin GwE ym mis Gorffennaf 2023, fel rhan o Gam 1. Bydd yr holiadur yn cael ei hyrwyddo eto ym mis Medi 2023, ac rydym wedi recriwtio deg ysgol gynradd i gymryd rhan yng ngham cyntaf Cam 2. Ar ddiwedd Cam 2 (tymor yr haf 2023), bwriadwn wahodd deg ysgol gynradd o'r AauLl sy'n weddill i gael adborth ar ddeilliannau'r prosiect.

**ADDYSGEG A DYLUNIO DYSGU**

**Gwella Addysgu**

Datblygwyd Prosiect Addysgeg cenedlaethol i:

- hwyluso deialog, cydweithio ac ymholi er mwyn darparu cefnogaeth efo archwilio a myfyrio ar yr egwyddorion addysgegol.
- helpu i siapio'r weledigaeth barhaus ar gyfer dysgu wrth i ni wireddu'r Cwricwlwm i Gymru a helpu dysgwyr i gyflawni pedwar diben y Cwricwlwm i Gymru

Mae hyn yn golygu edrych ar y 'pam' a'r 'sut' yn ogystal â'r 'beth' yng nghyd-destun addysgu a myfyrio ar yr ystod lawn o gysylltiadau a chydberthnasau sy'n arwain at ddysgu. Mae 3 elfen allweddol i waith y prosiect addysgeg:

- rhannu arferion a myfyrio - cyfleoedd ac adnoddau amserol, perthnasol a hawdd eu cael, sy'n hwyluso ymgysylltiad proffesiynol, deialog a myfyrio.
- dyfnhau dealltwriaeth - archwilio arferion arloesol trwy ddysgu proffesiynol ac ymholi, a hynny mewn dull yn seiliedig ar dystiolaeth.
- datblygu gwaith ymchwil - datblygu ymchwil academaidd ar lefel genedlaethol i osod sylfaen i ddealltwriaeth system gyfan o addysgeg.

Daeth pwysigrwydd cydweithio a rhannu i'r amlwg yn ystod pandemig COVID-19, ac mae angen i ymarferwyr barhau i ddysgu oddi wrth ei gilydd o fewn ac ar draws rhanbarthau yng Nghymru. Bydd gweithgarwch ar y cyd

rhwng prifysgolion, consortia rhanbarthol ac ysgolion yn helpu i ddatblygu adnoddau yn seiliedig ar ymchwil, a fydd yn dyfnhau ein trafodaethau a hyrwyddo ymholi proffesiynol.

**Prosiect Ymchwil Trafod Addysgeg (2023-26) – Blwyddyn 1 (2023-24)**
Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu, ac ariannu, y prosiect hwn am dair blynedd o 2023. Cynhaliwyd cyfweliadau yn ystod tymor y gwanwyn 2023 i benodi myfyriwr ymchwil PhD o Brifysgol Bangor i gwblhau'r gwaith, a phenodwyd athro uwchradd a fydd yn dechrau ar y gwaith ym mis Medi 2023. Y dasg gyntaf fydd rhoi sylw i'r cwestiwn ymchwil a ganlyn yn ystod tymor yr hydref/gwanwyn 2023-24:

- *Beth yw barn a safbwyntiau academyddion SauAU, cyd-weithwyr o'r consortia ac athrawon ar sut rydym ni'n datblygu ymchwil perthnasol i arfer er mwyn galluogi athrawon i ddod yn wybodus am dystiolaeth?*

Dechreuodd y myfyriwr PhD newydd ar y gwaith ar 01/09/3023. Bydd gwaith recriwtio yn cychwyn ar gyfer yr astudiaeth gyntaf yn ystod tymor yr hydref a'r gwanwyn 2024.

**<u>Tuag at 2024</u>**
Mae cynlluniau mewn lle i gydweithio ag athrawon ystod oedran 8-11 i gryfhau a chefnogi ymhellach hunanarfarnu a gwella ysgolion tuag at gyflawni'r Cwricwlwm i Gymru trwy arfarnu a datblygu dulliau Cwricwlwm i Gymru presennol, Addysgeg a Chynnydd.

Mae'r Cynnig Dysgu Proffesiynol wedi'i gwblhau gyda digwyddiadau 'Datblygu dysgu ac addysgu o safon uchel' yn digwydd ym mis Tachwedd 2023, a 'Cwricwlwm, addysgeg a chynnydd' ym mis Mawrth 2024. Mae llawlyfr wedi'i lunio, sy'n cynnwys adolygu'r daith i gwricwlwm a arweinir gan bwrpas, dulliau addysgegol ar y cam iawn yn y dysgu a dal cynnydd mewn dysgu.

**CYFLAWNI POTENSIAL – HER I BAWB (MATh)**

**Deall yn well sut i gefnogi efo'r agenda Cyflawni Potensial/MATh (CP/MATh) mewn ysgolion.**
Mae cynrychiolwyr o GwE (cynradd ac uwchradd) wedi mynychu Grŵp Cyflawni Potensial Consortia Cymru ac wedi cyfrannu i agenda drawsranbarthol CP/MATh. Trwy sicrhau bod ffocws uwchradd a chynradd ar MATh a Her, gallwn gynnig cymorth yn well ar draws ysgolion.

Paratowyd Adnodd ar yr agenda MATh/CP bresennol, ei rannu â Thîm GwE a'i uwchlwytho i adnoddau cymorth GwE. Mae hyn yn sicrhau bod Arweinwyr Craidd ac YCG yn gallu rhoi gwybod i ysgolion am yr adnoddau sydd ar gael ar wefan Consortia Cymru, y strategaeth MATh newydd a chynigion eraill Grŵp y consortia, megis gweminarau a phodlediadau.

Mae GwE wedi trefnu, creu a recordio podlediad gyda'r addysgwr Mark Burns ar sut orau i gefnogi dyheadau disgyblion trwy gynllunio profiadau addysgol heriol a difyr. Rhanna Mark ystod o ddulliau a syniadau ar gyfer addysgu ac asesu cynnydd. Mae hwn bellach yn cael ei rannu â phob rhanbarth yng Nghymru fel Adnodd addysgu gwerthfawr.

Diweddarwyd Adnodd adolygu ar gyfer YCG uwchradd. Gellir defnyddio'r PowerPoint hwn gyda staff neu fyfyrwyr wrth baratoi at asesiadau allanol. Mae hyn yn gosod nodweddion y dysgwr MATh mewn cyd-destun ac yn cynnig llawer o syniadau rhagweithiol ar gyfer adolygu.

Mae gwaith cynllunio yn mynd rhagddo ar gyfer cyflwyno 4 gweminar MATh a CP, yn ogystal â gweithdai rhanbarthol dilynol i sicrhau rhannu negeseuon am strategaeth MATh, y cyntaf o'r rhain i'w gynnal ym mis Tachwedd.

**Cyfoethogi a gwella mynediad at gymorth i ddysgwyr MATh trwy gyfrwng rhaglen SEREN.**
Mae YCG GwE yn gweithio'n agos efo cydlynwyr Seren yn rhanbarthol o fewn awdurdodau er mwyn cynyddu nifer y dysgwyr ar y rhaglen Seren. Bydd cynrychiolwyr o GwE yn mynychu cyfarfodydd rhanbarthol Seren i rannu gwybodaeth am raglenni gwaith GwE a helpu i rannu negeseuon a gwybodaeth allweddol ag ysgolion rhanbarthol drwy'r arweinwyr craidd a'r YCG. Canlyniad hyn yw gwell dealltwriaeth mewn ysgolion rhanbarthol o fudd rhaglen Seren, a grŵp Seren yn deall yn well gapasiti ysgolion i ymgysylltu.

**ADDYSG 3-8**

**Darparu cymorth pwrpasol i ysgolion sy'n destun pryder, fel bod modd iddynt fwrw ati gyda'u taith welliant eu hunain.**

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion sydd yn cael cefnogaeth bwrpasol yn rhoi sylw i gamau gweithredu a nodwyd gan YCG 3-8. Maent wedi rhoi camau gweithredu ar waith yn effeithiol i wella ansawdd y ddarpariaeth a deilliannau disgyblion gan leihau amrywiad o fewn ysgol a sicrhau mwy o gysondeb yn y dysgu a'r addysgu ar draws y rhanbarth. Mae'r cymorth hefyd wedi sicrhau dealltwriaeth ddyfnach o'r egwyddorion a'r addysgeg sy'n cyd-fynd ag addysgeg 3-8 o fewn Galluogi Dysgu a fframwaith CiG. Fodd bynnag, nid oes fawr o gynnydd mewn ychydig iawn o'r ysgolion sydd yn cael cymorth. Mae hyn yn bennaf oherwydd diffyg diddordeb ymysg aelodau staff, amharodrwydd i fynd i'r afael â chamau gweithredu neu newidiadau ac absenoldeb staff.

**Darparu cyfarfodydd rhwydwaith/cymorth clwstwr/gweithdai o safon uchel.**
Darparwyd cymorth clwstwr ar draws y rhanbarth gyda phwyslais ar agweddau penodol ar ganllawiau Galluogi Dysgu, addysgeg CiG a MDaPh. Mae'n rhy fuan i fesur effaith ar ddarpariaeth a deilliannau, ond mae effaith yn cynnwys:

- Negeseuon cyson i ysgolion am ddysgu ac addysgu
- Gwella hyder ymarferwyr yn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r llwybrau datblygu, y MDaPh a'r agweddau i'w hystyried wrth ddylunio cwricwlwm ar gyfer yr oedran hwn.
- Ymarferwyr yn defnyddio cyfuniad o ddulliau addysgegol sy'n briodol i ddatblygiad ac sydd yn ymateb i anghenion dysgwyr (gan gynnwys sgiliau emosiynol a chymdeithasol).

Ffocws y Cyfarfodydd Rhwydwaith 3-8 rhanbarthol yn nhymor yr haf oedd sgiliau cyn darllen, sgiliau darllen cynnar ac uwch sgiliau darllen. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth well i ymarferwyr o sut i gynllunio cynnydd mewn sgiliau darllen o fewn addysgeg sydd yn briodol i ddatblygiad.

Cynhaliwyd Gweithdai Rhanbarthol i UDRh, Athrawon a Chymorthyddion Dysgu ar ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o FDaPh y Celfyddydau Mynegiannol. Mae hyn wedi galluogi ymarferwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o bum disgyblaeth y MDaPh ac o gynllunio cynnydd yn y grŵp oedran 3-8, a hynny o fewn profiadau dysgu cyfoethog a phwrpasol. Nodir mewn adborth gan ymarferwyr bod ganddynt well dealltwriaeth o bwysigrwydd proses a datblygu sgiliau yn hytrach na bod y pwyslais ar y cynnyrch terfynol.

Cyflwynwyd sesiynau hyfforddiant yn rhanbarthol ar ganllawiau 'Asesiadau wrth Dderbyn' LlC. O ganlyniad mae gan ymarferwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canllawiau ac o bwysigrwydd arsylwadau a threfniadau pontio.

Dysgu yn yr Awyr Agored - trefnwyd dau ddiwrnod agored mewn ysgol cyfrwng Cymraeg ac ysgol cyfrwng Saesneg gyda phwyslais ar yr amgylchedd dysgu tu allan a datblygu sgiliau yn yr awyr agored. Cafodd y rheiny a oedd yn bresennol gyfle i weld sut y mae'r amgylchedd dysgu tu allan ac adnoddau penagored yn helpu dysgwyr i ddatblygu eu sgiliau cyfannol a'u sgiliau trawsgwricwlaidd yn effeithiol o fewn profiadau dysgu pwrpasol a gwreiddiol.

Cyflwynwyd sesiwn hyfforddiant i YCG ar addysgeg effeithiol 3-8. Mae YCG wedi datblygu ymhellach eu dealltwriaeth o sut y mae dull addysgegol priodol yn edrych mewn amgylchedd dysgu 3-8 oed. Daeth nifer da i'r gweithdai, y Rhwydweithiau a'r sesiynau hyfforddiant a chafwyd sylwadau cadarnhaol iawn. Mae recordiad o'r holl sesiynau hyfforddiant ar gael ar Ganolfan Cefnogaeth GwE a dosbarth Google ynghyd â'r adnoddau, er mwyn i ymarferwyr gydweithio a rhannu syniadau'n rhanbarthol.

Cyflwynwyd sesiynau ail gynnig ar ganllawiau 'Asesiadau wrth Dderbyn' LlC i ymarferwyr mewn swydd er mis Medi 2023. O ganlyniad mae gan ymarferwyr well gwybodaeth a dealltwriaeth o'r canllawiau ac o bwysigrwydd arsylwadau a threfniadau pontio.

Cynhaliwyd gweithdai rhanbarthol i athrawon a chymorthyddion dysgu sy'n newydd i'r grŵp oedran 3-8, yn canolbwyntio ar Galluogi Dysgu, MDaPh ac addysgeg effeithiol yn y grŵp oedran hwn. Mae gan y rheiny sydd wedi bod yn bresennol adnabyddiaeth a dealltwriaeth gadarn o'r tri galluogwr dysgu o fewn Galluogi Dysgu, a'r addysgeg a'r cwricwlwm i'w trosglwyddo yn arferion dosbarth.

Cyflwynwyd cymorth pwrpasol i glwstwr ar agweddau penodol ar y Cwricwlwm wrth ddatblygu sgiliau rhifedd yn y meysydd darpariaeth a'r dysgu. Mae hyn wedi uwchsgilio staff yn y continwwm sgiliau o ran ehangu a dyfnhau sgiliau rhifedd o fewn profiadau dysgu ac amgylchedd sydd yn briodol i ddatblygiad.

| ÔL-16 |
|---|
| **Cefnogi ysgolion i fonitro cynnydd myfyrwyr ôl-16 - ALPS**<br>Mae pob ysgol yn y rhanbarth wedi uwchlwytho data Safon Uwch i ALPS ac wedi cael adborth. Mae'r tri cyd-Awdurdod Lleol wedi trafod defnyddio data ALPS yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn; cynhaliwyd y cyfarfodydd yn ystod wythnos 2 Hydref. Yn ystod yr haf cafodd grŵp targed o 14 ysgol gynnig ymgynghoriad 1:1 am ddim, gyda'r nod o gynyddu nifer yr ysgolion yn y rhanbarth sy'n defnyddio ALPS i fonitro yn ystod y flwyddyn yn hytrach na dadansoddi arholiadau yn unig. Daeth 6 ysgol i'r ymgynghoriad, ac maent wedi dechrau defnyddio mwy ar ALPS ers hynny. Cynhelir adolygiad rhanbarthol ALPS llawn o ddeilliannau arholiadau 2022/23 ym mis Tachwedd 2023.<br><br>**Cefnogi arweinwyr ôl-16 i ddarparu cyfeiriad cadarn ac effeithiol ym mhob agwedd ar eu rôl.**<br>Mae Rhwydweithiau'r tri cyd-Awdurdod Lleol wedi cyfarfod. Mae pob arweinydd ôl-16 wedi cael cynnig bod yn rhan o raglen datblygu arweinyddiaeth ôl-16. Mae 9 o ysgolion GwE wedi cadw lle ar y rhaglen. Mae pob arweinydd ôl-16 wedi cael cynnig mynychu'r digwyddiad Dysgu Proffesiynol ôl-16 trawsranbarthol. Daeth 10 o ysgolion GwE i'r sesiwn cyntaf.<br><br>**Darparu rhwydweithiau o safon uchel**<br>Mae cynlluniau ar waith i greu cyfleoedd ar gyfer rhwydweithio penodol i bwnc - diweddariad pellach i ddod yn adroddiad Chwarter 3. |
| **Addysg Gychwynnol Athrawon (AGA)** |
| **Datblygu pecyn cymorth gyrfa gynnar cenedlaethol i gefnogi athrawon yn y 4 blynedd gyntaf o addysgu, ar y cyd ag AGA, darparwyr cyrsiau Meistr a Llywodraeth Cymru (LlC).**<br>**Cysoni ymhellach AGA ac addysgu ar gychwyn gyrfa.**<br>Mae cynnydd yn parhau gydag achredu'r rhaglenni ADY AGA newydd. Cyhoeddwyd meini prawf achredu newydd LlC, sy'n cynnwys cydnabyddiaeth o'r angen am lwybrau ADY. Mae rhaglenni wrthi'n cael eu cyd-lunio gyda phartneriaid ysgol arbennig ac ADY prif lif ar draws y rhanbarth; gellir gwneud cais ar gyfer y llwybrau newydd ym mis Hydref 2023, hyd nes bydd achredu (mae rhaglenni yn fod i ddechrau ym mis Medi 2024, gan gynnwys llwybr blwyddyn ar sail cyflogaeth). Cynhelir cyfarfodydd grŵp llywio yn wythnosol.<br><br>Mae prosesau Sicrhau Ansawdd a Chryfhau Ansawdd cyffredin yn parhau. Mae cyfradd llwyddo myfyrwyr yn uchel eleni. Mae lefel boddhad myfyrwyr yn uwch na blynyddoedd blaenorol. Cynllunnir pob maes gwelliant drwy'r hunanarfarnu, sydd yn eu tro yn bwydo'r Cynllun Gwella ar gyfer 2023-24.<br><br>Mae gweithio partneriaeth yn parhau ac yn cryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer AGA, gan gynnwys dysgu proffesiynol cyffredin fel y digwyddiad Cwricwlwm i Gymru ar 22/06/23 a darlithoedd GwE CaBan cyson. Cafwyd ymweliad gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg ar 18/05/23 i lansio fideo recriwtio cenedlaethol ac ateb cwestiynau gan fyfyrwyr. Roedd siaradwyr yn cynnwys yr Is-Ganghellor, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE, Pennaeth yr Ysgol a Chyfarwyddwr AGA. Mae llunio rhaglen gyffredin yn cynnwys gwaith ar y Gymraeg yn gysylltiedig ag ymchwil, ac ieithoedd modern mewn lleoliadau cynradd. Mae staff GwE yn parhau i gyfrannu i sesiynau mewn rhaglenni a addysgir ar safle CaBan. Yn fwy diweddar, ar 12/10/23, arweiniodd 3 aelod o dîm GwE sesiynau i fyfyrwyr BA ar ddylunio cwricwlwm o fewn y Cwricwlwm i Gymru. Mae'r myfyrwyr newydd wedi setlo'n dda yn eu rhaglenni, gydag aelod o dîm GwE yn cyfarfod â hwy fel rhan o'r drefn sefydlu yn ystod yr wythnos gyntaf.<br><br>Mae nifer y ceisiadau cychwynnol ar gyfer TAR y BA ym mis Medi 2023 wedi cynyddu, ac mae GwE yn rhagweld y bydd 28 myfyriwr ar y rhaglen, o gymharu â 21 y llynedd. Mae hyn yn cynnwys 12 myfyriwr sydd wedi cael cynnig lle ar yr hyfforddiant trwy gyfrwng y Gymraeg, sydd yn bron i draean yr holl geisiadau ar draws Cymru. Mae cefnogaeth GwE i'r BA mewn ysgolion yn gryf iawn. Cytunwyd ar feysydd astudiaeth newydd gyda chymhorthdal ar gyfer 2023-25, a bydd ceisiadau ar gyfer y rhain yn agor yn fuan.<br><br>**Datblygu ymhellach y rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol ar gyfer sefydlu i Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG), mentoriaid sefydlu a gwirwyr allanol.**<br>Cynhaliwyd cymedroli ANG tra effeithiol ym mis Gorffennaf 2023, gan gynnwys cymedroli rhanbarthol (gyda phob ALl yn bresennol) a chenedlaethol. Roedd hyn yn drylwyr a chadarn. Cafodd rhanbarth GwE adborth cadarnhaol iawn a chymedrolwyd chwe phroffil o ranbarth GwE, gyda chynrychiolwyr o'r panel cenedlaethol yn cadarnhau pob barn. Mae ANG wedi derbyn cymorth cadarn yn 2022-23, ac mae meysydd ar gyfer gwelliant, ynghyd â chamau gweithredu, wedi'u hadnabod ar gyfer 2023-24. Mae cynnig dysgu proffesiynol llawn wedi parhau, gan gynnwys |

gweithdy arloesol i ysgolion arbennig ar 9/06/23 a gafodd dderbyniad da iawn. Dadansoddwyd adborth y gweithdy - roedd yr adborth ar gyfer pob sesiwn yn arbennig o gryf, yn enwedig Defnyddio Staff Cymorth yn Effeithiol, CauDU, Anogaeth a Llesiant, Ymddygiad, Cyfathrebu ac Anghenion Synhwyraidd. Defnyddiwyd adborth o'r arolwg i gynllunio dysgu proffesiynol ar gyfer 2023-24. Mae cyfarfodydd y cynrychiolwyr ALl rhanbarthol yn effeithiol iawn. Ym mis Medi 2023 mae ANG bellach yn cael cymorth drwy'r rhaglen dysgu proffesiynol genedlaethol. Unwaith bydd modiwlau cychwynnol wedi'u cwblhau bydd gan ANG fynediad at y cynnig lleol, sy'n cynnwys amryw o sesiynau perthnasol a diweddar i wella dysgu ac addysgu, ac i ANG rwydweithio a rhannu arferion a phrofiadau yn ystod eu blwyddyn gyntaf. Mae gan bob ANG sydd wedi'i leoli yn un o ysgolion GwE fentor yn yr ysgol yn ogystal â mentor allanol i'w gefnogi a gwerthuso ei gynnydd. Er mis Medi mae tîm rhanbarthol cryf mewn lle ar draws pob ALl i gefnogi ANG, a byddant yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau cysondeb. Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 20/10/23.

**Parhau i wella'r ddarpariaeth i athrawon ar gychwyn eu gyrfa sydd yn addysgu Cymraeg, a'r ddarpariaeth i gadw'r athrawon hyn.**
Mae darpariaeth AGA a yrrir gan ymchwil yn parhau yn gryfder sylweddol - adroddir am hyn yn adroddiad y Gymraeg.

**AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH**

**Blaenoriaethau:**

**4.1 - Gweithredu Rhaglenni Arweinyddiaeth Rhanbarthol a Chenedlaethol**

**RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH**

**Hwyluso'r gwaith o gyflwyno holl elfennau'r llwybr datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnig ystod o raglenni cenedlaethol i arweinwyr canol, uwch arweinwyr ac arweinwyr profiadol.**
Addaswyd holl fodiwlau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol (RhDAG) ar gyfer eu cyflwyno wyneb yn wyneb. Addaswyd holl fodiwlau'r Rhaglen Ddatblygu i Uwch Arweinwyr heblaw Modiwl 5, Sesiwn 1. Addaswyd holl fodiwlau'r Rhaglen Ddatblygu i Ddarpar Benaethiaid, heblaw Modiwl 5. Diweddarwyd y cynnwys ac mae'n berthnasol, ac mae pob rhaglen yn cynnwys yr holl newidiadau ym myd addysg.

Rhoddwyd mynediad i aelodau pob rhaglen i'r Pasbort Dysgu Proffesiynol ac maent wedi cael arweiniad ar sut i'w ddefnyddio. Gall aelodau ddefnyddio'r adnodd i gofnodi a myfyrio ar eu cynnydd ar draws y llwybr arweinyddiaeth. Mae angen gwreiddio ymhellach y defnydd o'r Pasbort Dysgu Proffesiynol. Fodd bynnag, mae gan aelodau ryddid i ddefnyddio'r adnodd yn ôl eu hanghenion.

Bydd oedi ym mhrosesau ardystio'r Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth (CPCP) tra bod Llywodraeth Cymru yn ystyried y dull gorau o ailgyflwyno'r rhaglen.

Mae'r Rhaglen i Benaethiaid newydd eu Penodi wedi'i hailstrwythuro i hwyluso gwell cynrychiolaeth a chynnig cyfleoedd i arweinwyr ar draws pob awdurdod rwydweithio'n effeithiol. Bydd modiwlau rhanbarthol bellach yn cael eu cyfuno ar gyfer eu cyflwyno wyneb yn wyneb.

Darparwyd y Rhaglen i Benaethiaid Profiadol ar draws y rhanbarth yn ystod tymor yr haf, ac mae'r darparwr allanol wrthi'n gwerthuso effaith.

Mae oedi yn y gwaith o gyd-lunio'r rhaglen datblygu Arweinyddiaeth System tra bod penderfyniadau ynglŷn â'r CPCP yn cael blaenoriaeth.

Caiff aelodau'r Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Ddatblygu i Uwch Arweinwyr gefnogaeth gan rwydwaith effeithiol o hwyluswyr, mentoriaid o fewn ysgol, cymhellwyr arweinyddiaeth, Penaethiaid ac YCG. Mae hyn yn cael ei gydlynu'n effeithiol gan staff y gwasanaeth rhanbarthol.

Mae cyflwyno wyneb yn wyneb wedi rhoi mwy o gyfleoedd i aelodau bob rhaglen rwydweithio, myfyrio a chynnal sgyrsiau gonest mewn man diogel. Mae hyn yn hybu gwell ymgysylltiad, ac mae wedi codi hyder ac effeithiolrwydd

| |
|---|
| arweinwyr ysgol ar bob lefel. Ar ben hynny, mae ymarferwyr yn cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu proffesiynol eu hunain yn effeithiol.<br><br>Mae pob ymarferwr yn deall ei rôl mewn system hunan wella; hynny trwy egwyddorion cyflwyno Tasg Profiad Arweinyddiaeth a sesiynau ar y cylch gwella a'r fframwaith newydd ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd.<br><br>Anogir pob ymarferwr lle bo'n briodol i symud i lefel nesaf y llwybr arweinyddiaeth.<br><br>Mae pob ymarferwr wedi cael gwell dealltwriaeth o'r safonau arweinyddiaeth a sut gall y safonau hynny gefnogi eu datblygiad proffesiynol.<br><br>Cafodd y rheiny a ddangosodd y dystiolaeth angenrheidiol, yr wybodaeth a'r profiad o arweinyddiaeth ysgol gyfan eu hardystio yn sgil cwblhau'r Rhaglen Ddatblygu i Ddarpar Benaethiaid. Byddant bellach yn symud i'r cam nesaf i baratoi tystiolaeth ar gyfer prifathrawiaeth yn y Ganolfan Asesu CPCP ym mis Chwefror 2024. Mae aelodau wedi cael gwybod.<br><br>Cafwyd adborth hynod gadarnhaol am yr holl sesiynau trwy gyfrwng yr adnodd cod QR ar-lein.<br><br>Bu i'r cyfnod ymgeisio ar gyfer y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol a'r Rhaglen Ddatblygu i Uwch Arweinwyr agor ym mis Medi. Mae'r dyddiad cau ym mis Hydref, a bydd y manylion yn adroddiad monitro Chwarter 3. |
| **CALU - LLDC** |
| Dechreuwyd defnyddio y ffurflenni gwerthuso cenedlaethol ar gyfer pob rhaglen yn seiliedig ar fodel Kirkpatrick.<br><br>Yn dilyn adolygu diwyg a chynnwys y rhaglen Ymsefydlu yn genedlaethol, yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, penderfynwyd yn genedlaethol i lansio'r rhaglen ar ei newydd wedd ar 6 Tachwedd. Mae hyn wedi sicrhau bod y rhaglen Ymsefydlu yn gyfoes a pherthnasol i flaenoriaethau ysgolion a Llywodraeth Cymru. Bydd yr Adran Gyfathrebu genedlaethol yn creu deunyddiau newydd ar gyfer hysbysebu'r rhaglen ddiwygiedig.<br><br>Yn dilyn adolygu cynnwys a diwyg y rhaglen Cymorthyddion Wrth Eu Gwaith yn genedlaethol yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru, dechreuwyd ei ddefnyddio ar ei newydd wedd gyda chlystyrau o ysgolion. Bellach mae 4 clwstwr wedi cwblhau'r hyfforddiant, 3 chlwstwr wedi cychwyn yr hyfforddiant ac 3 clwstwr arall wedi ymrwymo i gynnal yr hyfforddiant eleni hyd yn hyn.<br><br>Cwblhaodd 25 cymhorthydd y rhaglen Darpar CALU Cylch 6 gyda 21 wedi gwneud cais ar gyfer asesiad statws CALU yn ystod Tymor yr Hydref. Derbyniwyd 35 cais ar gyfer rhaglen Darpar CALU Cylch 7, a bydd 32 yn dechrau ar yr hyfforddiant ym mis Hydref.<br><br>Hysbysebwyd y rhaglen Darpar CALU Cylch 8 yn y Bwletin ac ar y Dosbarth Google i Gymorthyddion, gyda'r dyddiad cau ar 24/11/2023. Bydd y rhaglen yn cychwyn ym mis Ionawr 2024.<br><br>Cynhaliwyd sesiwn diweddaru gorfodol ar gyfer aseswyr cyn cynnal asesiadau Cylch 5 a 6, gan uwchsgilio a grymuso CALU ac athrawon sydd yn arwain ac yn cefnogi cyd-weithwyr yn eu lleoliadau.<br><br>Cynhaliwyd asesiadau Cylch 5 ar gyfer ymgeiswyr gyda 34 yn bodloni'r safonau cenedlaethol ar gyfer Statws CALU, sef 100% o'r ymgeiswyr. Sicrhawyd ansawdd a phrosesau asesu drwy sesiynau cymedroli rhanbarthol a chenedlaethol trylwyr a nodwyd bod safon cyffredinol y myfyrdodau yn uwch na'r gorffennol oherwydd safon trafodaethau a rhyngweithio proffesiynol wyneb yn wyneb yn ystod y rhaglen. Mae adborth ar ffurflenni arfarnu cychwynnol ac yn dilyn y broses asesu yn gadarnhaol iawn, gyda bron bob un naill ai'n cytuno neu cytuno'n gryf â'r datganiadau.<br><br>Comisiynwyd Canolfan Dylecsia Miles, Prifysgol Bangor i ddarparu hyfforddiant Dyslecsia i 15 o gymorthyddion, a fydd yn arwain at achrediad Statws Ymarferydd Dyslecsia. Cynhelir yr hyfforddiant yn nhymor yr hydref a thymor y gwanwyn. Cynhaliwyd un diwrnod cyfan a 2 sesiwn hanner diwrnod yn barod. |

| | 
|---|
| Comisiynwyd dwy ysgol arbennig i gynnal sesiynau rhannu arferion effeithiol gyda chymorthyddion prif lif. Bydd y sesiynau yn canolbwyntio ar ymddygiad, dulliau cyfathrebu a dysgu synhwyraidd.<br><br>Rhwydwaith tymhorol i gymorthyddion ac uwch-gymorthyddion – dechreuwyd ar y gwaith o drefnu'r sesiwn cyntaf a gynhelir ar 7 Tachwedd. |
| **CYMELL A MENTORA** |
| **Parhau i ddatblygu a gwreiddio diwylliant o gymell a mentora ar draws system addysg Cymru, sy'n darparu pecyn cymorth i helpu i wella safonau addysg yng Nghymru.**<br>Cyflwynwyd Rhaglen Genedlaethol yn Gymraeg a Saesneg yn ystod tymor yr haf i aelodau UDA, Cydlynwyr ADY a CALU.<br><br>Anfonwyd e-bost at bawb sydd wedi cael hyfforddiant yn rhanbarth GwE yn y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf yn gofyn iddynt gwblhau holiadur er mwyn casglu gwybodaeth am wir effaith yr hyfforddiant.<br><br>Rhannwyd gwybodaeth am y cymhwyster lefel 3 yn dilyn y sesiynau cenedlaethol, a rhannwyd gwybodaeth am gymwysterau lefel 5 a lefel 7 ag ysgolion a staff GwE.<br><br>Cynhaliwyd trafodaethau cychwynnol i ganfod ysgolion ar gyfer prosiect cydweithredol gyda 3 ysgol uwchradd, 3 ysgol gynradd ac 1 ysgol arbennig. |
| **CYMORTH I LYWODRAETHWYR** |
| **Gweithio efo awdurdodau lleol i sicrhau bod cyrff llywodraethu wedi'u paratoi ar gyfer rhoi 'Canllawiau gwella ysgolion: fframwaith ar gyfer gwerthuso, gwella ac atebolrwydd' LlC ar waith.**<br>Darparwyd cyfleoedd dysgu proffesiynol a chefnogaeth o safon uchel i gyrff llywodraethu ar destunau megis hunanarfarnu, data a gwybodaeth, y Cwricwlwm i Gymru, cynllunio ar gyfer gwelliant, Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu ac arweiniad ar gyrff llywodraethu effeithiol.<br><br>Rhoddwyd cefnogaeth i gyrff llywodraethu ysgolion i benodi uwch arweinwyr da. Ar ben hynny, rhoddwyd cefnogaeth i gyrff llywodraethu gyda phrosesau rheoli perfformiad Penaethiaid.<br><br>Darparwyd cymorth i awdurdodau lleol sicrhau bod gan gyrff llywodraethu gefnogaeth gyda hunanarfarnu a chynllunio datblygiad, gan gynnwys cymorth cyn-arolygiad i Lywodraethwyr ar ddisgwyliadau Estyn cyn ac yn ystod arolygiad. Yn ogystal, darparwyd cymorth pwrpasol i gyrff llywodraethu ysgolion sydd mewn Adolygiad gan Estyn a chategorïau statudol, fel bo'n berthnasol.<br><br>Darparwyd cymorth i hwyluso cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yn effeithiol rhwng GwE, yr ALl a Swyddogion Cefnogi Llywodraethwyr (SCLl). Mae'r holl randdeiliaid yn elwa ar rannu gwybodaeth.<br><br>Cynrychiolwyd GwE yn y cyfarfodydd SCLl rhanbarthol a chenedlaethol:<br>• cyfarfod grŵp Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC) 08/06/23<br>• cyfarfod SCLl gogledd Cymru 14/06/23<br>Cynrychiolir GwE yng nghyfarfod nesaf y grŵp SCLl Cenedlaethol ar 09/11/23.<br><br>Rhoddwyd cymorth i AauLl ddarparu hyfforddiant i gyrff llywodraethu i helpu efo gwella ysgol. Bydd angen cefnogaeth ac arweiniad pellach i Lywodraethwyr y chwe ALl yn y cyfnod cyn cyflwyno'r Fframwaith Gwella Ysgolion ym mis Medi 2024 a'r fframwaith cymhwysedd llywodraethwyr.<br><br>Cytunwyd ar raglenni cymorth gyda SCLl y 6 ALl, gan adnabod y gefnogaeth sydd ei hangen ar gyfer 2023-24. Bydd hyn yn fodd i'r SCLl gyhoeddi eu rhaglenni o flaen llaw ac annog llywodraethwyr i fynychu. |
| **YSGOLION A GWASANAETH FEL SEFYDLIADAU SY'N DYSGU** |
| **Cefnogi gweithredu parhaus yng nghyd-destun Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu (YSD) a'r trosglwyddo ehangach i system addysg sy'n dysgu.**<br>**Cefnogi datblygiad y gweithlu yng nghyd-destun ysgolion fel sefydliadau sy'n dysgu.**<br>Nifer cyfyngedig o ysgolion y rhanbarth sydd wedi diweddaru/adnewyddu eu hymatebion i'r arolwg Ysgolion fel Sefydliadau sy'n dysgu ar ei newydd wedd ar Hwb. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn. |

Bydd hyn yn cynnwys adnabod ymarferwyr effeithiol sydd yn gweithredu fel YSD er mwyn cyflwyno gweithdai ar y cyd i benaethiaid yn ystod tymor yr hydref. Rhoddir cyfle yn ystod y gweithdy i'r ymarferwyr profiadol sydd yn ein cynorthwyo i gyflwyno pa arferion sydd wedi gweithio yn llwyddiannus yn eu hysgolion nhw. Bydd cyfle hefyd yn ystod y gweithdy i'r mynychwyr gwblhau'r arolwg YSD cyn dychwelyd i'r ysgol i'w gwblhau gyda gweddill y staff addysgu a'r cymorthyddion. Hyderir y gellir codi ymwybyddiaeth a phroffil YSD ar draws y rhanbarth, a gofalu bod canran uwch o ysgolion yn cwblhau'r arolwg YSD er mwyn canfod agweddau i'w datblygu ymhellach yn y 7 dimensiwn.

Bu GwE mewn cyfarfod trawsgonsortia gyda chynrychiolwyr LlC. Cafwyd adolygiad o ddatblygiadau YSD blaenorol ar draws y consortia ac o effaith Covid ar y strategaeth genedlaethol. Cafwyd cyfraniadau gan bartneriaid a lluniwyd Cynllun Gweithredu drafft newydd ar gyfer Strategaeth YSD Genedlaethol (Gorffennaf 2023). Nodwyd yr amcanion a ganlyn yn y cynllun drafft:

- Pob ysgol a lleoliad i gwblhau'r arolwg YSD bob 24 mis
- Defnydd hunan feirniadol o hunanarfarnu, ymholi a'r arolwg YSD sy'n llywio cynlluniau datblygu ysgolion a lleoliadau. Mae ysgolion yn herio eu hunain yn gyson i wella fel sefydliadau sy'n dysgu
- Mae gan pob addysgwr proffesiynol fynediad at ddysgu proffesiynol sydd wedi'i gynllunio'n dda, sy'n cynnwys cyfuniad o ddulliau a chyfleoedd i fyfyrio, ymholi a chydweithio ar gyfer dysgu.

Er mwyn bodloni'r amcanion hyn gofynnwyd i aelod o dîm GwE gynnal sesiynau dysgu proffesiynol ar draws y rhanbarth yn Gymraeg a Saesneg. Cynhelir y sesiynau hyn ym mis Hydref a Tachwedd 2023. Y bwriad yw codi ymwybyddiaeth y gweithlu o YSD, o sut mae'r dimensiynau a'r diwylliant cysylltiedig yn cyfrannu at fodloni gofynion y Canllawiau Gwerthuso a Gwella Ysgolion newydd ac, yn y pen draw, cynyddu nifer yr ysgolion sy'n cwblhau arolwg YSD ar Hwb. Gofynnwyd i ysgolion ym mhob sir sydd â hanes o arfer llwyddiannus ddarparu enghreifftiau ymarferol o'u harfer, fel y gall Penaethiaid ac uwch arweinwyr weld sut mae eu harferion presennol yn bodloni agweddau ar y model YSD ac yn hwyluso hunan wella yn yr ysgol.

## RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION

**Hyrwyddo a goruchwylio cydweithio ysgol-i-ysgol a gweithio clwstwr.**
**Darparu Rhaglen Partneriaeth Ysgolion (RhPY) yr Education Development Trust (EDT) ar draws ysgolion y rhanbarth. Rhaglen tair blynedd yw hon sy'n cefnogi arweinwyr ysgolion gyda gwerthuso cymheiriol a chymorth cymheiriol.**

Ceir cytundeb ar egwyddorion rhanbarthol â phenaethiaid ar gyfer ymgysylltu â chymheiriaid ers pum mlynedd bellach. Cytunwyd ar fodel adolygu a chynllunio gwelliant gan gymheiriaid (RhPY) a chafodd y cynllun hwnnw ei ardystio gan y Bwrdd Rheoli a'r Cyd-bwyllgor.

Derbyniodd holl Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant (YCG) GwE hyfforddiant a chefnogaeth barhaus yn ymwneud ag adolygu gan gymheiriaid, hwyluso, mentora a hyfforddi. Erbyn diwedd Medi 2023 mae 29 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cyfoedion a hwyluswyr gwelliant fel rhan o'r RhPY. Derbyniodd holl aelodau newydd o staff GwE eleni ddiweddariad ar hyfforddiant y RhPY.

Hyfforddwyd 13 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn gychwynnol yn ystod mis Hydref 2021 fel cyflwynwyr rhaglen, ac yn dilyn rhaglen o gysgodi hyfforddiant yn ystod Ebrill 2022 fe gyflwynwyd y rhaglen gyntaf o hyfforddiant RhPY wedi'i hwyluso yn llwyr gan staff GwE i garfan 3b yn ystod mis Mai 2022. Erbyn mis Medi 2023, mae 20 Ymgynghorwr Cefnogi Gwelliant ychwanegol wedi derbyn hyfforddiant fel cyflwynwyr rhaglen. Golyga hyn bod 30 o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant bellach â'r gallu i gyflwyno'r rhaglen yn llwyddiannus. Yn dilyn y cynnydd hwn mewn capasiti i gyflwyno'r rhaglen, darparwyd hyfforddiant cychwynnol i 90 o ysgolion yng ngharfan 3C gan y tîm o hwyluswyr GwE.

Erbyn Medi 2023, mae 46 clwstwr/ cynghrair (255 ysgol) wedi derbyn hyfforddiant y RhPY, ac maent wedi mynd ati eisoes, neu'n paratoi at, gyflawni gwaith adolygu gan gymheiriaid. Mae 329 o benaethiaid / uwch arweinwyr wedi'u hyfforddi fel adolygwyr cymheiriaid ledled y rhanbarth. Mae 290 o uwch arweinwyr / arweinwyr canol ac athrawon medrus wedi'u hyfforddi fel '*hwyluswyr gwelliant*'. Bu hyn yn fodd i'r arweinwyr a'r athrawon fanteisio ar addysg broffesiynol o safon uchel a fyddai'n cyfrannu at wella'r gallu o ran arweinyddiaeth ledled y rhanbarth. Erbyn mis Medi 2023 mae hwyluswyr gwelliant yr haen gyntaf a'r ail haen o ysgolion cynradd a'r clystyrau sydd ynghlwm wedi cael hyfforddiant ymestynnol, gyda'r ffocws ar ddatblygu'r defnydd cynyddol ac effeithiol o ymchwil

yn eu gweithdai gwelliant. Yn ogystal, darparwyd cyfleoedd ar draws y rhanbarth i ysgolion a phartneriaethau gynyddu eu capasiti i weithredu'r rhaglen drwy hyfforddi hwyluswyr gwelliant ychwanegol.

Prif amcan y cynllun yw cynnig hyfforddiant y RhPY i bob un o'r 407 ysgol ranbarthol a'r Unedau Cyfeirio. Y bwriad yw hyfforddi tua 15 clwstwr bob tymor yn ystod blynyddoedd academaidd 2021-24. Bydd y rhaglen yn cyd-fynd â'r gwaith o ddatblygu cwricwlwm newydd er mwyn cefnogi ysgolion a chlystyrau i werthuso'u cynnydd wrth gyflawni'r daith ddiwygio. I'r perwyl hwn mae cyfres o gwestiynau adlewyrchol gyda ffocws ar y daith ddiwygio wedi'u creu i gyd-fynd â'r broses gymheiriol, ac fe gyfeirir ysgolion sy'n derbyn yr hyfforddiant at yr ysgogiadau cwricwlwm sy'n rhan o'r Adnodd Cenedlaethol ar gyfer Gwerthuso a Gwella.

Ym mis Ionawr 2023, estynnwyd gwahoddiad i ysgolion a chlystyrau nad oedd eisoes yn rhan o'r rhaglen i fynegi diddordeb mewn cymryd rhan yn hyfforddiant y RhPY fel rhan o garfan 4. Cafwyd cyfanswm o 43 o ysgolion yn mynegi diddordeb. Golyga hyn erbyn diwedd mis Gorffennaf 2023 felly bod mwy na hanner ysgolion y rhanbarth wedi derbyn yr hyfforddiant cychwynnol a bellach yn mynd ati, neu wedi mynd ati, i ddechrau ar eu gwaith adolygu a chynllunio gwelliant gyda chymheiriaid.

Fel rhan o'n partneriaeth gyda'r Education Development Trust fe rannwyd holiaduron cychwynnol â'r holl ysgolion sydd yn rhan o'r rhaglen. Yn ôl dadansoddiad ymchwilydd EDT o'r ymatebion mae 77% o Benaethiaid yn datgan bod eu profiad o'r rhaglen yn dda neu'n wych, tra bod 100% o athrawon yn datgan bod eu partneriaeth gydag ysgolion eraill yn gryf neu'n gryf iawn yn dilyn y rhaglen. Mae pedwar clwstwr / cynghrair o ysgolion wedi eu clustnodi i'w cynnwys mewn cyfweliadau cynhwysfawr gyda'r ymchwilydd, a fydd yn arwain at ddatblygu astudiaeth achos i graffu ymhellach ar effaith y rhaglen yn 2023-24.

**AMCAN 5 – PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB**
**Blaenoriaethau:**

**5.1 - Cefnogi lles a gwytnwch staff**

**5.2 - Cefnogi ysgolion i sicrhau bod dysgwyr yn cael eu cefnogi i fod yn unigolion iach a hyderus sydd yn barod i fyw bywyd llawn fel aelodau gwerthfawr o gymdeithas, o fewn lleoliadau dysgu sydd yn gefnogol, diogel a chynhwysol ac yn rhydd o wahaniaethu a bwlio.**

**5.3 - Cefnogi ysgolion i ddarparu tegwch i bawb trwy fynd i'r afael â difreintedd a chael perthynas gadarn efo rhieni/gofalwyr yn eu cymunedau.**

**GDD / PMG**

**Cefnogi'r gwaith o barhau i gyflwyno dysgu proffesiynol i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus.**
Mae GwE yn parhau i ddarparu hyfforddiant Ysgolion sy'n Wybodus am Drawma (TIS) ar draws y rhanbarth i gefnogi dysgwyr difreintiedig a bregus. Mae diploma TIS GwE 14 ac 15 yn mynd rhagddo, gyda 48 o ymarferwyr ychwanegol yn cael eu hyfforddi ar draws y rhanbarth. Yn sgil yr hyfforddiant bydd gan ysgolion ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o arferion sy'n ystyriol o drawma a sut gallant helpu dysgwyr bregus a difreintiedig.

Rhannwyd y canllawiau GDD/GDD-PMG newydd ag YCG er mwyn cefnogi eu gwaith mewn ysgolion a sgyrsiau am ddefnyddio grantiau GDD a GDD-PMG. Fel rhan o ymweliadau'r YCG mae mwy o bwyslais ar sut mae ysgolion yn cefnogi eu dysgwyr bregus, a sut mae'r ysgol yn monitro'r cynnydd a wna dysgwyr.

Mae aelod o dîm GwE yn mynychu cyfarfodydd tymhorol gyda Chydlynwyr Addysg Plant sy'n Derbyn Gofal, Cyfle Cynnar ac Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD) ac arweinwyr Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS). Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn gwybod beth mae'r naill a'r llall yn ei gynnig, ac yn helpu i atal dyblygu gwaith o ran cynigion Dysgu Proffesiynol. Bydd hyn hefyd yn helpu i fonitro effaith y gwaith a wneir ac effaith cynlluniau ysgolion ar gyfer eu gwariant GDD-PMG a sut mae hyn yn cael ei ddal.

Mae'r model clwstwr o weithio efo GDD-PMG yn fodd i glystyrau fod yn fwy creadigol gyda sut defnyddir y grant i gefnogi disgyblion ar draws y dalgylch.

**Parhau i weithredu rhaglen Cyrhaeddiad Pobl Ifanc Ddifreintiedig (RADY) ar draws y rhanbarth**
Cyflwynir RADY gan GwE mewn partneriaeth efo datblygwyr y rhaglen, Challenging Education. Bwriad y rhaglen hirdymor hon yw cefnogi ysgolion i roi sylw i effaith difreintedd ar eu dysgwyr gan ddefnyddio'r dull 'tegwch nid cydraddoldeb'. Cynhaliwyd cyfarfod RADY cychwynnol ar-lein, ac mae'n rhan o ymrwymiad GwE i'r Flaenoriaeth Genedlaethol ar gyfer Iechyd, Lles a Thegwch.

Bydd egwyddorion a dulliau RADY yn addas i bob dysgwr. Mae egwyddorion RADY yn seiliedig ar 'wneud rhywbeth gwahanol' drwy:

- Godi Ymwybyddiaeth o Bobl Ifanc Difreintiedig
- Codi Dyheadau Dysgwyr Difreintiedig
- Codi Disgwyliadau Pobl Ifanc Difreintiedig

Mae mwy nag un haen i raglen RADY. Mae'r rhaglen hon yn ymrwymiad hirdymor ac ni ddylai ysgolion ddisgwyl gweld unrhyw effaith ar ddeilliannau dysgwyr difreintiedig yn syth. Er hynny, buan iawn y gwêl ysgolion effaith ar ymddygiad dysgwyr a staff, gan ddod i ddeall rhai o ganlyniadau difreintedd ar ddysgwyr, ac ar ganfyddiadau a chydberthnasau. Bydd hyn yn cyfrannu maes o law at newid diwylliant mewn ysgolion a gaiff effaith ar ddeilliannau dysgwyr yn y pendraw. Mae 14 ysgol wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno RADY am y tro cyntaf, gan weithio gydag Uwch Arweinwyr i wreiddio system o ddysgu ac addysgu a disgwyliadau o safon uchel.

**Rhaglen Dysgu ac Addysgu i Gefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig (SVL)**
Mae Adnodd Llywodraeth Cymru i gefnogi dysgwyr bregus wedi'i lansio. Mae'r rhaglen hon yn agored i staff o ysgolion ac Awdurdodau Lleol gogledd Cymru. Ffocws y rhaglen yw 'Sut ydych chi'n cyflawni tegwch yn y dosbarth i Ddysgwyr Bregus a Difreintiedig?' Wedi'i chomisiynu gan y Consortia, a'i darparu ar gyfer ysgolion a lleoliadau yng Nghymru yn unig, mae Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig trwy Ddysgu ac Addysgu Effeithiol yn rhaglen gymorth broffesiynol bwrpasol a chynhwysfawr sydd yn tynnu ynghyd strategaethau yn seiliedig ar dystiolaeth a fydd yn helpu ymarferwyr i gyfoethogi a gwreiddio arferion dosbarth effeithiol. Yn dilyn lansio'r deunyddiau ym mis Chwefror, cyflwynodd Mike Gershon dri sesiwn ym mis Mai 2023 gan dywys Uwch Arweinwyr drwy'r rhaglen.

Dyma fanteision y rhaglen:

- Cefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig trwy ddatblygu a chyfoethogi dysgu ac addysgu
- Cadw dysgu ac addysgu ar frig yr agenda
- Ysbrydoli athrawon i feddwl yn feirniadol ac yn greadigol am eu harferion
- Rhoi'r adnoddau i athrawon y gallant eu defnyddio i ddatblygu eu harferion
- Hwyluso a chynnal arferion arloesol o fewn dosbarthiadau

Ceir yr holl adnoddau yma www.supportingvulnerablelearners.cymru ac maent yn gwbl ddwyieithog.

Mae 7 ysgol wrthi'n treialu'r adnodd hwn fel rhan o'u cynllun datblygu ysgol. Cawsant gyfle i drafod yr adnodd efo'r datblygwr, a roddodd arweiniad iddynt ar y dull mwyaf effeithiol o'i ddefnyddio.

**LLES Y GWEITHLU (GwE AC YSGOLION)**

**Cefnogi efo llesiant staff ysgolion ar draws y rhanbarth.**
Mae lles ein plant a'n gweithlu yn parhau yn flaenoriaeth, ac rydym ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi lles ein staff mewn ysgolion a'n plant a'n pobl ifanc ar draws y rhanbarth. Mae Penaethiaid yn gwerthfawrogi cyfraniadau'r Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt o ran darparu cymorth ac arweiniad i ysgolion a chlystyrau i ddatblygu eu darpariaeth. Nododd bron bob Pennaeth bod hwyluso cyfarfodydd clwstwr wedi bod yn eithriadol o bwysig er mwyn rhannu syniadau ac arferion da. Nodwyd hefyd bod y cyfarfodydd hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd meddwl a'u lles.

**Cefnogi efo llesiant uwch arweinwyr mewn ysgolion trwy ddarparu 'Lle i Fyfyrio', cyfarfodydd grŵp ac i unigolion, fel bo'r angen.**
Trefnwyd sesiynau 'Lle i Fyfyrio' ar gyfer ysgolion, ac mae hyn yn dal i gael effaith gadarnhaol ar draws y rhanbarth wrth i ni barhau i weld galw am y math hwn o gymorth. Hwylusir y sesiwn trwy gyfrwng ystafelloedd trafod a model myfyrio a gwrando penodol i ddilyn. Fel hyn, bydd strwythur i gyd-weithwyr ei ddilyn, a chyfle hefyd iddynt wrando a myfyrio gyda'u cymheiriaid.

| STRATEGAETH I GEFNOGI RHIENI / GOFALWYR |
|---|
| **Gwella ymgysylltiad rhieni**<br>Mae'r Awdurdodau Lleol a GwE wedi darparu ystod o ganllawiau ac adnoddau o safon uchel i gefnogi ysgolion i wella ymgysylltiad rhieni, ac wedi gweithio hefyd â Mike Gershon i hwyluso mynediad rhieni at ddeunyddiau safonol fel eu bod hwythau'n gallu cefnogi eu plant. Mae ymateb cadarnhaol wedi bod i ddeunyddiau 'Helpu Eich Plentyn i Ddysgu', 'Helpu Eich Plentyn yn ei Arddegau i Ddysgu' ac i'r adnodd 'Adolygu hefo Mike'. Mae'r ystod o strategaethau adolygu hefyd wedi dylanwadu ar arferion llawr dosbarth athrawon wrth iddynt baratoi dysgwyr ar gyfer arholiadau diwedd blwyddyn. Sefydlwyd grŵp rhanbarthol gyda chynrychiolaeth o GwE a phob un o'r AauLl i arwain, rheoli a chydlynu'r maes cefnogi rhieni a gofalwyr gyda dysgu eu plant.<br><br>Mae grŵp bach o 5 cymhorthydd dysgu wedi creu adnoddau ymgysylltu â theuluoedd. Mae'r adnoddau hyn yn cynnwys 4 sesiwn 1-1.5 awr y gall cymorthyddion eu cyflwyno i rieni a'u plant yn yr ysgol. Maent yn seiliedig ar adnoddau 'Helpu eich Plentyn i Ddysgu' Mike Gershon. Cynlluniwyd y pecynnau i'w defnyddio gydag ychydig iawn o waith paratoi. Mae cyfarfod ar y gweill ym mis Tachwedd i ddatblygu astudiaeth achos o'r ysgolion sydd wedi creu'r Adnodd. Yn ystod y cyfarfod hwn byddant hefyd yn rhoi adborth ar sut dderbyniad gafodd y pecynnau gan rieni. Cwblheir astudiaeth achos o hyn i'w rhannu ag ysgolion eraill a'i defnyddio i hyrwyddo'r adnoddau. Gwahoddir yr ysgolion a ddatblygodd yr adnodd i rannu'r adnoddau a'u profiadau mewn cyfarfodydd Rhwydwaith.<br><br>Mae ysgol sydd wedi gwella ymgysylltu â theuluoedd trwy waith y swyddog ymgysylltu wedi llunio astudiaeth achos. Adnabuwyd arferion yr ysgol fel arferion rhagorol a bydd hyn yn cael ei hyrwyddo drwy GwE, ond bydd hefyd yn cael ei rannu â'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol a TIS UK.<br><br>Mae rhwydwaith i gefnogi gweithwyr ymgysylltu â theuluoedd wrthi'n cael ei drefnu. Diben hwn fydd rhannu arfer da a hwyluso cyfleoedd i drafod unrhyw faterion cyffredin ac awgrymu hyfforddiant i'r dyfodol.<br>Mae Prifysgol Bangor yn cychwyn treialu'r strategaeth ar-lein i rieni 'COPING', sy'n gweithio gyda gofalwyr plant sy'n derbyn gofal ac ysgolion. Anfonwyd holiadur cychwynnol i rieni i ysgolion. Bydd hyn yn helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau magu plant mewn amrywiol ffyrdd.<br><br>Mae Buddsoddwyr mewn Teuluoedd yn cael ei hyrwyddo yn y rhanbarth fel adnodd i helpu i ddatblygu Ysgolion Bro.<br><br>Mae'r Grŵp Tegwch Cenedlaethol wrthi'n creu rhaglen Genedlaethol ar ddatblygu strategaeth dlodi, i'w chyflwyno i Uwch Arweinwyr ar draws y rhanbarth. Bydd hyn yn cynnwys yr elfen ymgysylltu â rhieni. |

| **AMCAN 6 – MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB**<br><br>**Blaenoriaethau:**<br><br>**6.1 - Helpu ysgolion i gynllunio'r fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun y Cwricwlwm i Gymru.**<br><br>**6.2 - Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu.**<br><br>**6.3 - Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'** |
|---|
| **Y GYMRAEG MEWN ADDYSG** |
| **Cynorthwyo ysgolion i gynllunio'n fwriadus er mwyn cefnogi a datblygu sgiliau Cymraeg dysgwyr yng nghyd-destun Cwricwlwm i Gymru**<br>Mae adnodd ar gyfer arweinwyr yn cael ei ddefnyddio yn sail i wybodaeth a chefnogaeth i YCG ar gyfer cynnal trafodaethau ar y Gymraeg yn eu hysgolion cyswllt. Mae arweinwyr sydd yn rhoi lle blaenllaw i'r Gymraeg fel rhan o'u gweledigaeth wedi cael eu hadnabod a bore/dyddiau agored yn cael eu cynnig yn rhanbarthol ar gyfer rhannu'r arfer effeithiol ar themâu amrywiol e.e. datblygu medrau iaith staff trwy'r Cynllun Sabothol, datblygu ethos y Gymraeg drwy Cymraeg Campus, dathlu Cymreictod a'r Gymraeg yn rhan ganolog o weledigaeth ysgol. Mae deilliannau clir wedi eu gosod ar gyfer cynllunio gwaith clwstwr 23-24 ac sy'n adlewyrchu'r angen i ddatblygu dealltwriaeth staff o amrywiol agweddau ar y Gymraeg e.e. trochi, datblygu'r medrau, llythrennedd. |

Mae YCG y Gymraeg a Llythrennedd yn rhan o weithgorau cenedlaethol yn datblygu rhaglen Dysgu Proffesiynol (DP) ar gyfer ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Mae blaenoriaethau wedi eu nodi a dealltwriaeth gref o'r angen i rannu darpariaeth ar draws Cymru. Mae cyd-weithio cenedlaethol yn digwydd yn ogystal ar gyfer datblygu darpariaeth DP i gymorthyddion ac arweinwyr.

Mae pecynnau cymorth a Chynnig DP ar gyfer y Gymraeg wedi ei lunio a'i gyflwyno ar sail cynnwys y Cynllun Busnes a chynllunio ar gyfer diwallu'r hyfforddiant yn mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnwys cydweithio i ddarparu rhaglen tridiau yn rhoi sylw i gyfuno hyfforddiant llythrennedd a digidol a fydd yn arwain at ganfod arferion effeithiol mewn ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen.

Mae GwE wedi cydweithio'n agos ag ysgolion cynradd a thimau ymgynghorol yr ALl i ddarparu pecyn cefnogaeth sy'n ymateb i anghenion penodol. Mae cydweithio wedi bod gyda YCG i roi hyfforddiant, darparu a chasglu adnoddau priodol ar Google Classroom a chynllunio manwl fesul cam efo athrawon. Yn dilyn hynny, sicrhau bod unrhyw ddarpariaeth yn cael ei fonitro'n effeithiol a bod y gefnogaeth a ddarperir yn cael effaith gadarnhaol ar addysgu a dysgu. O ganlyniad i hyfforddiant Talk for Writing, mae gwersi wedi cael eu cyflwyno'n llwyddiannus a'r athro bellach yn cynllunio'n fwy pwrpasol. YCG wedi cefnogi'r ysgolion i sicrhau cysondeb gweithredu a chyd-ddealltwriaeth o'r anghenion a'r dulliau gwella drwy gydweithio â'r athrawon/arweinwyr/adrannau i sicrhau cysondeb negeseuon allweddol.

**Hyrwyddo dysgu Cymraeg a datblygu sgiliau ieithyddol y gweithlu**
Mae cais wedi ei roi i swyddogion ALl i gydweithio â'r cydlynwyr clwstwr er mwyn rhoi sylw yn y cynlluniau clwstwr i ddatblygu sgiliau iaith y gweithlu. Mae trafodaethau parhaus yn cael eu cynnal a'u hwyluso gan GwE rhwng darparwyr a swyddogion awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod ymarferwyr yn cael eu hadnabod a'u cefnogi i ymgymryd â'r Cynllun Sabothol 23-24. Mae hyn wedi arwain at sicrhau bod yr uchafswm nifer sy'n cael mynediad i'r cwrs wedi ei gyrraedd a rhestr wrth gefn mewn lle. Cwrs uwch ar gyfer cymorthyddion wedi'i gytuno ar gyfer tymor yr haf (Ebrill – Gorffennaf 2024). Mae dwy garfan o staff GwE yn parhau i dderbyn hyfforddiant, Cymraeg Gwaith. Wedi cymeradwyo cyllido hyn am flwyddyn arall.

**Datblygu'r defnydd anffurfiol o'r Gymraeg drwy'r 'Siarter Iaith' a 'Cymraeg Campus'**
Mae Trafodaethau cenedlaethol wedi eu cynnal er mwyn diweddaru ac addasu'r Fframwaith Siarter Iaith a chysoni'r hyn sy'n weithredol yn genedlaethol drwy'r cydlynwyr Siarter Iaith/Cymraeg Campus. Mae amserlen wedi'i rhannu ar gyfer cyflwyno drafft diwygiedig i'w rannu ag ysgolion ar gyfer ymgynghori pellach.

**EIN LLAIS NI**

**Ein Llais Ni**
Pwrpas Ein Llais Ni yw amlygu pwysigrwydd llafaredd yn y cwricwlwm yng nghyd-destun y Gymraeg (ar draws yr ystod oedran cyfan) a chynnig syniadau am strategaethau y gall ysgolion/athrawon eu datblygu i annog a hybu sgiliau siarad a gwrando dysgwyr. Datblygwyd y gwaith ar y cyd ag ysgolion ar draws rhanbarth gogledd Cymru a Phrifysgol Bangor, gyda'r Athro Enlli Thomas, sy'n arbenigwr rhyngwladol ar hybu sgiliau llafaredd a strategaethau addysgu dwyieithog, yn arwain y gwaith ymchwil ymarferol. Mae gwefan Ein Llais ni yn wefan gyhoeddus.

Mae'r wefan yn parhau i gael ei diweddaru a'i mireinio. Mae'r ffocws ar y fersiwn Gymraeg i ddechrau. Ychwanegwyd yr adran Dysgu Proffesiynol yn ddiweddar, sy'n cynnwys cyfres o gyflwyniadau y gall athrawon, ysgolion a chlystyrau eu defnyddio mewn sesiynau hyfforddiant neu i fyfyrio ar ddatblygu arferion. Cafwyd adborth cadarnhaol iawn ar ansawdd, cynnwys a fformat y wefan, ac mae cytundeb cenedlaethol y gall unrhyw athro ddefnyddio'r adnodd fel y pwynt cyfeirio cyntaf os yw am ddatblygu addysgeg siarad a gwrando Cymraeg.

Penodwyd dau swyddog prosiect rhan-amser i gydweithio'n agos â'r Tîm Prosiect, ac mae rhaglen waith fanwl wedi'i datblygu a'i rhoi ar waith, megis casglu a threfnu enghreifftiau gan ysgolion i gyfoethogi'r wefan, cynnal ymweliadau clwstwr a sesiynau DP, rhwydwaith clwstwr a chysylltu ag ysgolion unigol. Maent yn hyrwyddo'r cymorth, y wefan a dulliau addysgu llafaredd mewn amrywiol fforymau e.e. cyfarfod cydlynwyr iaith, sesiynau HMS clwstwr.

Mae Athrawon arweiniol yn cydweithio ar gyfer enghreifftio a modelu addysgeg effeithiol a chynnydd dysgwyr er mwyn atgyfnerthu amrywiol adrannau o'r wefan.

Pecyn cymorth Dysgu Proffesiynol sy'n rhoi trosolwg o'r rhaglen a'i fwriadau ar gael ar gyfer arweinwyr, YCG ac ymarferwyr sydd yn blaenoriaethu llafaredd y Gymraeg. Mae adran Dysgu Proffesiynol y wefan yn dechrau datblygu.

Mae gwaith yn parhau i gefnogi ysgolion, ac mae'r ysgolion sydd wedi mynychu sesiwn *Ar Alw* yn deall y camau nesaf. Mae dau glwstwr yn datblygu cydweithio cynradd-uwchradd. Mae canllawiau eglur o'r hyn sy'n ddisgwyliedig wedi eu cytuno er mwyn cyd-ddatblygu a gwreiddio ymhellach, gyda Dosbarth Gŵgl wedi'i sefydlu ar gyfer hwyluso hyn.

Mae gwaith i ddatblygu dogfen arweiniol (Model Kirkpatrick) ar gyfer dangos y gweithredu all arwain at ddeilliannau ar lefel darpariaeth a safonau ar waith. Fel adnodd cefnogol i'r Model Kirkpatrick uchod, mae'r tîm prosiect wedi datblygu adnodd hunan werthuso llafaredd i gyfyrio ar sefyllfa bresennol ysgol ac i gynllunio ar gyfer ymgorffori dull ysgol gyfan o ddatblygu a sicrhau cynnydd ym medrau llafar dysgwyr. Athrawon arweiniol wedi rhoi barn ar yr adnodd ac yn ei ddefnyddio er mwyn gallu adnabod eu camau nesaf a dathlu cynnydd a llwyddiant. Mae hyn yn caniatáu myfyrio gan yr athrawon sy'n arwain y rhaglen yn yr ysgol.

Mae'r adborth gan yr athrawon arweiniol a'r clystyrau yn cael ei gasglu yn barhaus ac yn arwain at addasu dogfennaeth/arweiniad cefnogol. Mae cyfarfod cychwynnol o ysgolion cyfrwng Saesneg wedi ei gynnal (26/6/2023) ac yn cynnwys penaethiaid a swyddogion awdurdodau lleol. Mae trosolwg o'r gwaith a'u rolau yn datblygu Ein Llais Ni ymhellach wedi ei gadarnhau a thrafodaethau pwrpasol ar y math o addasiadau a chefnogaeth angenrheidiol sydd ei angen ar gyfer y sector cyfrwng Saesneg. Mae cynlluniau ar gyfer cyfres o rwydweithiau 2023-24 wedi eu cadarnhau a'r trefniadau yn mynd rhagddynt. Bwriedir gwahodd myfyrwyr i'r sesiynau gydol y flwyddyn a thargedu athrawon ANG sydd wedi bod yn ymchwilio i'r maes fel rhan o'u hymchwil personol yn 22-23.

Mae'r Bwrdd Llywio yn parhau i gyfarfod yn chwarterol ac wedi addasu aelodaeth y Bwrdd er mwyn adlewyrchu'r cyfeiriad ar gyfer rhan nesaf y prosiect. Mae adroddiad ymchwil Prifysgol Bangor yn gwerthuso effeithiolrwydd prosiect Ein Llais Ni yn sail ar gyfer llunio rhaglen waith ar gyfer 2023-24 er mwyn sicrhau bod y gwaith yn adeiladu ar lwyddiant prosiect 2021-22 ac yn mynd i'r cyfeiriad cywir i sicrhau effaith hir-dymor. Mae trafodaethau yn parhau â Phrifysgol Bangor ar y dull o roi cymorth a gwerthuso'r gwaith.

Digwyddiad Rhaglen Llafaredd 'Ein Llais Ni' ar 24/10/2023 - digwyddiad i arweinwyr ac athrawon cynradd, uwchradd ac ysgolion arbennig sydd â ddiddordeb mewn llafaredd ac angen gwreiddio addysgeg yn eu dosbarthiadau. Mae'n addas i bawb sydd am ddysgu mwy am sut gall rhaglen Ein Llais Ni eu helpu i ddatblygu sgiliau siarad a gwrando Cymraeg. Gwahoddwyd ystod o bartneriaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, Estyn a'r rhanbarthau eraill.

**Îs brosiect 1: ymestyn y gefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwy iaith. Hyfforddi'r ysgolion arweiniol; cyd-ddatblygu'r DP yn genedlaethol**

- Swyddogion Prosiect yn ymweld ag ysgolion i gasglu enghreifftiau o arferion 'Ein Llais Ni' llwyddiannus o safon uchel. Bydd yr enghreifftiau hyn ar y wefan.
- Newyddlen wedi'i rhannu yn nhymor y gwanwyn yn tynnu sylw at lyfryn 'O Enau Plant', cynnwys y wefan www.einllaisni.cymru, amserlen posib ar gyfer datblygu a gwreiddio'r gwaith a dogfen ar gyfer gweithredu a chyflawni cerrig milltir yn arwain at ddeilliannau thystiolaeth arfarnu posib.
- Gwefan Ein Llais Ni yn weithredol a chynhwysfawr ac yn parhau i gael ei datblygu - wedi derbyn adborth gan athrawon ar wahanol adrannau ac yn gweithredu ar eu sylwadau.

- Ysgolion arweiniol wedi eu penodi yn dilyn dadansoddiad o'r astudiaethau achos dderbyniwyd ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd er mwyn sicrhau bod modelu effeithiol o amrywiol elfennau'r wefan yn cael eu paratoi a'u rhannu.
- Mae clystyrau o ysgolion yn cael hyfforddiant 'Ein Llais Ni'. Mae ffocws penodol i bob cyfarfod clwstwr, ar sail gofynion clystyrau unigol. Yn ogystal, daw ceisiadau i law am sesiynau yn ystod dyddiau HMS.
- Mae'r Swyddogion Prosiect yn cysylltu'n rheolaidd ag athrawon arweiniol i wreiddio 'Ein Llais Ni' ymhellach mewn ysgolion, ac er mwyn casglu arferion a rhoi pecyn cymorth at ei gilydd i'w rannu'n ehangach.
- Trefnir cyfarfod Rhwydwaith bob hanner tymor i rannu arferion da, defnyddio ymchwil yn effeithiol a gwerthuso cryfderau a meysydd i'w datblygu mewn ysgolion. Mae themâu penodol wedi'u hadnabod ar gyfer pob rhwydwaith.

**Îs brosiect 2: cefnogaeth i ddatblygu medrau siarad a gwrando mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.**
Mae trefniadau ar gyfer cydweithio â nifer penodol o ysgolion cyfrwng Saesneg er mwyn gwirio ac addasu'r model gwreiddiol yn eu lle. Mae is-grŵp prosiect wedi'i sefydlu yn cynnwys swyddogion o'r ALl dan arweiniad YCG GwE sydd wedi arwain at gyd-ddealltwriaeth o gyfeiriad y gwaith gyda'r ysgolion a'r math o gefnogaeth, disgwyliadau a deilliannau. Mae ysgolion wedi cael cyfle i fynegi diddordeb mewn bod yn rhan o'r prosiect. Mae cyfarfod rhwng ALl a GwE wedi'i gynnal i ddewis ysgolion i fod yn rhan o'r gwaith a chytuno ar y camau nesaf. Mae 9 ysgol yn rhan o'r prosiect hwn. Mae 'O Enau Plant' wedi'i gyfieithu fel bod modd i'r ysgolion cyfrwng Saesneg ei ddefnyddio a'i rannu â staff.

Mae rolau'r ysgolion a GwE yn cefnogi yn glir, a barn gychwynnol ar ddatblygu ac addasu adnoddau megis holiaduron a strategaethau perthnasol wedi'i chasglu. Crewyd dosbarth Gŵgl i rannu gwybodaeth ac arfer da a chefnogi ymarferwyr i ddatblygu eu haddysgeg gan ddefnyddio ymchwil cyfoes.

Mae YCG yn cydweithio â'r ysgolion cyfrwng Saesneg arweiniol ar greu casgliad o astudiaethau achos yn enghreifftio strategaethau caffael iaith trwy hyrwyddo sgiliau siarad a gwrando yn rhaglen 'Ein Llais Ni'.

Mae YCG yn cydweithio â'r ysgolion arweiniol i gyfoethogi'r canllaw 'Cynllunio ar gyfer taith y Gymraeg', yn ogystal ag adran addysgeg yr Adnodd i gefnogi hunan-werthusiad o'r Gymraeg (Hwb), a hynny drwy enghreifftio sut y gellir hyrwyddo manteision dwyieithrwydd trwy ddysgu ac addysgu dwyieithog mewn ysgolion/lleoliadau/ffrydiau cyfrwng Saesneg, a'r strategaethau caffael iaith sy'n hyrwyddo'r sgiliau siarad a gwrando uchod yn rhaglen 'Ein Llais Ni'.

Lluniwyd cyflwyniad rhyngweithiol dwyieithog gyda'r ysgolion cyfrwng Saesneg arweiniol i gyd-fynd â 'Bilingual voices - Our future speakers', sef cyfieithiad o'r llyfryn 'O Enau Plant'.

**Is brosiect 3: cydweithio â Phrifysgol Bangor/ CaBan i gryfhau'r cyswllt ag AGA**
Mae gwaith yn parhau i gryfhau'r cyswllt â'r ddarpariaeth AGA/darpar athrawon a sylw i anghenion dysgu proffesiynol cymorthyddion. Mae hyn yn arwain at ymgorffori adnodd Ein Llais Ni mewn elfennau o'r cwrs ar gyfer hyfforddeion. Ceir cydweithio agos rhwng Prifysgol Bangor, GwE ac ysgolion penodol er mwyn datblygu medrau ymholi ymarferwyr.

Bydd hyn yn arwain at ymarferwyr yn deall pwrpas a gwerth i addysgu'r Gymraeg a medrau siarad a gwrando. Bydd hefyd yn cynyddu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth athrawon a chymorthyddion newydd o addysgeg ar gyfer datblygu medrau siarad a gwrando, yn ogystal â datblygu sgiliau cyfathrebu effeithiol trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae trafodaethau i gyd-gynllunio'r bwriadau gyda Phrifysgol Bangor er mwyn dechrau gweithredu yn y flwyddyn academaidd nesaf wedi'u cynnal.

Ceir cydnabyddiaeth werthfawr yn adroddiad Estyn Cefnogi'r Gymraeg yn Addysg Gychwynnol Athrawon (tudalen 18) i waith Mentor Iaith mewn Ysgol Arweiniol AGA ar gyfer Prifysgol Bangor, gyda'r athro yn cael clod am

yr arweiniad a roddir i'r myfyrwyr ac i ysgolion eraill nad ydynt yn gyfarwydd â rhaglen 'Ein Llais Ni'. Bu'r athro yn rhan o'r prosiect gwreiddiol, a oedd yn sail ar gyfer datblygu'r adnodd presennol.

Gwahoddwyd y myfyrwyr i fynychu'r Gynhadledd 'Ein Llais Ni' ar 24/10/23. Gall hyn arwain at rai o'r myfyrwyr yn dewis llafaredd Cymraeg fel eu gwaith ymchwil, fel y gwnaeth rhai myfyrwyr y llynedd.

**AMCAN 7 – BUSNES**

**Blaenoriaethau:**

**7.1 - Adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol er mwyn gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i gyflawni blaenoriaethau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.**

**Adolygu trefniadau gweithredu presennol**

Ar gais Prif Weithredwyr Gogledd Cymru mae GwE wedi diwygio'r Cylch Gwaith ar gyfer adolygiad o drefniadau gweithredu a strwythur staffio presennol GwE. Fel y cytunwyd â'r Prif Weithredwyr cynhelir yr adolygiad yn fewnol, gan ystyried ystod o doriadau cyllid ac edrych ar strwythur sydd yn fwy hyblyg ac ystwyth i fedru rheoli pwysau cyllidebol yn well.

Diben yr adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol yw gofalu bod gan y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol strwythur addas i:

- ymateb yn fwy hyblyg i bwysau a thoriadau i'r gyllideb graidd gan yr Awdurdodau Lleol a chyllid grant Llywodraeth Cymru
- sicrhau bod ysgolion yn dal i gael cefnogaeth effeithiol ar ôl COVID i fynd i'r afael ag effaith y pandemig ar gynnydd a llesiant dysgwyr.
- sicrhau bod ysgolion yn dal i gael cefnogaeth effeithiol i weithredu'r cwricwlwm a phob agwedd ar y daith ddiwygio.
- rhoi sylw i ddisgwyliadau cenedlaethol o ran gwella ysgolion, fel yr amlinellir yn y 'Canllawiau Gwella Ysgolion (Mehefin 2022)'.
- adeiladu ar sylfeini cryf dull cydweithredol o weithio a sefydlwyd yn rhanbarthol wrth i ni symud tuag at system hunan wella.
- sicrhau bod cyflogau yn cymharu'n ffafriol â sefydliadau cyffelyb, neu â chyflogau Penaethiaid ac uwch arweinwyr, er mwyn i'r gwasanaeth fedru denu staff o safon uchel.
- sicrhau y gallwn addasu ac esblygu'n effeithiol yn dilyn unrhyw ganfyddiadau yn yr adolygiad LlC sydd ar y gweill.
- gosod allan sut y dylai gwasanaeth gwella ysgol effeithiol a system hunan wella edrych i'r dyfodol

Bydd y prif ganfyddiadau ac argymhellion ar gael yn dilyn derbyn gwybodaeth ar gyllideb 2024/25, a chanfyddiadau yr 'Adolygiad o wella ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru'.

## 2. ATODIAD :

Data Rhanbarthol

Atodiad 2

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding





# Cynllun Busnes GwE

# 2023 - 2024

# Data Rhanbarthol

www.gwegogledd.cymru @GwEGogleddCymru

## CYNLLUN BUSNES 2023-2024

**BLAENORIAETHAU A DARPARIAETH Y RHANBARTH 2023 - 2024**

**Data Rhanbarthol**

### AMCAN 1 - GWELLA YSGOLION

#### GWELLA YSGOLION

**Data Rhanbarthol:**

Mae'r proffil presennol ar gyfer pob sector yn nodi bod:

- 7 ysgol mewn categori statudol [3 uwchradd / 4 cynradd];
- 19 ysgol sy'n destun pryder [3 uwchradd / 16 cynradd];
- 27 ysgol ble mae pryderon penodol wedi'u hadnabod [9 uwchradd / 18 cynradd]
- 52 ysgol sy'n cael eu hadolygu [14 uwchradd / 38 cynradd].

### AMCAN 2 - CWRICWLWM AC ASESU

#### DATBLYGU'R CWRICWLWM A RHWYDWEITHIAU

**Data Rhanbarthol:**

Nifer yr ymarferwyr o ysgolion a fynychodd y digwyddiad dathlu: 261

Nifer yr ymarferwyr o leoliadau eraill a fynychodd y digwyddiad dathlu: 77

Nifer yr ymarferwyr o ysgolion a gyfrannodd at weithdy neu stondin: 82

CYFANSWM: 420

#### Y DYNIAETHAU

**Data Rhanbarthol:**

Ymateb i holiadur y Dyniaethau:

- Ymatebodd 38 o athrawon ar draws y rhanbarth (11.10.23).

#### IEITHOEDD, LLYTHRENNEDD A CHYFATHREBU

**Data Rhanbarthol:**

**SAESNEG A LLYTHRENNEDD**

- Cymorth i ysgolion: 34

**Y GYMRAEG A LLYTHRENNEDD**

- Cyfarfodydd Rhwydwaith Cydlynwyr Llythrennedd (ysgolion cyfrwng Cymraeg a dwyieithog): 14

- Cyfarfodydd Rhwydwaith Arweinwyr Cymraeg Ysgolion cyfrwng Saesneg:  13
- Prosiect 'Llythrennedd yn y Gweithle 2023': 8
- Prosiect 'Cau'r Bwlch Darllen': 10
- Hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a'r Siarter Iaith Uwchradd: 1
- Gweithgor TGAU Ffotograffiaeth: 2
- Prosiect 'Ein Llais Ni (ysgolion uwchradd arweiniol y prosiect eleni ac ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg sydd wedi ymuno ag Agwedd 2): 9

**IEITHOEDD RHYNGWLADOL / ITM**

- Cofrestriadau ar gwrs uwch sgilio PowerLanguage:  30 ysgol / 39 o athrawon
- Power Language - tanysgrifiad: 27.9.2 - 142 ysgol
- Cwrs TELT y Brifysgol Agored 2023-2024 7
- Prosiect Sanako - 7 ysgol
- Creu ar draws ieithoedd: Dulliau ysgrifennu creadigol - 15 ysgol - 16 o athrawon
- Creu ar draws ieithoedd: Digwyddiad i ddysgwyr: 17.7.23: Amlieithrwydd creadigol yng nghyd-destun y byd naturiol - 2 ysgol/30 o ddysgwyr
- Cymorth ysgol i ysgol - cynllun cefnogaeth: 6
- Mentora ITM - Recriwtio 23-24: 23 ysgol / 30 o athrawon (Gorffennaf 23)
- Hyfforddiant trochi 2024 - ysgolion wedi cofrestru: 23
- Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes (BLC) i Flwyddyn 9 - 9 ysgol / 150 o ddysgwyr (27.9.23)
- Gweithgor AATT 23-24:  6/7 ysgol - 7/8 o athrawon

**MATHEMATEG A RHIFEDD**

**Data Rhanbarthol:**

| | Nifer yr ysgolion | Nifer yr ymweliadau |
|---|---|---|
| Cymorth pynciol unigol i ysgolion cynradd | 10 | 8 |
| Cymorth Clwstwr (CYNRADD) | 16 ysgol<br>(4 Clwstwr) | 6 |
| Cymorth unigol i ysgolion uwchradd | 16 | 26 |
| Cwrs Uwchradd MEI | 27 | 29 (o aelodau) |

## GWYDDONIAETH A THECHNOLEG

**GWYDDONIAETH**
**Data Rhanbarthol:**

- Ymweliadau unigryw i ysgolion uwchradd (Chwarter 2): 3
- Ymweliadau unigryw i ysgolion cynradd (Chwarter 2): 21

- Cyfarfodydd rhwydwaith: 74

- Gwyddoniaeth Gynradd: Ymarferwyr 3-8 - daeth 21 i'r gweithdy.

**DIGIDOL**
**Data Rhanbarthol:**

- 90% o glystyrau yn y rhanbarth yn ymwneud â'r rhaglen hwyluswyr digidol.

- Nifer y clystyrau a wahoddwyd i'r sesiwn 'dal fyny' i glystyrau newydd neu'r rheiny sydd heb gychwyn ar y gwaith eto: 11

## CONTINWWM ADDYSG 3 I 16

**Data Rhanbarthol:**

**PONTIO**

- Prosiect pontio addysgeg - 12 clwstwr ar draws y chwe ALl

- Presenoldeb mewn gweithdai Pontio yn y digwyddiad marchnad Cwricwlwm i Gymru, 22/06/23 – 61 ar draws y chwe ALl.

- Ymweliadau clwstwr gan YCG - parhaus ar draws y rhanbarth

**ASESU**

- Darparwyd 8 sesiwn ar y Tri Diben Asesu yn y rhanbarth ym mis Mai-Mehefin 2023.

- Cyflwynwyd 7 sesiwn ar draws y rhanbarth ar asesiadau ar fynediad ym mis Mehefin 2023

- Darparwyd 2 sesiwn ar y Tri Diben Asesu ar draws y rhanbarth ym mis Hydref 2023.

- Cyflwynwyd 2 sesiwn ar draws y rhanbarth ar asesiadau ar fynediad ym mis Medi 2023 - roedd tua 40 yn bresennol yn y sesiwn Gymraeg a daeth mwy na 70 i'r sesiwn cyfrwng Saesneg.

- Bydd clystyrau ac ysgolion unigol ar draws y rhanbarth yn parhau i gael cymorth fel y gofynnir amdano gan gynnwys polisi enghreifftiol, templedi syml ac effeithiol a chyflwyniadau ar brosesau asesu cynnar a llwyddiannus ar draws y rhanbarth.

## AMCAN 3 - DATBLYGU DYSGU AC ADDYSGU O SAFON UCHEL

### CYFRANIADAU MDaPh A RHWYDWEITHIAU PWNC I WELLA'R ADDYSGU

**Data Rhanbarthol:**

- Digwyddiad 'Her i Bawb' gyda Mike Burns: 76

- Cyfarfod rhwydwaith: 41

**YMCHWIL AC ARFARNU (YMCHWIL AC YMHOLI (RILL)**

**Data Rhanbarthol:**

- Dysgu Iaith a Llythrennedd o Bell (RILL) - Cam 3 (Prosiectau 1 a 2): 39
- Gwella rhuglder mewn Darllen ar Lafar (iFOR): 13
- Addysgu Cynhwysol mewn Rhifedd Cynnar (i-TEN) mewn ysgolion cynradd prif lif: I'W GADARNHAU
- Datblygu a Gwerthuso Dysgu Sillafu mewn Dosbarthiadau Prif Lif (DEMSI). I'W GADARNHAU

**ADDYSG 3-8**

**Data Rhanbarthol:**

Cymorth pwrpasol i ysgolion
- Cyfanswm: 26

Cymorth pwrpasol i glystyrau
- Cyfanswm: 6

Hyfforddiant asesu ar fynediad
- Cyfanswm: 90

**ÔL-16**

**Data Rhanbarthol:**

- Defnydd o wasanaeth uwch lwytho ALPs: Pob ysgol
- Defnydd o wasanaeth monitro cynnydd ALPs: 6
- Cofrestru ar y Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Genedlaethol draws-ranbarthol: 9
- Presenoldeb mewn digwyddiad DP traws-ranbarthol: 10

**AGA**

**Data Rhanbarthol:**

- Gweithdy ANG Ysgolion arbennig 09/06/23 – 18+ yn bresennol
- Stondin CaBan yn y farchnad CiG - 600+ yn bresennol
- Cyfarfod rhanddeiliaid AGA ADY CaBan - 48

**AMCAN 4 - ARWEINYDDIAETH**

**RHAGLENNI ARWEINYDDIAETH**

**Data Rhanbarthol:**

| | |
|---|---|
| 1. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ganol | 126 |

| | |
|---|---|
| 2. Rhaglen Datblygu Uwch Arweinwyr | 111 |
| 3. Rhaglen Datblygu Darpar Benaethiaid (paratoi at CPCP) | 33 |
| 4. Rhaglen Datblygu Penaethiaid Newydd a Phenaethiaid Dros Dro | 30 |
| 5. Rhaglen Ddatblygu i Benaethiaid Profiadol | 6 |

**CALU - LlDC**

**Data Rhanbarthol:**

Cymorthyddion dysgu newydd eu penodi

| | 2023-24 |
|---|---|
| Rhanbarthol | 12 |

Cymorthyddion dysgu mewn swydd

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 165 |

Darpar CALU Cylch 6

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 25 |

Asesiadau Statws CALU Cylch 5

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 34 |

Aseswyr CALU

| | |
|---|---|
| Rhanbarthol | 25 |

**RHAGLEN PARTNERIAETH YSGOLION**

**Data Rhanbarthol:**

Nifer yr ysgolion/clystyrau/cynghreiriau sydd yn rhan o'r rhaglen: 255 / 46

Nifer yr Adolygwyr Cymheiriaid a hyfforddwyd: 329

Nifer yr Hwyluswyr Gwelliant a hyfforddwyd: 290

**AMCAN 5 - PROFIAD ADDYSG CADARNHAOL I BAWB**

**GDD/PMG**

**Data Rhanbarthol:**

- Rhan o'r ffordd drwy Ddiploma TIS GwE 14 ac 15, gyda 48 o ymarferwyr ychwanegol yn cael eu hyfforddi ar draws y rhanbarth.
- Mae 14 ysgol wedi cofrestru ar gyfer cyflwyno RADY am y tro cyntaf.
- Cefnogi Dysgwyr Bregus a Difreintiedig (SVL) - mae 7 ysgol wrthi'n treialu'r adnodd.

**AMCAN 6 - MAE CYMRAEG YN PERTHYN I BAWB**

**Y GYMRAEG MEWN ADDYSG (DP / SIARTER IAITH / CYMRAEG CAMPUS)**

**Data Rhanbarthol:**

- 14 wedi cofrestru a'u derbyn ar y Cwrs Sabothol 23-24
- 23 wedi cyflwyno ffurflen gais

| EIN LLAIS NI |
|---|
| **Data Rhanbarthol:**<br>• Prosiect Ein Llais Ni 2 (cyfrwng Saesneg): 9 |

Cydweithio · Dysgu · Llwyddo
Collaborating · Learning · Succeeding

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | Arwyn Thomas, Rheolwr Gyfarwyddwr GwE |
| **Testun:** | Cofrestr Risg GwE |

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1 Cyflwyno Cofrestr Risg ddiweddaraf GwE i'r Cyd-Bwyllgor.

**2.0 Cefndir**

2.1 Pwrpas y gofrestr risg yw ffurfioli'r broses o adnabod risgiau a chymryd camau gweithredu dilynol i'w lliniaru.

2.2 Trwy reoli risgiau'r rhanbarth yn effeithiol bydd GwE yn gallu cefnogi amcanion strategol a blaenoriaethau y rhanbarth, gwneud defnydd effeithiol o adnoddau, a chyflawni'r deilliannau yn ôl y bwriad.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1 Mae Cofrestr Risg GwE yn ddogfen fyw, a chaiff ei hadolygu'n gyson. Fe'i cyflwynir i'r Cyd-bwyllgor yn flynyddol, a hefyd pan fydd risgiau newydd yn cael eu hadnabod a bod angen i'r Cyd-bwyllgor fod yn ymwybodol ohonynt.

3.2 Mae'r holl risgiau wedi cael eu hadolygu a'u diweddaru. Mae'r diwygiadau i'r gofrestr wedi eu hamlygu mewn coch.

3.3 Awgrymir tynnu risg 7 a 10, ac ychwanegu risg 13.

Dilynwyd y matrics risg canlynol wrth bennu statws y risg.

| Matrics Risg | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 4 | 3 | 2 | 1 | |
| **Tebygolrwydd** | Bron yn sicr | Isel (4) | Canolig (8) | Uchel (12) | Uchel (16) | A |
| | Tebygol | Isel (3) | Canolig (6) | Canolig (9) | Uchel (12) | B |
| | Posib | Isel (2) | Isel (4) | Canolig (6) | Canolig (8) | C |
| | Annhebygol | Isel (1) | Isel (2) | Isel (3) | Isel (4) | D |
| | | **Isel** | **Canolig** | **Uchel** | **Hynod uchel** | |
| | | **Effaith** | | | | |

**4.0** **Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-Bwyllgor adolygu a chymeradwyo cynnwys y gofrestr.

4.2 Penderfynu a oes unrhyw risgiau y dymuna'r Cyd-bwyllgor eu cyflwyno i sylw'r Cabinet perthnasol ac ati.

5.0 **Goblygiadau Ariannol**

5.1 Mae rheoli risg a rheolaeth ariannol effeithiol yn helpu i fonitro costau ac yn galluogi gwerth am arian.

**6.0** **Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0** **Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Uwch Dîm Arwain GwE a Bwrdd Rheoli GwE.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Cofrestr Risg GwE.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Mae sustem adolygu risgiau yn rhan sylfaenol o lywodraethu effeithiol. Mae'n bwysig fod y Cyd Bwyllgor yn rhoi sylw manwl i'r asesiad a'r ymateb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Mae cofrestr risg GwE ar ffurf safonol ac yn cynnwys gwybodaeth addas. Rwyf yn fodlon fod cynnwys y gofrestr yn adlewyrchiad teg o'r sefyllfa a byddaf yn cefnogi Rheolwr Gyfarwyddwr GwE wrth reoli'r risgiau mae GwE yn eu wynebu.

| RHIF RISG | CRYNODEB | AMCAN STRATEGOL GwE | RISG A NODWYD | TEBYGOLRWYDD RISG | EFFAITH RISG | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | GWEITHGAREDDAU PRESENNOL / LLINIARU | RISG WEDDILLIOL / RISG GYFFREDINOL | TEBYGOLRWYDD X EFFAITH | PERCHENNOG RISG | CAMAU GWEITHREDU YN Y DYFODOL |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | Cyllidol | I GYD | Mae toriadau yng Nghyllideb Graidd GwE yn effeithio ar gynllunio strategol tymor hir. | C | C/U | 2A | Mae cynllun Ariannol Tymor Canolig a Fframwaith a Pholisi Gwerth am Arian ar waith. Datblygwyd cynlluniau ar y cyd â Swyddog Adran 151 yr awdurdod lleol. Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau. Cyhoeddwyd setliad grant drafft Llywodraeth Cymru eleni gyda amlinelliad cyllidebol 3 blynedd. Awgryma'r amlinelliad bod toriadau yn y gyllideb grant ar y gorwel. | C | 2B | RhG / RhP | Yn dilyn adolygiad gwariant cynhwysfawr Llywodraeth San Steffan ac adnabod blaenoriaethau newydd Llywodraeth Cymru, mae GwE wedi ac yn parhau i weithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r pwysau cyllidebol erbyn 2023/24 a thu hwnt (gan gofio effaith posibl Covid-19). Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac ymgynghori â phrif swyddogion o awdurdodau cyfansoddol ar effaith unrhyw doriadau cyllidol posibl. Mae GwE wedi cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau y gellir cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau, ac yn aros am benderfyniad Prif Weithredwyr y gogledd. Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion ar gael yn dilyn derbyn gwybodaeth ar gyllideb 2024/25, a chanfyddiadau yr 'Adolygiad o wella ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' |
| 2 | Cyllidol | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid grant gan LlC yn llesteirio cynllunio strategol tymor hir. Mae oedi sylweddol o ran cadarnhau lefelau cyllido yn effeithio ar weithredu'r Cynllun Busnes Strategol. | U | U | 1A | Gwneir rhagdybiaethau ynglŷn â'r sefyllfa gyllidol yn y dyfodol. Penodir nifer ar secondiad i sicrhau hyblygrwydd o fewn y gwasanaeth i ymateb yn gyflym i unrhyw newidiadau, ond hyn yn rhoi pwysau ar y gyllideb. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig ar waith. Datblygwyd y cynllun ar y cyd â'r Swyddog Adran 151. Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys manylion y pwysau ariannol ar GwE ac yn modelu sefyllfaoedd. Gweithredir modelu ariannol i lywio penderfyniadau. ~~Derbyniwyd dyraniadau grantiau dangosol ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2023. Fodd bynnag, disgwylir y llythyr cynnig sy'n rhoi'r dyraniadau terfynol a'r telerau a'r amodau erbyn diwedd mis Mai 2023.~~ Nid oes gwybodaeth wedi ei rannu eto o ran cyllideb grantiau 2024/25. | U | 2A | RhG / RhP / Bwrdd Rheoli | Gweithio gyda Swyddog Adran 151 i adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Polisi a'r Fframwaith Gwerth am Arian yn gyson. Cysylltu â swyddogion LlC, aelodau addysg Cabinet awdurdodau etholaethol a phenaethiaid addysg, i gael mwy o dryloywder a sicrwydd o ran arian grant. |
| 3 | Trefniadau gweithredu a strwythur staffio GwE | I GYD | Nid yw trefniadau gweithredu GwE a'r strwythur staffio presennol yn cyfarch y cyfeiriad rhanbarthol na Llywodraeth Cymru wrth symud ymlaen. | U | C/U | 2A | Mae'r BRh, CB a'r Prif Weithredwyr wedi cytuno i adolygu'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â chyfeiriad Llywodraeth Cymru a rhanbarthol ar gyfer y dyfodol. Mae gwaith yn parhau i esblygu a chryfhau'r gwaith partneriaeth presennol ag Awdurdodau Lleol i wneud pethau'n eglur, lleihau dyblygu a biwrocratiaeth, a gwella effeithiolrwydd cyflawni ymhellach. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Cynnal adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol yn ystod haf / hydref 2023 i sicrhau bod y gwasanaeth gwella ysgolion rhanbarthol wedi'i strwythuro'n addas. Cysoni adolygiadau Llywodraeth Cymru a GwE a sicrhau eu bod yn cyd-fynd yn agos ac yn ategu ei gilydd. Mae GwE wedi cynnal adolygiad o'r gyllideb a'r gweithlu i sicrhau y gellir cynllunio'n hyblyg ar gyfer ystod eang o ddeilliannau, ac yn aros am benderfyniad Prif Weithredwyr y gogledd. Bydd prif ganfyddiadau ac argymhellion ar gael yn dilyn derbyn gwybodaeth ar gyllideb 2024/25, a chanfyddiadau yr 'Adolygiad o wella ysgolion: rolau a chyfrifoldebau partneriaid addysg yng Nghymru' |
| 4 | Recriwtio a chynllunio olyniaeth | I GYD | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth o fewn y gwasanaeth gan nad yw cyflogau'n gystadleuol gyda sefydliad tebyg neu gyda chyflogau Prifathrawon ac uwch arweinwyr. | U | C/U | 2A | Mae angen sicrhau bod cyflogau yn y strwythurau sefydliadol yn gystadleuol â sefydliadau tebyg i ganiatáu cynllunio olyniaeth llwyddiannus yn y dyfodol a denu staff o safon uchel. Mae trafodaethau yn mynd rhagddo efo Cyngor Gwynedd er mwyn unioni cyflogau GwE efo chodiadau cyflog swyddogion o fewn yr Awdurdod Lletyol. | C | 2B/2C | RhG / BRh / CB | Cynnwys hyn fel rhan o'r adolygiad o'r trefniadau gweithredu a'r strwythur staffio presennol (fel y nodwyd dan Risg Rhif 3). |
| 5 | Datblygu arweinyddiaeth | 1, 4 & 6 | Anawsterau recriwtio a chynllunio olyniaeth uwch arweinwyr ar draws y rhanbarth yn enwedig rhai cyfrwng Cymraeg. Ffactorau sy'n cyfrannu at hyn yw materion yn ymwneud â chyllidebau, cefnogaeth i faterion presenoldeb ac ymddygiad, a gweithredu cyson gan Undebau Athrawon. | C/U | C/U | 2A | Mae'r Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol yn cefnogi datblygiad sgiliau arwain ymarferwyr trwy gydol pob carreg filltir o'r llwybr dysgu proffesiynol.<br>Mae'r Grŵp Arweinyddiaeth wedi gweithio gyda rhanbarthau eraill i ddarparu rhaglenni datblygu effeithiol ar draws y gweithlu i sicrhau arweinyddiaeth o safon uchel. Mae'r Grŵp wedi llwyddo i oresgyn heriau o ganlyniad i gyfyngiadau'r pandemig ac wedi parhau i sicrhau tegwch o ran mynediad i bob rhaglen datblygu arweinyddiaeth -h.y. Dull cyfunol/rhithiol a diweddaru cynnwys yn rhithiol i fodloni anghenion arweinwyr ble mae'r anghenion hynny'n newid yn gyson.<br>Drwy gydweithio â'r Awdurdodau, sicrheir mynediad i ystod o hyfforddiant i wella Sgiliau Cymraeg y gweithlu addysg er mwyn cynnyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg . Cydweithio gyda Phrifysgol Bangor, Y Coleg Dysgu Cymraeg Cenedlaethol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau i ddarparu rhaglen gyfoethog ar gyfer datblygu medrau iaith a hyder staff<br>Cydweithio gyda CABAN/Prifysgol Bangor yn sicrhau lleoliadau cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr AGA.<br>Adnabod y gweithlu sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg – cynllunio ar gyfer datblygu ymhellach (cymorthyddion, athrawon, arweinwyr) frwy gyd-weithio gyda'r ALl. Parhau i rannu negesuon drwy fforymau ALl / GwE i adnabod problemau recritwio a chynllunio olyniaeth. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i gynnig amrediad eang o gyfleoedd Dysgu Proffesiynol mewn perthynas â rhaglenni datblygu arweinyddiaeth a datblygu sgiliau iaith y gweithlu er mwyn datblygu arweinwyr y presennol a'r dyfodol. |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 6 | Gwella ysgolion | 1 | Cyflymder datrys materion mewn ysgolion uwchradd a roddir mewn categori Statudol Estyn. | U | U | 2A | Mae rhaglenni ymyrraeth a chymorth dwys ar waith yn yr ysgolion hyn sy'n canolbwyntio ar wella dysgu ac addysgu; datblygu systemau tracio ac asesu; gwella arweinyddiaeth ar bob lefel a datblygu ymhellach trefniadau atebolrwydd a phrosesau ar gyfer hunan arfarnu a chynllunio gwelliant grymus. Bydd GwE yn gweithio'n agos gyda'r ALl, Estyn a Llywodraeth Cymru i yrru'r gwelliannau angenrheidiol. | C/U | 2B/C | RhG/CC/Uwch Arweinwydd Uwchradd | ~~O hydref 2023 ymlaen, bydd Llywodraeth Cymru unwaith eto'n cyhoeddi dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer ysgolion uwchradd.~~ Mae angen i'r prosesau gwerthuso mewn ysgolion sy'n nodi cynnydd yn erbyn argymhellion allweddol gasglu amrywiaeth eang o dystiolaeth yn unol â disgwyliadau'r GGY newydd. Mae angen i Grŵp Gorchwyl y Bwrdd Rheoli barhau i adolygu'n gyson effeithiolrwydd strwythur rhanbarthol a phrosesau ar gyfer ysgolion sy'n peri pryder. |
| ~~7~~ | ~~Paratoadau ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru~~ | ~~I GYD~~ | ~~Mae effaith pandemig Covid-19 wedi ei gwneud hi'n anoddach i ysgolion fwrw ymlaen â'u paratoadau Cwricwlwm i Gymru gwreiddiol.~~ | | | ~~2A~~ | ~~Mae GwE wedi parhau i gefnogi ysgolion yn eu paratoadau ar gyfer Y Daith Diwygio a Chwricwlwm i Gymru ac wedi bod yn hyblyg yn ei ddarpariaeth er mwyn cwrdd ag anghenion amrywiol ysgolion yn ystod y pandemig. Mae GwE wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol, Estyn a Llywodraeth Cymru i nodi'r disgwyliadau ar ysgolion a lleoliadau o ran diwygio wrth i'r broses o roi Cwricwlwm Cymru ar waith ddechrau. Mae GwE yn parhau i weithio mewn partneriaeth agos â'r consortia rhanbarthol eraill wrth i ni symud tuag at weithredu Cwricwlwm i Gymru. Mae GwE hefyd wedi gweithio gyda'r consortia rhanbarthol eraill i ddatblygu cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol sy'n integreiddio pob agwedd o'r daith d diwygio ehangach gan gynnwys Ysgolion fel Sefydliadau sy'n Dysgu, Y Gymraeg a'r Bil Trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae'r cynnig traws-ranbarthol hwn wedi'i anelu at gefnogi pob ymarferwr ysgol trwy ystod o weithdai ac mae'n cynnwys mwy a mwy o astudiaethau achos o ysgolion sy'n rhannu eu harferion newydd a ffocws ar ddatblygu dilyniant o fewn MDPh ac ar eu trawss. Hefyd mae staff GwE wedi datblygu canllawiau a modelau enghreifftiol ar gyfer dylunio cwricwlwm ysgol gyfan, cynllunio'r cwricwlwm ac asesu i gynorthwyo arweinwyr ac athrawon. Mae ysgolion uwchradd wedi myfyrio ar eu paratoadau ac mewn digwyddiad rhannu ym mis Mawrth 2023, cafodd ymarferwyr gyfle i rannu eu harferion a'r gwersi y maent wedi'u dysgu o roi Cwricwlwm Cymru ar waith ym Mlwyddyn 7. Ers mis Medi 2021, mae rhwydwaith rhanbarthol Cwricwlwm Cymru wedi cael ei sefydlu i alluogi ymarferwyr ledled y rhanbarth fel rhan o raglen barhaus GwE i gefnogi ysgolion. Mae dros 100 o ymarferwyr ysgol ledled y rhanbarth wedi ymrwymo i ymwneud â'r gwaith hwn a byddant yn rhannu eu harferion newydd o ran y cwricwlwm lleol mewn digwyddiad rhannu Marchnad rhanbarthol ym Mehefin 2023.~~ | ~~C~~ | ~~2B~~ | ~~Uwch Arweinydd - CiG~~ | ~~Parhau i gefnogi pob ysgol i baratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn unol â disgwyliadau'r system yn y Daith hyd at 2022. Parhau i gefnogi pob lleoliad i werthuso a mireinio eu cwricwlwm yn unol ag arweiniad gwella ysgolion a myfyrio ar ddealltwriaeth a rennir ynghylch cynnydd pob dysgwr.~~<br>~~Parhau i hwyluso rhwydweithiau Cwricwlwm i Gymru ar lefelau rhanbarthol a lleol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Athro Graham Donaldson, GwE a'r chwe ALl yng Ngogledd Cymru i ddatblygu arfer MDaPh effeithiol a fydd yn helpu ysgolion ar y Daith Diwygio.~~<br>~~Holl ddeunyddiau a recordiadau cyfarfodydd rhanbarthol ar gael wefan GwE ynghyd ag adnoddau ac enghreifftiau o waith dylunio a chynllunio. Mae Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant yn parhau i gynnig cymorth penodol ar lefel ysgol a chlwstwr / cynghrair fel sydd wedi ei adnabod yn y cynlluniau cymorth.~~<br>~~Parhau i ymgysylltu â phob ysgol trwy'r cynnig DP rhanbarthol a hwyluso cydweithredu ar draws y continwwm 3-16 yn unol â chynllun gweithredu'r ysgol a'r clwstwr.~~<br>~~Parhau â chyfarfodydd tîm llawn YCG rheolaidd i gefnogi gwneud synnwyr o'r Cwricwlwm i Gymru. Datblygu negeseuon cyson ar draws yr holl rwydweithiau drwy gasglu negeseuon allweddol, adnoddau cymorth, enghreifftiau o sut all ysgolion ymgysylltu a chamsyniadau.~~<br>~~Parhau i gydweithio â Phrifysgol Bangor ac ysgolion Ymholi Proffesiynol Arweiniol i ddatblygu rôl ymholi proffesiynol o fewn dysgu ac addysgu.~~ |
| 8 | Safonau | I GYD | Ansicrwydd ynglŷn ag atebolrwydd a mesurau perfformiad sy'n llesteirio cyflymder y Daith Ddiwygio, yn enwedig yn y sector uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru ac Estyn wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar fwriadau cenedlaethol parthed datblygu fframwaith atebolrwydd newydd. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Parhau i weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, consortia eraill, awdurdodau lleol ac Estyn i sicrhau bod ysgolion yn deall yn llawn y cyfeiriad a amlinellir yn y FfGY newydd a bod prosesau a strwythurau atebolrwydd rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i fynd i'r afael yn effeithiol â gofynion y daith ddiwygio. |
| 9 | Safonau | I GYD | Mae ansicrwydd ynglŷn â sut y bydd cymwysterau 2027 yn edrych yn ffactor cyfyngol mewn ysgolion uwchradd. | U | C/U | 2A | Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru, Cymwysterau Cymru a CBAC wedi eu cynnal dros y cyfnod i ddylanwadu ar gyfeiriad. | C | 2B/C | CC / Uwch Arweinydd Uwchradd | Parhau i gyfrannu at sesiynau ymgynghori ac at waith rhwydweithiau a fforymau perthnasol i ddylanwadu ar gyfeiriad. |
| ~~10~~ | ~~Safonau~~ | ~~I GYD~~ | ~~Cysondeb ac ystod y Daith Ddiwygio a'i effaith ar arweinyddiaeth systemig rhwng LlC, yr haen ganol ac ysgolion gyda lefel gynyddol o gyllid yn mynd yn uniongyrchol o LC i ysgolion.~~ | | ~~C/U~~ | ~~2A~~ | ~~Trafodaethau rheolaidd hefo Llywodraeth Cymru a'r haen ganol yn cael eu cynnal i ddylanwadu ar gyfeiriad.~~ | ~~C~~ | ~~2B~~ | ~~RhG / CC~~ | ~~Parhau i weithio'n agos hefo Llywodraeth Cymru, y rhanbarthau eraill, yr awdurdodau lleol ac Estyn i ddylanwadu ar gyfeiriad.~~ |
| 11 | Gwella Ysgolion | I GYD | Gweithredu'r Canllawiau Gwella Ysgolion newydd. | C/U | C | 2B | Bydd gweithio o fewn y GGY newydd yn galluogi pob rhanddeiliad i weithio mewn ffyrdd mwy newydd. Mae cynllun busnes 2023-26 GwE yn amlinellu sut y bydd, gan gydweithio'n agos â rhanddeiliaid allweddol, yn cryfhau arweinyddiaeth, yn gwella addysgu a dysgu, ac yn cynyddu'r dyhead i effeithio ar safonau. Fel gwasanaeth, byddwn yn gwneud y canlynol: sicrhau bod pob ysgol yn cael cefnogaeth i werthuso'n fanwl gywir a chyflawni cynlluniau gwella cadarn yn effeithiol; cefnogi arweinwyr sy'n cydweithio i hybu safonau a dyheadau uchel i bawb; cefnogi arweinwyr ysgolion i ymgyfarwyddo â'r arweiniad gwella ysgolion newydd a chymryd camau hyderus; cryfhau dulliau amlasiantaethol a 'thîm o gwmpas yr ysgol' gydag ysgolion sy'n achosi pryder a chryfhau gwaith partneriaeth gydag Awdurdodau Lleol. | C/I | 2C | RhG / BRh / CB | Parhau i ymgysylltu â phob rhanddeiliad i sicrhau bod datblygiadau cenedlaethol yn dylanwadu ar waith rhanbarthol, y cânt eu gwerthuso'n llawn ac y delir eu heffaith. Bydd GwE a'r Awdurdodau Lleol, drwy gyfrwng y Bwrdd Rheoli a'u Grŵp Gorchwyl, yn parhau i fonitro effeithiolrwydd dulliau rhanbarthol o nodi, creu, cyflawni a monitro Cynlluniau Cefnogi Ysgolion. Bydd y Grŵp Gorchwyl yn archwilio ffyrdd posibl o gydweithio'n gryfach ar draws Awdurdodau Lleol i gynyddu eu gallu a sicrhau cefnogaeth fwy cyson gan sicrhau hefyd ein bod yn mabwysiadu dull cyfannol a thryloyw o ran llunio adroddiadau a rhannu gwybodaeth. Parhau i gydweithio efo LlC i baratoi i ymgynghori ar y Fframwaith Gwella Ysgolion. |
| 12 | Hinsawdd Undebol | I GYD | Yr hinsawdd bresennol o ran Undebau. | U | U | 2A | Parhau i gyfathrebu a gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau ynghylch y ffordd orau o gefnogi ysgolion i roi Canllawiau Gwella Ysgolion anstatudol ar waith yn yr hinsawdd sydd ohoni o ran yr Undebau. | C | 2B | RhG / CC | Parhau i weithio gyda Llywodraeth Cymru ac Undebau i sicrhau perthynas waith effeithiol a llwyddiannus. |

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | Gwella Ysgolion | I GYD | Arolygu a monitro parhaus o waith y gwasanaeth yn cael effaith ar waith craidd GwE ac ar les a moral staff. | C/U | C | 2B | Mae fframwaith atebolrwydd clir a chadarn yn GwE. Mae'r Fframwaith Cynllunio Busnes sydd ar waith yn sicrhau eglurder, atebolrwydd a chydlynedd strategol wrth gyflawni'r blaenoriaethau yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol. Rhydd strwythur ar gyfer monitro cynnydd yn effeithiol. Trwy gydol y flwyddyn, bydd adroddiadau yn ymwneud â'n ffrydiau blaenoriaeth yn y Cynllun Busnes yn cael eu bwydo drwy ein grwpiau llywodraethu. Mae'r gwasanaeth rhanbarthol yn gwerthuso ei waith yn rheolaidd ac yn defnyddio gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau bod meysydd ar gyfer gwelliant yn cael eu hadnabod yn gyflym, ac yn cael sylw cadarn drwy gyfrwng cynllunio busnes manwl. Mae proses glir ac effeithiol i sicrhau bod y gwasanaeth rhanbarthol yn cyrraedd blaenoriaethau a thargedau corfforaethol yr Awdurdodau Lleol a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae cefnogi lles a gwytnwch staff wedi ei adanbod fel un o flaenoriaethau'r gwasanaeth. | C | 2B/C | RhG / BRh / CB | Cynnal trafodaethau efo Llywodraeth Cymru, Estyn ac Awdurdodau Lleol i geisio lleihau amlder yr ymweliadau gan osgoi dyblygu. |

**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

| | |
|---|---|
| **Adroddiad gan:** | **Arwyn Thomas – Rheolwr Gyfarwyddwr GwE** |
| **Pwnc:** | **Cefnogaeth Dysgu Proffesiynol GwE** |

## 1.0 Pwrpas yr Adroddiad

1.1 Rhannu gwybodaeth gydag Aelodau Cyd-bwyllgor GwE am ein Cynnig Dysgu Proffesiynol gan gynnig awgrymiadau sut all ein dulliau gweithredu esblygu i'r dyfodol.

## 2.0 Cefndir

2.1 Mae GwE yn cynhyrchu cynnig cynhwysfawr o Ddysgu Proffesiynol amrywiol ac eang sydd yn addas i bwrpas. Mae'r Cynnig hwn yn cael ei werthfawrogi gan ein hysgolion ac yn cefnogi ein ffrydiau cefnogaeth eraill.

2.2 Mae'r Cynnig Dysgu Proffesiynol yn un rhan o'r gefnogaeth mae GwE yn ei gynnig i ysgolion. Mae'r gefnogaeth yn ei gyfanrwydd yn cynnwys:

- Cefnogaeth benodol i ysgolion sydd mewn dilyniant Estyn neu ysgolion sy'n cyrraedd diffiniad Ranbarthol 'Ysgolion sy'n Achosi Consyrn'. Mae'r gefnogaeth hwn wedi ei dargedu yn benodol ac yn gwneud defnydd o arbenigeddau ein tîm o Ymgynghorwyr.
- Cefnogaeth i ysgolion drwy eu Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant Cyswllt. Mae'r gefnogaeth yma yn cael ei ddal mewn Cynllun Cefnogaeth sydd yn cael ei lunio ar y cyd gydag arweinwyr ysgolion. Gall y gefnogaeth yma ddod o'r Cynnig Dysgu Proffesiynol cyffredinol neu bydd yr Ymgynghorydd yn brocera ymysg y tîm neu yn cynnig y gefnogaeth ei hun.
- Hyrwyddo cydweithio agos ymysg ysgolion, gyda ffocws benodol ar gydweithio Clwstwr a Chynghrair. Er mwyn hwyluso hyn, rydym yn gweithredu Rhaglen Partneriaeth Ysgolion.
- Hyrwyddo a chefnogi rhwydweithiau pynciol, disgyblaethol ac oedran/sector benodol i rannu eu harferion llwyddiannus. Defnyddir y rhwydweithiau hyn yn ogystal i rannu negeseuon a'r wybodaeth ddiweddaraf ymysg y gweithlu.

2.3 Ar gyfer trosolwg o strwythur ein cefnogaeth i ysgolion sy'n dangos sut mae'r uchod yn plethu â'u gilydd, gweler: ***ATODIAD A - Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yng nghyd destun ein cefnogaeth i ysgolion.***

2.4 Mae'r Cynnig ar gael i holl ymarferwyr y Gogledd ar ffurf catalog sy'n cael ei ddiweddaru'n gyson. Mae ysgolion yn derbyn Bwletin bythefnosol yn eu hatgoffa o Ddysgu proffesiynol sydd ar y gweill ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer cofrestru. Gellir cyrchu'r Cynnig Dysgu Proffesiynol o'n gwefan: Cynnig Proffesiynol GwE - GwE (gwegogledd.cymru)

2.5 Mae'r Cynnig yn cael ei lunio gan draws doriad eang o Ymgynghorwyr Cefnogi Gwelliant. Mae'r ymateb i flaenoriaethau a deilliannau Lleol, Rhanbarthol a Cenedlaethol sydd yn deillio o'n Cynllun Busnes.

2.6 Mae gennym brosesau cynhwysfawr er mwyn adnabod yr angen Dysgu Proffesiynol yn ein hysgolion. Drwy ein defnydd o brosesau cofnodi digidol yn defnyddio Excel a'r OneDrive, rydym yn gallu echdynnu gwybodaeth er mwyn adnabod blaenoriaethau pob ysgol a'u grwpio.

2.7 Mae'r Cynnig eleni wedi ei strwythuro er mwyn ymateb i'n gweledigaeth Dysgu Broffesiynol i'n Gwasanaeth sydd ar dair haen. Mae'r system yma yn sicrhau bod negeseuon yn cael eu rhaeadru i Arweinwyr, bod cefnogaeth ymarferol i ymarferwyr a chyfle i ymarferwyr gydweithio a rhannu llwyddiannau. Ar gyfer trosolwg o'n gweledigaeth Dysgu proffesiynol, gweler : ***ATODIAD B – Gweledigaeth Dysgu Proffesiynol GwE***

2.8 Rydym yn gwerthuso effeithiolrwydd ein Cynnig drwy brosesau monitro chwarterol y Cynllun Busnes. Eleni rydym wedi esblygu ein prosesau monitro i fod yn ystyried effaith ar wahanol lefelau – effaith ar ddarpariaeth/addysgu ac effaith ar ddysgu'r dysgwyr. Mae gennym brosesau i ddal effaith cyffredinol ein Cynnig ar lefel ysgolion unigol/clystyrau ac hefyd prosesau i dargedu a samplo er mwyn dangos effaith yn erbyn ein deilliannau fel Gwasanaeth. Rydym yn gweithio ar wreiddio'r prosesau hyn eleni.

## 3.0 Materion i'w hystyried

3.1 Yn seiliedig ar adborth gan ysgolion, byddem yn dymuno mireinio'n prosesau ymhellach er mwyn sicrhau amserlen fwy perthnasol a dulliau mwy hygyrch i ysgolion gael mynediad at y Cynnig. Mae trosolwg o'r strwythur a'r amserlen arfaethedig yma i weld yn: ***ATODIAD C - Llinell Amser a Strwythur Blynyddol Arfaethedig – Cynllun Busnes a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol.***

3.2 Awgrymir y dylid esblygu'r Cynnig i roi ffocws mwy penodol ar ddatblygu dulliau effeithiol o weithredu ble gellid eu cymhwyso yn hytrach na chynnig sydd yn ymateb i feysydd, agweddau, disgyblaethau neu bynciau penodol.

3.3 Byddai hyn yn cefnogi ysgolion i ddatblygu fel sefydliadau sy'n hunanwella gyda mwy o rôl i ysgolion fod yn arwain a chefnogi eu gilydd ar lefelau unigol neu ar lefel clwstwr/cynghrair.

3.4 Bydd yn cyfrannu hefyd at lunio Cynnig sydd â gwaith ymchwil ac arloesedd yn ganolog iddo, ac sydd wedi ei selio ar yr arferion mwyaf cyfredol a llwyddiannus sy'n dod i'r amlwg.

3.5 Byddai'r Cynnig Dysgu Proffesiynol Craidd arfaethedig felly yn:

- Seiliedig ar Amcanion /Deilliannau y gwasanaeth
- Canolbwyntio ar ddulliau gweithredu ble gellid cymhwyso hyn i sefyllfaoedd eraill (yn rhoi ffocws penodol ar ddatblygu ysgolion sy'n Hunanwella)
- Raglenni Datblygol – yn cynnig cyfres o sesiynau ac nid hyfforddiant ar wahân.

- Disgwyl i ymarferwyr sy'n mynychu 'ymrwymo i weithredu' yn mhob Rhaglen gan adnabod beth fyddant yn ei wneud yn ôl yn eu hysgolion yn seiliedig ar y sesiynau datblygol
- Ymgorffori egwyddorion Dysgu Proffesiynol GwE – Arweinwyr / Ymarferwyr / Rhwydweithiau
- Annog dulliau cydweithio Clwstwr
- Seiliedig ar ymchwil gadarn ac yn cael ei werthuso yn fewnol (ac allanol)
- Arwain at Becynnau Cymorth

3.6 Rhaid o ystyried yr oes sydd ohoni, sut y gallwn weithio'n effeithlon a dod ag incwm i'r Gwasanaeth gan lunio strategaeth glir sydd yn manteisio ar ein cryfderau a'n arbenigeddau.

## 4.0 Argymhellion

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor gymeradwyo cynnwys yr adroddiad a'r cynlluniau i ddatblygu ac esblygu ein Cynnig Dysgu Proffesiynol i'r dyfodol.

## 5.0 Goblygiadau ariannol

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn. Bydd GwE yn gweithredu oddi mewn i'w adnoddau ariannol.

## 6.0 Effaith o ran cydraddoldeb

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 7.0 Goblygiadau Personél

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

## 8.0 Ymgynghori a wnaed

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE.

---

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**


Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Y penderfyniad a geisir yw fod y Cyd-bwyllgor yn cymeradwyo'r wybodaeth am Gynnig Dysgu Proffesiynol GwE, a'r awgrymiadau ar gyfer esblygu'r dulliau gweithredu i'r dyfodol. Nid yw hyn yn creu ymrwymiad ariannol a bydd costau a/neu incwm ychwanegol yn cael eu hystyried wrth i'r cynlluniau hyn ddatblygu. Nid oes gennyf felly wrthwynebiad i'r argymhelliad o safbwynt priodoldeb ariannol.

---

**ATODIAD A - Cynnig Dysgu Proffesiynol GwE yng nghyd destun ein cefnogaeth i ysgolion**



**ATODIAD B – Gweledigaeth Dysgu Proffesiynol GwE**

Adnabod yr angen o amrywiol ffynonellau megis Argymhellion Estyn, Blaenoriaethau Ysgolion, Blaenoriaethau Llywodraeth a.y.b.

**Arwain**
*Arweiniad a chefnogaeth i UDA*

**Cefnogi Arweinwyr i arwain y maes yn strategol**
- Gweledigaeth, Polisïau a Strategaeth
- Prosesau Cynllunio Gwelliant
- Prosesau Hunanwerthuso a Monitro


**Gweithredu**
*Cefnogaeth ymarferol i ymarferwyr*

**Cefnogi Ymarferwyr i gynnig darpariaeth llawr dosbarth effeithiol**
- YCG i rannu theori a gwybodaeth berthnasol er mwyn annog trafodaethau
- Ysgolion llwyddiannus yn enghreifftio eu meddwl/harferion
- Mynychwyr yn adnabod 'ymrwymiad i weithredu' (camau nesaf) ar gyfer y cyfarfod Rhwydweithio isod

**Rhwydweithio a Rhannu Llwyddiannau**

**Cefnogi'r system i rannu arferion llwyddiannus a dysgu o'i gilydd**
- Cyfarfod dilynol i ymarferwyr rannu beth maent wedi wneud ers y gweithdai
- Beth sydd wedi llwyddo / heb lwyddo?
- Cyfle i rwydweithio a chreu perthynas – annog cydweithio pellach

**ATODIAD C - Llinell Amser a Strwythur Blynyddol Arfaethedig – Cynllun Busnes a'r Cynnig Dysgu Proffesiynol**



**ADRODDIAD I'R CYD-BWYLLGOR**

**6 RHAGFYR 2023**

**Adroddiad gan:** **Alwyn Jones, Cyfarwyddwr Cynorthwyol GwE**

**Pwnc:** **Ymgynghoriad Estyn - Trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol.**

**1.0 Pwrpas yr Adroddiad**

1.1. Darparu cofnod ffurfiol i'r Cyd-bwyllgor o'r ymateb i Ymgynghoriad Estyn - 'Trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol.'

**2.0 Cefndir**

2.1. O fis Medi 2024, bydd Estyn yn cyflwyno trefniadau arolygu newydd ar gyfer darparwyr addysg yng Nghymru. Mae Estyn eisoes wedi ymgynghori ag unigolion a sefydliadau yn y sectorau gwasanaethau ieuenctid, ysgolion ac UauCD ac maent yn awr am geisio barn sectorau eraill. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Cymraeg i oedolion
- Lleoliadau ôl-16 (addysg bellach, addysg oedolion yn y gymuned a cholegau arbenigol annibynnol)
- gwasanaethau addysg llywodraeth leol

2.2. Mae'r ymgynghoriad, a agorodd ar 29 Medi 2023 ac sydd yn dod i ben ar 30 Tachwedd 2023, yn ceisio barn unigolion a sefydliadau sy'n gweithio mewn, neu'n rhyngweithio â, darparwyr addysg a hyfforddiant, a hynny er mwyn helpu i lywio sut orau y gall Estyn ddatblygu canllawiau a dulliau arolygu o 2024 ymlaen. Cyflwynwyd yr ymateb - Atodiad 1 - ar ran Cyd-bwyllgor GwE ar 27/11/2023.

**3.0 Ystyriaethau**

3.1. Mae'r holiadur yn gofyn am farn ar y newidiadau arfaethedig i drefniadau Estyn ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol, o dan y penawdau a ganlyn:

- Arolygiadau ar wahân o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy drefniant partneriaeth ffurfiol.
- Hysbysiad ar gyfer arolygiadau GALlL a gwasanaethau gwella ysgolion
- Cwestiynau arolygu lleol
- Arweiniad Arolygu ar gyfer GALlL, gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.
- Gweithgarwch dilynol
- Gofynion adrodd
- Arfer Effeithiol
- Gwaith arolygwyr cyswllt
- Ysgolion ac UauCD mewn mesurau arbennig.

**4.0 Argymhellion**

4.1 Gofynnir i'r Cyd-bwyllgor nodi'n ffurfiol gynnwys yr ymateb i ymgynghoriad Estyn.

**5.0 Goblygiadau ariannol**

5.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yn codi o'r adroddiad hwn.

**6.0 Effaith ar Gydraddoldeb**

6.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cydraddoldeb newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**7.0 Goblygiadau Personél**

7.1 Nid oes unrhyw oblygiadau personél newydd yn codi o'r adroddiad hwn.

**8.0 Ymgynghori sydd wedi digwydd**

8.1 Ymgynghori â Bwrdd Rheoli GwE a'r Cyd-bwyllgor.

**9.0 Atodiadau**

9.1 Atodiad 1 - Ymateb i Ymgynghoriad Estyn 'Trefniadau ar gyfer arolygu gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion yn y dyfodol.'

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Swyddog Monitro:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb.

**Swyddog Cyllid Statudol:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu i'r adroddiad o safbwynt priodoldeb ariannol.

**Atodiad 1**

# Ymgynghoriad ar ein trefniadau arolygu ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion

**Annwyl gyfeillion,**
**Rydym yn eich gwahodd i rannu'ch barn am y newidiadau rydym yn eu cynnig i'n trefniadau arolygu yn y sector gwasanaethau addysg llywodraeth leol. Mae'r adborth ar ein trefniadau presennol gan ein rhanddeiliaid allweddol wedi bod yn gadarnhaol iawn, ac rydym yn cynnig parhau â llawer o agweddau ar ein dulliau arolygu presennol. Fodd bynnag, mae agweddau rydym yn dymuno ymdrin â nhw'n wahanol fel y gallwn ystyried gwaith y sector gwasanaethau addysg llywodraeth leol yn fwy effeithiol, ac mae'r rhain yn ffurfio'r brif sylfaen ar gyfer yr ymgynghoriad hwn. Mae'r ymgynghoriad hefyd yn cynnwys cynigion yn ymwneud â'n gwaith cyswllt, lle rydym yn ystyried adeiladu ar y dulliau sy'n canolbwyntio mwy ar destunau rydym wedi bod yn eu peilota eleni.**

**Bydd yr ymgynghoriad yn agor ar 29 Medi a bydd yn cau ar 30 Tachwedd.**

**Ar gyfer pwy mae'r ymgynghoriad hwn?**

**Mae'r ymgynghoriad hwn ar gyfer pawb sydd â diddordeb yn yr arolygiadau a'r trefniadau arolygwyr cyswllt ar gyfer gwasanaethau addysg llywodraeth leol a gwasanaethau gwella ysgolion, gan gynnwys:**

Gweithwyr addysg proffesiynol ac arweinwyr ar draws y sector, gan gynnwys staff o wasanaethau gwella ysgolion

Llywodraethwyr, arweinwyr a staff o ysgolion a lleoliadau nas cynhelir (cynradd, uwchradd, UCDau, pob oed, arbennig)

Aelodau etholedig

Rhieni a gofalwyr

Rhanddeiliaid y sector cyhoeddus a'r sector gwirfoddol

**Bydd eich barn yn helpu rhoi gwybod i ni sut orau y gallwn ni ddatblygu ein harweiniad a'n dulliau arolygu o 2024 ymlaen.**

**Diogelu Data a Chyfrinachedd**

**Bydd y wybodaeth yr ydych yn ei darparu yn cael ei dal gan Estyn. Os byddwch yn datgelu pwy ydych chi, bydd y wybodaeth yn cael ei thrin yn gyfrinachol, yn unol â Deddf Diogelu Data 2018.**

**Bydd Estyn yn defnyddio cwmni annibynnol i gynorthwyo â dadansoddi data cyffredinol. Ni fydd hyn yn cynnwys trosglwyddo gwybodaeth bersonol am unigolion. Bydd yr adroddiad dadansoddi'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol yn unig, ac ni fydd yn enwi nac yn nodi unrhyw unigolion. Bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio i helpu gwella sut rydym yn arolygu addysg a hyfforddiant yng Nghymru.**

**Dyma ddolen at ein Hysbysiad Preifatrwydd.**

## 2. Gwybodaeth allweddol amdanoch chi

**1. Dewiswch un opsiwn isod sy'n disgrifio orau ym mha rinwedd rydych chi'n llenwi'r holiadur hwn.**

- [ ] Swyddog awdurdod lleol
- [ ] Aelod etholedig
- [ ] Uwch arweinydd mewn ysgolion / UCDau
- [ ] Athro neu staff cymorth
- [ ] Llywodraethwr ysgol
- [ ] Disgybl ysgol
- [ ] Rhiant neu ofalwr
- [ ] Arall (nodwch):

Cadeirydd Cyd-Bwyllgor GwE (ar ran chwe Arweinydd Portffolio Addysg Gogledd Cymru

**2. Pa sector ydych chi'n ei gynrychioli? Dewiswch bob opsiwn perthnasol.**

- [ ] Awdurdod lleol
- [ ] Consortiwm rhanbarthol / gwasanaeth gwella ysgolion
- [ ] Ysgolion cynradd / uwchradd / pob oed; arbennig; UCDau
- [ ] Sector nas cynhelir
- [ ] Sector gwirfoddol
- [ ] Arall (nodwch):

## 3. Arolygiadau ar wahân o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy drefniant partneriaeth ffurfiol.

**3. Rydym yn cynnig cynnal arolygiad ar wahân o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaeth ffurfiol o ddau awdurdod lleol neu fwy. Bydd yr arolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy gytundebau partneriaeth ffurfiol yn edrych ar ansawdd ac effaith y gwasanaethau gyda chwestiynau arolygu lleol yn darparu meysydd ffocws penodol ar gyfer y gwaith hwn.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig hwn?**

- [ ] Cytuno'n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Arolygir Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn rhan o arolygiadau Awdurdod Lleol hefyd. Mae hyn yn arwain at ddyblygu ac yn golygu bod yr un Gwasanaethau Gwella Ysgolion a ddarperir drwy gonsortia rhanbarthol yn cael eu harolygu amryw o weithiau gan wahanol AEM yn ystod cylch arolygu. Byddai defnyddio AEM sydd yn adnabod y Gwasanaeth yn dda ym mhob arolygiad ALl yn sicrhau mwy o gysondeb ac yn lleihau dyblygu.

Yn rhanbarth Gogledd Cymru, gallai GwE fod yn rhan o bedwar ar ddeg o arolygiadau, o leiaf, yn ystod cylch arolygu (os yw'n cynnwys arolygiadau llawn ac interim). Hefyd, gallai fod ymweliadau dilynol os bydd yr Awdurdod Lleol neu'r consortiwm rhanbarthol yn mynd i gategori gweithgarwch dilynol. Mae Estyn hefyd yn cynnal ymweliadau Arolygydd Cyswllt Awdurdod Lleol (LALI) â phob Awdurdod Lleol (sydd yn cynnwys staff GwE) ac â GwE yn dymhorol. Mae yna oblygiadau enfawr o ran cynhwysedd i'r consortiwm rhanbarthol.

Sut fydd Estyn yn sicrhau bod fframwaith cyffredin a theg ar gyfer arolygu gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir trwy'r consortia rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol hynny sydd â'u gwasanaeth gwella ysgolion eu hunain? A oes dyblygu ag arolygiadau gwasanaethau addysg llywodraeth leol (GALlL)?

Yn ychwanegol, nid yw pob consortia/partneriaeth yn cyflawni'r un cyfrifoldebau.

Yn GwE, nid y rhanbarth sydd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion mewn meysydd fel ADY, presenoldeb, ymddygiad a chynhwysiad. Mae Partneriaeth yn Ne Orllewin Cymru, er enghraifft, yn gyfrifol am y Cynnig DP ond nid y swyddogaeth gwella ysgolion. Mewn tirwedd mor gymhleth, sut fydd Estyn yn sicrhau bod y fframwaith yn rhoi sylw i'r gwahaniaethau hyn? Ac a fydd gan Estyn gynhwysedd i roi sylw i hyn yn ystod wythnos yr arolygiad?

Os arolygir Gwasanaethau Gwella Ysgolion ar wahân, yna gellid cwblhau hyn fel rhaglen dreigl, gyda phob ymweliad yn canolbwyntio ar themâu penodol. Gallai'r ymagwedd hon ganiatáu ar gyfer mwy o ddealltwriaeth ac arfarnu effaith na'r hyn y gellid ei ddal petai'r arolygiad yn 'ddigwyddiad'. Byddai hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer deialog barhaus ag Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd cyson i randdeiliaid drwy gyhoeddi adroddiad ysgrifenedig blynyddol.

## 4. Hysbysiad ar gyfer arolygiadau GALlL a gwasanaethau gwella ysgolion

**4. Ar hyn o ryd, rydym yn rhoi hysbysiad 10 wythnos ar gyfer arolygiad GALlL. Mae hyn yn ein galluogi i gynnal y gweithgareddau cyn-arolygiad, fel trafod a chwblhau'r cwestiynau arolygu lleol, cyflwyno'r holiaduron i ddinasyddion a phenaethiaid a chynnal cyfarfodydd gyda rhanddeiliaid allweddol cyn wythnos yr arolygiad.**

**Rydym yn cynnig byrhau'r cyfnod hysbysu o ddeg wythnos i wyth wythnos. Byddai hyn yn caniatáu amser i ni gynnal y gweithgareddau cyn-arolygiad o hyd. Byddwn hefyd yn hysbysu'r awdurdod lleol y byddwn yn arolygu eu gwasanaethau ieuenctid fel arolygiad ar ei ben ei hun bedair wythnos ar ôl dechrau cyfnod hysbysu'r GALlL. Bydd hyn yn ein galluogi i ystyried a chynnwys y negeseuon allweddol o'r arolygiad ieuenctid yn ein harolygiad GALlL.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i fyrhau'r cyfnod hysbysu ar gyfer arolygiad GALlL i wyth wythnos?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod neu awgrymu cyfnod hysbysu amgen

Mae'r hysbysiad presennol o 10 wythnos yn briodol. Er hynny, nid oes gennym wrthwynebiad i hyn gael ei fyrhau i 8 wythnos (yn caniatáu ar gyfer gwyliau ysgol a gwyliau banc).

**5. Hysbysiad ar gyfer arolygiad gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.**

**Rydym yn cynnig cael cyfnod hysbysu pum wythnos ar gyfer arolygiad gwasanaeth gwella ysgolion ac arolygiadau o wasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol. Bydd hyn hefyd yn rhoi amser i ni drafod a chwblhau'r cwestiynau arolygu lleol, a chyhoeddi a dadansoddi'r holiaduron perthnasol cyn ein hymweliadau ar y safle.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gael cyfnod hysbysu o bum wythnos ar gyfer yr arolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod neu awgrymu cyfnod hysbysu amgen

Dylai'r cyfnod hysbysu fod yr un fath â hwnnw ar gyfer arolygiadau GALlL. Nid oes rhesymeg iddo fod yn wahanol. Er hynny, fel y nodir yn Adran 3, yr ydym o'r farn y dylid arolygu Gwasanaethau Gwella Ysgolion mewn rhaglen dreigl flynyddol gyda thema benodol.

## 5. Cwestiynau arolygu lleol

**6. Rydym yn cynnig parhau â datblygu cwestiynau arolygu lleol a thrafod a chytuno rhain gyda'r awdurdod lleol, y gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaethau eraill a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol. Rydym yn meddwl bod cwestiynau arolygu lleol yn darparu ffocws cymesur ar gyfer ein gwaith arolygu, tra'n sicrhau hefyd fod yr arolygiadau'n ymdrin â'r meysydd pwysicaf.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylem barhau i ddefnyddio 'cwestiynau arolygu lleol' ar ein harolygiadau GALlL?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Dylid cytuno'r rhain â'r awdurdod lleol a'r gwasanaethau gwella ysgolion a dylid cael rhesymeg glir dros eu cynnwys.

Fel y nodir yn Adran 3 uchod, yr ydym o'r farn y dylid arolygu Gwasanaethau Gwella Ysgolion mewn rhaglen dreigl flynyddol gyda thema benodol.

**7. Rydym hefyd yn cynnig datblygu cwestiynau arolygu lleol ar gyfer ein harolygiadau gwasanaethau gwella ysgolion, yn ogystal â’n harolygiadau o wasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.**

**I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylem gael cwestiynau arolygu lleol ar gyfer ein harolygiadau gwasanaethau gwella ysgolion ac ar gyfer gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol?**

- ☐ Cytuno’n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno’n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Fel y nodir yn Adran 3 uchod - credwn y dylai arolygiadau Gwasanaethau Gwella Ysgolion fod yn rhaglen dreigl gyda thema benodol. Byddai hyn yn rhoi deialog barhaus ag Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd cyson i randdeiliaid drwy gyhoeddi adroddiad ysgrifenedig blynyddol.
Gellid cytuno ar 'Gwestiynau Lleol' neu themâu penodol gyda'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn flynyddol.

## 6. Arweiniad Arolygu ar gyfer GALlL, gwasanaethau gwella ysgolion a gwasanaethau a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol.

**8. Mae ein harweiniad arolygu presennol yn cynnwys tri maes arolygu – deilliannau, gwasanaethau addysg ac arweinyddiaeth. Rydym yn cynnig cyfuno’r deilliannau a’r meysydd gwasanaeth mewn un maes arolygu, sef ‘gwasanaethau addysg a’u heffaith’. Rydym yn meddwl y bydd cryfhau’r cysylltiad rhwng gweithredoedd a deilliannau yn gwneud ein hadroddiadau’n fwy hygyrch. Er enghraifft, gallem adrodd ar y gwaith y mae’r awdurdod lleol yn ei wneud i wella presenoldeb a chreu’r cysylltiad â’r gwahaniaeth y mae’n ei wneud i’r cyfraddau presenoldeb yn ei ysgolion a’i UCDau.**

**Meysydd arolygu presennol**
**MA1 Deilliannau**
**MA2 Gwasanaethau addysg**
**MA3 Arweinyddiaeth**

**Ein meysydd arolygu arfaethedig**
**MA1: Gwasanaethau addysg a’u heffaith**
**MA2: Arwain a gwella**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i gyfuno'r deilliannau a'r meysydd gwasanaeth mewn un maes arolygu ar gyfer ein GALlL, ein gwasanaethau gwella ysgolion a'n gwasanaethau a ddarperir trwy arolygiadau partneriaethau ffurfiol?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod:

Mae angen cael dealltwriaeth a chytundeb clir o ran sut ddylai 'effaith' edrych yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Yn y gorffennol, gwnaed cysylltiad amhriodol rhwng 'effaith' Gwasanaethau Gwella Ysgolion â chynnydd dysgwyr a dangosyddion perfformiad diwedd cyfnod allweddol. Arweinwyr ac athrawon ysgolion yw'r rhai sydd yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn dylanwadu ar arferion ac ymddygiad yr oedolion sydd yn gweithio mewn ysgolion a dylid eu barnu ar ansawdd y gefnogaeth a ddarperir a'i heffaith ar arferion. Dylai Gwasanaethau Gwella Ysgolion weithio gydag ysgolion i'w cefnogi i ddal yr effaith ar gynnydd disgyblion yn rhan o'u prosesau hunan arfarnu ysgol. Mae angen cael dealltwriaeth glir hefyd o'r amserlen sydd ei hangen i ddangos effaith a beth fyddai'r deilliant disgwyliedig dros amser.

Dylai bod dealltwriaeth gyffredin o bwy sydd 'berchen' ar yr effaith. Er enghraifft, faint o effaith y gellid ei disgwyl ar gynnydd dysgwyr, os unrhyw gynnydd o gwbl, petai ymarferydd yn mynd ar sesiwn dysgu proffesiynol undydd? Mae amryw byd o ffactorau yn effeithio ar gynnydd disgyblion fel gallu athrawon unigol, lefel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Felly, mae'n broses gymhleth mesur yn fanwl gywir yr effaith uniongyrchol

## 7. Gweithgarwch dilynol

**9. Disodli ein dull presennol ag ymweliadau monitro rheolaidd.**

**Ar hyn o bryd, pan fernir bod gwasanaeth addysg llywodraeth leol yn achosi pryder sylweddol, rydym yn trefnu cynhadledd wella i drafod a chytuno ar flaengynllun gwaith i fynd i'r afael â'r argymhellion. Y mynychwyr yn y gynhadledd hon yw'r rhanddeiliaid allweddol sy'n gysylltiedig â chynnal a chefnogi cynllun gwella'r awdurdod lleol.**

**Tua blwyddyn yn ddiweddarach, rydym yn trefnu 'cynhadledd gynnydd' sy'n ystyried y cynnydd yn erbyn y targedau yn y cynllun gwella. Rydym fel arfer yn trefnu ymweliad monitro tua blwyddyn ar ôl y gynhadledd gynnydd. Mae'r ymweliad monitro yn cynnwys tîm o arolygwyr yn ymweld â'r awdurdod lleol i werthuso'r cynnydd yn erbyn y cynlluniau a phennu yw'r awdurdod lleol wedi gwneud gwelliannau digonol ac nad yw'n achosi pryder sylweddol. Mae amseriad yr ymweliad monitro yn dibynnu ar gyfradd y cynnydd a wnaed gan yr awdurdod lleol wrth fynd i'r afael â'r meysydd sydd angen eu gwella.**

**Rydym yn cynnig y bydd ein proses gweithgarwch dilynol yn parhau i ddechrau gyda chynhadledd wella, ond mai ymweliadau monitro yn edrych ar argymhellion monitro dros gyfnod yw'r gweithgareddau dilynol. Credwn fod y dull hwn yn fwy buddiol i awdurdodau lleol gan ei fod yn rhoi adborth uniongyrchol iddynt ar eu gwaith ac yn eu helpu i ystyried eu camau nesaf. Mae hefyd yn darparu cyfleoedd gwell iddynt ddangos eu cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau gwella. Wedi ni farnu bod yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn pob un o'r argymhellion,**

**byddant yn cael eu tynnu o gategori gweithgarwch dilynol.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n cynnig i ddefnyddio ymweliadau monitro rheolaidd fel rhan o'n gweithgareddau dilynol mewn awdurdodau lleol sy'n achosi pryder sylweddol?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Yn ystod ymweliadau monitro i arfarnu cynnydd yn erbyn argymhellion penodol, byddai'n fuddiol petai gan Estyn yr hyblygrwydd i dynnu rhai o'r argymhellion os cânt sicrwydd bod cynnydd cadarn wedi'i wneud. Byddai'r Awdurdod Lleol yn parhau i ganolbwyntio ar weddill yr argymhellion nes bernir eu bod wedi gwneud cynnydd digonol yn erbyn pob un ohonynt a'u tynnu o'r gweithgarwch dilynol.

**10. Rydym yn cynnig datblygu'r un prosesau gweithgarwch dilynol ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaeth a ddarperir trwy bartneriaethau ffurfiol sy'n 'achosi pryder sylweddol'.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig i ddarparu gweithgarwch dilynol ar gyfer gwasanaeth gwella ysgolion neu wasanaeth a ddarperir trwy bartneriaeth ffurfiol sy'n achosi pryder sylweddol?**

- ☐ Cytuno'n gryf
- ☐ Cytuno
- ☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- ☐ Anghytuno
- ☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Gallai hyn gael oblygiadau i Awdurdodau Lleol unigol, e.e. os nad oedd materion wedi'u hadnabod gyda Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn rhan o'u harolygiad eu hunain, ond bod pryderon wedi'u codi am waith y consortia yn ystod arolygiad consortia rhanbarthol a'u rhoddodd mewn categori gweithgarwch dilynol.

Mae hyn yn rheswm arall pam y credwn y dylai arolygiadau Gwasanaethau Gwella Ysgolion fod yn rhaglen dreigl yn hytrach nag yn 'ddigwyddiad arolygu'. Byddai hyn yn rhoi deialog barhaus ag Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd cyson i randdeiliaid drwy gyhoeddi adroddiad ysgrifenedig blynyddol. Ni fyddai angen categori 'Gweithgarwch Dilynol' gyda rhaglen dreigl flynyddol ar gyfer arolygiadau.

## 8. Gofynion adrodd

**11. Rydym yn cynnig nodi gofynion adrodd ar gyfer ein holl arolygiadau GALlL a gwasanaethau gwella ysgolion. Bydd hyn yn sicrhau bod gennym ni werthusiadau o'r meysydd allweddol hyn yn ein holl adroddiadau. Mae ein harweiniad drafft yn nodi'r canlynol fel gofynion adrodd:**

**Rhaid i adroddiadau ymdrin â'r canlynol:**

- **effaith gwaith meysydd gwasanaeth ar gynnydd, lles, presenoldeb ac ymddygiad dysgwyr**
- **tegwch yn y system addysg**
- **y Gymraeg**
- **diogelu**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd yr ydym wedi nodi eu bod yn ofynion adrodd ar gyfer ein harolygiadau GALlL?**

☐ Cytuno'n gryf

☐ Cytuno

☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Anghytuno

☐ Anghytuno'n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi'ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod:

Fel y nodir yn Adran 6 uchod:

Mae angen cael dealltwriaeth a chytundeb clir o ran sut ddylai 'effaith' edrych yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Yn y gorffennol, gwnaed cysylltiad amhriodol rhwng 'effaith' Gwasanaethau Gwella Ysgolion â chynnydd dysgwyr a dangosyddion perfformiad diwedd cyfnod allweddol. Ysgolion yn unig sydd yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn dylanwadu ar oedolion a dylid eu barnu ar ansawdd y gefnogaeth a ddarperir a'i heffaith ar arferion. Dylai Gwasanaethau Gwella Ysgolion weithio gydag ysgolion i'w cefnogi i ddal yr effaith ar gynnydd disgyblion yn rhan o'u prosesau hunan arfarnu ysgol. Mae angen cael dealltwriaeth glir hefyd o'r amserlen sydd ei hangen i ddangos effaith a beth fyddai'r deilliant disgwyliedig dros amser.

Dylai bod dealltwriaeth gyffredin o bwy sydd 'berchen' ar yr effaith. Mae amryw byd o ffactorau yn effeithio ar gynnydd disgyblion fel gallu athrawon unigol, lefel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Felly, mae'n broses gymhleth mesur yn fanwl gywir yr effaith uniongyrchol a gaiff y gefnogaeth ar gyfer addysgu ar ddysgu disgyblion.

**12. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd yr ydym wedi nodi eu bod yn ofynion adrodd ar gyfer ein harolygiadau o wasanaethau gwella ysgolion?**

☐ Cytuno'n gryf

☐ Cytuno

☐ Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Anghytuno

- [ ] Anghytuno’n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod:

Nid cyfrifoldeb y consortiwm rhanbarthol yw'r holl feysydd a restrir uchod. Sut fydd Estyn yn sicrhau bod fframwaith cyffredin a theg ar gyfer arolygu gwasanaethau gwella ysgolion a ddarperir trwy'r consortia rhanbarthol a'r Awdurdodau Lleol hynny sydd â'u gwasanaeth gwella ysgolion eu hunain? A oes dyblygu ag arolygiadau GALlL? Yn GwE, nid y rhanbarth sydd yn gyfrifol am gefnogi ysgolion mewn meysydd fel ADY, presenoldeb, ymddygiad a chynhwysiad. Sut fydd Estyn yn sicrhau bod ganddynt y cynhwysedd a'r arbenigedd i ddelio gyda rhoi sylw i'r gwahaniaethau hyn?

Fel y nodir uchod - credwn y dylai arolygiadau Gwasanaethau Gwella Ysgolion fod yn rhaglen dreigl yn hytrach nag yn 'ddigwyddiad arolygu'. Byddai hyn yn rhoi deialog barhaus ag Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd cyson i randdeiliaid drwy gyhoeddi adroddiad ysgrifenedig blynyddol. Gellid cytuno ar 'Gwestiynau Lleol' neu themâu penodol gyda'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn flynyddol. Byddai hyn hefyd yn osgoi dyblygu ag arolygiadau GALlL.

Fel uchod (Cwestiwn 11):
Mae angen cael dealltwriaeth a chytundeb clir o ran sut ddylai 'effaith' edrych yn y tymor byr, y tymor canol a'r tymor hir. Yn y gorffennol, gwnaed cysylltiad amhriodol rhwng 'effaith' Gwasanaethau Gwella Ysgolion â chynnydd dysgwyr a dangosyddion perfformiad diwedd cyfnod allweddol. Ysgolion yn unig sydd yn cael effaith uniongyrchol ar gynnydd dysgwyr.

Mae'r Gwasanaethau Gwella Ysgolion yn dylanwadu ar oedolion a dylid eu barnu ar ansawdd y gefnogaeth a ddarperir a'i heffaith ar arferion. Dylai Gwasanaethau Gwella Ysgolion weithio gydag ysgolion i'w cefnogi i ddal yr effaith ar gynnydd disgyblion yn rhan o'u prosesau hunan arfarnu ysgol. Mae angen cael dealltwriaeth glir hefyd o'r amserlen sydd ei hangen i ddangos effaith a beth fyddai'r deilliant disgwyliedig dros amser.

Dylai bod dealltwriaeth gyffredin o bwy sydd 'berchen' ar yr effaith. Er enghraifft, faint o effaith y gellid ei disgwyl ar gynnydd dysgwyr, os unrhyw gynnydd o gwbl, petai ymarferydd yn mynd ar sesiwn dysgu proffesiynol undydd? Mae amryw byd o ffactorau yn effeithio ar gynnydd disgyblion fel gallu athrawon unigol, lefel presenoldeb, ymddygiad ac agweddau at ddysgu. Felly, mae'n broses gymhleth mesur yn fanwl gywir yr effaith uniongyrchol a gaiff y gefnogaeth ar gyfer addysgu ar ddysgu disgyblion.

## 9. Arfer effeithiol

**13. Ar ein harolygiadau, rydym yn nodi arferion diddorol ac effeithiol a allai fod o gymorth i ddarparwyr eraill. Ar hyn o bryd rydym yn rhannu'r arfer hwn fel astudiaethau achos ar ein gwefan ac wedi treialu cynnwys yr astudiaethau achos yn atodiad yr adroddiadau. Yn eich tyb chi, pa mor ddefnyddiol yw’r astudiaethau achos?**

- [ ] Yn hynod ddefnyddiol
- [ ] Yn ddefnyddiol iawn
- [ ] Yn weddol ddefnyddiol
- [ ] Ddim yn ddefnyddiol
- [ ] Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

**14. Rydym hefyd wedi cynnwys cameos i dynnu sylw at arfer diddorol, arloesol neu effeithiol o fewn naratif yr adroddiad arolygu, trwy amlygu’r testun mewn blwch. Yn eich tyb chi, pa mor ddefnyddiol yw’r dull hwn?**

- [ ] Yn hynod ddefnyddiol
- [ ] Yn ddefnyddiol iawn
- [ ] Yn weddol ddefnyddiol
- [ ] Ddim yn ddefnyddiol
- [ ] Ddim yn ddefnyddiol o gwbl

Defnyddiwch y blwch isod i roi eich barn i ni a nodi'r rheswm(rhesymau) pam y gwnaethoch ddewis yr opsiwn uchod:

Mae'n anodd mesur sut fyddai'r arfer yn berthnasol mewn cyd-destun gwahanol ac mae'n debyg y byddai cyfyngiad amser o safbwynt pa mor ddefnyddiol ydynt

**15. Beth yw'r ffordd orau y gallem rannu arfer effeithiol er mwyn cael yr effaith fwyaf?**

Cynhadledd Flynyddol i ddangos - Estyn yn hwyluso

## 10: Gwaith arolygwyr cyswllt

**16. Yn ogystal ag arolygu, rhan allweddol o'n gwaith gydag awdurdodau lleol a gwasanaethau gwella ysgolion yw ein hymgysylltiadau trwy waith ein harolygwyr cyswllt.**

**Rydym yn cynnig ein bod  yn parhau ag arolygydd cyswllt dynodedig ar gyfer pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion, a bydd eu gwaith yn bennaf yn cynnwys bod yn bwynt cyswllt a chasglu diweddariadau cyffredinol gan yr awdurdod lleol am eu gwasanaethau, a fydd yn ein helpu i nodi sicrwyddau a risgiau allweddol yr ALl.**

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi peilota dull testun lle rydym yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar waith yr awdurdod lleol neu'r gwasanaeth gwella ysgolion i gael dealltwriaeth ddyfnach o'r cryfderau a'r ystyriaethau posibl ar gyfer symud ymlaen.**

**Rydym yn cynnig datblygu'r dull hwn trwy gynnal ymweliad blynyddol hefyd â thîm bach o arolygwyr i bob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion a fydd yn arwain at adroddiad cyhoeddedig gwerthusol byr. Byddwn yn cytuno ar y maes ffocws gyda'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth gwella ysgolion ymhell ymlaen llaw er mwyn gallu trefnu bod y swyddogion perthnasol ar gael ar gyfer yr ymgysylltu. Rydym yn meddwl y bydd hyn yn rhoi dealltwriaeth ddyfnach i ni o waith pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion, tra'n darparu adborth adeiladol buddiol hefyd i'r swyddogion dan sylw.**

**I ba raddau ydych chi'n cytuno â'n cynnig i gadw arolygydd cyswllt ar gyfer pob awdurdod lleol a gwasanaeth gwella ysgolion?**

- [ ] Cytuno'n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno

- [ ] Anghytuno’n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Mae’n ddefnyddiol cael deialog agored gydag Estyn trwy waith Arolygydd Cyswllt. Mae'n bwysig cael cysondeb o ran defnyddio AEM fel y gallant ddatblygu dealltwriaeth ddyfnach o'r ALl neu gonsortiwm rhanbarthol. Dylid cynnwys yr LALI mewn arolygiadau LGES / consortiwm rhanbarthol i rannu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth a gasglwyd o ymweliad LALI.

Dylid darparu adborth ysgrifenedig hefyd yn dilyn ymweliadau LALI i gefnogi'r ALl/consortiwm Rhanbarthol ar eu taith wella.

Mae problemau capasiti ar gyfer staff consortia rhanbarthol sy’n mynychu eu hymweliadau tymhorol eu hunain ac ymweliadau tymhorol yr Awdurdod Lleol.

**17. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’n cynnig i gynnal ymweliad blynyddol â ffocws â phob awdurdod lleol / gwasanaeth gwella ysgolion i edrych ar agwedd benodol ar eu gwaith?**

- [ ] Cytuno’n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- [ ] Anghytuno
- [ ] Anghytuno’n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Fel y nodwyd uchod, os yw consortia rhanbarthol i gael eu harolygu ar wahân, yna gellid cynnal hyn fel rhaglen dreigl gyda thema benodol. Byddai hyn yn darparu deialog barhaus gyda Estyn ac yn rhoi hyder a sicrwydd parhaus i randdeiliaid trwy adroddiad ysgrifenedig blynyddol a gyhoeddir.

Fel y nodwyd yn Adran 3 – mae goblygiadau enfawr o ran capasiti i’r consortiwm rhanbarthol pe bai hyn yn ychwanegol at arolygiadau llawn ac interim.

## 11. Ysgolion ac UCDau mewn mesurau arbennig.

**18. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwerthuso effaith gwaith yr awdurdod lleol yn ffurfiol o ran cefnogi ysgolion ac UCDau unigol mewn mesurau arbennig. Rydym yn cynnig y dylai’r arolygydd cyswllt gynnal gweithgareddau penodol a allai gynnwys ymuno â’r tîm monitro neu ymweld â’r ysgol yn annibynnol ar y tîm monitro, er enghraifft, i ystyried a gwerthuso effeithiolrwydd ac effaith y cymorth a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Canlyniad y gwaith hwn fydd llythyr byr at yr awdurdod lleol. Rydym yn cynnig y bydd y gweithgaredd hwn yn cael ei gynnal bob 12 i 16 mis, fel arfer.**

**I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig ein bod yn cynnal gweithgareddau yn gwerthuso effaith cymorth yr awdurdod lleol ar y cynnydd a wneir mewn ysgol neu UCD unigol mewn mesurau arbennig?**

- [ ] Cytuno’n gryf
- [ ] Cytuno
- [ ] Ddim yn cytuno nac yn anghytuno

☐ Anghytuno

☐ Anghytuno’n gryf

Defnyddiwch y blwch isod i roi’ch barn i ni ac esbonio pam rydych chi wedi dewis yr opsiwn uchod

Gweler y sylwadau yn Adran 11 ynghylch effaith. Mae deall effaith cymorth yn broses gymhleth y mae angen ei thrafod a’i chytuno ar lefel genedlaethol gyda’r holl randdeiliaid sy’n ymwneud â gwella ysgolion gan gynnwys Llywodraeth Cymru.

Mae'n werth rhoi ystyriaeth bellach i'r argymhelliad hwn pe gallai'r Ymgynghorydd Cefnogi Gwelliant Cyswllt ar gyfer yr ysgolion weithio'n agos gyda'r Arolygydd Cyswllt. Byddai'n galluogi'r Arolygydd Cyswllt i gael mynediad at wybodaeth fanwl am ansawdd y cymorth, yr arweiniad a'r adnoddau a rennir gyda'r ysgol. Byddai hefyd yn lliniaru unrhyw neges anghyson y gallai'r ysgol ei chael gan yr YCG Cyswllt, yr Arolygydd Cyswllt a thîm monitro Estyn.

Gallai’r broses hon fod yn werth chweil os yw’n agored ac yn dryloyw i’r holl randdeiliaid.